

CANLLAWIAU ATHRAWON

CYNNWYS

Cyflwyniad		3
Deunyddiau rhyngweithiol		6
Cysylltiadau trawsgwricwlaidd		8
Uned 1		15
Rhan 1	Bobl bach!	19
Rhan 2	Yn y goedwig	27
Rhan 3	Ar y traeth	33
Rhan 4	Y Pod-antur Cymraeg	39
Rhan 5	Ydych chi'n cofio?	44
Uned 2		47
Rhan 1	Teithio	50
Rhan 2	Paratoi	58
Rhan 3	Hwyl y Gaeaf	66
Rhan 4	Anrhegion	73
Rhan 5	Ydych chi'n cofio?	77
Uned 3		79
Rhan 1	Symbolau	83
Rhan 2	Mapiau	89
Rhan 3	Dydd Sadwrn	95
Rhan 4	Help!	101
Rhan 5	Ydych chi'n cofio?	104
Uned 4		107
Rhan 1	Dathlu	111
Rhan 2	Pwy ydy pwy?	118
Rhan 3	Y bachgen a'r blaidd	125
Rhan 4	Diwrnod y Llyfr	129
Rhan 5	Ydych chi'n cofio?	135
Uned 5		138
Rhan 1	Sosban fach	142
Rhan 2	Miwsig a dawnsio	146
Rhan 3	Y Tuduriaid	151
Rhan 4	Teithio	158
Rhan 5	Ydych chi'n cofio?	165
Uned 6		167
Rhan 1	O dan y môr	171
Rhan 2	Aberystwyth	175
Rhan 3	Neges mewn potel	180
Rhan 4	Yn y goedwig	184
Rhan 5	Y capsiwl amser	187

CYFLWYNIAD

Y Pod-antur Cymraeg - P-aC₂

Mae'r pecyn hwn wedi'i baratoi ar gyfer dysgu Cymraeg Ail Iaith yng Nghyfnod Allweddol 2. Y nod yw adeiladu ar batrymau iaith a geirfa sydd wedi'u cyflwyno yn ystod y Cyfnod Sylfaen ac ym Mhecyn 1, eu datblygu nhw ymhellach ac yna'u trosglwyddo nhw i gyd-destunau gwahanol, gan alluogi'r disgyblion i ddeall Cymraeg llafar ac ysgrifenedig, i siarad ac i ysgrifennu mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol bwrpasau.

Fe'u hanogir, felly, i:

- **siarad** a rhyngweithio mewn gwahanol sefyllfaoedd, gan weithio fel unigolion ac mewn parau a grwpiau
- **gwrando a gwyllo**'n ofalus er mwyn deall ac ymateb i'r hyn a ddywedir
- **darllen** ystod eang o destunau er mwyn datblygu'n ddarllenwyr effeithiol
- **ysgrifennu** yn unol â'r pwrpas a'r gynulleidfa.

Yn ogystal â datblygu sgiliau iaith, mae'r pecyn yn darparu cyfleoedd dilys i gyflwyno meysydd eraill o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'n galluogi'r disgyblion i ddefnyddio a gwella sgiliau datblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif. Tynnir sylw at y cyfleoedd hyn ar ddechrau pob uned.

Cynnwys

Mae'r pecyn aml-gyfrwng hwn yn cynnwys y canlynol:

DVD

Mae'r DVD yn cynnwys chwe uned, pob un wedi'i rhannu'n bum rhan. Mae'r bumed ran ym mhob uned yn adolygu'r patrymau a'r eirfa sydd wedi'u defnyddio yn y pedair rhan gyntaf ac mewn sefyllfaoedd blaenorol.

Deunyddiau darllen

15 o lyfrau stori a llyfrau ffeithiol

15 o gardiau darllen

Mae pob llyfr / cerdyn darllen yn berthnasol i ran benodol o'r DVD.

Geiriadur

Mae hwn yn cynnwys geiriau a glywir ar y DVD fel bod disgyblion / athrawon yn gallu chwilio am ystyr geiriau anghyfarwydd maen nhw'n eu clywed. Nid yw'n cynnwys pob gair sydd yn y deunydd darllen gan fod geirfa gynhwysfawr yng nghefn pob llyfr ac ar bob cerdyn darllen.

50 o gardiau trafod

Mae'r rhain yn berthnasol i'r unedau ac maen nhw'n rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio geirfa a phatrymau sy'n cael eu cyflwyno ar y DVD mewn gwahanol sefyllfaoedd fel eu bod yn cynnig cyd-destunau dilys ar gyfer cyfathrebu. Mae pob cerdyn yn cynnwys cyfeiriad penodol ynglŷn â lle y dylid ei gyflwyno, e.e. **P-aC₂: Uned 1, Rhan 1**.

Yn ogystal, gellid rhoi detholiad o gardiau addas i'r disgyblion unrhyw bryd fel eu bod nhw'n gallu adolygu'r patrymau a'r eirfa sy'n gysylltiedig â gwahanol sefyllfaoedd. Wrth i'r disgyblion fynd drwy bob pecyn, gellid ail-ddefnyddio cardiau trafod o becynnau blaenorol ar gyfer adolygu hefyd.

Gweithgareddau rhyngweithiol

Cysylltir gweithgareddau rhyngweithiol gyda'i gilydd mewn gêm ar y sgrin. Mae'r rhain yn gofyn i'r disgyblion gasglu llythrennau, ateb cwestiynau a llywio'r Pod-antur Cymraeg yn ddiogel drwy storm o asteroidau ac ogof arallfydol.

Gweler yr adran **Deunyddiau rhyngweithiol** am fwy o fanylion.

Canllawiau athrawon

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau sy'n cyd-fynd â phob uned, h.y.

- nodau pob uned
- rhestr o'r brif eirfa a'r patrymau a ddefnyddir ar y DVD – y ffurfiau newydd a'r rhai cyfarwydd
- canllawiau dewisol sy'n cynnig cyfarwyddyd gam wrth gam ynglŷn â sut y **gellid** defnyddio'r DVD, e.e. sut i gyflwyno ac atgyfnerthu patrymau iaith Cymraeg, pryd i ddefnyddio'r deunyddiau darllen a'r cardiau siarad ac yn y blaen. Fodd bynnag, gan fod gan wahanol athrawon ddulliau gwahanol o ddysgu a gan fod amgylchiadau'n amrywio o ddsbarth i ddsbarth, dylid addasu'r rhain yn unol â'ch anghenion chi eich hun.

- cysylltiadau trawsgwricwlaidd ac awgrymiadau ynglŷn â datblygu sgiliau meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif
- awgrymiadau ynglŷn â sut y gellir trosglwyddo'r eirfa a'r patrymau i gyd-destun bywyd yr ysgol yn gyffredinol, e.e. rhoi cyfarwyddiadau i'r disgyblion wrth iddyn nhw gerdded i mewn ar ôl amser chwarae, creu posteri i'w dangos o gwmpas yr ysgol, awgrymiadau ynglŷn â digwyddiadau neu wasanaethau Cymraeg a.y.b.

Patrymau Iaith P-aC₂

Yn y ddogfen hon, byddwch chi'n dod o hyd i eirfa a phatrymau iaith mae modd eu defnyddio mewn sefyllfaoedd pob dydd, e.e. wrth fynegi barn, wrth ofyn am a rhoi gwybodaeth, wrth gyflwyno llyfr a.y.b. Yn ogystal, gellir eu defnyddio wrth gyfeirio at feysydd penodol o'r cwricwlwm, e.e. wrth ymgymryd â gwaith celf a dylunio, gwaith dylunio a thechnoleg, addysg gorfforol, gweithgareddau cerddorol ac ati neu wrth ymgymryd â gwaith mwy penodol sy'n ymwneud â'r Tuduriaid ac ati.

Defnyddiwch y patrymau Cymraeg hyn gymaint ag y gallwch chi - ar hap drwy gydol y dydd ac wrth gyflwyno gwahanol feysydd o'r cwricwlwm. Anogwch y disgyblion i siarad Cymraeg mor aml â phosib, e.e. **Ga i help os gwelwch yn dda?**; **Esgusodwch fi.**; **Ga i dro?**. Hyd yn oed os nad ydyn nhw'n gwybod yr eirfa berthnasol, anogwch nhw i ddefnyddio patrymau Cymraeg, e.e. **Dw i eisiau file os gwelwch yn dda.**

Defnyddio'r pecyn

Mae canllawiau penodol wedi eu paratoi ar gyfer pob uned ac mae'r rhain yn dangos sut y **gellid** defnyddio'r deunyddiau, Fodd bynnag, mae croeso i athrawon addasu'r rhain yn unol â'u harddull ddysgu eu hunain a gofynion eu dosbarthiadau. Dyma rai awgrymiadau cyffredinol:

- Defnyddiwch y deunydd yn rheolaidd.
- Chwaraewch y DVD mor aml â phosib – bydd gwranddo a gwylio'n rheolaidd yn gwella ynganiad a dealltwriaeth.
- Paratowch y disgyblion cyn gwylio uned ar y DVD, e.e. cyflwynwch yr eirfa a'r patrymau iaith newydd. Bydd hyn yn gwneud y profiad yn un mwy ystyrlon a phleserus.
- Dylai'r disgyblion wyllo'r unedau sawl gwaith. Mae dangos unedau cynnar yn ffordd dda o adolygu patrymau a geirfa.
- Manteisiwch ar y cyfleoedd ar y DVD i'r disgyblion ryngweithio â'r cymeriadau, e.e. dylid eu hannog i ateb y cwestiynau sy'n cael eu cyfeirio atyn nhw.

Amrywiadau ieithyddol

Er mwyn ceisio sicrhau bod y pecyn yn berthnasol i ddisgyblion ledled Cymru, mae Dyfs yn defnyddio ffurfiau gogleddol ond mae Izzy'n defnyddio ffurfiau sy'n gysylltiedig â De Cymru. Ni ddylai hyn achosi unrhyw anhawster oherwydd caiff y ffurfiau hyn eu cyflwyno a'u hailadrodd drwy gydol y pecyn, e.e.

Dyfs (Gogledd Cymru)	Izzy (De Cymru)
rŵan	nawr
Mae'n ddrwg gen i.	Mae'n flin 'da fi / gyda fi.
Tyrd.	Dere.
pres	arian
nain	mam-gu
yn fudr	yn frwnt

Sylwer:

DYLLID YMGYMRYD Â PHOB GWEITHGAREDD YN UNOL Â PHOLISIŌAU'R YSGOL A'R RHEOLIADAU IECHYD A DIOGELWCH PERTHNASOL.

Y Pod-antur Cymraeg₂

Mae'r DVD a'r holl ddeunydd ychwanegol wedi'u seilio ar y Pod-antur Cymraeg, peiriant sy'n caniatáu i'r cymeriadau, Dyfs ac Izzy, deithio o le i le a thrwy amser. Wrth iddo deithio i wahanol leoliadau daearyddol a chyfnodau hanesyddol, mae'n rhoi cyfleoedd i dargedu amryw feysydd y cwricwlwm a sgiliau gwahanol. Yn gryno, dyma'r 'stori':

- Uned 1: Mae Dyfs yn gwersylla yn y goedwig ac mae Izzy'n mwynhau ei hun ar y traeth ond yna maen nhw'n cael eu cludo i'r Pod-antur Cymraeg. Yno, maen nhw'n dod i adnabod ei gilydd ac maen nhw'n dod i ddeall gallu'r Pod-antur Cymraeg i'w cludo nhw o le i le a thrwy amser.
- Uned 2: Mae'r ddau gymeriad yn teithio i'r Drenewydd i chwilio am docyn arbennig. Yna, maen nhw'n mynd i Hwyl y Gaeaf, lle maen nhw'n mwynhau eu hunain yn sglefrio ac yn prynu anrhegion yn y farchnad Nadolig. Ar ôl dychwelyd i'r Pod-antur Cymraeg, mae Dyfs yn gwneud addurn Nadolig ac mae'r ddau ohonyn nhw'n gwranddo ar stori Baboushka.
- Uned 3: Mae Dyfs ac Izzy'n darganfod nifer o symbolau yn y Pod-antur Cymraeg. Mae Izzy'n egluro o ble mae hi'n dod a beth mae hi'n hoffi ei wneud. Yna, mae hi a Dyfs yn mynd i ganolfan hamdden, lle mae Izzy'n helpu mewn sesiwn gymnasteg.
- Uned 4: Mae'r ddau gymeriad yn gweld poster sy'n hysbysebu Diwrnod y Llyfr ac maen nhw'n penderfynu gwisgo fel cymeriad o lyfr. Maen nhw'n mynd i Ddiwrnod y Llyfr mewn ysgol, lle maen nhw'n cyfarfod â gwahanol gymeriadau o lyfrau ac maen nhw'n paratoi ac yn bwyta ffyn ffrwythau a phowlen o uwd.
- Uned 5: Mae Dyfs ac Izzy'n trafod cerddoriaeth yn yr uned hon ac maen nhw'n perfformio rap ac yn canu'r gân boblogaidd **Sosban Fach**. Yna, maen nhw'n gwranddo ar gerddoriaeth Duduraidd ac yn dawnsio i gyfeiliant y gerddoriaeth yma. Maen nhw'n cael eu cludo'n ôl i gyfnod y Tuduriaid, ac yn benodol i dŷ Tuduraidd yn Ninbych-y-pysgod. Yn ogystal, maen nhw'n gwranddo ar un o straeon Twm Siôn Cati, y lleidr pen-ffordd o Gymru.
- Uned 6: Ar ôl clywed chwedl Cantre'r Gwaelod, mae Dyfs yn mynd i Aberystwyth i chwilio am neges mewn potel. Yna, mae'n dychwelyd i'r Pod-antur Cymraeg. Mae'r ddau gymeriad yn dechrau teimlo hiraeth am Gymru ond cyn gallu mynd adre, rhaid iddyn nhw fynd i'r goedwig i chwilio am siapiau penodol a rhaid iddyn nhw ysgrifennu darn i'w gynnwys mewn capsiwl amser. Yn y goedwig, maen nhw'n dod ar draws lladron pen-ffordd ond maen nhw'n llwyddo i ddychwelyd i Gymru yn y diwedd.

Cydnabyddiaethau

Diolch i'r canlynol am eu cydweithrediad a'u cefnogaeth wrth gynhyrchu'r **Pod Antur Cymraeg**:

Aaron Baker
Atebol
BJ's Café, Llanelli
Canolfan Addysg Awyr Agored Pentwyn
Catherine Flower-Bond
Costumes2Go, Llanelli
Cyngor Sir Gaerfyrddin
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Tref y Drenewydd
Dinas a Sir Abertawe
Gwasg Gomer
Isaac's Traditional Sweet Shop, Aberystwyth

Parc Gwledig Pen-bre
PD's Diner, Aberystwyth
Send a Cow
Tudor Tales
Weald and Downland Open Air Museum
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Ysgol Gynradd Llysfen
Ysgol Licswm, Treffynnon
Ysgol O.M. Edwards, Llanuwchllyn
Ysgol Mynydd Bychan, Caerdydd
Ysgol Penybryn, Bethesda

Deunyddiau Rhyngweithiol

Y stori

Yn y gêm ryngweithiol, mae Izzy'n teithio'n ôl i'r Pod-antur Cymraeg. Wrth iddi deithio, rhaid iddi gwblhau'r gweithgareddau ac mae angen i'r disgyblion ei helpu.

Gêm ryngweithiol - cyfarwyddiadau

Cliciwch ddwywaith ar eicon y gêm ryngweithiol.

Cliciwch ar **Dechreuwch**.

Bydd cyfarwyddiadau'n ymddangos ar waelod y sgrin, e.e.

Taflwch y dis.

Symudwch.

Eiconau

Bydd sawl eicon i'w gweld ar fwrdd chwarae'r gêm:

- **Eicon y llong goch**

Bydd yr eicon hwn yn arwain at gêm ryngweithiol, e.e. **Saethwr Sydyn, Glaniwr y Gofod** neu **Troellwr y Twnnel**.

Dyma sut mae eu chwarae:

Saethwr Sydyn

Dylai'r disgyblion ddefnyddio'r **llygoden** i lywio'r Pod-antur Cymraeg drwy storm o asteroidau gan chwilio, yr un pryd, am greigiau gwyrdd sy'n cynnwys llythrennau sy'n sillafu gair. Os byddan nhw'n sillafu'r gair yn llwyddiannus, bydd Izzy'n symud ymlaen (yr un nifer o gamau ag sydd o lythrennau yn y gair a sillafwyd). Fodd bynnag, os bydd y Pod-antur Cymraeg yn taro asteroid, bydd y gêm yn dod i ben a bydd Izzy'n symud yn ôl (ar sail nifer y llythrennau).

Glaniwr y Gofod

Dylai'r disgyblion ddefnyddio'r **saethau** ar eu bysellfwrdd i lanio'r Pod-antur Cymraeg yn ddiogel a thrwy hynny gwblhau gair. Bydd glanio'n rhy gyflym, neu ar ongl wael, yn crasio'r Pod-antur Cymraeg ac felly bydd y gêm yn dod i ben. Bydd cwblhau'r gêm yn llwyddiannus yn golygu bod Izzy'n cael symud ymlaen yr un nifer o gamau ag sydd o lythrennau yn y gair. Bydd peidio â chwblhau'r gêm yn symud Izzy yn ôl yr un nifer o sgwariau.

Troellwr y Twnnel

Dylai'r disgyblion ddefnyddio'r **saethau** ar eu bysellfwrdd i lywio'r Pod-antur Cymraeg yn ddiogel drwy'r ogof arallfydol. Rhaid iddyn nhw geisio osgoi cyffwrdd ag ochrau'r ogof a chasglu'r swigod sy'n cynnwys llythrennau. Os bydd y Pod-antur Cymraeg yn crasio, bydd y gêm yn dod i ben a bydd Izzy'n symud yn ôl. Bydd nifer y sgwariau y bydd yn symud drostynt yn cyfateb i nifer y llythrennau sydd yn y gair mae'n ceisio'i sillafu. Bydd hi'n symud ymlaen yr un nifer o gamau os bydd hi'n casglu digon o swigod i sillafu gair.

- **Cardiau**

Dylai'r disgyblion glicio ar **Dangoswch** i gael gweld ydyn nhw'n cael symud ymlaen neu'n ôl.

- **Gweithgaredd – cogiau melyn**

Mae'r gweithgaredd hwn yn profi gwybodaeth am y ffilm. Caiff cwestiwn ei ddarllen ar goedd ac ar ôl i'r ateb gael ei anfon, bydd adborth uniongyrchol ar gael.

Mewn rhai gweithgareddau, bydd rhaid i'r disgyblion gwblhau gweithgareddau ar ddwy neu dair sgrin. Pan fydd hyn yn digwydd, byddan nhw'n derbyn y cyfarwyddyd **Cliciwch ar y sgrin i symud ymlaen**. Caiff y geiriau hyn eu darllen yn uchel hefyd.

Os bydd cwestiwn yn cael ei ateb yn anghywir, bydd Izzy'n symud un sgwâr yn ôl. Os bydd cwestiwn yn cael ei ateb yn gywir, bydd Izzy'n symud un sgwâr ymlaen.

Er mwyn dychwelyd i'r prif fwrdd chwarae, dylai'r disgyblion glicio ar **'Nôl i'r gêm**.

- **Rhifau Positif a Negatif**
Os bydd y disgybl yn glanio ar sgwâr sy'n cynnwys rhif negatif neu positif, rhaid iddo / iddi symud yn ôl neu ymlaen, yn dibynnu ar y rhif a ddangosir ar y sgwâr.
- **Marc cwestiwn**
Bydd glanio ar farc cwestiwn yn golygu bod angen i'r disgyblion ymgymryd ag unrhyw un o'r gweithgareddau uchod.
- **Sgwâr gwag**
Os bydd y disgybl yn glanio ar sgwâr gwag, rhaid iddo / iddi rollo'r dis unwaith eto.

Pryd i chwarae

Mae'r bwrdd chwarae wedi'i rannu'n dair rhan ac mae pob rhan yn gysylltiedig ag unedau penodol.

Gellid chwarae'r gêm ar ôl i'r disgyblion gwblhau'r ddwy uned berthnasol, e.e. ar ddiwedd uned 2, uned 4 neu uned 6, neu gallen nhw chwarae rhan o'r gêm ar ddiwedd pob uned. Gellid chwarae'r tair rhan ar ôl i'r disgyblion gyrraedd diwedd Uned 6.

Cysylltiadau trawsgwricwlaidd

Mae'r grid yn dangos sut mae'r unedau'n perthyn i feysydd eraill y cwricwlwm. Am fwy o wybodaeth, gweler y canllawiau ar gyfer pob uned a'r Rhaglenni Astudio perthnasol.

	Uned 1	Uned 2	Uned 3	Uned 4	Uned 5	Uned 6
	Bobl bach! Yn y goedwig Ar y traeth Y Pod-antur Cymraeg Ydych chi'n cofio?	Teithio Paratoi Hwyl y Gaeaf Anrhegion Ydych chi'n cofio?	Symbolau Mapiau Dydd Sadwrn Help! Ydych chi'n cofio?	Dathlu Pwy ydy pwy? Y bachgen a'r blaidd Diwrnod y Llyfr Ydych chi'n cofio?	Sosban fach Miwsig a dawnsio Y Tuduriaid Teithio Ydych chi'n cofio?	O dan y môr Aberystwyth Neges mewn potel Yn y goedwig Y capsawl amser
Celf a dylunio	<ul style="list-style-type: none"> cynhyrchu gwaith celf sy'n cyfleu golygfa yn y goedwig cynhyrchu collage o'r goedwig neu'r traeth cynhyrchu gwaith celf drwy ddefnyddio cerrig mân ac ati gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion 	<ul style="list-style-type: none"> cynhyrchu gwaith celf er mwyn cyfleu Hwyl y Gaeaf gwneud cartwnau gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion 	<ul style="list-style-type: none"> cynhyrchu gwaith celf drwy ddefnyddio deunyddiau ailgylchadwy cynllunio symbolau ymchwilio i a chynhyrchu celf Affricanaidd gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion 	<ul style="list-style-type: none"> cynhyrchu gwaith celf sy'n cyfleu golygfa yn y goedwig gan ddefnyddio gwahanol arlliwiau, tôn, cysgod a gwead gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion 	<ul style="list-style-type: none"> tynnu lluniau o bethau sy'n gysylltiedig â chyfnod y Tuduriaid cynllunio a gwneud collage sy'n gysylltiedig â Twm Siôn Cati cynllunio cefnlen / set ar gyfer drama gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion 	<ul style="list-style-type: none"> dylunio a chreu gwaith celf sy'n cyfleu Cantre'r Gwaelod cynllunio a gwneud cefnlen / set ar gyfer eu stori gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion
Dylunio a thechnoleg	<ul style="list-style-type: none"> cynhyrchu model 3D o'r traeth gan ddefnyddio deunyddiau o wead gwahanol cynllunio a gwneud modelau o goed, anifeiliaid y goedwig ac ati er mwyn creu arddangosfa paratoi bwyd iach ar gyfer taith wersylla gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion 	<ul style="list-style-type: none"> cynllunio ac argraffu tocynnau, poster, gwahoddiadau a bwydlenni gan ddefnyddio meddalwedd addas cynllunio a gwneud addurn Nadolig "cynllunio a chyflawni, mewn modd diogel a hylan, ystod eang o dasgau paratoi bwyd ymarferol" e.e. bwyd parti 	<ul style="list-style-type: none"> cynllunio symbolau cynllunio a gwneud cwmpawd gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion 	<ul style="list-style-type: none"> cynllunio a gwneud het ar gyfer Aladin cynllunio a gwneud modelau o gymeriadau o lyfrau cynllunio a gwneud pypedau "cynllunio a chyflawni, mewn modd diogel a hylan, ystod eang o dasgau paratoi bwyd ymarferol" 	<ul style="list-style-type: none"> cynllunio a chreu bwydlenni, tegau pren, tŷ Tuduraidd, memrwn cynllunio a gwneud pypedau o ladron pen-ffordd gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion 	<ul style="list-style-type: none"> cynllunio a chreu symudyn sy'n cyfleu bywyd y môr / y traeth cynllunio a chreu pypedau cynllunio a chreu llyfr lloffion gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion

	Uned 1 Bobl bach! Yn y goedwig Ar y traeth Y Pod-antur Cymraeg Ydych chi'n cofio?	Uned 2 Teithio Paratoi Hwyl y Gaeaf Anrhegion Ydych chi'n cofio?	Uned 3 Symbolau Mapiau Dydd Sadwrn Help! Ydych chi'n cofio?	Uned 4 Dathlu Pwy ydy pwy? Y bachgen a'r blaidd Diwrnod y Llyfr Ydych chi'n cofio?	Uned 5 Sosban fach Miwsig a dawnsio Y Tuduriaid Teithio Ydych chi'n cofio?	Uned 6 O dan y môr Aberystwyth Neges mewn potel Yn y goedwig Y capsawl amser
Dylunio a thechnoleg (parhâd)		<ul style="list-style-type: none"> • "rhoi negeseuon cyfredol ynghylch bwyta'n iach ar waith ... wrth ymgymryd â thasgau paratoi bwyd" • gwerthuso'r gwaith 		<ul style="list-style-type: none"> • "rhoi negeseuon cyfredol ynghylch bwyta'n iach ar waith ... wrth ymgymryd â thasgau paratoi bwyd" • gwerthuso'r gwaith 		
Saesneg	<ul style="list-style-type: none"> • chwilio am wybodaeth ar y rhyngwrwyd • siarad a gwranddo mewn grwpiau • cofnodi manylion yn ysgrifenedig 	<ul style="list-style-type: none"> • chwilio am wybodaeth ar y rhyngwrwyd • siarad a gwranddo mewn grwpiau • cofnodi manylion yn ysgrifenedig 	<ul style="list-style-type: none"> • chwilio am wybodaeth ar y rhyngwrwyd • siarad a gwranddo mewn grwpiau • cofnodi manylion yn ysgrifenedig • defnyddio priflythrennau 	<ul style="list-style-type: none"> • chwilio am wybodaeth ar y rhyngwrwyd • siarad a gwranddo mewn grwpiau • cofnodi manylion yn ysgrifenedig • gwisgo fel cymeriad o lyfr Saesneg a thrafod llyfr stori Saesneg 	<ul style="list-style-type: none"> • chwilio am wybodaeth ar y rhyngwrwyd • siarad a gwranddo mewn grwpiau • cofnodi manylion yn ysgrifenedig • astudio'r gerdd <i>The Highwayman</i> (Alfred Noyes) 	<ul style="list-style-type: none"> • chwilio am wybodaeth ar y rhyngwrwyd • siarad a gwranddo mewn grwpiau
Daearyddiaeth	<ul style="list-style-type: none"> • canfod a lleoli lleoedd / gwledydd ar glôb, atlas, map • defnyddio TGCh i ddarganfod a chyflwyno gwybodaeth • dilyn cyfarwyddiadau ar fap 	<ul style="list-style-type: none"> • canfod a lleoli lleoedd, gwledydd a chyfandiroedd ar glôb, atlas, map • gwneud astudiaeth o'r ardal leol • adnabod symbolau ar fapiau'r Arolwg Ordnans 	<ul style="list-style-type: none"> • canfod a lleoli lleoedd drwy ddefnyddio mapiau ac ati • adolygu pwyntiau'r cwmpawd • ysgrifennu bwletinâu tywydd a chymharu'r tywydd mewn gwahanol rannau o'r byd • adnabod symbolau ar fapiau'r Arolwg Ordnans 	<ul style="list-style-type: none"> • canfod a lleoli lleoedd drwy ddefnyddio mapiau ac ati • gwneud astudiaeth o goedwig 	<ul style="list-style-type: none"> • canfod a lleoli lleoedd drwy ddefnyddio mapiau ac ati • adolygu pwyntiau'r cwmpawd 	<ul style="list-style-type: none"> • trafod y tywydd • darllen map syml • canfod a lleoli lleoedd drwy ddefnyddio mapiau ac ati • adolygu pwyntiau'r cwmpawd • adolygu symbolau daearyddol • hyrwyddo'r ardal

	Uned 1 Bobl bach! Yn y goedwig Ar y traeth Y Pod-antur Cymraeg Ydych chi'n cofio?	Uned 2 Teithio Paratoi Hwyl y Gaeaf Anrhegion Ydych chi'n cofio?	Uned 3 Symbolau Mapiau Dydd Sadwrn Help! Ydych chi'n cofio?	Uned 4 Dathlu Pwy ydy pwy? Y bachgen a'r blaidd Diwrnod y Llyfr Ydych chi'n cofio?	Uned 5 Sosban fach Miwsig a dawnsio Y Tuduriaid Teithio Ydych chi'n cofio?	Uned 6 O dan y môr Aberystwyth Neges mewn potel Yn y goedwig Y capsawl amser
Daearyddiaeth (parhâd)			<ul style="list-style-type: none"> • gwneud astudiaeth o ardal Aberystwyth / yr ardal leol • defnyddio cyfesurynnau i ddynodi lleoliad • astudio bywyd yn Lesotho • cymharu a chyferbynnu bywyd yn Lesotho â bywyd yng Nghymru 			
Hanes	<ul style="list-style-type: none"> • cyfleoedd i astudio gwahanol gyfnodau hanes • cyfleoedd i astudio dinosoriaid 			<ul style="list-style-type: none"> • cyfle i astudio cymeriad hanesyddol mewn llyfr 	<ul style="list-style-type: none"> • gwneud astudiaeth o gyfnod y Tuduriaid • cymharu a chyferbynnu bywyd yn yr 21ain ganrif â chyfnod y Tuduriaid • gofyn ac ateb cwestiynau perthnasol 	<ul style="list-style-type: none"> • cyfeiriad at yr anheddiad Celtaidd ar Ben Dinas • cyfle i astudio cestyll Cymru • gwybodaeth bellach am gyfnod y Tuduriaid
TGCh	<ul style="list-style-type: none"> • "darganfod gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau ar gyfer diben a ddiffinnir," e.e. gwybodaeth am anifeiliaid 	<ul style="list-style-type: none"> • dylunio ac argraffu tocynnau, posteri gwahoddiadau a bwydlenni, gan ddefnyddio meddalwedd addas 	<ul style="list-style-type: none"> • "darganfod gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau ar gyfer diben a ddiffinnir", e.e. mewn perthynas â symbolau, Lesotho, y tywydd mewn 	<ul style="list-style-type: none"> • dylunio cerdyn Brysiwch wella • trafod dyluniad posteri, e.e. ffont, maint y print, lliw ac ati a sefydlu meini prawf y dylai'r disgyblion 	<ul style="list-style-type: none"> • "darganfod gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau ar gyfer diben a ddiffinnir" • dylunio posteri Yn Eisiau 	<ul style="list-style-type: none"> • creu bwrdd stori • paratoi a rhoi cyflwyniad PowerPoint • defnyddio amrywiaeth o adnoddau TGCh, e.e. ffilmio'r fersiwn

	Uned 1 Bobl bach! Yn y goedwig Ar y traeth Y Pod-antur Cymraeg Ydych chi'n cofio?	Uned 2 Teithio Paratoi Hwyl y Gaeaf Anrhegion Ydych chi'n cofio?	Uned 3 Symbolau Mapiau Mapiu Dydd Sadwrn Help! Ydych chi'n cofio?	Uned 4 Dathlu Pwy ydy pwy? Y bachgen a'r blaidd Diwrnod y Llyfr Ydych chi'n cofio?	Uned 5 Sosban fach Miwsig a dawnsio Y Tuduriaid Teithio Ydych chi'n cofio?	Uned 6 O dan y môr Aberystwyth Neges mewn potel Yn y goedwig Y capsawl amser
TGCh (parhâd)	<ul style="list-style-type: none"> cynhyrchu darnau ysgrifenedig defnyddio amrywiaeth o adnoddau TGCh, e.e. i ffilmio gwaith maes, hylendid personol, gwaith llafar defnyddio ffonau symudol ar gyfer gwaith llafar 	<ul style="list-style-type: none"> "darganfod gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau ar gyfer diben a ddiffinnir" defnyddio amrywiaeth o adnoddau TGCh, e.e. ffilmio paratoi bwyd a gwneud cyflwyniad PowerPoint 	<ul style="list-style-type: none"> gwahanol rannau o'r byd paratoi a gwneud cyflwyniad PowerPoint dylunio ac argraffu symbolau, posteri a thafleuni lanlwytho gwybodaeth ar wefan yr ysgol, e.e. am yr ardal 	<ul style="list-style-type: none"> eu defnyddio wrth greu posteri dylunio bwrdd stori creu cymeriadau cartŵn y gellir eu hanimeiddio 	<ul style="list-style-type: none"> ffilmio amryw weithgareddau 	newydd o <i>Cantre'r Gwaelod</i>
Mathemateg	<ul style="list-style-type: none"> amcangyfrif a chyfrifo oed coed mesur cylchedd coed llunio a defnyddio holiaduron creu ac egluro graffiau 	<ul style="list-style-type: none"> llunio a defnyddio holiaduron creu ac egluro graffiau cyfrifo arian a gweithio gydag arian trafod y dyddiad trafod y tymheredd a rhifau negatif adolygu cyfrif fesul pump 	<ul style="list-style-type: none"> adnabod a defnyddio symbolau mesur radiws cylch ymgyfnydd â gweithgareddau sy'n ymwneud ag amser llunio a defnyddio holiaduron creu ac egluro graffiau cyflwyno canrannau defnyddio cyfesurynnau i egluro lleoliad 	<ul style="list-style-type: none"> pwysu a mesur cynhwysion gweithio gyda rhifau mawr 	<ul style="list-style-type: none"> mesur a defnyddio mesuriadau addas: centimetr llunio a defnyddio holiaduron creu ac egluro graffiau 	<ul style="list-style-type: none"> adnabod siapiau 2D a 3D gweithio gydag arian adolygu adio a lluosu llunio a defnyddio holiaduron creu ac egluro graffiau

	Uned 1 Bobl bach! Yn y goedwig Ar y traeth Y Pod-antur Cymraeg Ydych chi'n cofio?	Uned 2 Teithio Paratoi Hwyl y Gaeaf Anrhegion Ydych chi'n cofio?	Uned 3 Symbolau Mapiau Dydd Sadwrn Help! Ydych chi'n cofio?	Uned 4 Dathlu Pwy ydy pwy? Y bachgen a'r blaidd Diwrnod y Llyfr Ydych chi'n cofio?	Uned 5 Sosban fach Miwsig a dawnsio Y Tuduriaid Teithio Ydych chi'n cofio?	Uned 6 O dan y môr Aberystwyth Neges mewn potel Yn y goedwig Y capsawl amser
Cerddoriaeth	<ul style="list-style-type: none"> • gwrando ar / gwerthuso <i>Y Bore</i> allan o gyfres <i>Peer Gynt</i> • cyfansoddi darn o gerddoriaeth sy'n cyfleu'r bore / y dinosoriaid • cyfansoddi caniadau ffôn ar gyfer ffonau symudol • dysgu a pherfformio <i>Ar Lan y Môr</i> 	<ul style="list-style-type: none"> • cyfansoddi darn o gerddoriaeth i gyd-fynd â dawns y dinosoriaid, taith y brenhinoedd i Fethlehem • gwerthuso'r gerddoriaeth hon • dysgu a pherfformio <i>Stille Nacht / Dawel Nos</i> • gwrando ar / gwerthuso darn o gerddoriaeth gan Mozart • gwrando ar / gwerthfawrogi darn o gerddoriaeth werin draddodiadol Rwsia 	<ul style="list-style-type: none"> • adnabod symbolau cerddoriaeth 	<ul style="list-style-type: none"> • cyfansoddi darn o gerddoriaeth i gyfleu'r cymeriadau sy'n ymddangos yn y goedwig • gwrando ar / gwerthuso <i>Pedr a'r Blaidd</i> 	<ul style="list-style-type: none"> • perfformio rap • creu a pherfformio rap newydd • dysgu a chanu'r gân werin <i>Gymraeg Sosban Fach</i> • defnyddio deinameg a chyflymder • gwerthuso darnau cerddoriaeth • trafod offerynnau cerdd • perfformio darnau cerddorol • dysgu a pherfformio <i>Greensleeves</i> ar y recorder 	<ul style="list-style-type: none"> • gwrando ar / gwerthuso <i>Agorawd Hebrides (Ogof Fingal)</i> gan Mendelssohn • cyfansoddi darn o gerddoriaeth i bortreadu'r môr
Addysg gorfforol	<ul style="list-style-type: none"> • cynllunio / perfformio symudiadau sy'n cyfleu gwahanol anifeiliaid, coed / y môr 	<ul style="list-style-type: none"> • cydnabod egwyddorion cyfansoddi a choreograffu syml er mwyn eu defnyddio "i gynllunio dilyniannau ac ystod o batrymau symud", e.e. symudiadau dinosor / dawns y dinosor 	<ul style="list-style-type: none"> • dysgu am / cymryd rhan mewn gweithgareddau canolfan hamdden • cymryd rhan mewn sesiwn gymnasteg 	<ul style="list-style-type: none"> • adnabod egwyddorion cyfansoddi a choreograffu syml er mwyn eu defnyddio "i gynllunio dilyniannau ac ystod o batrymau symud", e.e. y cymeriadau sy'n ymddangos yn y goedwig, chwedl Aesop am yr haul a'r gwynt 	<ul style="list-style-type: none"> • creu symudiadau dawns i gyd-fynd â rap • dysgu a pherfformio dawns "Duduraidd" • creu dawns "Duduraidd" newydd • dysgu a pherfformio dawns Gymreig 	<ul style="list-style-type: none"> • dawnsio i gyfleu agweddau cyferbyniol ar y môr

	Uned 1	Uned 2	Uned 3	Uned 4	Uned 5	Uned 6
	Bobl bach! Yn y goedwig Ar yr traeth Y Pod-antur Cymraeg Ydych chi'n cofio?	Teithio Paratoi Hwyl y Gaeaf Anrhegion Ydych chi'n cofio?	Symbolau Mapiau Dydd Sadwrn Help! Ydych chi'n cofio?	Dathlu Pwy ydy pwy? Y bachgen a'r blaidd Diwrnod y Llyfr Ydych chi'n cofio?	Sosban fach Miwsig a dawnsio Y Tuduriaid Teithio Ydych chi'n cofio?	O dan y môr Aberystwyth Neges mewn potel Yn y goedwig Y capsiwl amser
Addysg grefyddol		<ul style="list-style-type: none"> • cyfle i astudio stori Goliath • cyfle i astudio stori'r Nadolig 	<ul style="list-style-type: none"> • adnabod symbolau crefyddol 			
Gwyddoniaeth	<ul style="list-style-type: none"> • gwaith maes yn gysylltiedig â dwy ardal wahanol • cynefinoedd • y gadwyn fwyd • sylweddoli "sut y mae bodau dynol yn effeithio ar yr amgylchedd lleol, e.e. sbwriel" • tywyllwch a goleuni / cysgodion 	<ul style="list-style-type: none"> • trafod bwyd iach 	<ul style="list-style-type: none"> • ailgylchu • peryglon ysmegu 	<ul style="list-style-type: none"> • trafod a pharatoi bwyd iach • cyflwyniad i fitaminau a ffibr • y gadwyn fwyd 		<ul style="list-style-type: none"> • cyfle i astudio / ymweld â'r traeth ac i gymharu a chyferbynnu dau amgylchedd gwahanol
Cymraeg Ail Iaith	<ul style="list-style-type: none"> • nifer o gyfleoedd i ddatblygu llafaredd, darllen ac ysgrifennu, e.e. • Llafaredd: gwyllo, gwrando ac ymateb i ddeunydd clywedol; gofyn ac ateb cwestiynau; cyflwyno gwybodaeth bersonol; mynegi barn; gweithio'n annibynnol, mewn parau ac mewn grwpiau ac ati 	<ul style="list-style-type: none"> • nifer o gyfleoedd i ddatblygu llafaredd, darllen ac ysgrifennu, e.e. • Llafaredd: gwyllo, gwrando ac ymateb i ddeunydd clywedol; gofyn ac ateb cwestiynau; cyflwyno gwybodaeth bersonol ac ati 	<ul style="list-style-type: none"> • nifer o gyfleoedd i ddatblygu llafaredd, darllen ac ysgrifennu, e.e. • Llafaredd: gwyllo, gwrando ac ymateb i ddeunydd clywedol; gofyn ac ateb cwestiynau, trafod gwybodaeth ac ati 	<ul style="list-style-type: none"> • nifer o gyfleoedd i ddatblygu llafaredd, darllen ac ysgrifennu, e.e. • Llafaredd: gwyllo, gwrando ac ymateb i ddeunydd clywedol; gofyn ac ateb cwestiynau; mynegi profiadau personol; chwarae rôl ac ati 	<ul style="list-style-type: none"> • nifer o gyfleoedd i ddatblygu llafaredd, darllen ac ysgrifennu, e.e. • Llafaredd: gwyllo, gwrando ac ymateb i ddeunydd clywedol; gofyn ac ateb cwestiynau; mynegi barn a chyfleu profiadau personol a dychmygus; chwarae rôl ac ati 	<ul style="list-style-type: none"> • nifer o gyfleoedd i ddatblygu llafaredd, darllen ac ysgrifennu, e.e. • Llafaredd: gwyllo, gwrando ac ymateb i ddeunydd clywedol; mynegi barn a chyfleu profiadau personol a dychmygus; chwarae rôl ac ati

	Uned 1	Uned 2	Uned 3	Uned 4	Uned 5	Uned 6
	Bobl bach! Yn y goedwig Ar y traeth Y Pod-antur Cymraeg Ydych chi'n cofio?	Teithio Paratoi Hwyl y Gaeaf Anrhegion Ydych chi'n cofio?	Symbolau Mapiau Dydd Sadwrn Help! Ydych chi'n cofio?	Dathlu Pwy ydy pwy? Y bachgen a'r blaidd Diwrnod y Llyfr Ydych chi'n cofio?	Sosban fach Miwsig a dawnsio Y Tuduriaid Teithio Ydych chi'n cofio?	O dan y môr Aberystwyth Neges mewn potel Yn y goedwig Y capsawl amser
Cymraeg Ail Iaith (parhâd)	<ul style="list-style-type: none"> • Darllen: darllen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac ymateb yn synhwyrol ac ati • Ysgrifennu: ysgrifennu mewn amryw ffurfiau at amrywiaeth o bwrpasau, e.e. cyflwyno gwybodaeth, ysgrifennu am brofiad personol, ysgrifennu rhestri, bwydlenni, posteri, taflenni, sgript deledu, cerdd, dyddiadur, deialogau, darnau ffeithiol ac ati. 	<ul style="list-style-type: none"> • Darllen: darllen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac ymateb yn synhwyrol ac ati • Ysgrifennu: ysgrifennu mewn amryw ffurfiau at amrywiaeth o bwrpasau, e.e. proffiliau personol, rhestri, tocynnau, calendr / dyddiadur digwyddiadau, darnau ffeithiol, taflenni, bwrdd stori, stori, gwahoddiadau, posteri, negeseuon e-bost ac ati 	<ul style="list-style-type: none"> • Darllen: darllen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac ymateb yn synhwyrol ac ati • Ysgrifennu: ysgrifennu mewn amryw ffurfiau at amrywiaeth o bwrpasau, e.e. nodiadau, rhestri, taflenni, negeseuon e-bost, darnau ffeithiol, sgript ar gyfer fideo, posteri, cofnod o'u bywyd dyddiol, paragraffau sy'n cynnwys testun a symbolau <ul style="list-style-type: none"> • defnyddio priflythrennau ar gyfer enwau priod • ysgrifennu mewn arddull berswadiol 	<ul style="list-style-type: none"> • Darllen: darllen mewn amrywiaeth o wahanol sefyllfaoedd ac ymateb yn synhwyrol ac ati • Ysgrifennu: ysgrifennu mewn amryw ffurfiau at amrywiaeth o bwrpasau, e.e. rhestri, negeseuon e-bost, gwahoddiadau, ryseitiau, posteri, disgrifiadau, taflenni, deialogau, adolygiad o lyfr, stori <ul style="list-style-type: none"> • defnyddio dyfynodau 	<ul style="list-style-type: none"> • Darllen: darllen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac ymateb yn synhwyrol • Ysgrifennu: ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa estynedig ac at amrywiaeth o bwrpasau, e.e. ysgrifennu rhestri, ysgrifennu ffeithiol a phersonol, ysgrifennu bwydlenni, negeseuon, rap Cymraeg, cyfarwyddiadau ar gyfer dawns, drama <ul style="list-style-type: none"> • defnyddio dyfynodau 	<ul style="list-style-type: none"> • Darllen: darllen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac ymateb yn synhwyrol • Ysgrifennu: ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa estynedig at amrywiaeth o bwrpasau, e.e. bwletin tywydd, rhestri, gwahoddiadau, dehongli graff, cwis, cerdd, ysgrifennu ffeithiol, cofnodion mewn llyfr lloffion, darn estynedig o ysgrifennu personol

Uned 1

Mae'r gwaith yn yr uned hon yn canolbwyntio ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith. Fodd bynnag, mae'r cwricwlwm a meysydd perthnasol eraill yn cael eu targedu yn ogystal. Rhoddir enghreifftiau o elfennau trawsgwricwlaidd isod ond dylid edrych ar y Rhaglenni Astudio a'r fframweithiau perthnasol er mwyn cael rhagor o fanylion.

Cymraeg Ail Iaith

Yn yr uned hon, mae'r disgyblion yn gweld ac yn clywed gwahanol bobl yn siarad Cymraeg ac felly maen nhw'n dod yn ymwybodol o amrywiaethau rhanbarthol yn yr iaith. Maen nhw'n cael cyfleoedd i gyflwyno gwybodaeth bersonol, i fynegi barn, e.e. mewn perthynas â'r DVD, llyfrau a.y.b. Maen nhw'n cael cyfleoedd i ymateb yn briodol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, gan gynnwys gweithgareddau chwarae rôl, e.e. yn y sefyllfaoedd ar y **Cardiau Siarad** ac mewn gweithgareddau yn y gadair goch. Maen nhw'n gweithio'n annibynnol, mewn paru, mewn grwpiau ac fel dosbarth.

Mae cyfleoedd i wyllo a gwrando ar y ffilm yn ofalus ac i ganfod y prif bwyntiau. Gellid rhoi crynodeb o rannau o'r ffilm i'r disgyblion a gallai rhywfaint ohono fod yn **gywir** a rhywfaint yn **anghywir**. Yna gellid gofyn iddyn nhw wrando'n ofalus ar y ffilm er mwyn dod o hyd i'r camgymeriadau a'u cywiro.

Gellid rhoi gridiau sy'n seiliedig ar rannau o'r ffilm i'r disgyblion gan ofyn iddyn nhw gofnodi'r wybodaeth angenrheidiol ynddyn nhw. Yn ogystal, gallai disgyblion ymateb i gwestiynau sy'n seiliedig ar y ffilm, e.e. mewn gweithgareddau cwis. Gallen nhw ysgrifennu am rannau penodol o'r ffilm yn ogystal.

Mae cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i amrywiaeth o ddeunyddiau darllen, e.e. llyfrau stori, cerdd a chardiau darllen ffeithiol. Rhestrir cwestiynau cyffredinol y gallen nhw ofyn i'w gilydd neu y gallai'r athro/athrawes ofyn iddyn nhw yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₂**, ac mae cwestiynau penodol sy'n berthnasol i bob llyfr yng nghefn y llyfrau. Mae cyfleoedd i ddarllen ar goedd yn ogystal.

Rhoddir cyfle i'r disgyblion ysgrifennu rhestri, straeon ffeithiol a darnau personol, bwydlenni, posteri, taflenni, sgript fer ar gyfer y teledu, cerdd, cofnod mewn dyddiadur a deialogau yn ogystal â darllen gwybodaeth maen nhw wedi'i chasglu wrth wneud gwaith ymchwil. Mae cyfleoedd i ysgrifennu gan ddefnyddio'r amser presennol a'r gorffennol, felly.

Saesneg

Mae cyfleoedd i chwilio am wybodaeth am blanhigion, anifeiliaid ac adar sydd i'w gweld mewn coedwig ac ar y traeth a bydd llawer o'r gwaith hwn yn golygu darllen a chofnodi yn Saesneg.

Mathemateg

Anogir disgyblion i amcangyfrif oed coed ac yna i fesur eu cylchedd yn ofalus er mwyn cyfrifo'u hoed:

Mesurwch.

Sawl centimetr?

... centimetr.

Rhannwch â dau pwynt pump.

Faint ydy oed y goeden?

Yn ogystal, mae cyfleoedd i greu a defnyddio holiaduron ac i wneud graffiau a'u hegluro, e.e. ar ddiwedd Rhan 2.

Gwyddoniaeth

Wrth i Dyfs wneud astudiaeth o goedwig, ac wrth i Izzy wneud astudiaeth o'r traeth, cyflwynir patrymau iaith a geirfa y gellid eu defnyddio yn ystod gwaith maes. Mae'r ddau gymeriad yn cofnodi'r hyn maen nhw'n ei weld ac yn ei glywed drwy wneud lluniau, diagramau, holiaduron a thynnu ffotograffau. Gallai disgyblion sy'n gwneud gwaith tebyg gofnodi eu profiadau yn Gymraeg hefyd, e.e.

Yn y goedwig, dw i'n gallu clywed / gweld ...

Beth: **Ble:**

adar yn y coed

blodau o dan y coed

Ar y traeth, dw i'n gallu clywed / gweld ...

Beth: adar
Ble: ar y cerrig
cranc yn y pwll / yn y dŵr / ar y traeth

cregyn ar y tywod

Gallai'r disgyblion ffilio'r hyn maen nhw'n ei weld ac ysgrifennu sgrïpt syml i'w chynnwys fel troslais.

Mae cyfleoedd i astudio anifeiliaid mewn amgylcheddau gwrthgyferbyniol, e.e.

Mae ... yn byw yn y goedwig.

Mae ... yn byw ar y traeth.

Yn ogystal, gallai'r disgyblion drafod pa anifeiliaid ac adar sydd i'w gweld yn y goedwig yn ystod y dydd ac yn ystod y nos. Gallai'r disgyblion ymchwilio i rai o'r anifeiliaid ac ysgrifennu amdany'n nhw.

Gellir cyflwyno rhai agweddau ar y gadwyn fwyd hefyd, e.e. mae'r cerdyn darllen **Yn y Goedwig** yn sôn am anifeiliaid sydd wedi eu cysylltu yn y gadwyn fwyd a gellid trafod hyn yn Gymraeg:

Mae'r pryfed bach yn bwyta'r dail.

Mae'r fuwch goch gota'n bwyta'r pryfed bach.

Mae'r aderyn yn bwyta'r fuwch goch gota.

Mae'r boncath yn bwyta'r aderyn.

etc.

Yn ogystal, gellir cyflwyno/adolygu'r patrwm canlynol os bydd angen:

Beth mae ... yn fwyta?

Gallai'r disgyblion dynnu llun golygfa debyg i'r un a welir ar y cerdyn darllen a gallen nhw gynnwys anifeiliaid eraill sy'n rhan o'r gadwyn fwyd. Yna, gallen nhw drafod y cadwyni bwyd mewn grwpiau.

Gellid llunio cadwyni bwyd tebyg yng nghyd-destun yr astudiaeth o'r traeth yn Rhan 3.

Mae Rhannau 2 a 3 yn dangos sut mae pobl yn gallu effeithio ar wahanol amgylcheddau drwy adael sbwriel mewn coedwigoedd ac ar draethau. Gellid annog y disgyblion i waredu eu sbwriel mewn ffordd gyfrifol bob amser.

Mae cyfeiriadau at olau a thywyllwch yn yr uned hon. Yn y llyfr darllen, **Yn y Goedwig yn y Nos**, mae cysgod ar ochr y babell a gallai hyn arwain at waith sy'n gysylltiedig â **cysgod, cysgodion**.

Daearyddiaeth

Yn y llyfr **Izzy'n teithio**, mae Izzy'n teithio i Awstralia. Gallai'r disgyblion gasglu gwybodaeth am y wlad hon a gallen nhw ddangos y daith o Gymru i Awstralia ar fap, gan gofnodi yn Gymraeg enwau'r gwledydd maen nhw'n mynd drwyddyn nhw ar hyd y daith. Os yw'n berthnasol, gallen nhw ddefnyddio cyfesurynnau a chyfeiriadau pedwar rhif yn y cyd-destun hwn.

Hanes

Yn yr un llyfr, mae Izzy'n teithio'n ôl mewn amser drwy gyfnodau hanesyddol penodol i gyfnod pan oedd dinosoriaid yn crwydro'r ddaear. Gellid gwneud gwaith pellach mewn perthynas â'r cyfnodau hyn.

Celf a dylunio

Mae nifer o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu yn ystod sesiynau celf a dylunio, e.e. gallai'r disgyblion greu golygfeydd mewn coedwig, rhwbiadau dail a.y.b. ac ar ôl dewis deunyddiau addas, gallen nhw wneud *collage* o'r goedwig neu'r traeth. Yn ogystal, gallen nhw greu darnau o waith celf gan ddefnyddio cerrig mân. Hefyd, gofynnir iddyn nhw dynnu lluniau o'r **Pod-antur Cymraeg**.

Ar ôl cwblhau'r gwaith, dylid rhoi cyfle i'r disgyblion werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd. Gweler y ddogfen, **Patrymau Iaith P-aC₂** am eirfa a phatrymau iaith addas.

Addysg gorfforol

Gellid defnyddio cyd-destun y goedwig a glan y môr fel lleoliad ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag amryw symudiadau a dawns, e.e. symud fel anifeiliaid gwahanol, symud fel coed mewn gwahanol fathau o dywydd, symud fel y môr pan fydd yn dawel ac yn stormus a.y.b. Yn yr un modd, yn Rhannau 4 a 5, gallai'r disgyblion greu symudiadau sy'n gysylltiedig â dinosoriaid anferth, trwm, neu ddinosoriaid llai ac ysgafnach.

Cerddoriaeth

Gallai'r disgyblion wrando ar ddarnau o gerddoriaeth sy'n gysylltiedig â chân yr adar a'r bore, e.e. Y *Bore* allan o *Gyfras Peer Gynt* gan Grieg. Yna, gallen nhw fynegi barn am y darnau hyn a disgrifio sut maen nhw'n teimlo. Yn ogystal, gallen nhw gyfansoddi darn byr i gyfleu'r bore.

Gan fod Dyfs ac Izzy'n defnyddio ffonau symudol, gallai'r disgyblion wrando ar wahanol ganiadau ffôn, mynegi barn a chyfansoddi caniad newydd ar gyfer ffôn symudol. Yna, gallen nhw werthuso'r gwahanol ganiadau a'u recordio.

Yn ogystal, gallen nhw gyfansoddi cerddoriaeth / synau sy'n cyfleu presenoldeb y Pod-antur Cymraeg, h.y. pan fydd Dyfs ac Izzy'n dod yn ymwybodol o sŵn rhyfedd.

Gellid cyflwyno'r gân werin **Ar Lan y Môr**.

Yn Rhannau 4 a 5, gallai'r disgyblion gyfansoddi cerddoriaeth er mwyn cyfleu dinosoriaid anferth, trwm neu ddinosoriaid llai ac ysgafnach. Gellid defnyddio'r gerddoriaeth hon wrth i'r disgyblion greu symudiadau dinosoriaid (gweler **Addysg Gorfforol** uchod).

TGCh

Ar ôl darllen y daflen ffeithiol **Yn y Goedwig**, anogir y disgyblion i chwilio am ragor o wybodaeth ac i gofnodi a chyflwyno hyn mewn ffurf addas. Dylen nhw chwilio am ddelweddau i gyd-fynd â'u gwaith.

Gallen nhw ddefnyddio camera fideo i ffilmio'u gwaith maes, ar gyfer rhoi cyngor ar hylendid personol sylfaenol neu ar gyfer ffilmio gwaith llafar yn y dosbarth. Byddai hyn yn gofnod da o'r gwaith hwn.

Yn ogystal, gallai'r disgyblion ddefnyddio ffonau symudol i siarad â'i gilydd ac i recordio caniadau ffôn newydd.

Dylunio a thechnoleg

Gellid tynnu sylw at wead gwahanol fathau o ddeunyddiau naturiol yn y goedwig ac ar y traeth a gellid defnyddio'r rhain mewn gwaith dylunio a thechnoleg, e.e. gallai'r disgyblion greu model 3D o'r traeth gan ddefnyddio deunyddiau o wahanol weadau a.y.b.

Gan ddefnyddio deunyddiau addas, gallai'r disgyblion gynllunio a gwneud modelau o wahanol fathau o goed ac anifeiliaid y goedwig ac yna gellid defnyddio'r rhain ar gyfer creu arddangosfa **Yn y Goedwig**. Yn ogystal, gallen nhw wneud model o'r Pod-antur Cymraeg.

Mae dau gyfeiriad at fwyta yn yr awyr agored a gallai'r disgyblion ystyried pa fwyd fyddai'n addas ar gyfer gwerysilla yn y goedwig neu ar gyfer mynd i'r traeth. Gallen nhw baratoi seigiau iach addas, e.e. salad, brechdanau, pizza iach a.y.b.

Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Mae'r uned yn targedu Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang gan ei bod yn annog disgyblion i barchu'r amgylchedd ac ar yr un pryd ei fwynhau.

Y Cwricwlwm Cymreig

Mae'r uned yn ymwneud â'r **Cwricwlwm Cymreig** nid yn unig drwy ddatblygu sgiliau ieithyddol y disgyblion mewn Cymraeg Ail Iaith ond hefyd drwy gyflwyno'r gân werin Gymraeg **Ar lan y môr** yn Rhan 3.

Addysg Personol a Chymdeithasol

Anogir y disgyblion i frwsio'u dannedd a'u gwallt ac i newid eu dillad yn rheolaidd. Gallai hyn arwain at drafodaeth ar hylendid personol.

Datblygu meddwl

Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio gwybodaeth flaenorol drwy gydol yr uned. Gofynnir iddyn nhw gynllunio a datblygu syniadau drwy gyfrwng y Gymraeg (e.e. mewn perthynas â gwaith maes) a gofynnir iddyn nhw ymateb i'w gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill, i werthuso llwyddiant ac i ystyried sut i wella'r gwaith (e.e. yn yr uned adolygu).

Gofynnir iddyn nhw ystyried cliwiau (e.e. wrth i Izzy deithio o Gymru i wahanol leoedd) ac i lunio casgliadau a ffurfio a datblygu barn. Fe'u hanogir hefyd i feddwl am ddiwedd glo addas ar gyfer y stori **Yn y Goedwig yn y Nos**.

Datblygu cyfathrebu

Mae'r uned hon yn adeiladu ar y sgiliau iaith, y patrymau a'r eirfa a gyflwynwyd eisoes, a thrwy hynny mae'n sicrhau dilyniant a pharhâd.

Prif nod yr uned hon yw datblygu sgiliau cyfathrebu disgyblion. Felly, mae nifer o gyfleoedd i wrando ar bobl eraill ac i ymateb iddyn nhw, i ddarganfod a dethol gwybodaeth, i ymateb i'r hyn sydd wedi cael ei ddarllen ac i gyflwyno gwybodaeth – ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Datblygu TGCh

Mae cyfleoedd i chwilio am wybodaeth drwy ddefnyddio'r rhyngwrwyd a'i chyflwyno mewn dull addas gan ddefnyddio meddalwedd briodol. Anogir disgyblion i ddefnyddio technoleg at sawl pwrpas, e.e. ffilmio a recordio gwaith grwpiau. Dylid eu hannog hefyd i ddefnyddio cyfrifiadur ar gyfer gwaith ysgrifennu ac i ddrafftio ac ail-ddrafftio'u gwaith.

Datblygu rhif

Mae disgyblion yn datblygu eu sgiliau rhif yn yr uned hon drwy ddefnyddio rhifolion, amcangyfrif oed coed, casglu gwybodaeth mewn dulliau amrywiol, gan gynnwys holiaduron, a chyflwyno data mewn dulliau amrywiol, gan gynnwys graffiau, sydd wedyn yn cael eu hegluro.

Uned 1: Rhan 1 – Bobl bach!

Nodau:

- Adolygu cyflwyno'ch hun yn Gymraeg
- Adolygu mynegi barn, e.e. **Mae'n wych.**; **Mae'n grêt.**; **Mae'n ffantastig.**; **Dw i'n hoffi ... yn fawr.**; **blasus**
- Adolygu mynegi teimladau, e.e. **Dw i'n teimlo'n hapus.**
- Cyflwyno rhai agweddai ar ABCCh drwy gyfrwng y Gymraeg, e.e. **Rhaid brwsio dannedd.**; **Rhaid brwsio gwallt.**; **Rhaid ymolchi.**; **Rhaid gwisgo dillad glân.** a.y.b.
- Adolygu geiriau a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon.

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Rhaid codi. Rhaid brwsio dannedd. Rhaid brwsio gwallt. Rhaid ymolchi. Rhaid gwisgo pants glân. Rhaid gwisgo sanau glân. Cofia.	amser codi gwersylla coedwig (y goedwig) pants glân

Patrymau a geirfa sy'n gyfarwydd

Mae'n bosib bod y patrymau iaith canlynol wedi eu cyflwyno eisoes yn ystod y Cyfnod Sylfaen ac yn P-aC₁.

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth sy yn y bag? Beth am ...? Hoffi Dw i'n hoffi ... Dw i'n hoffi peren yn fawr. Eisiau Ydych chi eisiau clywed? Ydyn, os gwelwch yn dda. / Nac ydyn, dim diolch. Dw i eisiau peren. Gorchmynion Byddwch yn dawel. Esgusodwch fi. Ewch. Dim pipo! Eraill Bobl bach! Pardwn?	yn gynta brecwast ffrwythau sudd oren afal banana peren bara brown bara gwyn eto coed blodau dail dillad sanau pyjamas crys T

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Byddwch yn dawel.

Esgusodwch fi.

Un funud. (De Cymru) / **Un munud.** (Gogledd Cymru)

Pardwn?

Yn gynta ...

Beth sy yn y ...?

Dyma ni.

Dim problem!

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Dangoswch y ffilm **Bobl bach!** (Uned 1, Rhan 1) i gyd a gofynnwch i'r disgyblion am eu barn. Cyflwynwch / adolygwch y canlynol fel y bo'n briodol:
Wyt ti'n hoffi'r DVD?
Ydw. / Ydw. Dw i'n hoffi'r DVD.
Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n dda.
Dw i'n hoffi'r DVD achos dw i'n hoffi gwersylla.
Dw i'n hoffi'r DVD achos dw i'n hoffi'r stori. Mae'n wych.

Nac ydw. / Nac ydw. Dw i ddim yn hoffi'r DVD.
Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ofnadwy.
Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos dw i ddim yn hoffi gwersylla.
Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos dw i ddim yn hoffi'r stori. Mae'n ofnadwy.
- Gofynnwch gwestiynau cyffredinol, e.e.
Ble mae Dyfs?
Yn y goedwig.

Ble mae Dyfs yn cysgu?
Yn y babell. (Os bydd angen, derbyniwch y gair *tent* i ddechrau ond yna cyflwynwch a chadarnhewch yr ymadrodd **y babell**.)
Mae Dyfs yn cysgu yn y babell.

Beth mae Dyfs yn wisgo?
Pyjamas.
Mae Dyfs yn gwisgo pyjamas.

Beth mae Dyfs yn fwyta?
Peren a bara brown.
Mae Dyfs yn bwyta peren a bara brown.

Beth sy yn goedwig?
Adar.
Coed.
Llwybr.
Dail.
Pabell. Y babell.
Dillad.

Wyt ti'n hoffi'r goedwig?
Ydw, dw i'n hoffi'r goedwig.
Nac ydw, dw i ddim yn hoffi'r goedwig.
Gellid gofyn / ateb y cwestiynau hyn mewn cwis, gyda dau dîm neu ragor yn cystadlu yn erbyn ei gilydd er mwyn sgorio pwyntiau.
- Dangoswch ddechrau'r ffilm eto, hyd at y man lle mae'r ffôn yn canu. Anogwch y disgyblion i ymateb i gwestiynau Dyfs fel y bo'n briodol, e.e.
Sut ydych chi?

Tynnwch sylw at y patrwm:
... ydw i.

Gofynnwch i'r disgyblion actio'r rhan gyntaf, lle mae Dyfs yn ei gyflwyno'i hun, ond gofynnwch iddyn nhw ddweud llawer mwy amdany'n nhw'u hunain na Dyfs, e.e.
Helo.
... ydw i .
Dw i'n byw yn ...
Dw i'n mynd i Ysgol ...

Dw i'n hoffi ...
Dw i'n hoffi ... yn y ...
Dw i'n hoffi ... gyda ...
Dw i'n hoffi ... bob dydd ...
Dw i'n hoffi ... achos ...
a.y.b.

- Yna, gallai'r disgyblion ysgrifennu paragraff byr amdanyn nhw eu hunain ar ddarn o bapur, ond heb eu henwi eu hunain. Gellid plygu a chasglu'r papurau a'u rhoi mewn boc. Yna, yn eu tro, gallai'r disgyblion dynnu un o'r darnau papur o'r boc a darllen y disgrifiad ar goedd a dylai aelodau eraill y grŵp geisio dyfalu pwy sydd wedi ysgrifennu'r darn. Wedyn, dylid gludo'r papurau hyn ar ddarn mawr o gerdyn yn ogystal â ffotograffau er mwyn creu poster **Pwy ydy Pwy?**
- Chwaraewch y darn eto ond symudwch ymlaen i'r rhan nesaf, lle mae Dyfs yn siarad â'i ffrind ar y ffôn – hyd at y man lle y collir y signal.

Canolbwyntiwch ar y cwestiynau sy'n cael eu gofyn:

Sut wyt ti?
Ble wyt ti?
Ble?
Beth wyt ti'n wneud?
Wyt ti'n hoffi ...?

Gallech chi chwarae'r darn eto a gofyn i'r disgyblion wrando ar atebion Dyfs i'r cwestiynau hyn. Yna, gellid rhestru'r rhain ar y bwrdd gwyn:

Sut wyt ti?
Iawn, diolch. Sut wyt ti?
Ble wyt ti?
Dw i yn y goedwig.
Ble?
Yn y goedwig.
Beth wyt ti'n wneud?
Dw i'n gwersylla.
Wyt ti'n hoffi gwersylla?
Ydw. Dw i'n hoffi gwersylla yn fawr. Mae'n wych. Mae'n ffantastig. Mae'n grêt.

Cyflwynwyd y cwestiynau hyn eisoes yn ystod y Cyfnod Sylfaen ac yn P-aC₁ ond adolygwch nhw nawr – yng nghyd-destun gwersylla yn y goedwig i ddechrau, ond yna, trosglwyddwch y cwestiynau i sefyllfaoedd eraill, e.e.

ar y traeth
yn y parc
yn yr ysgol
a.y.b.

Yna, gallai'r disgyblion 'ffonio' ei gilydd gan ddefnyddio'r patrymau hyn neu gallen nhw ysgrifennu deialogau ffôn.

- Gallai'r disgyblion wrando ar ganiadau ffôn gwahanol a mynegi barn, e.e.

Wyt ti'n hoffi'r dôn?
Ydw, dw i'n hoffi'r dôn achos mae'n hapus.

hwyl
dda
wych
ddiddorol
gyffrous

Nac ydw, dw i ddim yn hoffi'r dôn achos mae'n ddiflas.
ofnadwy
drist

Yna, gallen nhw gyfansoddi a recordio caniadau ffôn newydd a gellid defnyddio'r rhain ar ddechrau sgyrsiau eraill.

- Chwaraewch y darn eto ond symudwch ymlaen i'r rhan nesaf, lle mae Dyfs yn siarad ar y ffôn gyda'i fam – gorffennwch gyda'r ffotograffau sy'n egluro ystyr:
Rhaid brwsio dannedd.
Rhaid brwsio gwallt.
Rhaid ymolchi.
- Canolbwyntiwch ar yr ymadrodd:
Esgusodwch fi.
a'i ymarfer, e.e. gallai disgybl wneud sŵn caniad ffôn a gallai'r disgyblion eraill esgusodi eu hunain er mwyn ateb yr alwad.

Gofynnwch i'r disgyblion pa gwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y rhan hon:

Sut wyt ti (Dyfan)?
Ble wyt ti?
Beth wyt ti'n wneud?
Pardwn?
Wyt ti'n hoffi gwersylla?

Cyflwynwyd y cwestiynau hyn yn ystod yr alwad ffôn gyntaf – maen nhw'n cael eu hatgyfnerthu yma.

Unwaith eto, gallech chi ail-chwarae'r darn a gofyn i'r disgyblion nodi'r atebion a gellid eu rhestru ar y bwrdd gwyn,:

Sut wyt ti (Dyfan)?
Da iawn, diolch. Sut wyt ti (Mam)?
Ble wyt ti?
Dw i yn y goedwig.
Ble?
Yn y goedwig.
Beth wyt ti'n wneud?
Dw i'n gwersylla.
Pardwn?
Wyt ti'n hoffi gwersylla?
Ydw. Dw i'n hoffi gwersylla yn fawr.

- Chwaraewch y darn eto – hyd at y man lle mae'r ffotograffau'n cael eu dangos, ond cyn gwneud hyn, eglurwch fod mam Dyfs yn rhoi cyfarwyddiadau iddo. Gofynnwch i'r disgyblion wrando'n ofalus er mwyn clywed y cyfarwyddiadau hyn.

Gofynnwch i'r disgyblion beth yw'r cyfarwyddiadau a rhestrwch nhw ar y bwrdd gwyn. Tynnwch sylw penodol at y gair **Rhaid**:

Rhaid brwsio dannedd.
Rhaid brwsio gwallt.
Rhaid ymolchi.

Dylid ymarfer y patrymau hyn a gwahodd y disgyblion i'w meimio er mwyn i'r disgyblion eraill ddyfalu beth maen nhw'n ei wneud.

- Defnyddiwch y darn nesaf er mwyn atgyfnerthu'r patrymau hyn. Stopiwch y ffilm pan fydd Dyfs yn dangos y brwsh dannedd, y brwsh gwallt, y wlanen ymolchi a'r sebon a gofynnwch i'r disgyblion roi cyfarwyddiadau priodol. Stopiwch y DVD ar ôl i Dyfs ddweud **Ond yn gynta, brecwast.**

Yna, gallai'r disgyblion wneud posteri neu daflenni syml a gellir eu harddangos, e.e.

Yn y bore ...
Rhaid brwsio dannedd.

Rhaid brwsio gwallt.
Rhaid ymolchi.

Yn ogystal, gallen nhw wneud ffilm sydd wedi'i hanelu at blant iau efallai, a gallen nhw feimio'r gweithgareddau hyn a rhoi cyngor ar hylendid personol yn Gymraeg. Gallai hyn arwain at waith pellach sy'n gysylltiedig â hylendid personol.

- Cyn symud ymlaen i'r rhan nesaf, sy'n ymwneud â bwyd brecwast, gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu rhestr o'r bwyd y gallen nhw ei fwyta i frecwast. Cyflwynwch elfen o hwyl:

Pwy sy'n gallu gwneud y rhestr hira?

Gallech chi gyfyngu'r amser, e.e.

Dwy funud - De Cymru / **Dau funud** - Gogledd Cymru

Ar ôl iddyn nhw orffen, gofynnwch

Sawl un?

a gofynnwch iddyn nhw roi'r rhif yn Gymraeg.

Atgoffwch y disgyblion o'r geiriau maen nhw wedi'u defnyddio i drafod **amser snac, amser cinio, amser swper, picnic** a.y.b. yn y gorffennol fel eu bod yn gallu dewis geiriau addas ar gyfer **amser brecwast**. Yn ogystal, gallen nhw chwarae bingo, gan ddefnyddio delweddau o fwyd.

- Chwaraewch y darn nesaf, lle mae Dyfs yn rhestru'r bwyd sydd yn y bag ac yn dewis beth i'w fwyta – hyd at y man lle mae'r ffôn yn canu eto.

Cymharwch y bwyd ar y ffilm gyda rhestr i'r disgyblion.

Gallech chi ofyn i'r disgyblion fynegi'u barn am fwyd penodol, e.e.

Wyt ti'n hoffi ...?

Ydw, dw i'n hoffi ... Mae'n flasus.

a.y.b.

Nac ydw, dw i ddim yn hoffi ... Mae'n ofnadwy.

a.y.b.

Yna, gallai'r disgyblion lunio graffiau i ddangos pa fwydydd mae'r disgyblion yn eu hoffi / ddim yn eu hoffi a gellid egluro'r rhain yn syml, e.e.

Mae chwech yn hoffi ...

a.y.b.

- Dylid atgyfnerthu'r wybodaeth, yr eirfa a'r patrymau mewn cwis, lle mae'r disgyblion yn ceisio sgorio pwyntiau. Gallech chi ofyn cwestiynau sy'n seiliedig ar y darn neu gallai'r disgyblion ofyn cwestiynau i'w gilydd, e.e.

Beth sy yn y bag?

Beth mae Dyfs eisiau i frecwast?

Pa liw ydy'r bag?

Pa liw ydy'r plât?

Pa liw ydy'r flanced?

Beth sy ar y flanced?

Ble mae'r flanced?

Ble mae Dyfs?

a.y.b.

Gofynnwch iddyn nhw drafod pwy sy'n ffonio ar ddiwedd y darn:

Pwy sy'n ffonio? Dyfalwch.

Pwy sy ar y ffôn?

Gawn ni weld.

- Dechreuwch chwarae'r darn nesaf ond stopiwch ar ôl i Dyfs egluro pwy sy'n ffonio – ei fam. Gofynnwch i'r disgyblion ddyfalu beth mae hi eisiau nawr.

Gwrandewch ar eu syniadau ac yna dywedwch wrthyn nhw ei bod hi ar fin rhoi mwy o gyfarwyddiadau. Gofynnwch beth allai'r rhain fod – tynnwch sylw at y gair **Rhaid** eto.

Ar ôl trafod eu syniadau, chwaraewch weddill y darn – hyd at y man lle mae'r ffotograffau sy'n egluro'r cyfarwyddiadau yn cael eu dangos. Gofynnwch i'r disgyblion wrando ar y gorchmynion:
Rhaid gwisgo pants glân.
Rhaid gwisgo sanau glân.

- Gofynnwch i'r disgyblion ddweud wrthyh chi beth ydy'r cyfarwyddiadau newydd – yn ogystal â'r tri a gyflwynwyd eisoes.
- Dylai'r disgyblion ddarllen y sefyllfa ar **Cerdyn Siarad 1** mewn paru:
A: Rwy't ti'n aros dros nos gyda ffrindiau.
Mae Mam yn ffonio yn y bore.
B: Mam wyt ti.
Siaradwch.

Tynnwch sylw at y cwestiynau a'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn a dywedwch wrth y disgyblion eu bod nhw'n mynd i actio'r sefyllfa hon. Cyn dechrau, fodd bynnag, adolygwch eiriau y gallen nhw'u defnyddio er mwyn ateb y cwestiwn:

Beth wyt ti'n wneud?

e.e.

chwarae gêm

chwarae pêl

chwarae yn yr ardd

neidio ar y trampolîn

sgipio

gwylïo'r teledu

gwylïo ffilm

darllen

bwyta

bwyta brechwast

- Cyn chwarae'r darn olaf, gofynnwch i'r disgyblion restru cynifer o eiriau sy'n gysylltiedig â dillad â phosib. Cyflwynwch elfen o hwyl:
Pwy sy'n gallu gwneud y rhestr hira?
Gallech chi gyfyngu'r amser, e.e.
Dwy / Dau funud
Ar ôl iddyn nhw orffen, gofynnwch
Sawl un?
a gofynnwch iddyn nhw roi'r rhif yn Gymraeg.

Gofynnwch ydyn nhw'n cofio beth mae Dyfs yn ei wisgo:

Beth mae Dyfs yn wisgo?

Pyjamas.

Pa liw?

Glas.

Gofynnwch iddyn nhw oes dillad eraill yn y goedwig.

Oes dillad eraill yn y goedwig?

Oes.

Ble?; Ble mae'r dillad?

Ar y goeden.

Beth sy ar y goeden?

Crys T a jins.

- Chwaraewch y rhan olaf. Gofynnwch i'r disgyblion:
Pa ddillad sy yn y goedwig?
Crys T a jins.

Sanau.
Pants.

- Gofynnwch i'r disgyblion geisio cofio beth mae Dyfs wedi cymryd gydag e i'r goedwig. Gallen nhw restru'r bwyd / dillad yn ogystal â phethau fel :

pabell
sosban

a.y.b.

Os nad yw'r disgyblion yn gwybod y geiriau Cymraeg, derbyniwch y geiriau Saesneg ond rhowch y gair Cymraeg iddyn nhw.

- Dylai'r disgyblion drafod y sefyllfa ar **Cerdyn Siarad 2** mewn parau:
Rydych chi'n mynd i wersylla yn y goedwig. Beth ydych chi'n pacio yn y bag?

Dylai'r disgyblion drafod syniadau, gan ddefnyddio'r geiriau sy'n cael eu rhestru uchod.

Yna, gallai'r disgyblion gymharu eu syniadau gyda syniadau grwpiau eraill:

Rydyn ni eisiau ...

Ydych chi eisiau ...?

Ydyn. / Nac ydyn.

neu

Beth sy yn y bag?

Yn y bag, mae ...

- Dylid cyflwyno a darllen **Yn y Goedwig yn y Nos**.

Awgrymir gweithgareddau penodol yng nghefn y llyfr. Yn ogystal, dylid trafod diwedd y stori – beth sy'n gwneud y sŵn tu allan i'r babel? Beth ydy'r cysgod ar y babel? Gofynnwch:

Beth ydy hwn? (gan bwyntio at y cysgod)

neu

Pwy ydy hwn? (gan bwyntio at y cysgod)

neu

Beth ydy'r cysgod?

Gwahoddwch y disgyblion i gynnig eu syniadau eu hunain – yn Saesneg neu Gymraeg fel y bo'n briodol.

Dyma rai syniadau posibl:

Steff / Ffrind.

Mae Steff yn chwarae tric.

Bwystfil / Bwystfil mawr.

Mae bwystfil mawr yn y goedwig.

Anifail.

Mae anifail mawr (coch a du) yn y goedwig. (Gofynnwch iddyn nhw ddefnyddio cynifer o eiriau disgrifio â phosib.)

Cath fawr, fawr. (Sylwer: mae'r ansoddair **mawr** yn treiglo ar ôl yr enw **cath** gan ei fod yn enw benywaidd unigol.)

Ci mawr, mawr.

Aliwns.

Mae aliwns yn y goedwig.

Yn ogystal, gallen nhw feddwl am ddiweddglu ar gyfer y stori – yn Gymraeg neu Saesneg. Yna, gallen nhw dynnu lluniau i gyfleu eu diweddglu a gallen nhw gynnwys swigod siarad, e.e.

Oooo, dw i'n ofnus!

Help!

Beth ydy hwn? O, na!

Neu, gallen nhw dynnu un llun mawr ac ysgrifennu ambell frawddeg i gyd-fynd ag e, e.e.

Mae Dyfs yn cuddio o dan y gwely / sach gysgu.

Mae Dyfs yn cau'r zip.

Mae Dyfs yn rhedeg.
Mae Dyfs yn ffonio Mam.

Gallai'r disgyblion actio'r stori hefyd, gan ymgorffori eu diweddglo eu hunain.

- Gofynnwch i'r disgyblion am eu barn am y llyfr, e.e.

Wyt ti'n hoffi'r llyfr?

Ydw.

Dw i'n hoffi'r llyfr. Mae'n dda.

Dw i'n hoffi'r llyfr achos dw i'n hoffi'r stori.

Dw i'n hoffi'r llyfr achos dw i'n hoffi'r lluniau.

Dw i'n hoffi'r llyfr achos dw i'n hoffi cartwnau.

Nac ydw.

Dw i ddim yn hoffi'r llyfr.

Dw i ddim yn hoffi'r llyfr achos dw i ddim yn hoffi'r stori / lluniau / cartwnau.

- Chwaraewch ran gynta'r ffilm eto – hyd at y man lle mae'r ffôn yn canu, ond y tro hwn, gofynnwch i'r disgyblion gau eu llygaid, gwrando'n ofalus ac yna rhestru'r hyn maen nhw'n gallu ei glywed:

Beth ydych chi'n gallu clywed?

Adar.

Dyfs (yn siarad).

Cloc.

Miwsig. / Cerddoriaeth.

Zip.

Ffôn (yn canu).

Derbyniwch eiriau Saesneg fel y bo'n briodol, e.e. *A yawn*.

Chwaraewch y rhan gyntaf eto a gofynnwch i'r disgyblion wrando'n ofalus ar y gerddoriaeth gefndirol, sef *Y Bore* allan o *Gyfras Peer Gynt* gan Grieg.

Yna, gallech chi chwarae fersiwn arall o'r darn, gyda cherddorfa'n chwarae'r brif thema. Gofynnwch i'r disgyblion ddisgrifio sut maen nhw'n teimlo wrth iddyn nhw glywed y gerddoriaeth:

Sut ydych chi'n teimlo?

Sut wyt ti'n teimlo?

Dw i'n teimlo'n hapus.

drist

gyffrous

fywiog

Gallai'r disgyblion fynegi eu barn am y gerddoriaeth hefyd.

Dywedwch wrth y disgyblion beth ydy teitl y darn a gofynnwch iddyn nhw wrando arno'n ofalus eto oherwydd bydd yn rhaid iddyn nhw drafod beth sy'n dod i'w meddyliau wrth wrando.

Trafodwch eu syniadau – yn Gymraeg neu Saesneg fel y bo'n briodol. Yn ogystal, gallai'r disgyblion wneud delweddau i gyd-fynd â'r darn sy'n adlewyrchu'r hyn sy'n dod i'w meddwl wrth iddyn nhw wrando arno.

Trafodwch pam mae'r gerddoriaeth yn addas ar ddechrau'r DVD.

- Gellir cysylltu'r uned hon gyda phrofiadau gwrsylla, lle mae'r disgyblion yn gwrsylla am y dydd ar dir yr ysgol neu mewn coedwig. Byddai'r disgyblion, wedyn, yn gallu gwneud amryw weithgareddau sy'n gysylltiedig â gwrsylla, e.e. paratoi bwyd a bwyta yn yr awyr agored, gwrando ar / actio storïau (yr un a grybwyllwyd uchod, efallai), canu caneuon Cymraeg, gwneud gweithgareddau mewn cyd-destun awyr agored, e.e. mesur, gwaith maes a.y.b. Rhoddir rhagor o awgrymiadau am waith maes yn Rhan 2.

Uned 1: Rhan 2 – Yn y goedwig

Nodau:

- Cyflwyno ac adolygu geirfa a phatrymau y gellir eu defnyddio wrth ymgymryd â gwaith maes
- Parhau i fynegi barn, e.e. **Mae sbwriel yn ofnadwy.**
- Adolygu a defnyddio mewn cyd-destunau ystyrion eirfa a phatrymau iaith a ddysgwyd eisoes.

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Beth am dynnu lluniau? Cofiwch.	edrych ar chwyddwydr ar y llawr anifeiliaid y goedwig boncath aderyn, adar pryfed bach buwch goch gota cwningen llwynog pridd logyn, boncyff

Patrymau a geirfa sy'n gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Ydych chi'n barod? Ydych chi'n gallu clywed sŵn? Ydyn. / Nac ydyn. Beth sy yn y goedwig? Beth arall sy yn y goedwig? Beth nesa? Beth am wneud llun? Does dim ... Does dim sŵn. Gorchmynion Gwrandewch. Gwrandewch yn ofalus. Edrychwch. Edrychwch yn ofalus. Rhaid Rhaid cerdded yn dawel. Rhaid aros yn dawel. Rhaid rhoi sbwriel yn y bin.	y goedwig clipfwrdd papur pensil bwced camera llwy plât gwyn coed dail ar y llawr llwybr blodau rhoi rhwbio anifeiliaid sbwriel papur pecyn carton potel ofnadwy

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Ydych chi'n barod?; Ydyn.; Nac ydyn.

Yn gynta ...

Beth sy yn y goedwig?

Gwrandewch.; Gwrandewch yn ofalus.

Sh, dim sŵn.

Edrychwch.; Edrychwch yn ofalus.

Rhaid cerdded yn dawel!

Rhaid aros yn dawel!

Beth nesa?

Beth am dynnu llun / wneud llun?; Beth am dynnu lluniau?

Rhaid rhoi sbwriel yn y bin.

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Prif nod yr uned hon yw defnyddio'r Gymraeg wrth wneud gwaith maes ac felly mae geirfa a phatrymau perthnasol yn cael eu cyflwyno. Mae'r rhain yn cael eu hatgyfnerthu yn Rhan 3 hefyd. Dylid trefnu i ymweld â choedwig os ydy hyn yn bosibl, ond os nad ydyw, gallai'r disgyblion wneud astudiaeth o fuarth yr ysgol neu o rywle arall sy'n addas.

Eglurwch fod Dyfs yn mynd i wneud gwaith maes yn y ffilm **Yn y goedwig** (Uned 1, Rhan 2).

- Chwaraewch y darn cyntaf – hyd at y man lle mae Dyfs wedi pacio gwahanol offer yn ei fag ac mae'r geiriau Cymraeg ar gyfer yr eitemau hyn yn cael eu cyflwyno. Wrth i'r disgyblion wyllo, anogwch nhw i ymateb i gwestiynau Dyfs, e.e.

Sut ydych chi heddiw?

Ydych chi eisiau edrych ar y goedwig?

Ydyn.; Nac ydyn.

- Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw'n cofio'r geiriau Cymraeg am yr eitemau amrywiol. Gellid gwneud hyn mewn cwis a gellid rhoi pwyntiau am bob darn sy'n cael ei enwi. Gellid rhoi 10 pwynt am eiriau newydd megis **chwyddwydr**.
- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 3**, sy'n atgyfnerthu'r iaith sy'n cael ei defnyddio ar **Cerdyn Siarad 2** ac yn adolygu'r geiriau sy'n cael eu rhestru uchod:
Rydych chi'n mynd i edrych ar y goedwig neu'r iard. Beth ydych chi'n pacio yn y bag?

Dylai'r disgyblion drafod syniadau gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn. Gallen nhw gynnwys bwyd / dillad hefyd os yw'n briodol. Yna, gallen nhw gymharu eu syniadau gyda grwpiau eraill:

Rydyn ni eisiau ...

Ydych chi eisiau ...?

Ydyn. / Nac ydyn.

neu

Beth sy yn y bag?

Yn y bag, mae ...

- Cyn chwarae'r adran nesa, gofynnwch i'r disgyblion am y geiriau Cymraeg am:
Listen. - **Gwrandewch.**
Look. - **Edrychwch.**
Must walk. **Rhaid cerdded.**
Must wait. **Rhaid aros.**

Yna, gallwch chi gyflwyno / adolygu:

yn ofalus: **Gwrandewch yn ofalus.**
 Edrychwch yn ofalus.

yn dawel: **Rhaid cerdded yn dawel.**
 Rhaid aros yn dawel.

Gallwch chi ddefnyddio'r ymadroddion hyn yn aml yng ngyd-destun yr ysgol a'u defnyddio yn ystod gwaith maes yn ogystal.

Chwaraewch **Mae Simon yn dweud** er mwyn ymarfer y gorchmynion hyn os yw'n briodol. Cyn dechrau, cytunwch gyda'r disgyblon sut y byddan nhw'n cyfleu'r ymadroddion uchod.

- Chwaraewch y darn nesaf, lle mae Dyfs yn gwneud gwaith maes yn y goedwig – hyd at y man lle mae'r ffotograffau'n cael eu dangos. Canolbwyntiwch ar y gorchmynion eto.
- Gellid cyflwyno'r daflen darllen **Yn y Goedwig** gan ei bod yn cyfeirio at yr un anifeiliaid ag y mae Dyfs yn eu crybwyll ar y ffilm.
- Ysgrifennwch enwau'r adar a'r anifeiliaid ar y bwrdd gwyn. Gofynnwch i'r disgyblion dynnu llun a labelu'r anifeiliaid a'r adar hyn a gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu darn byr o dan bob un, e.e.
Enw: Llwynog.
Lliw: Brown.
Byw: Mewn twll yn y goedwig.
Bwyta: Cwningen / Cwningod.
neu
Dyma'r llwynog. Mae e'n / o'n frown. Mae e'n / o'n byw mewn twll yn y goedwig. Mae e'n / o'n bwyta cwningen / cwningod.
- Atgyfnerthwch y wybodaeth, yr eirfa a'r patrymau mewn cwis lle y gall y disgyblion geisio ennill pwyntiau, e.e.
Pa liw ydy'r boncath?
Pa liw ydy'r fuwch goch gota?

Ble mae'r boncath yn byw?
Ble mae'r fuwch goch gota'n byw?

Beth mae'r boncath yn fwyta?
Beth mae'r fuwch goch gota'n fwyta?

Sawl marc / pwynt?
Pwy sy wedi ennill?

Yna, gellir llunio'r gadwyn fwyd, gan ddefnyddio'r anifeiliaid a'r adar a nodir ar y cerdyn.

Mae'r pryfed bach yn bwyta'r dail.
Mae'r fuwch goch gota'n bwyta'r pryfed bach.
Mae'r aderyn yn bwyta'r fuwch goch gota.
Mae'r boncath yn bwyta'r aderyn.
a.y.b.

Gallai'r disgyblion dynnu lluniau tebyg o goedwigoedd, gan gynnwys anifeiliaid eraill sy'n rhan o gadwyni bwyd. Yna, gallen nhw drafod y cadwyni bwyd mewn grwpiau.

- Gofynnwch i'r disgyblion beth arall y gallen nhw ei weld yn y goedwig – yn Gymraeg neu yn Saesneg, fel y bo'n briodol. Rhestrwch yr anifeiliaid a'r adar a.y.b.

- Gellir defnyddio'r eirfa a'r ymadroddion sydd wedi cael eu cyflwyno / adolygu pan fydd y disgyblion yn gwneud gwaith maes, e.e.

Gofynnwch i'r disgyblion wrando ac edrych yn ofalus o'u cwmpas er mwyn tynnu llun o'r hyn maen nhw'n ei weld:

Beth sy yn y goedwig?
Beth sy ar y buarth / ar yr iard?
Gwrandewch yn ofalus.
Edrychwch yn ofalus.
Tynnwch luniau.

Gallech chi baratoi gridiau ymlaen llaw, e.e.

Dw i'n gallu clywed ...	Ble:

Dw i'n gallu gweld ...	Ble:

- Gallai'r disgyblion wneud gwaith celf yn y goedwig, e.e. rhwbiadau dail a.y.b. a gallen nhw wneud mowldiau plastr o olion traed. Yna, ar ôl dychwelyd i'r ystafell ddosbarth gallen nhw chwilio am wybodaeth am yr anifeiliaid sydd wedi gwneud yr olion hyn.

- Os yw'n briodol, gallen nhw gyfrifo oed y coed:

Faint ydy oed y goeden?

I ddechrau, gallen nhw amcangyfrif, e.e.

chwe deg oed
wyth deg pump oed
cant oed
cant tri deg oed

Yna, gallen nhw gyfrifo oed y goeden. Mewn parau, dylen nhw roi tâp mesur o gwmpas y goeden tua 1.5 metr oddi ar y ddaear:

Rhowch y tâp mesur rownd y goeden - tua un pwynt pum metr o'r llawr.

Yna, dylen nhw fesur:

Mesurwch.
Sawl centimetr?

Yna, dylen nhw rannu â 2.5:

Rhannwch â dau pwynt pump.
Faint ydy oed y goeden?
... oed.

- Gallai'r gwaith hwn arwain at ymchwil yn yr ystafell ddosbarth, gan ofyn i'r disgyblion chwilio am ragor o wybodaeth am yr hyn maen nhw wedi'i weld, e.e. y mathau o ddail maen nhw wedi'u casglu, rhagor o wybodaeth am yr anifeiliaid / creaduriaid bach maen nhw wedi'u gweld. Gellid cofnodi gwybodaeth yn syml, e.e.

Enw:
Lliw:
Byw:
Bwyta:
Sawl coes:
Sawl llygad:

- Gallai'r disgyblion greu arddangosfa liwgar neu gallen nhw ymgymryd ag amryw weithgareddau dylunio a thechnoleg mewn perthynas â'r gwaith hwn. Wrth iddyn nhw weithio, gallai'r disgyblion ofyn i'w gilydd:

Beth wyt ti'n wneud?

Dw i'n ...

Beth wyt ti'n ddefnyddio?

Dw i'n defnyddio ...

Dylid eu hannog i werthuso gwaith ei gilydd hefyd:

Mae'n hyfryd!

Mae'r lliwiau'n dda iawn.

Dw i'n hoffi'r gwyrdd tywyll.

Dw i'n hoffi'r patrwm yma.

Mae'r patrwm yma'n ardderchog.

Mae'r siâp yma'n dda.

Wyt ti'n hoffi'r ...?

Gellid adolygu'r gair **effeithiol**:

Mae'r lliwiau'n effeithiol.

Mae'r patrwm yn effeithiol.

Mae'r siapiau'n effeithiol iawn.

- Chwaraewch ran nesa'r ffilm – hyd at y man lle mae Dyfs yn taflu'r sbwriel i'r bin. Gofynnwch i'r disgyblion pa sbwriel sydd i'w weld yn y goedwig.

Sbwriel	
Beth:	Ble:

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 4**:

Rydych chi'n cerdded yn y goedwig neu ar yr iard. Rydych chi'n gweld sbwriel. Siaradwch am hyn.

Gan ddefnyddio'r patrymau a restrir ar y cerdyn, ynghyd ag unrhyw ymadroddion eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw, dylai'r disgyblion actio'r sefyllfa, e.e. maen nhw'n cerdded / chwarae yn y goedwig, yn mwynhau eu hunain ac maen nhw'n gweld sbwriel. Maen nhw'n gofyn i'w gilydd beth ydy'r eitemau o sbwriel. Maen nhw'n penderfynu bod sbwriel yn ofnadwy ac yn siarad am beth y dylid ei wneud:

Rhaid rhoi sbwriel yn y bin.

Gallen nhw ddatblygu'r sgwrs fel y mynnan nhw, wrth gwrs.

- Dangoswch ran olaf y ffilm. Gofynnwch i'r disgyblion restru beth mae Dyfs yn ei wneud yn goedwig. Gofynnwch iddyn nhw beth maen nhw'n hoffi ei wneud yn y goedwig neu pa weithgareddau maen nhw'n eu mwynhau pan fyddan nhw'n chwarae yn yr awyr agored:

Beth wyt ti'n hoffi wneud yn y goedwig?

Beth wyt ti'n hoffi wneud tu allan?

Dw i'n hoffi ...

Dw i'n hoffi ... yn fawr.

Gofynnwch iddyn nhw restru gweithgareddau posibl.

Yna, gofynnwch iddyn nhw lunio holiaduron er mwyn darganfod pa weithgareddau awyr agored mae aelodau eraill y grŵp yn eu hoffi.

Adolygwch yr eirfa:

Wyt ti'n hoffi ...?

Ydw. / Nac ydw.

Gallai'r disgyblion lunio graffiau ar sail eu canfyddiadau ac yna gallen nhw eu hegluro, e.e.

Mae tri yn hoffi neidio.

Mae dau yn hoffi beicio.

Mae un yn hoffi chwarae pêl-droed.

Efallai bydd angen i chi gyflwyno patrwm newydd:

Does neb yn hoffi ...

- Gallai'r disgyblion ysgrifennu'n syml am eu gwaith maes, gan ddefnyddio patrymau a gyflwynwyd eisoes yn P-aC₁ ac yn ystod y Cyfnod Sylfaen o bosib. Mae'r patrymau hyn yn cael eu hadolygu yn Rhan 5 yr uned hon yn ogystal.

Es i i'r goedwig.

Es i gyda ffrindiau.

Roedd e'n / o'n wych.

Roedd e'n / o'n grêt.

Roedd e'n / o'n ffantastig.

Gwelais / Gweles i'r coed.

Gwelais / Gweles i'r anifeiliaid.

Gwelais / Gweles i'r dail (coch / melyn / brown).

Gwelais / Gweles i'r blodau pinc / glas.

Gallen nhw gynnwys delweddau o ddail, ffotograffau a.y.b. gyda'u gwaith ysgrifennu a gellid egluro'r rhain yn syml, e.e.

Dyma'r ...

Dyma'r ... yn y goedwig.

Dyma'r ... o dan y coed yn y goedwig.

Dyma'r ... ar y llawr o dan y coed yn y goedwig.

Yn ogystal, gallai'r disgyblion ffilmio'r gwaith maes ac ysgrifennu sgript y gellid ei golygu i mewn iddi fel troslais.

- Chwaraewch ran o'r ffilm eto a gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:

Wyt ti'n hoffi'r DVD?

Ydw.

Ydw. Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n dda.

Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n dda iawn.

Dw i'n hoffi'r DVD achos dw i'n hoffi mynd i'r goedwig.

Nac ydw.

Nac ydw. Dw i ddim yn hoffi'r DVD.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ofnadwy.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos mae'n ddiflas.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos dw i ddim yn hoffi edrych ar y goedwig.

Uned 1: Rhan 3 – Ar y traeth

Nodau:

- Adolygu a datblygu geirfa a phatrymau y gellir eu defnyddio wrth wneud gwaith maes a’u trosglwyddo i sefyllfa wahanol - **ar y traeth**
- Adolygu mynegi barn, e.e. **Mae’n wych.; Mae’n grêt.; Mae’n ffantastig.**
- Adolygu geiriau a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a’u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon.

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
	pwll cerrig bach cerrig mawr

Patrymau a geirfa sy’n gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
<p>Cwestiynau ac atebion Ydych chi eisiau clywed? Ydych chi eisiau edrych ar y traeth? Beth wyt ti’n wneud? Beth sy ar y traeth? Ble mae’r bin?</p> <p>Hoffi Dw i’n hoffi mynd i’r traeth.</p> <p>Does dim ... Does dim sŵn.</p> <p>Gorchmynion Esgusodwch fi. Dewch. Dewch i weld y lluniau. Gwrandewch. Gwrandewch yn ofalus. Edrychwch. Edrychwch yn ofalus.</p> <p>Rhaid Rhaid cerdded yn dawel. Rhaid aros yn dawel. Rhaid rhoi sbwriel yn y bin.</p>	<p>traeth cerdded rhedeg darllen cael picnic padlo sblasio clipfwrdd papur pensil bwced ffôn chwyddwydr rhaw rhwyd rhoi cragen, cregyn patrwm hanner cylch cylch y môr adar tywod castell tywod sbwriel papur pecyn carton potel ofnadwy</p>

Trosglwyddo’r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio’r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai’n hawdd trosglwyddo llawer o’r patrymau sy’n cael eu cyflwyno a’u hadolygu yn y rhan hon o’r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Pardwn?

Edrychwch.; Edrychwch yn ofalus.

Esgusodwch fi.

Beth wyt ti’n wneud?; Dw i’n ... [Hefyd: **Beth ydych chi’n wneud?; Rydyn ni’n ...**]

Gwrandewch.; Gwrandewch yn ofalus.

Sh, dim sŵn.

Beth sy ar y (traeth)?

Beth arall?

Ydych chi'n gallu clywed ...?

Rhaid rhoi sbwriel yn y bin.

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Prif nodau'r uned hon yw atgyfnerthu'r patrymau iaith a gyflwynwyd yn Rhan 2 a defnyddio'r Gymraeg wrth wneud gwaith maes. Yn yr uned hon, mae Izzy'n astudio traeth ond gellid dewis manau addas eraill.
- Dangoswch y ffilm, **Ar y traeth** (Uned 1, Rhan 3) i gyd. Anogwch y disgyblion i ymateb fel y bo'n briodol i gwestiynau Izzy, e.e.
Sut ydych chi?
Ydych chi eisiau clywed?
Ydych chi eisiau edrych ar y traeth gyda fi?
Ydyn.; Nac ydyn.
- Gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:
Wyt ti'n hoffi'r DVD?
Ydw.
Ydw. Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n dda.
Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n dda iawn.
Dw i'n hoffi'r DVD achos dw i'n hoffi gweld y traeth.

Nac ydw.
Nac ydw. Dw i ddim yn hoffi'r DVD.
Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ofnadwy.
Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos mae'n ddiflas.
- Chwaraewch y rhan gyntaf eto, lle mae Izzy'n siarad am beth mae hi'n hoffi'i wneud ar y traeth, gan orffen gyda'r ffotograffau o Izzy'n gwneud gweithgareddau gwahanol ar y traeth. Gofynnwch i'r disgyblion restru beth mae hi'n hoffi'i wneud yno. Gallech chi ddangos y ffotograffau eto os ydych chi'n dymuno:
Gwnewch restr.
cerdded
rhedeg
darllen
cael picnic
padlo
sblasio
- Cyflwynwch y cerdyn darllen **Ar y Traeth**. Canolbwyntiwch ar y berfau a gofynnwch i'r disgyblion eu meimio nhw yn eu tro fel bod aelodau eraill y dosbarth yn dyfalu beth ydyn nhw.

Yna, gofynnwch i'r disgyblion feddwl am leoliad arall lle y gallen nhw wneud gweithgareddau tebyg, e.e.

Yn y parc

Yn y goedwig

Yn yr ardd

Trafodwch beth arall y gallai'r disgyblion ei wneud yn y lleoliadau hyn. Gellid dilyn hyn gyda chystadleuaeth lle mae'r disgyblion yn gwneud rhestr o eirfa berthnasol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau. Gallen nhw ddefnyddio'r geiriau a gyflwynir ar y DVD ac unrhyw eiriau eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw. Cyflwynwch ychydig o hwyl drwy osod her:

Pwy sy'n gallu gwneud y rhestr hira?

Gallech chi gyfyngu'r amser, e.e.

Dwy funud. (De Cymru) / **Dau funud.** (Gogledd Cymru)

Ar ôl iddyn nhw orffen, gofynnwch:

Sawl un?

a gofynnwch iddyn nhw roi'r nifer yn Gymraeg.

Dyma rai geiriau sy'n gyfarwydd iddyn nhw efallai:

neidio

beicio

sgipio

cicio pêl

dringo

darllen

bwyta hufen iâ

taflu'r dail

cicio'r dail

chwarae

chwarae gêm

chwarae cuddio

chwarae tennis

chwarae gyda'r cwch

chwarae yn y tywod

chwarae gyda barcud

chwarae yn yr eira

chwarae gyda'r dail

chwarae pêl-droed

Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu cerddi tebyg sy'n gysylltiedig â gwahanol leoliadau. Bydd angen iddyn nhw newid llinell olaf pob pennill fel ei bod yn addas ar gyfer y lleoliad newydd.

- Wrth i Izzy gyfeirio at fwyta picnic, gallai'r disgyblion benderfynu pa fath o fwyd iach y gallen nhw ei gynnwys mewn picnic ar y traeth:

Pa fwyd?

Pa ffrwythau?

Pa lysiau?

Pa frechdanau?

Gallen nhw ddylunio posteri, taflenni, bwydlenni i gyfleu eu syniadau ac yna gallen nhw gymharu syniadau, e.e.

Dw i eisiau ...

Dw i ddim eisiau ... dw i eisiau ...

- Chwaraewch y rhan nesaf, lle mae'r ffôn yn canu – hyd at y man lle mae Izzy'n colli'r signal ac mae hi'n rhoi'r ffôn yn ôl yn ei phoced. Adolygwch y patrymau a gyflwynwyd eisoes yn Rhan 1:

Sut wyt ti?

Ble wyt ti?

Beth wyt ti'n wneud?

Wyt ti'n hoffi ...?

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 5**

A: Rwyd ti'n ffonio Izzy ar y traeth.

B: Izzy wyt ti. Rwyd ti ar y traeth.

Siaradwch.

Gan ddefnyddio'r eirfa a'r patrymau a restrir ar y cerdyn ac unrhyw eirfa a phatrymau cyfarwydd eraill, dylai'r disgyblion actio'r sefyllfa.

- Chwaraewch y rhan nesaf, lle mae Izzy'n gofyn:
Ydych chi eisiau edrych ar y traeth gyda fi?

Dylai'r disgyblion ateb:

Ydyn. neu efallai **Nac ydyn.**

Stopiwch y ffilm ar ôl iddi ddweud:

Dewch!

a gofynnwch i'r disgyblion feddwl eto am waith maes Dyfs yn y goedwig, ac i geisio cofio pa offer a gymerodd e gydag e. Gofynnwch:

Beth mae Izzy eisiau / angen?

Yna, dylai'r disgyblion restru'r eitemau mae eu hangen arni er mwyn gwneud y gwaith maes.

- Chwaraewch y rhan nesaf – hyd at y man lle mae'r ffotograffau'n cael eu dangos.

Cymharwch yr offer ar y ffilm gyda'r eitemau mae'r disgyblion wedi'u rhestru. Oes rhywun wedi rhestru'r un eitemau ag Izzy?

Os gellir trefnu ymweliad â'r traeth, gallech chi ddefnyddio'r patrymau iaith sy'n cael eu defnyddio yn y rhan hon o'r ffilm, gan addasu'r eirfa yn ôl yr angen. Gallai'r disgyblion gofnodi beth maen nhw'n ei glywed ac yn ei weld – yn union fel y mae Izzy'n ei wneud ar y ffilm:

Dw i'n gallu clywed ...

Dw i'n gallu gweld ...

- Gellid gwneud gwaith pellach mewn perthynas â'r anifeiliaid bach y gellir eu gweld yn y pyllau dŵr fel arfer e.e. **cranc, pysgod bach.**
- Ar ôl trafod beth maen nhw'n debygol o'i ddarganfod mewn pyllau dŵr – yn Saesneg neu Gymraeg, fel y bo'n briodol – gallai'r disgyblion chwilio am wybodaeth ac ysgrifennu'n syml am yr anifeiliaid a.y.b. Byddai hyn yn adolygu'r gwaith a wnaed yn Rhan 2, e.e.

Enw: Cranc.

Lliw: Oren.

Byw: Mewn pwll dŵr.

Bwyta: Anifeiliaid bach yn y dŵr.

neu

Dyma'r cranc. Mae e'n / o'n oren. Mae e'n / o'n byw mewn pwll dŵr. Mae e'n / o'n bwyta anifeiliaid bach yn y dŵr.

Yn ogystal, gallen nhw lunio cadwyni bwyd mewn perthynas â'r anifeiliaid / adar a welir ar y traeth:

Mae ... yn bwyta ...

- Gan ddefnyddio deunyddiau o'u dewis eu hunain, gallai'r disgyblion wneud collage neu fodolau 3D i gyfleu glan y môr. Yn ogystal, gallen nhw ddefnyddio cerrig mân ar gyfer creu darnau o waith celf.

Byddai hyn yn rhoi cyfle da i drafod beth maen nhw'n ei wneud a beth maen nhw'n ei ddefnyddio:

Beth wyt ti'n wneud?

Dw i'n ...

Beth wyt ti'n ddefnyddio?

Dw i'n defnyddio ...

Dylid eu hannog i werthuso gwaith ei gilydd:

Mae'n hyfryd!

Mae'r lliwiau'n dda iawn.

Dw i'n hoffi'r glas tywyll.

Dw i'n hoffi'r patrwm yma.

Mae'r patrwm yma'n ardderchog.

Mae'r siâp yma'n dda.

Wyt ti'n hoffi'r ...?

Gellid adolygu'r gair **effeithiol**:

Mae'r lliwiau'n effeithiol.

Mae'r patrwm yn effeithiol.

Mae'r siapiau'n effeithiol iawn.

Byddai labelu'r collage yn rhoi cyfleoedd i atgyfnerthu'r geiriau a gyflwynwyd yn yr uned:

y môr

adar

tywod

castell tywod

cregyn
cranc
pysgod bach

- Yn ogystal, gallai'r disgyblion ddefnyddio cregyn neu gerrig mân ar gyfer gwneud siapiau mathemategol, e.e.

hanner cylch
cylch
triangl
sgwâr
petryal
pentagon
octagon

- Chwaraewch y rhan olaf.

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 4** eto:

Rydych chi'n cerdded yn y goedwig neu ar yr iard. Rydych chi'n gweld sbwriel. Siaradwch am hyn.

Y tro hwn, addaswch y dasg fel ei bod yn addas ar gyfer y traeth.

Rydych chi'n cerdded ar y traeth. Rydych chi'n gweld sbwriel. Siaradwch am hyn.

Gan ddefnyddio'r patrymau a restrir ar y cerdyn, dylai'r disgyblion actio'r sefyllfa lle maen nhw'n cerdded / chwarae ar y traeth, yn mwynhau eu hunain ac maen nhw'n gweld sbwriel. Maen nhw'n gofyn i'w gilydd beth ydy'r eitemau amrywiol. Maen nhw'n penderfynu bod sbwriel yn ofnadwy ac maen nhw'n trafod beth y dylid ei wneud:

Rhaid rhoi sbwriel yn y bin.

Gallen nhw ddatblygu'r sgwrs fel y mynnan nhw, wrth gwrs.

Gallen nhw wneud posteri, taflenni neu baratoi cyflwyniad ar gyfer gwasanaeth yr ysgol yn egluro bod sbwriel yn ofnadwy ac y dylid ei roi yn y bin.

Gallai eu gwaith ddangos:

enghreifftiau o sbwriel – wedi'u labelu neu eu hegluro yn Gymraeg

y datganiad: **Mae sbwriel yn ofnadwy!**

y gorchymyn: **Rhaid rhoi sbwriel yn y bin.**

- Gallai'r disgyblion ysgrifennu'n syml am eu gwaith maes, gan ddefnyddio patrymau a gyflwynwyd eisoes yn P-aC₁ ac yn ystod y Cyfnod Sylfaen o bosib. Mae'r patrymau hyn yn cael eu hadolygu yn Rhan 5 hefyd, e.e.

Es i i'r traeth.

Es i gyda ffrindiau.

Roedd e'n / o'n wych.

Roedd e'n / o'n grêt.

Roedd e'n / o'n ffantastig.

Gwelais / Gweles i'r môr.

Gwelais / Gweles i'r anifeiliaid bach.

a.y.b.

Gallen nhw gynnwys delweddau o gregyn, ffotograffau maen nhw wedi'u cymryd a.y.b. gyda'u gwaith ysgrifenedig. Gellid egluro'r rhain yn syml, e.e.

Dyma'r cregyn glas.

Dyma'r cregyn glas ar y traeth.

Dyma'r cregyn glas wrth y môr ar y traeth.

Yn ogystal, gallai'r disgyblion ffilmio'r gwaith maes ac ysgrifennu sgrïpt a'i golygu i mewn fel troslais.

- Chwaraewch yr adran olaf eto.

Gan fod Izzy'n dangos ei ffotograffau – a gan fod Dyfs wedi dangos ei ffotograffau yntau yn Rhan 2 – gallai'r disgyblion ddod â ffotograffau o ymweliad â rhywle i'r ysgol. Yna, gallen nhw eu trafod:

Dyma'r ffair.

Dyma fi.

Dyma Dad.

Dyma Jake.

Gallen nhw roi rhagor o fanylion:

Dyma'r ffair yn ...

Dw i'n hoffi'r ffair. Dw i'n hoffi'r ...

Dylid adolygu'r patrymau canlynol fel bod y grŵp sy'n edrych ar y ffotograffau'n gallu gofyn cwestiynau perthnasol:

Pwy?

Pwy ydy hwn?

Pwy ydy hon? (Efallai bod hyn yn newydd.)

Beth ydy hwn?

Ble?

Ble mae'r ffair?

Wyt ti'n hoffi ...?

- Gellid cyflwyno a dysgu'r gân werin **Ar Lan y Môr**:

Ar lan y môr, mae rhosys cochion,

Ar lan y môr, mae lilis gwynion,

Ar lan y môr, mae 'nghariad inne,

Yn cysgu'r nos a chodi'r bore.

Gallai'r disgyblion dynnu lluniau i fynd gyda'r gân hon - byddai hyn yn eu helpu i gofio ystyr y geiriau Cymraeg.

Uned 1: Rhan 4 – Y Pod-antur Cymraeg

Nodau:

- Cyflwyno'r Pod-antur Cymraeg ynghyd â geirfa berthnasol, e.e. **antur; hwyl a sbri; teithio; teithio drwy amser**
- Adolygu dod i adnabod rhywun
- Adolygu'r cwestiwn **Beth wyt ti'n gallu gweld?**
- Adolygu ffurfiau'r amser gorffennol a gyflwynwyd yn P-aC₁ ac o bosib yn y Cyfnod Sylfaen e.e. **Es i i ...; Roedd e'n / o'n anhygoel.**
- Adolygu geiriau a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrllon.

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Croeso i'r Pod-antur Cymraeg. Edrychwch o gwmpas. Wyt ti'n iawn? Roedd e'n anhygoel.	antur llawer o (+ treigladd meddal) pobl Awstralia teithio drwy amser dinosor, dinosoriaid dim eto peryglus, yn beryglus anhygoel

Patrymau a geirfa sy'n gyfarwydd

Patrymau	Y brif eirfa
Cwestiynau ac atebion Pwy wyt ti? Wyt ti'n teithio? Ydych chi'n gallu clywed sŵn? Ydw. / Nac ydw. Ble? Ble ydyn ni? Dw i ddim yn gwybod. Ble wyt ti? Ble wyt ti'n teithio? Ble mae Izzy? Beth? Beth ydy hwn? Dw i ddim yn gwybod. Beth wyt ti'n gallu gweld? Dw i'n gallu gweld ... Beth ydy'r sŵn? Ga i ...? Ga i deithio eto? Cei. / Na chei. Gorchmynion Byddwch yn ofalus. Helpa Izzy. Eraill Bobl bach! Mawredd mawr! Nefi wen! O, Mam fach! Mae'n oer. Es i i ... Roedd e'n / o'n ...	hwyl hwyl a sbri teithio adar môr tywod coed dail llwybr pabell tywyll yn bell dod 'nôl

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Ydych chi'n gallu clywed ... ?; Ydyn.; Nac ydyn.

Beth ydy hwn?

Beth ydy'r sŵn?

Dw i ddim yn gwybod.

Edrychwch o gwmpas.

Ga i weld?; Cei.; Na chei.

Byddwch yn ofalus.

Edrycha ar y ...

Ble mae ...?; Ble mae'r ...?

Dere / Tyrd i weld ...

Beth wyt ti'n gallu gweld?; Dw i'n gallu gweld ...

Mae ... yn beryglus.

Wyt ti eisiau help?; Ydw, os gwelwch yn dda.; Nac ydw, dim diolch.

Wyt ti'n iawn?; Ydw, diolch.; Nac ydw.

Anhygoel!

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Dangoswch y ffilm, **Y Pod-antur Cymraeg** (Uned 1, Rhan 4) hyd at y man lle mae Sgrin yn ailadrodd **Croeso i'r Pod-antur Cymraeg**.

Gofynnwch i'r disgyblion ymateb bob tro y mae Dyfs yn gofyn:

Beth ydy hwn?

Gallan nhw naill ai enwi'r gwrthrych neu ddweud

Dw i ddim yn gwybod.

fel mae Izzy'n ei wneud.

Tynnwch sylw at y geiriau cwestiwn sy'n cael eu defnyddio:

Pwy?

Beth?

Ble?

a gwnewch yn siŵr bod y disgyblion yn deall y geiriau hyn. Hefyd, adolygwch:

Tu ôl i chi.

Tu ôl i ni.

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 6:**

A: Dyfs wyt ti ac rwy'ti'n gweld Izzy.

B: Izzy wyt ti ac rwy'ti'n gweld Dyfs.

Siaradwch.

Dylai'r disgyblion ddychmygu eu bod nhw newydd lanio yn y Pod-antur Cymraeg. Maen nhw'n cyfarfod â'i gilydd ac yn dod i adnabod ei gilydd. Anogwch nhw i ddefnyddio cymaint o Gymraeg ac i ofyn cynifer o gwestiynau i'w gilydd â phosib – mae rhai'n cael eu rhestru ar y **Cerdyn Siarad**. Dylen nhw ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd yn Rhannau 1-3 er mwyn ateb cwestiynau ei gilydd, e.e.

Beth wyt ti'n hoffi wneud?

Dw i'n hoffi gwersylla / sblasio yn y môr.

a.y.b.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 7**, sy'n debyg iawn ond sy'n galluogi'r disgyblion i atgyfnerthu'r patrymau hyn, gan gynyddu eu hyder gobeithio:

A: Sgrin wyt ti. Rwy'ti'n siarad gyda Dyfs.

B: Dyfs wyt ti.

Yn ogystal, gallen nhw greu deialog debyg, lle mae Sgrin yn siarad gydag Izzy.

- Chwaraewch y rhan nesaf, lle mae Dyfs ac Izzy'n enwi gwrthrychau sydd i'w gweld yn y Pod-antur Cymraeg a lle mae Sgrin yn egluro beth ydy'r Pod-antur Cymraeg. Stopiwch y ffilm ar ôl i Izzy ddweud:

Mae'r Pod-antur Cymraeg yn ffantastig.

Gallai'r disgyblion ddychmygu sut mae'r **Pod-antur Cymraeg** yn edrych o'r tu allan a thynnu lluniau er mwyn dangos eu syniadau. Gan ddefnyddio deunyddiau o'u dewis eu hunain, gallen nhw wneud Pod-antur Cymraeg a'i beintio. Er mwyn atgyfnerthu'r geiriau:

antur

hwyl a sbri

teithio

gallen nhw ysgrifennu darn byr am y Pod-antur Cymraeg, e.e.

Dyma'r Pod-antur Cymraeg.

Dewch i gael hwyl a sbri.

Dewch i gael antur.

Dewch i deithio.

- Gallech chi ganolbwyntio ar y gair **teithio** er mwyn adolygu gwaith a wnaed eisoes, e.e.

Sut mae teithio?

Gofynnwch i'r disgyblion restru gwahanol fathau o deithio yn Gymraeg:

bws

trên

car

beic

cwch

roced

cerdded

rhedeg

a.y.b.

- Gallech chi hefyd ganolbwyntio ar yr ymadrodd **hwyl a sbri**, e.e.

Wyt ti'n hoffi cael hwyl a sbri?

Gallai'r disgyblion ofyn y cwestiwn hwn i'w gilydd ac ymestyn eu sgysiau drwy ofyn:

Ble? / Ble wyt ti'n cael hwyl a sbri?

Pryd? / Pryd wyt ti'n cael hwyl a sbri?

Gyda pwy? / Gyda pwy wyt ti'n cael hwyl a sbri?

Pam wyt ti'n hoffi ...? Achos ...

- Chwaraewch weddill y ffilm. Stopiwch y ffilm bob tro mae Dyfs yn ceisio dyfalu ble mae Izzy. Ystyriwch y cliwiau bob tro a gofynnwch i'r disgyblion am eu syniadau:

Ble mae Izzy?

Ar y traeth.

Mae hi ar y traeth.

a.y.b.

Sylwer: Gellir trosglwyddo'r cwestiwn ac ateb canlynol, sydd i'w glywed ar y DVD, o'r sefyllfaoedd a glywir ar y DVD i unrhyw sefyllfa lle mae lluniau, mapiau, posteri, gwaith celf a.y.b. yn cael eu trafod:

Beth wyt ti'n gallu gweld?

Dw i'n gallu gweld ... a ...

Os nad yw'r disgyblion yn gwybod y geiriau Cymraeg am unrhyw eitem maen nhw'n ei gweld, gallan nhw ddefnyddio'r geiriau Saesneg o fewn y patrwm Cymraeg.

- Canolbwyntiwch eto ar yr adran lle mae Izzy'n disgrifio beth mae'n ei weld yn Awstralia. Gofynnwch i'r disgyblion restru beth mae'n ei weld:

cangarw

coala

traeth

pobl yn syrffio

Gofynnwch i'r disgyblion ddod o hyd i Awstralia ar fap o'r byd / glôb. Gofynnwch iddyn nhw chwilio am luniau sy'n gysylltiedig â'r wlad ac i egluro wrth ei gilydd beth maen nhw wedi'i ddarganfod. Os nad ydyn nhw'n gwybod y geiriau Cymraeg priodol, gallen nhw chwilio mewn geiriadur plant neu ddefnyddio'r geiriau Saesneg:

Dyma ...

Dyma'r ...

- Anogwch y disgyblion i chwilio am wybodaeth syml am Awstralia, e.e. anifeiliaid, baner, bwyd a.y.b., gan ddefnyddio llyfrau priodol, y rhyngwyd a.y.b. Gallen nhw ysgrifennu'n syml am yr hyn maen nhw'n ei ddarganfod.
- Yna, dylid darllen **Izzy'n Teithio** ac wedyn gellid gwneud y gweithgareddau sy'n cael eu rhestru y tu mewn i glawr ôl y llyfr.
- Gallai'r cyfeiriadau at wahanol gyfnodau hanes arwain at astudiaeth bellach o'r cyfnodau hyn.
- Gallai'r cyfeiriadau at y dinosoriaid arwain at astudiaeth bellach o ddinosoriaid a gallech chi gyflwyno'r daflen darllen, **Dinosoriaid**, (Rhan 5) nawr neu ar ddiwedd Rhan 5.

Gallai'r disgyblion wneud modelau o ddinosoriaid, gan ddefnyddio patrymau iaith priodol. Gweler y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₂**.

- Canolbwyntiwch eto ar yr adran lle mae Izzy'n mynegi barn am ei thaith a thynnwch sylw at ei chyfeiriadau at ddinosoriaid yn benodol. Gan ei bod yn cyfeirio at ddinosoriaid mawr a bach, gallai'r disgyblion greu symudiadau / dawnsiau er mwyn cyfleu'r creaduriaid hyn. Gallen nhw gyfansoddi cerddoriaeth araf a thrwm er mwyn cyfleu dinosoriaid mawr, trwm, ac yna gerddoriaeth ysgafnach er mwyn cyfleu'r dinosoriaid llai.
- Gofynnwch:
Beth mae Izzy'n weld?
Er mwyn adolygu geirfa, gallai'r disgyblion lunio rhestri (mewn grwpiau efallai) o'r pethau mae Izzy'n eu gweld yn ystod ei thaith. Gellid gosod y gwaith hwn fel cystadleuaeth – byddai'r grŵp sy'n cofnodi'r nifer fwyaf o eiriau yn ennill, neu gallai'r grŵp cyntaf i gofnodi 10 gair ennill.
- Ar ddiwedd y ffilm, mae Izzy'n dweud wrth Dyfs i ble'r aeth hi ac mae hi'n mynegi barn am ei thaith:
Es i i'r goedwig.
Roedd e'n ffantastig.
Es i i'r traeth.
Roedd e'n wych.
Es i i Awstralia.
Roedd e'n grêt.
Es i i weld y dinosoriaid.
Roedd e'n anhygoel.
Mawredd mawr! Nefi wen! Bobl bach! Roedd e'n ffantastig.

Cyflwynwyd y patrymau hyn yn P-aC₁ ac maen adeg dda i'w hadolygu.

Gallai'r disgyblion ddangos eu ffotograffau (a drafodwyd ar ddiwedd Rhan 3) eto – i grŵp gwahanol, y tro hwn efallai – ond y tro hwn, dylid defnyddio'r amser gorffennol yn ogystal â'r patrymau iaith a ddefnyddiwyd yn Rhan 3 wrth siarad amdanyn nhw.

- Er mwyn crynhoi cynnwys y DVD, gallai'r disgyblion greu Pod-antur Cymraeg yng nghornel yr ystafell. Byddai hyn yn eu galluogi i actio sefyllfaoedd sy'n codi drwy'r pecyn. Gallen nhw drafod beth hoffon nhw ei gynnwys yn y Pod-antur Cymraeg, e.e.

cyfrifiadur

sgrin

bwrdd

cadair / dwy gadair

- Mewn grwpiau o dri, gallai'r disgyblion actio sefyllfa lle mae un ohonyn nhw (Izzy) yn teithio ac yn rhoi cliwiau am ei lleoliad, un ohonyn nhw (Dyfs) yn ceisio dyfalu ble mae hi, ac un ohonyn nhw (Sgrin) yn rhoi gwybodaeth ac yn cynnig help ar y diwedd. Gallen nhw actio'r sefyllfa fel y mae ar y DVD neu newid y lleoedd mae hi'n ymweld â nhw.

- Chwaraewch ran o'r ffilm eto a gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:

Wyt ti'n hoffi'r DVD?

Ydw.

Ydw, dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n dda iawn.

Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n ddiddorol.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'n ddiddorol.

Dw i'n hoffi'r DVD achos dw i'n hoffi'r stori.

Nac ydw.

Nac ydw, dw i ddim yn hoffi'r DVD.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ofnadwy.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ddiflas.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos mae'n ddiflas.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos dw i ddim yn hoffi'r stori.

Uned 1: Rhan 5 – Ydych chi'n cofio?

Nod:

- Adolygu'r geiriau a'r patrymau a gyflwynwyd eisoes

Patrymau a geirfa sy'n gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
<p>Cwestiynau ac atebion</p> <p>Pwy wyt ti? ... ydw i.</p> <p>Ble wyt ti'n byw? Dw i'n byw yng Nghymru.</p> <p>Beth wyt ti'n hoffi wneud? Dw i'n hoffi ...</p> <p>Beth am drïo eto? Syniad da.</p> <p>Eraill</p> <p>Rhaid ymolchi. Rhaid brwsio gwallt. Rhaid gwisgo sanau glân. Es i i ... Roedd e'n / o'n anhygoel. Mawredd mawr! / Nefi wen! / Bobl bach!</p>	<p>traeth ardderchog nofio chwarae pêl-droed darllen rhedeg cerdded neidio dringo gwersylla y goedwig antur hwyl hwyl a sbri</p>

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Da!; Da iawn!; Ardderchog!

Ti sy nesa.

Beth am drïo eto?

Beth am chwarae gêm?

Eich tro chi nawr / rwan.; [Hefyd **Dy dro di nawr / rwan.**]

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Eglurwch mai pwrpas y rhan hon o'r DVD yw adolygu. Eglurwch y bydd y disgyblion yn cael cyfle i wylïo Dyfs ac Izzy a Sgrin yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol ac y bydd angen iddyn nhw helpu weithiau.
- Dangoswch y ffilm, **Ydych chi'n cofio?** (Uned 1, Rhan 5) fesul adran, fel yr awgrymir isod.

Adran 1

- Canolbwyntiwch ar yr adran gyntaf. Anogwch y disgyblion i ofyn cwestiynau yn unol â'r ciw sy'n cael ei ddangos ar y sgrin.
- Os yw'n briodol, eglurwch fod modd datblygu'r cwestiwn **Beth wyt ti'n hoffi?** drwy newid diwedd y cwestiwn neu ychwanegu ato, e.e.

Beth wyt ti'n hoffi wneud / gwneud?

Dawnsio. / Dw i'n hoffi dawnsio.

Beth wyt ti'n hoffi fwyta / bwyta?

Salad. / Dw i'n hoffi salad.

Beth wyt ti'n hoffi wisgo / gwisgo?
Jîns a siwmpwr. / Dw i'n hoffi gwisgo jîns a siwmpwr.

Dylid ymarfer y patrymau hyn.

Yna, cyflwynwch **Cerdyn Siarad 8:**
Y Gadair Goch: Gofynnwch gwestiynau i'r athro / athrawes.

I ddechrau, dylech chi eistedd yn y gadair goch ac ateb yn Gymraeg unrhyw gwestiynau y bydd y disgyblion yn eu gofyn i chi. Yna, gallen nhw ymgymryd â'r gweithgaredd hwn mewn grwpiau.

Adran 2

Pwrpas yr adran hon yw annog y disgyblion i ddweud cymaint â phosib amdany'n nhw'u hunain heb gymorth cwestiwn.

- Gwylwch dair ymgais Sgrin i siarad amdano'i hun cynifer o weithiau ag sydd angen. Tynnwch sylw at y ffaith fod y thermometr yn stopio ar **Da** ar ôl ei ymgais gyntaf, ar **Da iawn** ar ôl ei ail ymgais ac ar **Ardderchog** ar ôl ei drydedd ymgais.

Gofynnwch i'r disgyblion drafod pam mae'r ail a'r drydedd ymgais yn well na'r un gyntaf – gellir cynnal y drafodaeth hon yn Saesneg neu yn Gymraeg, fel y bo'n briodol.

Chwaraewch yr adran eto a thynnwch sylw at y modd y mae'n gwella'i atebion.

- Chwaraewch ymgais gyntaf Izzy a stopiwch y ffilm cyn i'r thermometr gael cyfle i ymateb. Gofynnwch i'r disgyblion ydy hi'n haeddu **Da**, **Da iawn** neu **Ardderchog**. Cynhaliwch bleidlais a chyfrwch yn Gymraeg. Chwaraewch weddill perfformiad Izzy i ddangos sut mae'r ail ymgais yn well na'r un gyntaf.
- Dangoswch ymgais Dyfs a gofynnwch ydy e'n haeddu **Da**, **Da iawn** neu **Ardderchog**. Cynhaliwch bleidlais a chyfrwch yn Gymraeg.
- Chwaraewch y rhan hon eto a gofynnwch i'r disgyblion ganolbwyntio ar beth mae'n ei ddweud. Gallech chi restru'r prif bwyntiau ar fwrdd gwyn.
- Chwaraewch y DVD, sef yr adran **Eich tro chi nawr**. Gofynnwch i'r disgyblion weithio mewn grwpiau i ddweud cymaint ag y gallan nhw amdany'n nhw'u hunain yn Gymraeg – ac i geisio cyrraedd **Ardderchog**. Gall aelodau eraill y grŵp bleidleisio ar ôl pob 'perfformiad' er mwyn dangos ydy'r disgybl sydd wedi siarad yn haeddu **Da**, **Da iawn** neu **Ardderchog**, gan roi rhesymau i gefnogi'u barn yn Gymraeg neu Saesneg fel y bo'n briodol.

Gallai'r disgyblion ddefnyddio **Cerdyn Siarad 9** i'w cynorthwyo.

Pwy wyt ti? Ble wyt ti'n byw? Beth wyt ti'n hoffi wneud? Siarada ... siarada ... siarada ...

Adran 3

Amrywiad ar Adran 1 yw'r adran hon ond y tro hwn disgwylir i'r disgyblion ateb y cwestiynau heb gymorth ciwiau.

- Chwaraewch y sgwrs rhwng Dyfs a'i fam a dywedwch wrth y disgyblion eu bod yn mynd i helpu Dyfs i ateb. Stopiwch y ffilm bob tro y bydd yr eicon yn ymddangos ar y sgrin er mwyn rhoi digon o amser i'r disgyblion ateb.

Ar ôl ateb y cwestiynau, gallai'r disgyblion baratoi eu sgysiau ffôn eu hunain. Gellid defnyddio

Cerdyn Siarad 5 i'w cynorthwyo:

A: Rwy't ti'n ffonio Izzy ar y traeth.

B: Izzy wyt ti. Rwy't ti ar y traeth.

Adran 4

Mae'r adran hon yn adolygu'r ffurfiau gorchmynnol sy'n gysylltiedig â hylendid personol a gyflwynwyd yn Rhan 1. Disgwylir i'r disgyblion roi gorchmynion priodol. Stopiwch y ffilm yn ôl yr angen er mwyn rhoi digon o amser i'r disgyblion feddwl am y gorchymyn priodol.

Adran 5

Mae'r adran hon yn adolygu amser y gorffennol a gyflwynwyd yn P-aC₁ ac, o bosib, yn ystod y Cyfnod Sylfaen.

- Chwaraewch y rhan olaf, lle mae Izzy'n egluro i ble aeth hi a lle mae hi'n mynegi barn:

Es i i'r goedwig.

Roedd e'n ffantastig.

Es i i'r traeth.

Roedd e'n wych.

Es i i Awstralia.

Roedd e'n grêt.

Es i i weld y dinosoriaid.

Roedd e'n anhygoel.

Mawredd mawr! Nefi wen! Bobl bach! Roedd e'n ffantastig.

Gellid cyflwyno cardiau fflach sy'n cynnwys geiriau sy'n gysylltiedig â lleoedd neu ddigwyddiadau, e.e.

parti

pwll nofio

cae pêl-droed

ysgol

coedwig

traeth

parc

Yna, gallai'r disgyblion feimio gweithgaredd sy'n gysylltiedig â'r lleoedd gwahanol fel bod y grŵp yn dyfalu ble mae'r lle hwnnw. Pan fydd disgybl yn dyfalu'n gywir, mae'r disgybl sydd newydd feimio'n dweud:

Es i i'r ... Roedd e'n / o'n ...

Gallai'r disgyblion ysgrifennu darn syml am eu hymweliad ar gyfer dyddiadur.

- Dylid cyflwyno'r deunydd darllen **Dinosoriaid**.

Yna, gallai'r disgyblion chwilio am ragor o wybodaeth am ddinosoriaid ac ysgrifennu amdany'n nhw. Yn ogystal, gallen nhw wneud modelau o ddinosoriaid penodol, gan ddefnyddio patrymau Cymraeg i ddisgrifio beth maen nhw'n ei wneud ac yn ei ddefnyddio – gweler y ddogfen

Patrymau Iaith P-aC₂.

Uned 2

Mae'r gwaith yn yr uned hon yn canolbwyntio ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith. Fodd bynnag, mae'r cwricwlwm a meysydd perthnasol eraill yn cael eu targedu yn ogystal. Rhoddir enghreifftiau o elfennau trawsgwricwlaidd isod ond dylid edrych ar y Rhaglenni Astudio a'r fframweithiau perthnasol er mwyn cael rhagor o fanylion.

Cymraeg Ail Iaith

Anogir y disgyblion i ymateb yn briodol mewn amrywiaeth o amgylchiadau drwy fynegi barn, gofyn am wybodaeth a'i rhoi, siarad amdany'n nhw eu hunain – gan roi cymaint o fanylion â phosib – trafod eu hardal, chwarae rôl a chymryd rhan yng ngweithgaredd y gadair goch.

Mae cyfleoedd i wyllo a gwranddo ar y ffilm yn ofalus ac i ganfod y prif bwyntiau. Gellid rhoi crynodeb o rannau o'r ffilm i'r disgyblion a gallai rhywfaint ohono fod yn **gywir** a rhywfaint yn **anghywir**. Yna, gellid gofyn iddyn nhw wrando'n ofalus ar y ffilm er mwyn dod o hyd i'r camgymeriadau a'u cywiro.

Gellid rhoi gridiau sy'n seiliedig ar rannau o'r ffilm i'r disgyblion gan ofyn iddyn nhw eu cwblhau â'r wybodaeth angenrheidiol. Yn ogystal, gallai disgyblion ymateb i gwestiynau sy'n seiliedig ar y ffilm, e.e. mewn gweithgareddau cwis. Gallen nhw ysgrifennu am rannau penodol o'r ffilm yn ogystal.

Fe'u hanogir i ymateb i amrywiaeth o ddeunyddiau darllen megis map, neges e-bost, llyfrau stori a llyfr ffeithiol. Rhestrir cwestiynau cyffredinol y gallen nhw eu gofyn i'w gilydd neu y gall yr athro/athrawes eu gofyn yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₂**, ac mae rhestr o gwestiynau penodol sy'n berthnasol i bob llyfr yng nghefn y llyfrau.

Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ysgrifennu at amryw bwrpasau, ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol, gan ddefnyddio ffurfiau amrywiol, e.e. darnau ffeithiol sy'n cyfleu gwybodaeth am y cyfandiroedd ac am eu hardal, proffiliau personol, rhestri, testun ar gyfer tocynnau, gwybodaeth ar gyfer calendr / dyddiadur digwyddiadau, taflenni, bwrdd stori, sgript ar gyfer clip fideo, cartŵn sy'n darlunio arferion hylendid da, gwahoddiad, negeseuon e-bost, stori a darn ar gyfer dyddiadur.

Saesneg

Mae cyfleoedd ar gyfer chwilio am wybodaeth am y cyfandiroedd, tarddiad y garol Nadolig *Stille Nacht (Dawel Nos)*, Mozart, Awstria a Rwsia. Bydd llawer o'r gwaith hwn yn golygu darllen a chofnodi yn Saesneg.

Mathemateg

Mae cyfleoedd i gynllunio a defnyddio holiaduron, e.e. wrth drafod hobiau neu ble mae'r disgyblion yn byw neu pryd maen nhw'n dathlu eu pen-blwydd. Gallai'r disgyblion gyflwyno'u canfyddiadau drwy ddefnyddio graffiau a gallai'r rhain, yn eu tro, gael eu hegluro ar lafar ac yn ysgrifenedig e.e.

Mae deg yn hoffi ...

dod o ...

cael pen-blwydd ym mis ...

Mae cyfleoedd i siarad am y dyddiad, i adolygu arian ac i gyfrif fesul pump. Yn ogystal, mae cyfleoedd i ychwanegu eitemau ar fil ac i roi newid, fel y bo'n briodol.

Mae'r llyfr ffeithiol **Hwyl y Nadolig** yn cyfeirio at dymheredd y gaeaf yn Awstria:

Mae hi'n minws deg gradd Celsius weithiau. Mae hi'n minws dau ddeg gradd Celsius weithiau.

Gallai hyn arwain at waith pellach sy'n gysylltiedig â thymheredd y gaeaf, gan gymharu tymheredd yr haf â thymheredd y gaeaf. Gallai hyn, yn ei dro, arwain at lunio graffiau a.y.b.

Gwyddoniaeth

Mae cyfeiriadau at fwyd iach pan fydd Dyfs ac Izzy'n prynu brecwast mewn caffi.

Daearyddiaeth

Ar ddechrau Rhan 1, sef **Teithio**, mae Izzy'n dweud y byddai'n hoffi teithio i Awstralia, Affrica ac America. Gallai'r disgyblion chwilio am leoliad y cyfandiroedd hyn ar glôb neu mewn atlas a.y.b. a gellid gwneud gwaith pellach ar gyfandiroedd y byd.

Mae cyfleoedd i wneud astudiaeth o'r ardal leol wrth i'r disgyblion restru'r hyn sydd yn yr ardal, ysgrifennu darnau disgrifiadol a gwneud posteri, taflenni a.y.b. er mwyn portreadu'r ardal. Rhoddir cyfle hefyd iddyn nhw ganfod a thrafod yn Gymraeg symbolau ar fapiau Arolwg Ordnans.

Gallai'r disgyblion chwilio am leoliad Salzburg, Awstria a Rwsia ar glôb / mewn atlas a.y.b. fel y bo'n briodol.

Celf a dylunio

Gan ddefnyddio gwahanol dechnegau, gallai'r disgyblion greu darnau o waith celf i bortreadu **Hwyl y Gaeaf**. Ar ôl cwblhau'r gwaith, dylid rhoi cyfle iddyn nhw werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd. Gweler y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₂** am eirfa a phatrymau iaith addas.

Yn ogystal, gallen nhw lunio bwrdd stori a dylunio delweddau neu gartwnau i gyfleu **rhy fach** **rhy fawr**.

Dylunio a thechnoleg

Mae cyfleoedd i ddylunio ac argraffu tocynnau ar gyfer digwyddiad yn yr ysgol neu yn yr ardal leol. Yn ogystal, gallai'r disgyblion ddylunio posteri a thafleini i hyrwyddo'u hardal ac i hyrwyddo **Hwyl y Gaeaf** neu baratoi gwahoddiad i'r digwyddiad hwn. Gallen nhw ddylunio bwydlenni brechwast yn ogystal.

Yn Rhan 4, mae Dyfs yn gwneud addurn Nadolig drwy ddefnyddio boncyff, celyn, gliter a.y.b. Gallai'r disgyblion wneud boncyffion Nadolig tebyg yn ogystal â mathau eraill o addurniadau Nadolig, gan gynnwys *Christingle*. Byddai hyn yn golygu cynllunio, gwneud a gwerthuso.

Yn ogystal, gallen nhw baratoi bwyd y gellid ei fwyta mewn parti Nadolig, e.e. brechdanau, cacennau, bisgedi a.y.b.

Addysg gorfforol

Yn Rhan 1, **Teithio**, mae Izzy'n dynwared camau trwm dinosor anferth a chamau ysgafn dinosor bach. Yn yr un modd, gallai'r disgyblion greu "dawns y dinosoriaid" er mwyn creu symudiadau gwahanol fathau o ddinosoriaid. Gallai hyn olygu astudio delweddau o ddinosoriaid a cheisio deall sut y bydden nhw'n symud.

Cerddoriaeth

Gallai'r disgyblion gyfansoddi darnau o gerddoriaeth er mwyn portreadu symudiadau gwahanol fathau o ddinosoriaid a gellid eu defnyddio fel rhan o "dawns y dinosoriaid" y cyfeirir ati uchod. Byddai hyn yn cynnwys gwahanol gyflymder a deinameg a.y.b.

Yn dilyn y cyfeiriadau at *Stille Nacht* (Dawel Nos), gallai'r disgyblion wrando ar y garol Gymraeg a'i dysgu, ac yna'i chanu yng ngwasanaeth yr ysgol neu mewn sioe Nadolig neu wasanaeth Nadolig. Yn dilyn y cyfeiriad at Mozart yn y llyfr **Hwyl y Nadolig**, gallai'r disgyblion wrando ar ddarn o gerddoriaeth gan Mozart ac yna'i werthuso mewn dull syml. Gweler yr adran **Cerddoriaeth** yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₂** er mwyn cael patrymau a geirfa addas. Gallai hyn arwain at drafodaeth am gerddorfeydd a'r offerynnau sy'n gysylltiedig â cherddorfeydd. Gellid gwahodd disgyblion sy'n dysgu i ganu offeryn i ddangos eu hofferyn a pherfformio.

Gallai darllen **Baboushka** arwain at gyfansoddi cerddoriaeth sy'n cyfleu taith y brenhinoedd. Gallai'r disgyblion wrando ar gerddoriaeth o Rwsia yn ogystal.

TGCh

Mae cyfleoedd ar gyfer dylunio ac argraffu tocynnau ar gyfer digwyddiad yn yr ysgol neu yn yr ardal leol a gallai'r disgyblion baratoi cyflwyniad PowerPoint neu glip fideo er mwyn disgrifio'u hardal neu er mwyn cyflwyno gwybodaeth am hylendid personol sylfaenol. Gallen nhw ddefnyddio meddalwedd priodol er mwyn dylunio bwydlenni brecwast yn ogystal.

Addysg grefyddol

Yn dilyn y cyfeiriadau at Goliath, y ci, yn Rhan 1, gellid cyflwyno a thrafod stori Dafydd a Goliath – yn Gymraeg neu yn Saesneg fel y bo'n briodol.

Mae'r llyfr **Hwyl y Nadolig** yn cynnwys llun o Mair, Joseph a'r baban Iesu a gallai hyn arwain at waith pellach yn gysylltiedig â'r Geni. Mae cyfeiriadau at y tri brenin a'r baban Iesu yn y llyfr **Baboushka** yn ogystal.

Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Anogir y disgyblion i chwilio am ddelweddau a gwybodaeth am y cyfandiroedd ac mae trafod traddodiadau'r Nadolig mewn gwlad arall yn rhoi cyfle i dargedu Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang.

Y Cwricwlwm Cymreig

Gallai'r disgyblion chwilio am wybodaeth am Hwyl y Gaeaf a marchnadoedd Nadolig sy'n cael eu cynnal yng Nghymru yn ogystal â chwilio am wybodaeth am y Cardiff Devils ar ôl darllen y llyfr **Hwyl y Gaeaf yn y Nos**.

Mae cyfleoedd i chwilio am leoliad manau penodol yng Nghymru ac i ddysgu amdany'n nhw.

Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Atgoffir y disgyblion am arferion hylendid personol sylfaenol a chyfeirir hefyd at beryglon sglerfrio ar lynnoedd.

Datblygu meddwl

Mae'r uned hon yn adeiladu ar sgiliau a phatrymau iaith a geirfa a gyflwynwyd eisoes, a thrwy hynny mae'n sicrhau cynnydd a pharhâd.

Drwy gydol yr uned, rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio'r hyn maen nhw wedi ei ddysgu eisoes. Gofynnir iddyn nhw gynllunio a datblygu syniadau drwy gyfrwng y Gymraeg ac i ymateb i'w gwaith eu hunain ac i waith disgyblion eraill, i werthuso llwyddiant ac ystyried sut y gellid gwella gwaith (e.e. mewn perthynas â gweithgareddau cerdd, celf, dylunio a thechnoleg).

Gofynnir iddyn nhw drafod trefniadau ar gyfer mynd ar ymweliad, e.e. beth ddylai'r cymeriadau ar y DVD gymryd gyda nhw, pa ddillad fyddai'n addas, faint o arian fyddai ei angen.

Datblygu cyfathrebu

Prif nod yr uned hon yw datblygu sgiliau cyfathrebu disgyblion. Felly, mae nifer o gyfleoedd i wrando ar bobl eraill ac i ymateb iddyn nhw, i ddarganfod a dethol gwybodaeth, i ymateb i'r hyn sydd wedi cael ei ddarllen ac i gyflwyno gwybodaeth – ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Datblygu TGCh

Anogir y disgyblion i chwilio am wybodaeth drwy ddefnyddio'r rhyngwrwyd ac yna'i chyflwyno mewn dull priodol, gan wneud defnydd priodol o feddalwedd. Fe'u hanogir i ddefnyddio technoleg at sawl pwrpas.

Datblygu rhif

Mae'r disgyblion yn datblygu'u sgiliau rhifedd yn yr uned hon drwy ddefnyddio rhifolion, casglu gwybodaeth mewn dulliau amrywiol, gan gynnwys holiaduron a chyflwyno data mewn fformatau priodol.

Uned 2: Rhan 1 - Teithio

Nodau:

- Adolygu gofyn am a rhoi manylion personol megis **Ble wyt ti'n byw?; Dw i'n byw yn ...; Beth wyt ti'n hoffi wneud?; Dw i'n hoffi ...** ac, os yw'n briodol, datblygu sgysiau drwy ddefnyddio **Pryd?; Ble?; Pam?**
- Cyflwyno / adolygu pwyntiau'r cwmpawd yn Gymraeg: **dwyrain; gorllewin; gogledd; de**
- Canfod, trafod ac ysgrifennu am yr hyn sydd i'w gael mewn gwahanol ardaloedd: **Beth sy yn ...?; Oes ... yn ...?; Oes.; Nac oes.; Mae ... yn ...; Yn ..., mae ...** a mynegi barn fel y bo'n briodol, e.e. **Mae'n ...; Mae ... yn ...; Mae'r ... yn ...**
- Adolygu geiriau a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon.

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Mae'r Drenewydd yn y dwyrain. Dwedwch ... Arhosa. Agora'r amlen. Rhaid gofyn i ...	Y Drenewydd Dwyrain Cymru tocyn, tocynnau theatr nôl cartref Stryd y Dŵr amlen Hwyl y Gaeaf

Patrymau a geirfa sy'n gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth wyt ti'n hoffi wneud? Dw i'n hoffi ... Beth am fynd i'r Drenewydd? Beth sy yn y Drenewydd? Beth ydy'r broblem? Beth ydy Hwyl y Gaeaf? Dw i ddim yn gwybod. Wyt ti'n barod? Ydw, dw i'n barod. / Nac ydw, dw i ddim yn barod. Wyt ti'n siwr? Ga i deithio eto? Cei. / Na chei. Ble wyt ti'n byw? Ble mae'r tocyn? Ydy'r tocyn yn y drôr? Ydy Sgrin yn iawn? Ydy Goliath yn hoffi pobl? Ydy. / Nac ydy.	cyflym chwarae pêl-droed nofio gwersylla pwll nofio sinema siop, siopau afon cae pêl-droed y goedwig y traeth dinosaur, dinosoriaid cangarŵ syrpreis mynd adre cylch coch dau ddeg dau ci ystafell
Gorchmynion Sefwch. Sh! Dim sŵn. Tyrd i mewn. / Dere i mewn. Dewch i ...	
Eraill Mawredd mawr! Pardwn? Dw i eisiau teithio eto.	

Dw i ddim eisiau mynd i'r Drenewydd. Dw i'n teimlo'n ofnus. Un ... dan ... tri ac i ffwrdd â ni. Tri ... dau ... un a 'nôl â ni.	
---	--

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Ga i ...?; Cei.; Na chei.

Dw i eisiau gweld y ...

Ydy ... yn iawn?: Ydy.; Nac ydy.

Beth sy yn ... ?

Wyt ti'n barod?; Ydw.; Nac ydw. [Hefyd: **Ydych chi'n barod?; Ydyn.; Nac ydyn.**]

Dwedwch ...

Sefwch.

Rhaid bod yn dawel.

Sh! Dim sŵn!

Dim problem!

Oes ... yn y ... / ar y ... / o dan y ... / o flaen y ... / tu ôl i'r ...?; Oes.; Nac oes.

Ydy'r ... yn y ... / ar y ... / o dan y ... / o flaen y ... / tu ôl i'r ...?; Ydy.; Nac ydy.

Dw i ddim yn gwybod.

Rhaid gofyn i ...

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Dangoswch y ffilm **Teithio** (Uned 2, Rhan 1). Canolbwyntiwch ar y dechrau – hyd at y man lle mae Dyfs yn dweud ei fod yn byw **yn y Drenewydd**.

- Gofynnwch:

Ble mae Izzy eisiau mynd?

Awstralia, Affrica, America

Gofynnwch i'r disgyblion ddod o hyd i'r manau hyn ar glôb neu fap.

Gan ddefnyddio map, eglurwch, yn Gymraeg neu yn Saesneg fel y bo'n briodol, fod Affrica ac America'n gyfandiroedd:

Cyfandir ydy Affrica.

Cyfandir ydy Gogledd America.

Cyfandir ydy De America.

Gofynnwch iddyn nhw ddarganfod sawl cyfandir sy a dod o hyd iddyn nhw ar fap:

Sawl cyfandir sy?

Beth ydyn nhw?

Ble maen nhw ar y map?

Eglurwch yn Gymraeg ac / neu yn Saesneg:

Mae saith cyfandir.

Beth ydyn nhw?

Derbyniwch yr enwau Saesneg os bydd rhaid ac yna cynigiwch y geiriau Cymraeg:

Awstraliasia

Affrica

De America

Gogledd America

Ewrop

Asia

Antarctica

Fel y gwelwch chi, mae'r geiriau Cymraeg yn debyg iawn i'r rhai Saesneg a bydd disgyblion wedi dod ar draws **gogledd** a **de** ym Mhecyn 1 eisoes, gan fod Crad yn dod o'r gogledd a Ffion dod o'r de.

Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu / gludo enwau'r cyfandiroedd yn Gymraeg ar fapiau gwag.

- Gellid gwneud gwaith pellach mewn perthynas â'r cyfandiroedd, os yw'n briodol, e.e. gallech chi ddangos delweddau sy'n cyfleu bywyd ar un o'r cyfandiroedd a gofyn i'r disgyblion ddisgrifio'r hyn maen nhw'n ei weld, e.e.

Llun o wyl *Mardi Gras* Rio de Janeiro + map:

Dyma'r carnifal yn Rio de Janeiro, De America.

Edrychwch ar y bobl.

Edrychwch ar y dillad.

Pa liw ydy'r ...?

Beth ydy hwn?

Beth sy'n digwydd?

Llun o dîm pêl-droed Brazil + map o Dde America:

Dyma Brazil, De America.

Dyma dîm pêl-droed Brazil.

Maen nhw'n gwisgo dillad melyn a glas.

Maen nhw'n dda iawn.

Yna, gallai'r disgyblion chwilio am ddelwedd sy'n cyfleu agwedd benodol ar un o'r cyfandiroedd ac ysgrifennu a siarad amdani yn Gymraeg, e.e.

Dyma eliffant.

Mae'r eliffant yn byw yn Affrica.

Mae'r eliffant yn bwyta ...

Mae'r eliffant yn hoffi ...

- Gallai'r cyfeiriadau at ddinosoriaid ar ddechrau'r ffilm arwain at weithgarwch addysg gorfforol, pryd y gall y disgyblion ddyfeisio a pherfformio dawns y dinosoriaid – os na wnaed y gwaith hwn yn Uned 1 eisoes.

- Chwaraewch y darn nesaf, lle mae Sgrin yn dangos gwybodaeth am Dyfs ac mae Izzy'n gofyn cwestiynau iddo. Stopiwch y ffilm yr ail dro y byddwch chi'n gweld y wybodaeth am Dyfs, h.y.

Enw: Dyfan Jones

Byw: Y Drenewydd

Hoffi: chwarae pêl-droed
nofio
gweryslla

Gallai'r disgyblion ysgrifennu nodiadau tebyg amdany'n nhw'u hunain neu am eu ffrindiau. Yna, gallen nhw ofyn cwestiynau i'w gilydd, efallai er mwyn cwblhau ffurflen neu grid a baratowyd ymlaen llaw:

Pwy wyt ti?

Beth ydy dy enw di?

Ble wyt ti'n byw?

Beth wyt ti'n hoffi wneud?

Os yw'n briodol, gallai'r disgyblion ddefnyddio patrymau iaith a geirfa maen nhw wedi'u dysgu eisoes er mwyn ymestyn y sgwrs, e.e.

Ble?

Ble wyt ti'n ...?

Yn ... / Yn y ...

Pryd?

Pryd wyt ti'n ...?

Dydd Sul

Dydd Llun

Ar ddydd Sul

Ar ddydd Llun

Dydd Mawrth
Dydd Mercher
Dydd Iau
Dydd Gwener
Dydd Sadwrn
Bob dydd Sadwrn.

Ar ddydd Mawrth
Ar ddydd Mercher
Ar ddydd Iau
Ar ddydd Gwener
Ar ddydd Sadwrn

Er mwyn atgyfnerthu'r patrymau hyn, gallai'r disgyblion gynllunio a defnyddio holiaduron a'u defnyddio nhw i ofyn i aelodau eraill y dosbarth am eu manylion personol, e.e

Enw:
Byw:
Hobi:
Ble:
Pryd:
Enw:
Byw:
Hobi:
Ble:
Pryd:

Gallen nhw gyflwyno'u canfyddiadau drwy ddefnyddio graffiau ac yna gellid egluro'r rhain ar lafar ac yn ysgrifenedig, e.e.

Mae deg yn hoffi ...

Mae chwech yn hoffi ...

Mae deg yn byw yn ...

Mae chwech yn byw yn ...

- Gallech chi adolygu mynegi barn mewn perthynas â hobiau drwy ychwanegu **Pam?** i'r holiadur, e.e.

Enw:
Byw:
Hobi:
Ble:
Pryd:
Pam? Achos
.....
.....

Mae'n grêt. / Mae'n wych.

Mae'n ffantastig.

Mae'n hwyl.

Mae'n ofnadwy.

- Gallai'r disgyblion ysgrifennu proffil syml amdanyn nhw'u hunain, e.e.
 - pwy ydyn nhw
 - ble maen nhw'n byw - a'u barn am yr ardal
 - beth maen nhw'n hoffi'i wneud, gan roi cymaint o fanylion â phosib.

Gallen nhw gynnwys delweddu a ffotograffau priodol yn ogystal.

- Gallai'r disgyblion chwarae gêm iaith sy'n cynnwys ysgrifennu a darllen ar goedd:
Ar ddarnau o bapur, dylen nhw ysgrifennu amdanyn nhw'u hunain yn ddiennw, gan roi cymaint o fanylion â phosib.

Yna, dylen nhw blygu'r darnau o bapur a'u rhoi ar ganol bwrdd.
Yn eu tro, dylai pob disgybl godi un o'r darnau o bapur a darllen yr hyn sydd wedi cael ei ysgrifennu arno.
Dylai aelodau eraill y grŵp geisio dyfalu pwy ysgrifennodd y darn.

- Yna, gallen nhw gyflwyno'i gilydd, e.e.
Dyma ...
Mae e'n/o'n / hi'n byw yn ...
Mae e'n/o'n / hi'n hoffi ...
Mae e'n/o'n / hi'n hoffi ... yn y parc ...
Mae e'n/o'n / hi'n hoffi ... yn y parc dydd Sadwrn / ar ddydd Sadwrn / bob dydd Sadwrn ...
Mae e'n/o'n / hi'n hoffi ... yn y parc dydd Sadwrn / ar ddydd Sadwrn / bob dydd Sadwrn achos ...
- Dangoswch y wybodaeth am Dyfs eto. Yna, fesul pâr, dylai'r disgyblion ddarllen y sefyllfa ar **Cerdyn Siarad 10**:
A: **Dyfs wyt ti.**
B: **Rhaid i ti ofyn cwestiynau i Dyfs.**

Gan ddefnyddio'r geiriau allweddol a restrir ar y cerdyn, ynghyd ag unrhyw eirfa a phatrymau perthnasol eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw, dylai **Partner B** ofyn cwestiynau i **Partner A** a cheisio darganfod cymaint â phosib amdano/amdani. Os nad oes ganddo / ganddi'r wybodaeth angenrheidiol i fedru ateb yr holl gwestiynau, dylai ddefnyddio'r dychymyg er mwyn llunio atebion priodol.

Yna, gallen nhw gyflwyno Dyfs, gan ddefnyddio'r patrymau iaith a restrir uchod.

Gallen nhw hefyd ysgrifennu proffil o Dyfs a chynnwys delwedd briodol.

- Canolbwyntiwch ar ran nesa'r ffilm, sy'n rhoi gwybodaeth am **Y Drenewydd**, sydd **yn y dwyrain**. Stopiwch y ffilm wrth i Sgrin gau – ar ôl i Izzy symud o'r golwg ac ar ôl i Dyfs ailadrodd **i'r Drenewydd**.

Sylwer: Pan ddefnyddir yr enw **Y Drenewydd** ar ôl **Mae** neu **i** neu **o**, mae'r **Y** yn newid i 'r':
Mae'r Drenewydd ...
i'r Drenewydd
o'r Drenewydd

Gallai'r disgyblion gynllunio a gwneud cwmpawd a labelu'r pwyntiau er mwyn eu hadolygu:

gogledd
de
gorllewin
dwyrain

Gan ddefnyddio mapiau priodol o Gymru, gallai'r disgyblion ofyn cwestiynau i'w gilydd er mwyn dod o hyd i leoliad amryw leoedd, e.e.

Ble mae Llandudno?

Yn y gogledd.

Ble mae Llanelli?

Yn y de.

a.y.b.

- Chwaraewch y darn eto a gofynnwch i'r disgyblion ganolbwyntio ar beth sydd yn **Y Drenewydd**. Yna, gofynnwch:
Beth sy yn y Drenewydd?

Gofynnwch iddyn nhw lunio rhestri:

pwll nofio
sinema
siopau
afon
cae pêl-droed

- Gofynnwch iddyn nhw lunio rhestri o'r hyn sydd yn eu hardal nhw. Yn ogystal â'r eirfa a restrir uchod, gallech chi gyflwyno / adolygu geiriau sy'n berthnasol i'r ardal, e.e.

castell	capel
parc	eglwys
pedwar parc*	theatr
golff	ysgol
caffi	canolfan
wyth caffi*	hamdden
traeth	gorsaf
coedwig	

* Cofiwch ddefnyddio enw unigol gyda rhif.

Os yw'n briodol, gallai'r disgyblion ysgrifennu darn am eu hardal, gan ddefnyddio'r patrymau canlynol:

Dw i'n byw yn ...

Yn ... mae ... / Mae ... yn ...

Dw i'n hoffi byw yn ... achos ...

Mae'n wych. Mae'n ffantastig.

Dw i'n hoffi chwarae pêl-droed yn y parc bob dydd Sadwrn. Mae'n grêt. Dw i'n hoffi ... hefyd achos ...

Yn ogystal, gallen nhw lunio posteri / taflenni / cyflwyniad PowerPoint / darn o waith celf a.y.b. am eu hardal, e.e.

Mae ... yn ffantastig.

Mae ... yn wych.

Mae ... yn anhygoel achos mae ... yma.

Dewch i ... achos mae'n anhygoel ...

Sylwer: Efallai bod gwaith tebyg wedi cael ei wneud yn Rhannau 1 a 6 yn Uned 1 a gellid adolygu hyn, os yw'n briodol.

- Canolbwyntiwch ar gwestiynau Izzy:

Oes sinema yn y Drenewydd?

Oes. / Nac oes.

Bydd y disgyblion yn gyfarwydd â'r patrwm hwn gan eu bod wedi dod ar ei draws droeon yn ystod y Cyfnod Sylfaen ac ym Mhecyn 1. Yma, mae'n cael ei drosglwyddo i gyd-destun newydd, sef siarad am beth sydd yn yr ardal. Gall y disgyblion ddefnyddio'r patrwm hwn nawr i ofyn i'w gilydd ynglŷn â beth sydd yn yr ardal.

- Symudwch ymlaen i **Cerdyn Siarad 12**. Cyn i chi roi'r cerdyn i'r disgyblion, ysgrifennwch enw'r dref / pentref yn y bylchau (...)

A: **Rwyt ti'n byw yn ...**

B: **Rwyt ti yn America. Rwyt ti'n ffonio. Rwyt ti eisiau gwybod beth sy yn ... Siaradwch.**

Eglurwch fod **Partner B** yn ymwelydd o America sy'n ystyried ymweld â'r ardal ond ei fod / bod eisiau gwybod beth sy yn yr ardal cyn dod ac felly mae'n ffonio **Partner A** am wybodaeth.

Gan ddefnyddio'r patrymau a restrir ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw eirfa neu batrymau cyfarwydd, dylai **Partner B** gyflwyno'i hun a gofyn am wybodaeth, e.e.

Oes parc yn ...?

Oes cae pêl-droed yn ...?

a.y.b.

Dylai **Partner A** ateb, gan roi cymaint o fanylion â phosib, e.e.

Oes.

Oes, mae parc yn ...

Oes mae pedwar parc yn ...

Oes mae pedwar parc da iawn yn ...

- Gellid datblygu'r gwaith hwn ymhellach drwy drosglwyddo'r patrymau i gyd-destun gwahanol - edrych ar fapiau / mapiau'r Arolwg Ordnans.

Gellid cyflwyno'r map a geir ar y cerdyn darllen **Llan** er mwyn cyflwyno'r symbolau a'r ymadroddion Cymraeg. Eglurwch y symbolau, adolygwch y geiriau. Yna, mewn parau neu fel grŵp, dylai un o'r disgyblion edrych ar y map, gan wneud yn siwr nad yw'r disgyblion eraill yn gallu'i weld.

Yna, dylai'r gweddill ofyn:

Oes ... ar y map?

Dylai'r disgybl sy'n dal y map ateb:

Oes. / Nac oes.

- Gellid datblygu'r gwaith ymhellach wrth i'r disgyblion edrych ar y map a gofyn cwestiynau i'w gilydd, e.e.

Ble mae'r ...?

Yn sgwâr ...

Beth sy yn sgwâr ...?

Beth sy yn Llan?

Yna, gallech chi gyflwyno gweithgareddau tebyg mewn perthynas â mapiau'r Arolwg Ordnans.

- Chwaraewch y rhan nesaf, lle mae Dyfs yn rhestru ble yr hoffai fynd – hyd at y man lle mae'r ddau'n cytuno i fynd i'r Drenewydd.

Gallai'r disgyblion ddychmygu ble yr hoffen nhw fynd pe baen nhw yn y Pod-antur Cymraeg, e.e. rhywle yn yr ardal, rhywle y maen nhw wedi bod iddo o'r blaen a.y.b., e.e.

Dw i eisiau mynd i ...

Dw i eisiau mynd i ... achos mae'n ...

dw i'n hoffi ...

dw i eisiau gweld y ...

dw i eisiau dringo ...

- Cyn i chi chwarae'r darn nesaf, eglurwch fod Dyfs ac Izzy'n gorfod chwilio am rywbeth arbennig pan fyddan nhw'n cyrraedd Y Drenewydd. Gofynnwch iddyn nhw wrando'n ofalus ac i nodi'r gair allweddol.

Gofynnwch iddyn nhw ddyfalu ble yn union yn y Drenewydd y bydd Dyfs ac Izzy'n mynd.

- Chwaraewch y darn nesaf – lle mae Dyfs, Izzy a Sgrin yn trafod beth mae'n rhaid iddyn nhw ddod o hyd iddo a ble y byddan nhw'n mynd.

Gwiriwch fod y disgyblion yn deall y gair allweddol:

tocyn

a ble y bydd Dyfs ac Izzy'n mynd:

tŷ Dyfs / adre

- Chwaraewch weddill y ffilm, lle maen nhw'n mynd i dŷ Dyfs.
- Er mwyn adolygu'r patrwm ... **Ydy'r ... yn y ... / ar y ... / o dan y / ... tu ôl i'r ...?**, gallai un o'r disgyblion guddio tocyn rywle yn yr ystafell tra bo'r disgyblion eraill yn cau eu llygaid:

Caewch eich llygaid.

Dim pipo!

Yna, dylai'r disgyblion eraill ofyn cwestiynau i geisio darganfod ble mae'r tocyn wedi cael ei guddio:

Ydy'r tocyn o dan y llyfr?

Ydy'r tocyn tu ôl i'r bag?

Ydy. / Nac ydy.

Gellid trosglwyddo'r patrwm hwn i gyd-destun daearyddol hefyd, e.e. gan ddefnyddio'r map o Llan eto, gallai'r disgyblion ofyn i'w gilydd,

Ydy'r ... yn sgwâr A1?

a.y.b.

- Chwaraewch ran olaf y DVD eto er mwyn adolygu a gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:

Wyt ti'n hoffi'r DVD?

Ydw.

Ydw. Dw i'n hoffi'r DVD.

Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n dda.

Dw i'n hoffi'r DVD achos dw i'n hoffi'r Pod-antur Cymraeg. Mae'n cŵl.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae Goliath yn ciwt.

Nac ydw.

Nac ydw. Dw i ddim yn hoffi'r DVD.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ofnadwy.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos mae'n ddiflas iawn.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos mae Dyfs yn / Izzy'n wirion / dwp.

Uned 2: Rhan 2 - Paratoi

Nodau:

- Trafod **Hwyl y Gaeaf** drwy gyfrwng y Gymraeg: **Beth ydy Hwyl y Gaeaf?; Beth sy yn Hwyl y Gaeaf?; Yn Hwyl y Gaeaf, mae ...; Mae ... yno.**
- Paratoi ar gyfer ymweliad yn Gymraeg – **Rhaid paratoi ...; Pa ddillad?; Faint o arian / bres?**
- Adolygu cyfrif arian fesul pump yn Gymraeg: **Pump ... deg ... un deg pump ... dau ddeg ... dau ddeg punt**
- Siarad am deimladau: **Dw i'n hapus.; Dw i wedi blino.; Dw i'n teimlo'n gyffrous.**
- Adolygu geiriau a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon.

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Gawn ni sglefrio ar y rhew? Cewch. / Na chewch. Beth ydy'r dyddiad (heddiw)? Tachwedd un deg chwech. Tachwedd un deg saith. Rhaid paratoi. Beth ydyn ni eisiau?	paratoi candi fflos sglefrio marchnad Nadolig felly mwy dim mwy llawer yna prynu

Y dyddiad mis		rhif
Ionawr		tri
Chwefror		pump
Mawrth		naw
Ebrill		deg
Mai	+	un deg dau
Mehefin		un deg wyth
Gorffennaf		un deg naw
Awst		dau ddeg
Medi		dau ddeg dau
Hydref		dau ddeg naw
Tachwedd		tri deg
Rhagfyr		tri deg un

Patrymau a geirfa sy'n gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth ydy Hwyl y Gaeaf? Gawn ni fynd? Dim eto. Beth am brynu bwyd? Beth am fynd i gysgu nawr / rŵan? Syniad da. Faint? Faint o arian / bres? Dwy bunt; Tair punt; Pedair punt.; Pum punt. Wyt ti'n siwr? Ydw. / Nac ydw.	hwyl a sbri antur gaeaf ardderchog rhew marchnad Nadolig stondin addurniadau ffrwythau camera ffôn

<p>Beth sy yn y bag? Camera a ffôn. Oes bwyd yn y Pod-antur Cymraeg? Oes. / Nac oes.</p> <p>Gorchmynion Edrychwch. Edrychwch yn ofalus.</p> <p>Eraill Dyma'r tocyn. Dw i ddim yn hoffi siopa. Mae'n oer tu allan. Mae'n flin 'da fi. / Mae'n ddrwg gen i. Nos da.</p>	<p>arian / pres siorts crys T het haul cot menig sgarff cap punt rhannu cyfrifiadur e-bost neis iawn heddiw yfory</p>
---	---

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth ydy ...?; Beth ydy'r ...?

Dyma'r ...

Darlleu'r ...

Edrycha.; Edrychwch.

Ardderchog.

Beth ydy'r dyddiad heddiw?

Beth ydy'r dyddiad yfory?

Beth am rannu?; Iawn.; Syniad da.

Oes ... yn y ...?

Beth sy yn y bag?

Dim problem.

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Dechreuwch drwy adolygu cynnwys yr uned flaenorol, yn enwedig y manylion am **Hwyl y Gaeaf**.
Ble mae Hwyl y Gaeaf?
Pryd mae Hwyl y Gaeaf?
- Chwaraewch y ffilm **Paratoi** (Uned 2, Rhan 2). Canolbwyntiwch ar y rhan gyntaf, lle mae Dyfs, Izzy a Sgrin yn trafod Hwyl y Gaeaf. Stopiwch y ffilm pan fyddan nhw'n penderfynu mynd i **Hwyl y Gaeaf**, sef ar ôl i Izzy ddweud **O, iawn**.

Yn yr adran hon, lle mae'r **ffair** yn cael ei thrafod, mae geirfa sy'n gysylltiedig â'r ffair, a gyflwynwyd ym Mhecyn 1, Uned 1, yn cael ei hadolygu a gellid darllen **Y Ffair** unwaith eto os yw'n briodol. Gellid ymgymryd â gweithgareddau adolygu eraill hefyd, os yw'n briodol, e.e. symud fel reidiau'r ffair a.y.b.

Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw'n cofio beth sydd yn Hwyl y Gaeaf (yn Gymraeg neu yn Saesneg fel y bo'n briodol). Rhestrwch y geiriau ar y bwrdd gwyn:

Pwy sy'n cofio? Beth sy yn Hwyl y Gaeaf?

Os bydd angen, chwaraewch y ffilm eto a stopiwch ar adegau priodol er mwyn tynnu sylw at eiriau a delweddau:

ffair
rhew
sglefrio
marchnad Nadolig

standin (standinau)
standin addurniadau
standin ffrwythau

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 12**, sy'n atgyfnerthu'r iaith a ddefnyddir ar **Cerdyn Siarad 11**.
A: Rwy't ti'n gweithio yn Hwyl y Gaeaf.
B: Rwy't ti'n ffonio. Rwy't ti eisiau gwybod beth sy yn Hwyl y Gaeaf.
Siaradwch.

Eglurwch fod **Partner A** yn gweithio yn Hwyl y Gaeaf a'i fod / bod yn ateb ymholiadau ar y ffôn. Aelod o'r cyhoedd yw **Partner B** ac mae'n methu penderfynu ydy e/o / hi eisiau mynd i Hwyl y Gaeaf ac felly mae'n ffonio am wybodaeth.

Gan ddefnyddio'r patrymau sydd wedi'u rhestru ar y cerdyn, ac unrhyw batrymau eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw, dylai'r disgyblion chwarae rôl yn y sefyllfa hon:

Oes ffair / stondinau yn Hwyl y Gaeaf?

Oes. / Nac oes.

Oes, mae stondinau yn Hwyl y Gaeaf.

Oes, mae stondinau ffrwythau yn Hwyl y Gaeaf.

Beth sy yn y ffair?

Pa stondinau?

- Chwaraewch y darn nesaf, sy'n cyflwyno / atgyfnerthu dyddiadau. Gorffennwch lle mae Dyfs yn ailadrodd y gair **Paratoi**.

Tynnwch sylw at y dyddiadau hyn:

Tachwedd un deg chwech

Tachwedd un deg saith

Gallai hyn arwain at rownd o gwestiynau cyflym lle mae'r disgyblion yn gofyn i'w gilydd am gyfieithiadau Cymraeg o ddyddiadau ym mis **Tachwedd**. Yna, gallwch chi gyflwyno / adolygu'r gair **Rhagfyr** a gwneud rownd arall o gwestiynau cyflym.

Gallai hyn arwain at drafod digwyddiadau sydd i'w cynnal yn ystod mis Rhagfyr, e.e. gallai'r disgyblion lenwi 'calendr / dyddiadur digwyddiadau' sy'n cynnwys manylion am wahanol ddigwyddiadau sydd i'w cynnal ar ddyddiadau penodol, e.e. **Sioe Nadolig – Rhagfyr 10, parti Nadolig – Rhagfyr 13** a.y.b. Caniatwch i'r disgyblion ddefnyddio geiriau Saesneg os nad ydyn nhw'n gwybod y geiriau Cymraeg priodol – beth sy'n bwysig yn y cyd-destun hwn yw eu bod nhw'n dysgu / adolygu sut i ffurfio'r dyddiad yn Gymraeg.

Neu, gan weithio mewn paru, gallai **Partner A** edrych ar 'galendr digwyddiadau' sy'n debyg i'r un isod:

Partner A:

Rhagfyr	
Rhagfyr 5	Parti Nadolig
Rhagfyr 7	Trip i'r pantomeim
Rhagfyr 10	Sioe'r ysgol
Rhagfyr 11	Sioe'r ysgol (eto)
Rhagfyr 17	Cinio Nadolig yn yr ysgol
Rhagfyr 18	Prynhawn o gemau
Rhagfyr 19	Gwasanaeth arbennig Yr ysgol yn cau

Byddai gan **Partner B** galendr tebyg ond ei fod yn wag. Byddai disgwyl iddo / iddi ei gwblhau drwy ofyn i'w bartner pryd mae'r digwyddiadau canlynol:

Pryd mae'r ...?

Cinio Nadolig yn yr ysgol

Trip i'r pantomeim

Prynhawn o gemau

**Sioe Parti Nadolig
ysgol yn cau**

Gwasanaeth arbennig

Sioe (eto)

e.e.

B: Pryd mae'r cinio Nadolig yn yr ysgol?

A: Rhagfyr 17.

Gallai **Partner B** ysgrifennu'r digwyddiad yn y bwllch priodol yn y calendar gwag, e.e.

Rhagfyr	
Rhagfyr 5	
Rhagfyr 7	
Rhagfyr 10	
Rhagfyr 11	
Rhagfyr 17	
Rhagfyr 18	
Rhagfyr 19	

- Canolbwyntiwch unwaith eto ar y gair **tocyn**: Dangoswch enghreifftiau o docynnau amrywiol – yn Gymraeg os oes modd, e.e. tocynnau cyngerdd a.y.b. a thrafodwch y manylion, e.e.

Ble mae'r ...?

Pryd mae'r ...?

Beth ydy'r ...?

Beth sy yn ...?

Beth sy'n digwydd yn y ...?

Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw'n cofio'r manylion ar y tocyn ar y DVD:

Ble mae Hwyl y Gaeaf?

Pryd mae Hwyl y Gaeaf?

Beth ydy Hwyl y Gaeaf?

HWYL Y GAEAF

Ble: Caerdydd
Pryd: Tachwedd 17
Beth: Hwyl a sbri!

Dewch i gael hwyl a sbri yn

HWYL Y GAEAF

Gofynnwch iddyn nhw gynllunio tocynnau ar gyfer digwyddiadau eraill – digwyddiadau sydd i'w cynnal yn yr ysgol efallai – gan gynnwys delweddau priodol:

SIOE

Ble: Yn yr ysgol
Pryd: Rhagfyr 10
Beth: Hwyl a sbri!

Dewch i gael hwyl a sbri yn

Y SIOE

PARTI

Ble: Yn yr ysgol
Pryd: Rhagfyr 15
Beth: Hwyl a sbri!

Dewch i gael hwyl a sbri yn

Y PARTI

Yna, gallai'r disgyblion wahodd ei gilydd i'r digwyddiadau, gan ddefnyddio'r patrymau a gyflwynwyd eisoes yn ystod y Cyfnod Sylfaen ac ym Mhecyn 1:

Gwahoddiad ysgrifenedig:

SIOE	
Wyt ti eisiau dod i'r sioe?	
Pryd:	
Ble:	
Beth:	
Ateb (✓): Ydw, dw i eisiau dod. /	Ateb (*): Mae'n ddrwg gen i, dw i ddim yn gallu dod. Mae'n flin `da fi, dw i ddim yn gallu dod.

E-bost:

Oddi wrth: At: Pwnc:
Annwyl ... Wyt ti eisiau dod i sioe yn ... ar ...? Cofion

Galwad ffôn:

A: **Wyt ti eisiau dod i'r sioe?**

B: **O, ydw os gwelwch yn dda. Ble mae'r sioe?**

A: **Yn yr ysgol.**

B: **Pryd?**

A: **Rhagfyr deg.**

- Chwaraewch y darn eto er mwyn adolygu, gan orffen gyda Dyfs yn ailadrodd y gair **Paratoi**.

Gofynnwch Sut mae paratoi?

Gofynnwch i'r disgyblion ddychmygu eu bod nhw'n mynd i Hwyl y Gaeaf ac felly bod angen iddyn nhw baratoi beth byddan nhw'n ei gymryd gyda nhw:

Rydych chi'n mynd i Hwyl y Gaeaf, rhaid cael ...

Beth am ...?

Dw i eisiau ...

arian / pres
dillad cynnes
bwyd
camera
y tocyn
ffôn

Syniad da.

Na, dw i ddim yn meddwl.

- Canolbwyntiwch ar ran nesa'r ffilm, lle mae'r cymeriadau'n dangos beth maen nhw'n bwriadu ei gymryd gyda nhw. Stopiwch y ffilm pan fydd Dyfs yn dweud:

Rhaid paratoi dillad – pa ddillad?

ac mae Izzy'n dweud

Beth am ...?

wrth iddi symud o'r golwg.

Cymharwch yr eitemau a ddangosir gyda'r eitemau mae'r disgyblion wedi'u rhestru.

- Gofynnwch i'r disgyblion restru'r dillad y dylai Dyfs ac Izzy eu gwisgo i Hwyl y Gaeaf:
Pa ddillad?

Ar ôl cyfnod priodol, gofynnwch iddyn nhw am eu hawgrymiadau ac yna chwaraewch y darn o'r ffilm lle mae Izzy a Dyfs yn penderfynu pa ddillad y dylen nhw wisgo.

Ar ôl gweld awgrymiadau Izzy, gallech chi ofyn:

Ydy Izzy'n iawn?

a byddai hyn yn atgoffa'r disgyblion o gwestiwn Izzy:

Ydy Sgrin yn iawn?

yn gynharach yn y ffilm.

Gallech chi ddefnyddio'r patrwm hwn wrth i'r disgyblion ymgymryd â gwahanol weithgareddau, a.y.b.

Cymharwch awgrymiadau'r disgyblion gyda rhai Dyfs ac Izzy.

- Cyn symud ymlaen i'r darn nesaf, adolygwch yr ymadrodd:
Faint o arian? (De Cymru)
Faint o bres? (Gogledd Cymru)

Adolygwch y gair **punt***:

punt

dwyr bunt

tair punt

pedair punt

pum punt

* Cofiwch: mae'r gair **punt** yn fenywaidd, felly mae **dwyr**, **tair** a **pedair** yn cael eu defnyddio gyda'r gair hwn.

Gofynnwch i'r disgyblion ddyfalu beth yw'r canlynol yn Gymraeg:

ten pounds – **deg punt**

fifteen pounds – **un deg pum punt**

twenty pounds – **dau ddeg punt**

Er mwyn adolygu, gallai un disgybl ysgrifennu swm o arian ar ddarn o bapur gan wneud yn siŵr nad yw gweddill y grŵp yn gallu gweld y swm hwnnw. Yna, gallai gweddill y disgyblion geisio dyfalu beth yw'r swm, e.e.

A: **Faint o arian? / Faint o bres?**

B: **Pum punt?**

A: **Na.**

B: **Saith punt?**

A: **Na.**

B: **Deg punt?**

A: **Deg punt.**

Gellid cyflwyno'r geiriau **mwyr** a **llai** er mwyn helpu'r disgyblion i ddyfalu'r swm.

A: **Faint o arian? / Faint o bres?**

B: **Pum punt?**

A: **Mwyr.**

B: **Deg punt?**

A: **Llai.**

B: **Wyth punt?**

A: **Wyth punt.**

- Chwaraewch y darn nesaf sy'n ymdrin ag arian – hyd at y man lle maen nhw'n rhannu'r arian.

Tynnwch sylw at y ffaith fod Dyfs ac Izzy'n cyfrif fesul pump – gallech chi ymarfer hyn gyda'r disgyblion. Gallech chi ddatblygu hyn ymhellach drwy gyfrif y tu hwnt i 20.

Yna, gallech chi gyflwyno amryw weithgareddau mathemategol sy'n gysylltiedig ag arian.

- Chwaraewch ran olaf y ffilm, lle maen nhw'n chwilio am fwyd yn y Pod-antur Cymraeg.

Gallech chi guddio eitem o fwyd / nifer o eitemau o fwyd yn yr ystafell ddosbarth fel bod y disgyblion yn gorfod gofyn cwestiynau er mwyn ceisio dod o hyd iddyn nhw:

Oes bwyd yn y ...?
ar y ...

a.y.b.

Oes. / Nac oes.

- Gofynnwch i'r disgyblion restru deg eitem o fwyd a diod maen nhw'n meddwl y bydd Dyfs ac Izzy'n eu prynu pan fyddan nhw'n mynd i **Hwyl y Gaeaf**.

Yna, mewn grwpiau, gofynnwch iddyn nhw gymharu nodiadau. Os ydyn nhw wedi cofnodi bwyd a diod nad oes neb arall yn y grŵp wedi'i gofnodi, dylen nhw roi dau farc iddyn nhw'u hunain.

Yna, gofynnwch:

Sawl marc?

Pwy sy wedi ennill?

Beth sy ar y rhestr?

Dywedwch wrth y disgyblion am gadw'r nodiadau hyn mewn man diogel oherwydd bydd eu hangen yn rhan nesaf yr uned.

- Adolygwch deimladau. Gofynnwch i'r disgyblion sut mae Izzy'n teimlo:

Dw i wedi blino. / Mae hi wedi blino.

Gofynnwch iddyn nhw sut mae Dyfs yn teimlo:

Dw i ddim wedi blino. / Dydy e / o ddim wedi blino.

Dw i'n teimlo'n gyffrous. / Mae e'n / o'n teimlo'n gyffrous.

Adolygwch deimladau eraill:

Dw i'n hapus.; Dw i'n teimlo'n hapus.

Dw i'n drist.; Dw i'n teimlo'n trist.

Dw i'n ofnus.; Dw i'n teimlo'n ofnus.

Gwahoddwch nhw i ddod i du blaen yr ystafell ddosbarth ac i feimio sut maen nhw'n teimlo. Dylai aelodau eraill y dosbarth geisio dyfalu.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 13**:
Sut wyt ti?; Sut wyt ti'n teimlo?
Pam?

Mewn paru / grwpiau, dylen nhw ofyn i'w gilydd sut maen nhw neu sut maen nhw'n teimlo, gan ddefnyddio'r cwestiynau uchod. Gallen nhw ateb drwy ddweud sut maen nhw'n teimlo a gallai hyn arwain at y cwestiwn, **Pam?**

Achos ...

neu gallen nhw roi ateb llawn:

Dw i'n teimlo'n hapus achos dw i'n hoffi'r Pod-antur Cymraeg.

- Cyflwynwch y cerdyn darllen, **E-bost**, sy'n cynnwys neges e-bost Dyfs at ei fam. Darllenwch drwyddi fel grŵp.

Yna, gallech chi gynnal cwis. Rhannwch y disgyblion yn grwpiau a gofynnwch iddyn nhw ddod o hyd i ddywediadau a brawddegau penodol. Rhowch bwynt iddyn nhw bob tro y byddan nhw'n ateb yn gywir, e.e.

Beth ydy ...?

How are you? - **Sut wyt ti?**

I'm travelling in the Pod-antur Cymraeg. - **Dw i'n teithio yn y Pod-antur Cymraeg.**

It's great. - **Mae'n wych.**

to travel - **teithio**

tomorrow - **yfory**

to go - **mynd**

Winter Wonderland - **Hwyl y Gaeaf**

November 17 - **Tachwedd un deg saith**

ice - **rhew**

market - **marchnad**

to skate - **sglefrio**

Christmas presents - **anrhegion Nadolig**

Good bye. - **Hwyl fawr.**

adventure - **antur**

fantastic - **ffantastig**

fun - **hwyl a sbri**

We're going to buy ... - **Rydyn ni'n mynd i brynu ...**

We're going to buy Christmas presents. - **Rydyn ni'n mynd i brynu anrhegion Nadolig.**

Os bydd unrhyw ymadroddion yn achosi anawsterau, dewch yn ôl atyn nhw dro ar ôl tro hyd nes y bydd y disgyblion wedi'u dysgu nhw.

I ennill pwyntiau ychwanegol (e.e. 10 neu 20 yr un), gofynnwch iddyn nhw beth gallen nhw ei gynnwys mewn e-bost at Steff, ffrind Dyfs. Byddai hyn yn golygu ailadrodd nifer o'r geiriau / ymadroddion uchod mewn brawddegau ystyrlon.

Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu e-bost at Steff ar ran Dyfs.

Uned 2: Rhan 3 - Hwyl y Gaeaf

Nodau:

- Adolygu teimladau, **Dw i'n teimlo'n hapus.; Dw i'n teimlo'n nerfus.**
- Adolygu gofyn am bethau yn Gymraeg, e.e. archebu brecwast yn Gymraeg, prynu pethau yn y farchnad Nadolig
- Trafod maint: **bach; canolig; mawr; rhy fach; rhy fawr**
- Adolygu mynegi barn, e.e. **Mae'n wych.; Mae'n ffantastig.; Mae'n anhygoel.**
- Dysgu am farchnadoedd Nadolig yn Awstria drwy gyfrwng y Gymraeg
- Adolygu geiriau a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon.

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Mae'n anhygoel! Pa faint? Bach? Canolig? Mawr? Maint pump. Maint naw. rhy fawr rhy fach Rhaid talu gynta. Ble gynta?	y fwydlen grawnfwyd wy ar dost ffa ar dost coffi te helmed padiau esgidiau sglefrio y farchnad Nadolig losin (De Cymru) / fferins (Gogledd Cymru)

Patrymau a geirfa sy'n gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Wyt ti'n barod? Ydw. / Nac ydw. Ydych chi'n barod? Ydyn. / Nac ydyn. Beth am fynd i sglefrio? Dim eto. Beth am esgidiau? Beth wyt ti'n wisgo? Dw i'n gwisgo helmed. Ydych chi eisiau brecwast? Ydyn, os gwelwch yn dda. Nac ydyn, dim diolch. Beth sy ar y fwydlen? Sawl un? Chwech os gwelwch yn dda. Y rhain? Beth sy yn y bag? Oes fferins / losin yn y bag? Oes. / Nac oes. Ga i weld? Gorchmynion Esgusodwch fi. Ewch at y cylch coch. Bydda'n ofalus. Rhaid Rhaid brwsio dannedd. Rhaid brwsio gwallt.	bwyd brecwast (yn) gynta tost wy sudd oren sudd afal sosejis diod blasus newid anhygoel esgidiau stondin, stondinau seren coeden Nadolig dillad anrheg sglefrio addurniadau

Rhaid ymolchi. Rhaid gwisgo pants / dillad glân. Eraill Dw i'n teimlo'n hapus. Dw i eisiau mynd. Dw i eisiau wy ar dost. Dw i ddim eisiau wy ar dost. Dwy bunt o newid. Mae'n ffantastig. Un funud. / Un munud.	
---	--

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Barod?; Wyt ti'n barod?; Ydw. ; Nac ydw.; Ydych chi'n barod?; Ydyn.; Nac ydyn.

Dyna ni.

Esgusodwch fi.

Rhaid gwisgo sgarff a menig.

Beth am ...?

Mae'n anhygoel!

Faint?

Bydda'n ofalus.; Byddwch yn ofalus.

Bach?; Canolig?; Mawr?

Rhy fach.; Rhy fawr.

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Chwaraewch y ffilm **Hwyl y Gaeaf** (Uned 2, Rhan 3) - hyd at y man lle mae Dyfs yn dweud nad yw'n barod i fynd eto ac mae Izzy'n gofyn **Pam?**.

Dywedwch wrth y disgyblion:

Mae'n fore. Rhaid ...

Gofynnwch iddyn nhw am eu syniadau. Os bydd angen, atgoffwch nhw o Uned 1, lle mae Dyfs yn gwersylla yn y goedwig:

Rhaid brwsio dannedd.

Rhaid brwsio gwallt.

Rhaid ymolchi.

Rhaid gwisgo pants / dillad glân.

- Chwaraewch y darn nesaf, lle mae Dyfs yn egluro pam nad yw'n barod, gan orffen gydag Izzy'n ailadrodd y cyfarwyddiadau uchod ac yna'n gadael yr ystafell.
- Os nad yw'r disgyblion eisoes wedi gwneud, gallen nhw greu taflenni gwybodaeth, taflenni, clip fideo, cyflwyniad PowerPoint, cartŵn a.y.b. er mwyn egluro egwyddorion sylfaenol hylendid personol, a gallai'r gwaith hwn gael ei ddsbarthu / ei ddangos i ddsbarthiadau eraill, e.e.
Yn y bore, rhaid brwsio dannedd ...
a.y.b.
- Chwaraewch y darn nesaf hyd at y man lle maen nhw'n gadael y caffi. Tynnwch sylw at y dillad:
Beth mae Dyfs yn wisgo?
Beth mae Izzy'n wisgo?

Tynnwch sylw at y tywydd:

Sut mae'r tywydd?

Mae'n oer.

Mae'n rhewi.

Gallech chi gynnal rownd o gwestiynau cyflym, **Sut mae'r tywydd?**, gan ddefnyddio cardiau fflach, delweddau a.y.b. fel y bo'n briodol, er mwyn adolygu.

Yna, gallai'r disgyblion ddychmygu eu bod nhw'n mynd i **Hwyl y Gaeaf**. Gallen nhw dynnu llun i ddangos beth maen nhw'n ei wisgo a pam maen nhw'n gwisgo'r dillad hyn. Gallen nhw ddisgrifio'r tywydd yn y llun hefyd:

**Dw i'n gwisgo ... achos mae'n ...
dw i'n hoffi ...**

- Chwaraewch y darn yma eto a symudwch ymlaen at y darn nesaf (yn y caffi) – hyd at y man lle mae Dyfs ac Izzy'n gadael y caffi. Y tro hwn, gofynnwch i'r disgyblion edrych eto ar y rhestri a wnaethon nhw ar ddiwedd y rhan flaenorol er mwyn gweld faint ohonyn nhw ddyfalodd yn gywir pa fwyd y byddai Dyfs ac Izzy'n fwyta.

Gofynnwch i'r disgyblion restru'r geiriau bwyd a glywir ar y DVD:
Beth sy ar y fwydlen?

Gofynnwch:
Pwy sy'n gallu gwneud y rhestr hira?

<p>Y Fwydlen</p> <p>Brecwast:</p> <p>Grawnfwyd Tost gwyn / Tost brown Wy ar dost Ffa ar dost Sosejis ac wy</p> <p>Sudd oren Sudd afal Te Coffi</p>

Cymharwch y rhestri ac ysgrifennwch y geiriau bwyd ar y bwrdd gwyn. Yna, gallech chi chwarae'r darn eto er mwyn gwirio eich bod wedi cynnwys yr holl eiriau bwyd.

Gofynnwch i'r disgyblion greu bwydlen brecwast – gallan nhw ddefnyddio'r geiriau uchod ac unrhyw eiriau perthnasol eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw.

Chwaraewch y darn eto ac adolygwch y patrymau hyn:

Dw i eisiau ... os gwelwch yn dda.
Ydych chi eisiau ...?
Ydw, os gwelwch yn dda.
Nac ydw, dim diolch.
Sawl un?
Sawl wy?
Sawl sosej?

Cyflwynwch yr ymadroddion:

Pa faint?
Mawr?
Bach?

Mewn parau, dylen nhw ddefnyddio'r fwydlen i chwarae rôl archebu brecwast mewn caffi. Dylen nhw wneud hyn ddwywaith fel eu bod yn cael cyfle i chwarae rôl y bwytwr a'r gweinydd. Anogwch nhw i ddefnyddio'r ymadroddion a restrir uchod.

- Gofynnwch i'r disgyblion ychwanegu pris at bob pryd / diod ar eu bwydlenni. Adolygwch arian cyn gwneud hyn.

Nawr, gofynnwch iddyn nhw chwarae rôl unwaith eto, a'r tro hwn rhaid cyfrifo cyfanswm y bil.

- Chwaraewch yr adran eto, sef y darn lle mae'r cymeriadau yn y ffilm yn talu:
Rhaid talu.

Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw'n cofio'r gair Cymraeg **newid**.

Nawr, dylen nhw chwarae rôl talu am eu pryd:

Dyma chi ... punt.
Diolch. Dyma chi - y newid.
Hwyl fawr.

- Gallech chi chwarae'r holl ddarn eto er mwyn adolygu. Y tro hwn, gallech chi ofyn iddyn nhw wrando am gyfeiriadau at fwyd sy'n dda i chi:
Pa fwyd sy'n dda i chi?
Mae bara brown yn dda i chi.

- Canolbwyntiwch ar y darn nesaf ar y ffilm, sy'n sôn am y farchnad Nadolig a lle mae Dyfs ac Izzy'n hurio esgidiau sglefrio. Stopiwch ar ôl i'r geiriau a'r ymadroddion gael eu hegluro ar y sgrîn.

Eglurwch fod Dyfs yn derbyn tocyn ar y DVD i ddangos ei fod wedi talu £5, sef blaendal a fydd yn cael ei ddychwelyd iddo pan fydd yn dychwelyd yr esgidiau sglefrio.

Tynnwch sylw at y patrymau canlynol:

Pa faint?
Maint (pump).
Rhy fawr.
Rhy fach.

Mewn parau / grwpiau, a gan ddefnyddio esgidiau o wahanol faint, gallai'r disgyblion actio sefyllfaoedd lle maen nhw'n gofyn am esgidiau o faint penodol, yn derbyn pâr ond eu bod yn rhy fawr neu'n rhy fach, e.e.

Dw i eisiau esgidiau os gwelwch yn dda.
Pa faint?
Maint pump os gwelwch yn dda.
Dyma chi.
O, diar – rhy fach.
O, diar – rhy fawr.

Gallen nhw dynnu lluniau / cartwnau sy'n cyfleu **rhy fach** a **rhy fawr** yn ogystal.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 14**.

A: **Rwy't ti'n mynd i'r stondin i ofyn am esgidiau sglefrio.**

B: **Rwy't ti'n gweithio ar y stondin.**

Dylai'r disgyblion chwarae rôl yn y sefyllfa hon, gan ddefnyddio'r patrymau iaith a restrir ar y cerdyn.

Yn ogystal, gallen nhw ddefnyddio patrymau iaith cyfarwydd eraill, e.e.

Ga i esgidiau sglefrio os gwelwch yn dda?
Cei. / Cewch.
Mae'n ddrwg gen i, does dim esgidiau sglefrio maint ...
Mae'n flin 'da fi i, does dim esgidiau sglefrio maint ...

Gallen nhw ddatblygu'r sgwrs – fel ar y ffilm. Gallen nhw esgus ceisio gwisgo'r esgidiau sglefrio ac yna sylweddoli eu bod nhw'n:

rhy fach
rhy fawr

Gallen nhw ofyn wedyn am faint mwy / llai drwy ailadrodd **maint** a dewis rhif gwahanol:
Maint chwech os gwelwch yn dda.

- Dangoswch ran nesa'r ffilm, lle mae'r cymeriadau'n sglefrio – hyd at y man lle awgrymir bod Izzy'n cael rhyw fath o ddamwain. Gofynnwch:
Beth mae Izzy'n wisgo?
Mae hi'n gwisgo ...
helmed
padiâu
menig
cot
- Adolygwch deimladau – sut mae'r cymeriadau'n teimlo?
Dw i'n teimlo'n nerfus.
Dw i'n hapus iawn, iawn.
- Gallech chi ofyn cwestiynau'n seiliedig ar y clip, e.e.
Pa liw ydy'r helmed / esgidiau sglefrio?
Yn ogystal, gallech chi rannu'r disgyblion yn grwpiau a gofyn i bob grŵp feddwl am 2-3 chwestiwn – gallen nhw ofyn y cwestiynau hyn i'r grwpiau eraill mewn cwis.
- Tynnwch sylw at y rhan sy'n awgrymu bod Izzy'n cael rhyw fath o ddamwain. Gofynnwch i'r disgyblion ddychmygu beth sy'n digwydd:
Beth sy'n digwydd?
Mae Izzy'n syrthio.
Derbyniwch eiriau Saesneg os bydd rhaid.

Gofynnwch: Beth ydy 'Be careful' yn Gymraeg? - **Bydda'n ofalus.**

Yna, gallai'r disgyblion gynhyrchu posteri, taflenni a.y.b. sy'n pwysleisio'r angen i fod yn ofalus wrth sglefrio iâ, e.e. gallen nhw dynnu llun rhywun yn gwisgo'r dillad mae Izzy'n wisgo ar y sgrîn a chynnwys cyfarwyddiadau addas, e.e.

Bydda'n ofalus ar y rhew.

Rhaid gwisgo dillad cynnes.

Rhaid gwisgo padiâu.

Dim chwarae o gwmpas.

Mae sglefrio'n hwyl, ond ... (defnyddiwch un o'r cyfarwyddiadau uchod).

Gallech chi ymestyn yr agwedd diogelwch a phwysleisio na ddylai disgyblion sglefrio ar lynnoedd a.y.b. byth. Dim ond ar lawr sglefrio sydd wedi cael ei gynllunio'n arbennig ac sy'n cael ei arolygu y dylen nhw sglefrio:

Dim sglefrio ar y llyn - byth!

Dim sglefrio ar y pwll - byth!

Paid sglefrio ar y llyn - byth!

Paid sglefrio ar y pwll - byth!

Peidiwch sglefrio ar y llyn - byth!

Peidiwch sglefrio ar y pwll - byth!

- Chwaraewch y darn nesaf, hyd at y man lle maen nhw'n dychwelyd yr esgidiau sglefrio. Yna, gallai'r disgyblion chwarae rôl mewn sefyllfa debyg lle maen nhw'n dychwelyd yr esgidiau sglefrio ac yn gofyn am eu hesgidiau eu hunain:
Gawn ni'r esgidiau, os gwelwch yn dda?
Pa faint?
Maint ...

Y rhain?
Diolch.
Dyma chi.
Dyma chi – pum punt.
Diolch.

- Chwaraewch y darn nesaf hyd at y man lle mae Dyfs yn rhoi menig i Izzy.
- Tynnwch sylw at y patrymau canlynol:
Pa faint?
Bach? Canolig? Mawr?

Eglurwch wrth y disgyblion eu bod nhw eisoes yn gwybod **bach** a **mawr** a chyflwynwch **canolig**.

Gan nad ydym yn gweld Dyfs yn prynu'r menig, gofynnwch i'r disgyblion chwarae rôl wrth stonidin / mewn siop sy'n gwerthu menig, e.e.

Dw i eisiau menig os gwelwch yn dda.

Ga i fenig os gwelwch yn dda?

Pa faint? Bach? Canolig? Mawr?

Bach, os gwelwch yn dda.

Pa liw?

Menig pinc os gwelwch yn dda.

Dyma chi - menig bach, pinc.

Diolch.

Eglurwch fod modd trosglwyddo'r patrymau iaith hyn i sefyllfaoedd eraill, e.e.,

Dw i eisiau sanau / cap / cot / trowsus / esgidiau os gwelwch yn dda.

Ga i sanau / fenig / gap / got / drowsus / esgidiau os gwelwch yn dda?

Pa faint?

Bach? Canolig? Mawr?

... os gwelwch yn dda.

Pa liw?

... os gwelwch yn dda.

... punt os gwelwch yn dda.

Dyma chi - ... punt. [Sylwer: **Dwy bunt.**]

Dyma chi - ... punt o newid. [Sylwer: **Dwy bunt.**]

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 15** a gofynnwch i'r disgyblion addasu'r patrymau hyn i'r sefyllfa ganlynol:
A: Rwy't ti eisiau sanau newydd.
B: Y siopwr wyt ti.
Siaradwch.

- Chwaraewch ran ola'r ffilm, lle mae Izzy'n dweud
Dw i eisiau un os gwelwch yn dda?

Yna, mae'r eitem yn cael ei rhoi iddi mewn bag ac mae hi'n talu amdani.

Dylai'r disgyblion geisio dyfalu beth yw'r eitem:

Beth sy yn y bag?

Defnyddiwch fag anrheg gydag eitem ynddo a gofynnwch i'r disgyblion chwarae:

Oes ... yn y bag?

Dylen nhw geisio dyfalu beth sydd yn y bag drwy addasu'r cwestiwn uchod.

- Chwaraewch ddarn o'r ffilm eto a gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:
Wyt ti'n hoffi'r DVD?
Ydw.

Ydw. Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n dda.
Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n dda iawn.
Dw i'n hoffi'r DVD achos dw i'n hoffi Hwyl y Gaeaf.

Nac ydw.

Nac ydw. Dw i ddim yn hoffi'r DVD.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ofnadwy.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos mae'n ddiflas.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos dw i ddim yn hoffi siopa.

- Gallai'r disgyblion gynllunio a chreu darnau o waith celf yn seiliedig ar **Hwyl y Gaeaf** drwy ddefnyddio technegau gwahanol. Wrth iddyn nhw ymgymryd â'r gwaith, dylen nhw ddisgrifio yn y Gymraeg beth maen nhw'n wneud. Dylen nhw werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion hefyd. Gweler y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₂** am awgrymiadau am eirfa a phatrymau iaith perthnasol.
- Cyflwynwch y gyfrol **Hwyl y Nadolig**, gan roi sylw penodol i'r ffotograffau o farchnad Nadolig. Gallech chi drafod y farchnad, gan ddefnyddio'r patrymau a restrir yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₂**, e.e.
Edrychwch ar y llun.
Ble mae'r ...?
Pa liw ydy'r ...?
Beth ydy hwn?
Beth sy'n digwydd yn y llun?
Mae ...
Sawl ... sy yn y ... llun?
Oes ... yn y llun?
Oes. / Nac oes.
Beth ydy'r rhain?

Uned 2: Rhan 4 - Anrhegion

Nodau:

- Defnyddio'r Gymraeg mewn gweithgaredd dylunio a thechnoleg: **Rhaid peintio ...; Rhaid gludo ...**
- Adolygu gwerthuso gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg: **Mae'n hardd.; Mae'n effeithiol iawn.; Mae'n ardderchog.; Mae angen mwy o liw yma.**
- Cyflwyno stori Baboushka drwy gyfrwng y Gymraeg a'i defnyddio er mwyn ysgogi gwaith llafar ac ysgrifenedig
- Adolygu geiriau a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon.

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Mae'n rhy boeth. Tynna dy got. Tynna dy sgarff. Tynna dy fenig. fel eira Mae'r gliter yn sgleinio fel eira. Mae'n well nawr / rwan. Nadolig Llawen.	addurn, addurniadau cannwyll goch clai gwlan sgleinio

Patrymau a geirfa sy'n gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth sy'n bod? Does dim anrheg i Sgrin. Beth am wneud anrheg? Beth wyt ti'n ddefnyddio? Dw i'n defnyddio ... Beth ydy'r stori? Pwy ydy Baboushka? Merch ydy Baboushka. Gorchmynion Rhaid peintio. Rhaid rhoi clai ar y logyn. Rhaid rhoi kannwyll ar y clai. Rhaid rhoi gwlan cotwm ar y logyn. Rhaid rhoi glud ar y gwlan cotwm. Rhaid rhoi gliter ar y gwlan cotwm. Eraill Bobl bach! Mae'n boeth. Mae'r ... yn effeithiol iawn. Mae'r ... yn hyfryd.	anrheg, anrhegion logyn / boncyff glud paent lliw eira

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Mae'n rhy boeth.

Tynna dy got. [Hefyd: **Tynnwch eich cotiau.**]

Dyna ni.

Beth sy'n bod?

Beth am ...?

Beth wyt ti'n ddefnyddio?; Dw i'n defnyddio ...; [Hefyd: **Beth ydych chi'n ddefnyddio?; Rydyn ni'n defnyddio ...**]
Rhaid peintio ...
Rhaid gludo ...
Mae'n hardd.
Mae'n effeithiol iawn.
Mae'n ardderchog.
Mae angen mwy o liw yma.
Dw i'n hoffi'r ...
Mae'n well nawr / rwan.

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Dangoswch y ffilm **Anrhegion** (Uned 2, Rhan 4). Canolbwyntiwch ar y dechrau, hyd at y man lle mae Izzy'n sylweddoli nad oes ganddi anrheg ar gyfer Sgrin ac mae Dyfs yn dweud:
Dim problem. Beth am wneud anrheg i Sgrin? Dw i'n gwneud anrheg Nadolig i Sgrin.

Canolbwyntiwch ar y dechrau eto a dangoswch fod patrwm iaith a gyflwynwyd / adolygwyd yn yr uned flaenorol yn cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun gwahanol. Rhwch gliw i'r disgyblion – **rhy** - a gofynnwch iddyn nhw beth yw'r patrwm:
Mae'n rhy boeth.

Gofynnwch i un o'r disgyblion wisgo sawl haen o ddillad awyr agored, e.e. sgarffiau, capiau, hetiau a.y.b. Yna, gofynnwch iddo / iddi ddod i du blaen yr ystafell ddosbarth a dweud
Mae'n rhy boeth.

Dylai gweddill y dosbarth ddweud wrtho / wrthi am dynnu dilledyn:
Tynna dy ...

Gallech chi ddefnyddio'r patrwm hwn wrth i'r disgyblion gerdded i mewn i'r ysgol yn ystod y gaeaf. Defnyddiwch y canlynol wrth siarad â'r dosbarth cyfan neu grŵp o ddisgyblion:

Tynnwch eich capiau / hetiau.
Tynnwch eich cotiau.
Tynnwch eich sgarffiau.
Tynnwch eich menig.
Tynnwch eich esgidiau.
Tynnwch eich bŵts.

- Canolbwyntiwch ar y darn nesaf, lle mae Dyfs yn gwneud addurn Nadolig – hyd at y man lle mae'n dangos yr addurn. Dylai'r disgyblion enwi'r deunyddiau mae'n eu defnyddio wrth iddo ailadrodd y geiriau Cymraeg.
- Yna, gofynnwch i'r disgyblion:
Ydych chi eisiau gwneud addurn Nadolig?
Ydyn. / Nac ydyn.

Dangoswch ddeunyddiau gwahanol a chyflwynwch / adolygwch eirfa briodol yn Gymraeg – gweler y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₂**.

Dylai'r disgyblion gynllunio a gwneud addurn gan ddefnyddio deunyddiau o'u dewis eu hunain. Dylen nhw roi cyfarwyddiadau neu ddisgrifio'r hyn maen nhw'n wneud yn y Gymraeg:

Rhaid ...
Dw i'n ...

Gallen nhw ofyn cwestiynau i'w gilydd:
Beth wyt ti'n wneud? Dw i'n ...
Beth wyt ti'n ddefnyddio? Dw i'n defnyddio ...

- Dangoswch y darn nesaf, lle mae Izzy'n dod i mewn ac yn gwneud sylwadau am yr addurn, gan orffen gyda Dyfs yn dweud: **Diolch, Izzy.**

Gofynnwch: **Beth mae Izzy'n ddweud?**

Chwaraewch y darn hwn eto a gofynnwch i'r disgyblion wrando ar ei sylwadau:

Mae'n hardd.

Mae'n ffantastig.

Mae'r coch a'r gwyrdd yn effeithiol iawn.

Mae'r gwlan cotwm fel eira.

Mae'r gliter yn sgleinio - fel eira.

Ond ... mae angen mwy o liw yma.

Beth am ... dail?

Mae'n well.

Gallai'r disgyblion wneud sylwadau am waith ei gilydd gan ddefnyddio rhai o'r patrymau hyn.

Gallen nhw ddefnyddio geiriau a phatrymau eraill maen nhw wedi'u dysgu eisoes hefyd:

Mae'r ... yn wych / ardderchog.

Mae'r ... yn effeithiol.

Dw i'n hoffi'r ...

Gallen nhw gyfuno'r patrymau hyn â phatrymau maen nhw wedi'u dysgu eisoes, e.e.

Dw i'n hoffi'r ... achos ...

Dw i'n hoffi'r addurn / anrheg achos mae'r coch a'r gwyrdd yn effeithiol iawn.

Dw i'n hoffi'r addurn / anrheg achos mae'r gliter yn sgleinio fel eira.

Gallen nhw awgrymu sut i wella'r darn, yn union fel y mae Izzy'n gwneud:

Mae eisiau mwy o liw / gliter / gwlan cotwm.

Mae'n well nawr / rwan.

- Chwaraewch ran nesa'r ffilm, lle mae Sgrin yn dweud ei fod yn bwriadu rhoi anrheg iddyn nhw, sef stori. Gofynnwch:
Ydych chi eisiau stori?
Ydyn. / Nac ydyn.

Cyflwynwch y llyfr **Baboushka.**

Gallai'r disgyblion chwilio am leoliad Rwsia ar glôb neu ar fap a.y.b. a gallen nhw chwilio am wybodaeth a lluniau sy'n gysylltiedig â'r wlad. Gallech chi adolygu gwaith a gyflwynwyd ym Mhecyn 1 hefyd, h.y.

Mae'n oer iawn iawn yn Rwsia yn y gaeaf.

Mae hi'n minws ... gradd Celsius.

- Gan ddefnyddio dulliau sy'n cael eu hargymell gan Pie Corbett¹, helpwch y disgyblion i ddysgu'r stori, e.e.
 - Gwnewch fap stori.
 - Defnyddiwch y map stori y tro nesaf y byddwch chi'n dweud y stori a sicrhewch ei fod yn cael ei arddangos yn y dosbarth.
 - Gofynnwch i'r disgyblion wneud mapiau stori unigol
 - Dywedwch y stori bob dydd fel bod y disgyblion yn ei dysgu hi'n raddol.
 - Wrth i'r disgyblion ddysgu'r stori, gwahoddwch nhw i ddweud y stori gyda chi.
 - Wrth iddyn nhw ddod yn fwy cyfarwydd â'r stori, gallai grwpiau adrodd y stori, e.e. merched, bechgyn, grwpiau'n eistedd o gwmpas byrddau ac ati.
 - Penderfynwch, fel dosbarth, pa symudiadau, mynegiant ac ati rydych chi am eu defnyddio i gyfleu'r stori.

* Am wybodaeth bellach ar ddulliau Pie Corbett, gweler: Pie Corbett, **The Bumper Book of Storytelling into Writing – Key Stage 1**, Clown Publishing, 2006; Pie Corbett, **The Bumper Book of Storytelling into Writing – Key Stage 2**, Clown Publishing, 2007

- Gellid sefydlu cylchoedd stori gyda'r disgyblion yn dweud y stori wrth ei gilydd, gan helpu ei gilydd yn ôl yr angen.
- Gallai'r disgyblion feimio golygfeydd penodol.
- Gallen nhw chwarae rôl, e.e. gan ddefnyddio **Cerdyn Siarad 16:**
A: Baboushka wyt ti.
B: Un o'r brenhinoedd wyt ti.
Siaradwch.
a / neu **Cerdyn Siarad 17:**
A: Baboushka wyt ti. Rwy'ti'n chwilio am y brenhinoedd.
B: Rwy'ti'n gweld Baboushka ar y ffordd.
Siaradwch.
- Gallai'r disgyblion actio'r stori gyfan, gan ddefnyddio propiau priodol, e.e. o bosib yn ystod yn ystod gwasanaeth ysgol
- Yn ogystal, gallai un o'r cymeriadau eistedd yn y gadair goch a gallai gweddill y disgyblion ofyn rhai o'r cwestiynau canlynol:
Pwy wyt ti?
Baboushka ydw i.
Ble wyt ti'n byw?
Yn Rwsia. / Dw i'n byw yn Rwsia.
Wyt ti'n hoffi tacluso?
Ydw.
Beth sy yn y cwpwrdd?
Teganau.
Sut wyt ti?
Sut wyt ti'n teimlo?
Dw i'n drist. (I'm sad.) / Dw i'n teimlo'n trist.
Pam?
Dw i eisiau ffeindio'r brenhinoedd.
Dw i eisiau gweld y babi.
Ble mae'r babi?
Dw i ddim yn gwybod.

- Ar ôl i'r disgyblion ddysgu a chyflwyno'r stori, dangoswch y clip sy'n dangos grŵp o ddisgyblion yn dweud y stori. Cymharwch gyflwyniad y disgyblion gyda'r cyflwyniad ar y sgrin.
- Gallai'r disgyblion:
 - wneud collage sy'n dangos gwahanol olygfeydd yn y stori
 - creu pypedau, e.e. pypedau bys / pypedau ffon o'r cymeriadau. Gellid defnyddio'r rhain mewn gweithgareddau chwarae rôl wedyn.
- Gallen nhw wneud bwrdd stori a fyddai'n golygu defnyddio sgiliau TGCh.
- Gallen nhw gyfansoddi cerddoriaeth i gyfleu taith y brenhinoedd. Yn ogystal, gallen nhw wrando ar gerddoriaeth Rwsieg a'i gwerthuso.
- Ar ôl i'r disgyblion ddysgu'r stori'n drwyadl, gallen nhw ei haddasu, e.e. gallen nhw newid
 - enwau'r cymeriadau
 - y cymeriad sy'n curo wrth y drws
 - y person / peth y mae'n rhaid chwilio amdano
 - diwedd y stori – gallai'r prif gymeriad ddod o hyd i'r hyn mae'n chwilio amdano.
- Gofynnwch i'r disgyblion wneud map o'u stori newydd. Yna, dylid ail-ddweud y stori hon bob dydd a symud ymlaen i gylchoedd a pharau stori cyn ysgrifennu'r stori.
- Dylai'r disgyblion ysgrifennu a darlunio'u gwaith yn briodol.
- Yna, gallen nhw rannu eu storïau newydd ymhlith ei gilydd fel eu bod yn darllen gwaith ei gilydd.

Uned 2: Rhan 5 – Ydych chi’n cofio?

Nod:

- Adolygu geiriau a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a’u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon.

Patrymau a geirfa sy’n gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
<p>Cwestiynau ac atebion Beth ydy’r dyddiad? Tachwedd un deg chwech Beth sy yn y bag? Ga i helpu? Cewch. Diolch. Pa faint? Bach? Canolig? Mawr? Dyma chi.</p> <p>Gorchmynion Rhaid peintio. Rhaid rhoi clai ar y pren. Rhaid rhoi’r gannwyll ar y clai. Rhaid rhoi gwllân cotwm ar y logyn. Rhaid rhoi glud ar y gwllân cotwm. Rhaid rhoi gliter ar y gwllân cotwm.</p> <p>Eraill Dyfalwch. Es i i ... Roedd e’n / o’n ... Dw i wedi blino.</p>	<p>logyn / boncyff glud cannwyll paent seren dwy bunt o newid sglefrio y farchnad Nadolig dyddiadur</p>

Trosglwyddo’r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio’r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai’n hawdd trosglwyddo llawer o’r patrymau sy’n cael eu cyflwyno a’u hadolygu yn y rhan hon o’r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth ydy’r dyddiad (heddiw)?

Beth ydy hwn?

Rhaid peintio.

Rhaid rhoi ...

Beth sy yn y ...?

Dyfalwch.; [Hefyd: Dyfala.]

Pa faint?; Bach?; Canolig?; Mawr?

Da!; Da iawn!; Ardderchog!

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Eglurwch mai pwrpas y rhan hon o’r DVD yw adolygu.
- Dangoswch y ffilm, **Ydych chi’n cofio?** (Uned 2, Rhan 5) fesul cam, fel yr awgrymir isod.

Adran 1

- Adolygwch y rhifau hyd at 31 yn y Gymraeg.
- Canolbwyntiwch ar y darn cyntaf ar y ffilm.

Yna, dylai’r disgyblion ddweud y dyddiad yn y Gymraeg.

Gallech chi ymestyn y gweithgarwch hwn drwy gyfeirio at wahanol fisoedd o’r flwyddyn a gallech chi ofyn am ddyddiadau digwyddiadau allweddol, e.e.

Pryd mae’r Nadolig?

Pryd mae Noson Tân Gwylt?

Pryd mae dy ben-blwydd di?

Gallai'r disgyblion ddyfeisio holiaduron er mwyn gofyn i'w gilydd am ddyddiadau eu pen-blwydd; gallai hyn arwain at lunio graffiau a'u hegluro ar lafar ac yn ysgrifenedig, e.e.

Mae wyth yn cael pen-blwydd ym mis Ionawr.

Adran 2

- Dangoswch y rhan nesaf, sy'n adolygu geiriau a gyflwynwyd eisoes. Bydd hyn yn cynorthwyo'r disgyblion gyda'r gweithgaredd yn Adran 3 isod.

Rhaid i'r disgyblion enwi'r eitemau a ddangosir ar y sgrin.

Adran 3

- Gwyliwch y darn lle mae Dyfs yn gwneud addurn Nadolig eto (Uned 2, Rhan 4). Adolygwch eiriau priodol, e.e. y geiriau Cymraeg am y deunyddiau, sut i roi cyfarwyddiadau yn y Gymraeg, e.e.

Rhaid rhoi ...

- Dangoswch ran nesa'r ffilm (Rhan 5) a gofynnwch i'r disgyblion ddisgrifio sut i wneud addurn Nadolig.

Adran 4

- Gwyliwch ran nesa'r ffilm, sy'n dangos Izzy'n siopa yn y farchnad Nadolig. Stopiwch y ffilm pan fydd hi wedi prynu anrheg.

Mewn parau, dylai'r disgyblion ddyfeisio sefyllfa debyg - h.y. maen nhw'n gofyn am rywbeth ond heb ei enwi, maen nhw'n trafod y maint a'r pris. Yna, dylen nhw actio'r sefyllfa o flaen y grŵp / dosbarth, a dylai'r grŵp / dosbarth geisio dyfalu beth sy'n cael ei brynu. Gellid dechrau'r sgwrs gyda:

Dw i eisiau un (+ lliw) os gwelwch yn dda.

Gallai **Cerdyn Siarad 18** gynnig cymorth i unrhyw ddisgyblion sydd angen cefnogaeth:

A: Rwy'ti'n prynu anrheg i ffrind.

B: Y siopwr wyt ti.

Siaradwch.

Adran 5

Mae'r adran hon yn adolygu'r amser gorffennol, a gyflwynwyd yn P-aC₁ ac, o bosib, yn y Cyfnod Sylfaen.

- Chwaraewch y rhan olaf, lle mae Dyfs yn ysgrifennu yn y **dyddiadur**. Mae e'n cofnodi ble aeth e, gan roi manylion a chofnodi'i deimladau:

Tachwedd un deg saith. Es i i'r cafffi. Mmm! Brechwast blasus. Es i i Hwyl y Gaeaf.

Roedd o'n wych. Es i i sglefrio. Roedd o'n hwyl. Es i i'r farchnad Nadolig. Roedd o'n ffantastig. Dw i wedi blino rŵan - nos da.

Gallai'r disgyblion ysgrifennu eu dyddiaduron eu hunain ond dylid adolygu'r canlynol cyn iddyn nhw ddechrau:

Es i i ...

Roedd e'n / o'n grêt / wych / ffantastig / anhygoel / hwyl.

Ces i ..., e.e. Ces i sosej ac wy.

Ces i amser da.

Gwelais i / Gweles i ...

Gwelais i / Gweles i John.

Gwelais i / Gweles i John yn y parc.

Gwelais i'r / Gweles i'r ffair.

- Yna, gellid darllen y stori **Hwyl y Gaeaf yn y Nos** a gwneud y gweithgareddau a awgrymir yng nghefn y llyfr.

Uned 3

Mae'r gwaith yn yr uned hon yn canolbwyntio ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith. Fodd bynnag, mae'r cwricwlwm a meysydd perthnasol eraill yn cael eu targedu yn ogystal. Rhoddir enghreifftiau o elfennau trawsgwricwlaidd isod ond dylid edrych ar y Rhaglenni Astudio a'r fframweithiau perthnasol er mwyn cael rhagor o fanylion.

Cymraeg Ail Iaith

Anogir y disgyblion i ymateb yn briodol mewn amrywiaeth o amgylchiadau - mewn gwaith pâr a gwaith grŵp. Yn ogystal, rhoddir cyfleoedd iddyn nhw siarad amdany'n nhw eu hunain, gan roi cymaint o fanylion â phosibl a hefyd i drafod yr ardal, i drafod ffotograffau, i ofyn am wybodaeth a'i rhoi, i gymryd rhan mewn chwarae rôl ac mewn gweithgareddau gyda'r gadair goch ac i fynegi barn.

Mae cyfleoedd i wyllo a gwranddo ar y ffilm yn ofalus ac i ganfod y prif bwyntiau. Gellid rhoi crynodeb o rannau o'r ffilm i'r disgyblion a gallai rhywfaint ohono fod yn **gywir** a rhywfaint yn **anghywir**. Yna, gellid gofyn iddyn nhw wrando'n ofalus ar y ffilm er mwyn dod o hyd i'r camgymeriadau a'u cywiro.

Gellid rhoi gridiau sy'n seiliedig ar rannau o'r ffilm i'r disgyblion gan ofyn iddyn nhw gofnodi'r wybodaeth angenrheidiol ynddyn nhw. Yn ogystal, gallai disgyblion ymateb i gwestiynau sy'n seiliedig ar y ffilm, e.e. mewn gweithgareddau cwis. Gallen nhw ysgrifennu am rannau penodol o'r ffilm yn ogystal.

Anogir y disgyblion i ymateb i amrywiaeth o ddeunyddiau darllen megis mapiau, llyfrau stori, llyfr ffeithiol a chardiau darllen. Rhestrir cwestiynau cyffredinol y gallen nhw ofyn i'w gilydd neu y gallai'r athro/athrawes ofyn iddyn nhw, yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₂**, a rhoddir rhestr o gwestiynau sy'n berthnasol i bob llyfr yng nghefn y llyfrau.

Mae cyfleoedd i ddarllen ar goedd ac i chwilio am wybodaeth drwy ddefnyddio llyfr cyfeiriol Cymraeg a ysgrifennwyd ar gyfer dysgwyr y Gymraeg, sef **Lesotho** (Sioned V. Hughes, CAA, 2010).

Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ysgrifennu nodiadau, rhestri, taflenni, llythyrau, e-byst, darnau ffeithiol, sgript ar gyfer fideo, testun ar gyfer poster, cofnod o'u bywyd bob dydd a pharagraffau a allai gynnwys testun a symbolau / cod. Yn ogystal, mae cyfle i fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig ag atalnodi oherwydd mae enwi'r **Bin Glas** a'r **Bin Pinc** yn Rhan 1 yn rhoi cyfle i gyflwyno / adolygu'r defnydd o briflythrennau ar gyfer enwau priod. Gellid cymharu'r enwau hyn gyda **bin glas** a **bin pinc**, sy'n enwau cyffredin, er enghraifft. Mae cyfleoedd i ysgrifennu mewn arddull berswadiol wrth i ddisgyblion greu deunyddiau a allai berswadio pobl i ymweld â'u hardal.

Saesneg

Mae cyfle i gyflwyno / adolygu'r defnydd o briflythrennau – gweler uchod.

Anogir y disgyblion i gynhyrchu arddangosfa dosbarth sy'n cynnwys gwybodaeth am Lesotho. Byddai hyn yn golygu chwilio am wybodaeth ar wefannau Saesneg ac mewn llyfrau Saesneg ac yna trafod y wybodaeth mewn grŵp.

Mathemateg

Gallai Rhan 1, sy'n delio gyda symbolau amrywiol, arwain at drafodaeth ar symbolau mathemategol.

Gellid rhoi cyfle i'r disgyblion wneud 'cwmpawd' drwy ddefnyddio cerdyn a phin. Byddai angen iddyn nhw dynnu llun cylch a chynnwys 'saeth' (nodwydd y cwmpawd), sydd ychydig yn fyrrach na radiws y cylch. Byddai angen iddyn nhw fesur y radiws a gellid cyflwyno'r gair **radiws**.

Yn ogystal, gallai'r disgyblion wneud gwaith mathemategol sy'n gysylltiedig ag amser, gan fod y drefn ddyddiol yn cael ei thrafod. Gallen nhw wneud cyfrifiadau sy'n gysylltiedig ag amser hefyd, e.e.

Pryd wyt ti'n mynd i'r ysgol yn y bore?
Pryd wyt ti'n mynd adre yn y prynhawn?
Sawl awr?

Gallai'r disgyblion lunio a defnyddio holiaduron, e.e. wrth drafod hobiau, a gallen nhw gyflwyno'u canfyddiadau ar ffurf graffiau, y gellid, yn eu tro, eu hegluro'n syml yn Gymraeg. Os yw'n briodol, gallai'r disgyblion gyfrifo canran y disgyblion sy'n hoffi gweithgareddau penodol:

y cant

deg y cant

Gwyddoniaeth

Mae Rhan 1 yn ymdrin ag ailgylchu, thema y gellid ei datblygu ymhellach.

Mae'r cymeriadau'n dweud:

Mae ysmygu'n ddrwg i chi!

Os yw'n briodol, gallai hyn arwain at drafodaeth ar beryglon ysmygu a'i effaith ar y corff.

Daearyddiaeth

Cyflwynir ac adolygir pedwar pwynt y cwmpawd yn yr uned hon. Rhoddir cyfle i'r disgyblion chwilio am leoedd ar fap o Gymru ac i gofnodi ydyn nhw **yn y gogledd** neu **yn y de**, **yn y gorllewin** neu **yn y dwyrain**. Gwneir rhagor o waith ar y pwnc hwn yn y bwletin tywydd yn Rhan 2, e.e. mae gwynt cryf yn dod i Gymru o'r gorllewin, gan ddod â thywydd gwlyb.

Anogir y disgyblion i ysgrifennu bwletin newyddion ac mae cyfleoedd i gymharu tywydd mewn gwahanol rannau o'r byd, e.e. **Cymru** ac **Awstralia**, a allai arwain at drafodaeth am y tymhorau, os yw hynny'n briodol:

Mae hi'n / Mae'n haf yn Awstralia nawr / rŵan.

Mae hi'n / Mae'n aeaf yng Nghymru nawr / rŵan.

Cyflwynir symbolau map mewn perthynas ag Aberystwyth, lle mae Izzy'n byw, a gellid rhoi cyfle i'r disgyblion edrych ar fapiau'r Arolwg Ordnans ar gyfer eu hardal nhw, gan roi sylw penodol i'r symbolau. Anogir y disgyblion i ymweld â gwefan Gymraeg a Saesneg yr Arolwg Ordnans er mwyn darganfod ystyr amryw symbolau.

Yna, gallen nhw restru'r hyn sydd ar gael yn eu hardal nhw a gellid cyflwyno agweddau perthnasol, yn Saesneg neu yn Gymraeg fel y bo'n briodol, e.e. tir uchel, gwahanol fathau o ffyrdd a.y.b.

Wedyn, gallai'r disgyblion ysgrifennu a siarad am y nodweddion sydd yn eu hardaloedd nhw. Gallen nhw gynhyrchu deunyddiau i hyrwyddo'r ardal, e.e. taflen, poster neu sript ar gyfer clip fideo. Gellid ffilmio clip fideo a'i ddangos i'r dosbarth / ysgol. Yn ogystal, gallen nhw wneud mapiau syml fel rhan o'r gwaith hwn.

Gallai eu gwaith gynnwys ymadroddion fel:

Dyma ...

Mae ... yn y de / gogledd / gorllewin / dwyrain.

Dyma'r ...

Edrychwch ar y ...

Mae'n hardd.

Mae'n ffantastig.

Mae'n wych / grêt.

Yn ogystal, gallen nhw drafod pa mor debyg / annhebyg i Aberystwyth yw eu hardal nhw, e.e.

Mae ... yn Aberystwyth ac mae ... yn ... hefyd.

Mae ... yn Aberystwyth ond does dim ... yn

Mae cyfleoedd i ddefnyddio cyfesurynnau syml ar fap wrth i'r disgyblion ymgymryd â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cerdyn siarad, **Aberystwyth - mae'n grêt!**

Rhoddir gwybodaeth am fywyd yn Lesotho yn y llyfr, **Karabo**. Ar ôl ei ddarllen, gallai'r disgyblion wneud rhagor o ymchwil er mwyn creu arddangosfa dosbarth.

Celf a dylunio

Gallai'r disgyblion gynllunio a gwneud darn o waith celf gan ddefnyddio deunyddiau glân y gellir eu hailgylchu, e.e. botymau, gwahanol fathau o bapur, darnau o ddefnydd, gwllân sbâr, plastig a.y.b.

Gallen nhw gynllunio symbolau ac arwyddion ar gyfer cyfleu negeseuon iechyd a diogelwch a gellid dangos y rhain o gwmpas yr ysgol.

Wrth iddyn nhw baratoi arddangosfa am Lesotho, gallai'r disgyblion ymchwilio i gelf Affrica ac yna gallen nhw gynhyrchu darnau o waith celf yn arddull gwaith celf Affrica. Gellid cynnwys y rhain yn yr arddangosfa.

Gweler y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₂** er mwyn cael patrymau iaith y gallen nhw'u defnyddio wrth iddyn nhw wneud gwaith celf a gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd.

Dylunio a thechnoleg

Gallai'r disgyblion greu taflenni neu bosteri i annog pobl i ailgylchu, gan ddefnyddio gwahanol dechnegau i'w creu.

Mae cyfle i wneud cwmpawd ac yna gellir ei ddefnyddio mewn cyd-destun daearyddol.

Addysg gorfforol

Yn dilyn cyfeiriadau at ganolfan hamdden, efallai y gallai'r disgyblion ymweld â chanolfan hamdden er mwyn dysgu am y cyfleusterau a'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnig yno. Efallai y gallen nhw gymryd rhan mewn rhai ohonyn nhw.

Yn Rhan 3 a 4, mae cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau gymnasteg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cerddoriaeth

Gallai'r drafodaeth ar symbolau yn Rhan 1 arwain at drafodaeth ar symbolau cerddoriaeth.

TGCh

Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion gynllunio ac argraffu symbolau (a gellid eu rhoi mewn gwahanol fannau yn yr ysgol) yn ogystal â phosteri (e.e. mewn perthynas ag ymddwyn yn gyfrifol mewn gwersi ymarfer corff), taflenni (e.e. mewn perthynas â'r ardal leol), a.y.b. Gallen nhw sganio delweddau priodol a'u cynnwys yn eu gwaith.

Yn ogystal, mae cyfleoedd i baratoi cyflwyniadau PowerPoint a gellid eu cyflwyno yn ystod gwasanaeth yr ysgol. Gallai'r disgyblion ffilmio'r ardal hefyd a rhoi gwybodaeth am yr ardal ar wefan yr ysgol.

Mae nifer o gyfleoedd i chwilio am wybodaeth, e.e. mewn perthynas â symbolau, symbolau'r Arolwg Ordians, y tywydd mewn gwahanol rannau o'r byd a Lesotho.

Addysg grefyddol

Gallai'r drafodaeth ar symbolau yn Rhan 1 arwain at drafodaeth ar symbolau crefyddol.

Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Yn Rhan1, rhoddir pwyslais ar ailgylchu. Gallai hyn arwain at drafodaeth bellach ar y pwnc ac at weithgareddau priodol – yn Saesneg neu yn Gymraeg, fel y bo'n briodol.

Mae'r llyfr **Karabo** yn rhoi hanes bywyd Karabo, merch ifanc sy'n byw yn Lesotho. Gallai'r disgyblion gymharu a gwrthgyferbynnu eu bywyd nhw â'i bywyd hi, e.e.

- y bwyd maen nhw'n ei fwyta
- y gemau maen nhw'n eu chwarae
- o ble maen nhw'n cael dŵr
- y drefn ddyddiol.

Y Cwricwlwm Cymreig

Anogir y disgyblion i edrych ar wefan Gymraeg a Saesneg yr Arolwg Ordnans er mwyn darganfod ystyr amryw symbolau. Gall hyn feithrin ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg yn y cyfryngau.

Yn ogystal, mae cyfleoedd i ddysgu am leoliad rhai o brif drefi Cymru.

Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Mae'r uned hon yn cyflwyno symbol / arwydd **Dim Ysmygu** a gallai hyn arwain at drafodaeth, yn Gymraeg neu yn Saesneg, ar beryglon ysmygu. Mae'r cymeriadau hefyd yn pwysleisio peryglon ysmygu.

Datblygu meddwl

Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio gwybodaeth flaenorol drwy gydol yr uned. Gofynnir iddyn nhw gynllunio a datblygu syniadau drwy gyfrwng y Gymraeg ac i ymateb i'w gwaith eu hunain ac i waith pobl eraill, i werthuso llwyddiant ac i ystyried sut y gellir gwella'r gwaith e.e. wrth iddyn nhw gyflwyno bwletinau tywydd ac yn yr uned adolygu.

Fe'u hanogir i ystyried pa fath o bosteri fyddai'n addas mewn canolfan hamdden a gofynnir iddyn nhw gymharu a gwrthgyferbynnu eu bywyd nhw â bywyd Karabo yn Lesotho.

Datblygu cyfathrebu

Mae'r uned hon yn adeiladu ar sgiliau iaith, patrymau a geirfa a gyflwynwyd eisoes, a thrwy hynny mae'n sicrhau cynnydd a pharhad.

Prif nod yr uned hon yw datblygu sgiliau cyfathrebu disgyblion. Felly, mae nifer o gyfleoedd i wrando ar bobl eraill ac i ymateb iddyn nhw, i ddarganfod a dethol gwybodaeth, i ymateb i'r hyn sydd wedi cael ei ddarllen ac i gyflwyno gwybodaeth – ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Cyflwynir dulliau eraill o gyfathrebu hefyd, e.e. y defnydd o symbolau er mwyn cyfleu ystyr.

Datblygu TGCh

Anogir y disgyblion i chwilio am wybodaeth drwy ddefnyddio'r rhyngwrwd ac i'w chyflwyno mewn dull priodol, gan wneud defnydd o feddalwedd priodol. Fe'u hanogir i ddefnyddio technoleg at amryw bwrpasau, e.e. ar gyfer ffilmio bwletinau newyddion a.y.b.

Datblygu rhif

Mae'r disgyblion yn datblygu eu sgiliau rhif yn yr uned hon drwy ddefnyddio prifolion a thrwy gasglu gwybodaeth mewn amryw ddulliau, gan gynnwys holiaduron a chyflwyno data mewn fformatau priodol.

Uned 3: Rhan 1 - Symbolau

Nodau:

- Trafod symbolau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Trafod rhai agweddau ar **ailgylchu** drwy gyfrwng y Gymraeg
- Adolygu gorchmynion negyddol e.e. **Dim taflu sbwriel!**
- Cyflwyno **yn y gorllewin** ac adolygu **yn y dwyrain**, a gyflwynwyd yn Uned 2. Cyflwynwyd **gogledd a de** ym Mhecyn 1 ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu yn yr uned hon hefyd.
- Adolygu geirfa a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon.

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
<p>Wedi gorffen? Wedi gorffen. Beth ydy'r symbol? Dw i'n gwybod beth ydy'r symbol yma. Dim ysmegu! Mae ysmegu'n ddrwg iawn i chi. Dyna fi!</p>	<p>symbol ailgylchu gwydr potel; y botel ffôn arall cylch coch llynell goch sigarét, sigarét neges oddi wrth yn y gorllewin</p>

Patrymau a geirfa sy'n gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
<p>Cwestiynau ac atebion Beth ydy hwn? Bin ydy hwn. Dw i ddim yn gwybod. Dw i'n gwybod ... Ga i agor y bin? Cei, wrth gwrs. / Na chei. Gawn ni roi'r symbolau yn y Pod-antur? Cewch, wrth gwrs. / Na chewch. Ga i bapur os gwelwch yn dda? Cei. Dyma ti. Beth am chwilio? Syniad da. Pardwn? Wyt ti eisiau brechdan? Ydw, os gwelwch yn dda. / Nac ydw, dim diolch. Ydy Sgrin yn iawn? Ydy. / Nac ydy. Ble wyt ti'n byw? Ble mae Aberystwyth? Ble mae'r toiledau? Beth ydych chi'n wneud? Rydyn ni'n edrych ar y symbolau.</p> <p>Gorchmynion Esgusodwch fi. Edrycha ar y symbol. Agora'r bin. Rhaid mynd i'r dde. Dim taflu sbwriel.</p>	<p>llun ... arall sbwriel papur bwyd mwy o ... (+ treigladd meddal) brechdan bachgen merch toiledau dyn taflu</p> <p>ar o dan o flaen tu ôl i</p> <p>yn y dwyrain yn y de yn y gogledd</p>

Eraill Ffantastig! Gwych! Ardderchog! Bobl bach! / Mawredd mawr!	
---	--

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Wedi gorffen?; Wedi gorffen.

Pardwn?

Beth ydy'r symbol?; Beth ydy'r symbol yma?

Ga i ...?, e.e. Ga i fynd i'r toiled os gwelwch yn dda?

Ga i bapur?

Cei. / Na chei.

Beth ydy hwn?

Wyt ti eisiau ...?; Ydw.; Nac ydw. [Hefyd: Ydych chi eisiau ... ?; Ydyn.; Nac ydyn.]

Dim taflu sbwriel!

Ydy ... yn iawn?

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Dangoswch y ffilm **Symbolau** (Uned 3, Rhan 1). Canolbwyntiwch ar y dechrau, lle mae Izzy a Dyfs yn dod ar draws y pedwar bin - hyd at y man lle maen nhw'n rhoi bwyd gwastraff yn y bin ac mae'r bin yn dweud **Diolch yn fawr**. Yna, mae Izzy'n dweud **Da iawn**.

Gofynnwch i'r disgyblion am yr ymadroddion Cymraeg am:

Excuse me. - **Esgusodwch fi.**

Finished. - **Wedi gorffen.**

Defnyddiwch y rhain gymaint â phosib yn ystod y dydd. Anogwch y disgyblion i'w defnyddio nhw hefyd.

- Gallai'r disgyblion chwarae rhan y biniau'n siarad. Gan ddefnyddio cynwysyddion glân a detholiad o ddeunyddiau glân ailgylchadwy, gallen nhw actio sefyllfa debyg i'r un a welir ar y ffilm, lle maen nhw'n gofyn am ac yn cael deunyddiau ailgylchadwy:

Ailgylchu ... gwydr os gwelwch yn dda ... gwydr ... diolch yn fawr.

Ailgylchu ... papur os gwelwch yn dda ... papur ... diolch yn fawr.

Ailgylchu ... plastig os gwelwch yn dda ... plastig ... diolch yn fawr.

Ailgylchu ... bwyd os gwelwch yn dda ... bwyd ... diolch yn fawr.

- Gan fod y biniau / cynwysyddion hyn yn gallu siarad, gallai'r disgyblion chwarae rôl mewn sefyllfa lle maen nhw'n siarad â'i gilydd neu â'r cymeriadau ar y ffilm, e.e.

Helo, pwy wyt ti?

Bin Glas ydw i. Pwy wyt ti?

Bin Pinc ydw i.

Sut wyt ti?

Dw i'n dda iawn, diolch. Sut wyt ti?

Dw i'n dda iawn, iawn, diolch.

Ble wyt ti'n byw?

Dw i'n byw yn yr ysgol. Ble wyt ti'n byw?

Dw i'n byw ar yr iard/y buarth.

Beth wyt ti eisiau?

Dw i eisiau papur. Dw i'n hoffi papur. Beth wyt ti eisiau?

Dw i eisiau gwydr. Dw i'n hoffi gwydr.

Mae ailgylchu'n dda.

Gellid cyflwyno deialogau tebyg yn ystod gwasanaethau'r ysgol er mwyn dangos pa mor bwysig yw ailgylchu.

Mae ailgylchu'n bwysig.

- Byddai enwi'r biniau yn **Bin Glas** a **Bin Pinc** yn rhoi cyfle i gyflwyno / adolygu'r defnydd o briflythrennau ar gyfer enwau priod. Gellid cymharu'r enwau hyn gyda **bin glas** a **bin pinc**, a thrwy hynny ddangos pryd i ddefnyddio priflythrennau.
- Gallai'r disgyblion gynllunio posteri a thafleuni sy'n gofyn i bawb ailgylchu a'u dosbarthu o gwmpas yr ysgol, e.e.
Bin Pinc ydw i.
Dw i'n byw yn y neuadd / ar y buarth/iard / yn Ystafell Mr Hughes.
Dw i eisiau papur os gwelwch yn dda.
Papur.
Mae ailgylchu'n bwysig.
Diolch yn fawr.
- Gallai'r disgyblion ddefnyddio deunyddiau ailgylchadwy wrth gynllunio a gwneud darnau o waith celf. Gweler y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₂** am batrymau iaith a geirfa y gellid eu defnyddio pan fydd y disgyblion yn cynhyrchu'r gwaith celf ac ar gyfer gwerthuso.
- Chwaraewch y darn nesaf, lle mae **mw y symbolau** yn cael eu cyflwyno. Stopiwch y ffilm pan fydd Izzy'n egluro:
Mae ysmygu'n ddrwg iawn, iawn, iawn i chi.

Wrth i'r cymeriadau geisio dehongli a deall ystyr y symbolau, gallech chi stopio'r ffilm a gofyn i'r disgyblion ydyn nhw'n gwybod ystyr pob un, yn Saesneg neu yn Gymraeg fel y bo'n briodol:

Beth ydy'r symbol?

Ffôn

Toiledau

Dim taflu sbwriel

Dim ysmygu

Adolygwch y geiriau **cylich** a **llinell**.

- Canolbwyntiwch ar y darn sy'n dangos symbol ffôn. Gan ddefnyddio arwydd sy'n cyfleu symbol ffôn ynghyd â ffôn symudol go iawn, gallai un o'r disgyblion guddio'r ffôn tra bo'r disgyblion eraill yn cau eu llygaid:
Caewch eich llygaid.
Dim pipo.

Yna, gallen nhw geisio dyfalu ble mae'r ffôn wedi cael ei chuddio. Ar ôl dyfalu'n gywir, gallen nhw roi'r arwydd sy'n cynnwys y symbol yn y lle hwnnw:

Oes ffôn ar y bwrdd?

o dan y bwrdd

tu ôl i'r bwrdd

o flaen y bwrdd

yn y cwpwrdd

ar y silff

- Gallech chi ddangos delweddau o arwyddion neu arwyddion go iawn sy'n cynnwys symbolau sydd i'w gweld o gwmpas yr ysgol a gofyn i'r disgyblion ble mae'r arwydd i'w weld fel arfer:
Ble mae'r symbol?
Yn y neuadd.
Ar y buarth. / Ar yr iard.
Yn ystafell ...
Ar y wal.
Yn y toiledau
a.y.b.

Efallai y bydd angen i chi gyflwyno ychydig o'r eirfa y bydd ei hangen arnyn nhw i ateb y cwestiwn.

- Gellid cyflwyno symbolau eraill, rhai sy'n gysylltiedig â meysydd eraill y cwricwlwm, efallai, e.e. symbolau sy'n gysylltiedig â mathemateg, cerddoriaeth, addysg grefyddol a.y.b. Gallech chi ofyn:

Beth ydy'r symbol?

Gallai'r disgyblion ateb yn Gymraeg neu Saesneg fel y bo'n briodol.

- Canolbwyntiwch ar y symbol nesaf ar y DVD – **toiledau** – ac ar y cwestiynau:

Ble mae'r toiledau?

Adolygwch:

Rhaid mynd i'r dde.

Rhaid mynd i'r chwith.

Gallai'r disgyblion actio sefyllfa lle mae aelod newydd o'r dosbarth yn gofyn am ganiatâd i fynd i'r toiled ac am gyfarwyddiadau er mwyn cyrraedd yno:

Ga i fynd i'r toiled os gwelwch yn dda?

Cei, wrth gwrs.

Ble mae'r toiled?

Rhaid mynd i'r dde ... i'r chwith ... syth ymlaen.

- Canolbwyntiwch ar y symbolau nesaf, sy'n cynnwys **cylich coch** a **llinell goch**. Gofynnwch i'r disgyblion am ystyr y symbolau sydd ar y DVD. Yna, dangoswch symbolau eraill sydd â chylch coch a llinell goch letraws a gofynnwch pa fath o negeseuon mae symbolau â chylch coch a llinell goch letraws yn eu cyfleu. Gellir trafod hyn yn Gymraeg neu yn Saesneg fel y bo'n briodol.

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 19**.

Disgrifiwch y lluniau. Beth ydy'r symbolau? Beth ydy'r neges?

Dylai'r disgyblion ddisgrifio'r delweddau a dehongli ystyr y symbolau / neges gan ddefnyddio'r patrymau sydd ar y cerdyn ac unrhyw batrymau eraill maen nhw'n gyfarwydd â nhw.

- Yna, gellid cyflwyno'r cerdyn darllen **Symbolau**. Torrwch y lluniau a'r gorchmynion allan. Dylai'r disgyblion baru'r gorchmynion gyda'r delweddau cywir.

Yna, gellid defnyddio'r cardiau hyn er mwyn chwarae gêm:

- Dylid eu rhoi wyneb i waered ar y bwrdd.

- Yn eu tro, dylai'r disgyblion godi cerdyn a meimio'r gorchmyn.

- Dylai'r disgyblion eraill ddyfalu'r gorchmyn; rhoddir y pwynt i'r person cyntaf sy'n dyfalu'n gywir.

- Y disgybl sydd â'r sgôr uchaf sy'n ennill y gêm.

- Gallai'r cyfeiriad ar y ffilm at:

Dim ysmegu.

Mae ysmegu'n ddrwg iawn, iawn, iawn i chi.

arwain at drafodaeth ar beryglon ysmegu a'i effaith ar y corff, os yw'n briodol.

- Chwaraewch ran nesa'r ffilm, ble mae Dyfs ac Izzy'n hongian y symbolau, hyd at y man lle mae Izzy'n dweud ei bod hi wedi derbyn neges testun oddi wrth ei rhieni.

Gallai'r disgyblion gynllunio arwyddion newydd a allai gynnwys symbolau a thestun Cymraeg. Gallen nhw osod y rhain mewn manau priodol yn yr ysgol, e.e.

Dim rhedeg yn y coridor.

Dim chwarae yn y neuadd.

Dim bwyta yn yr ystafell.

a.y.b.

Gallen nhw ddisgrifio'r symbolau hyn i'w gilydd, fel y mae Dyfs yn egluro'r symbolau ar y ffilm, e.e.

**Cylch coch, llinell goch, plant yn rhedeg.
Dim rhedeg yn y coridor.**

- Chwaraewch ran olaf y ffilm, sy'n rhoi gwybodaeth am Izzy:

Enw: Izzy Evans

Byw: Aberystwyth

Hoffi: *symbolau i ddynodi:*

cerdded

rhedeg

nofio

gymnasteg

neidio ar y trampolîn

Gofynnwch i'r disgyblion beth yw ystyr y symbolau sy'n dangos beth yw hobiau Izzy.

- Yna, gallen nhw ysgrifennu nodiadau tebyg amdanyn nhw eu hunain, gan ddefnyddio symbolau i gyfleu eu hobiau.

- Adolygwch gwestiynau sy'n gysylltiedig â gofyn am fanylion personol a gofynnwch iddyn nhw ofyn i'w gilydd am y wybodaeth maen nhw wedi'i chofnodi uchod:

Pwy wyt ti?

Beth ydy dy enw di?

Ble wyt ti'n byw?

Beth wyt ti'n hoffi wneud?

- Canolbwyntiwch ar y cyfeiriad at:

yn y gorllewin

Gofynnwch i'r disgyblion a ydyn nhw'n cofio'r geiriau Cymraeg am:

in the east - **yn y dwyrain**

in the north - **yn y gogledd**

in the south - **yn y de**

Yna, gallai'r disgyblion wneud "cwmpawd", gan ddefnyddio patrymau Cymraeg i ddisgrifio beth maen nhw'n ei wneud. Bydd angen:

cerdyn

pensil

pin (h.y. ffasnydd neu bin clymu papur)

riwler / pren mesur

siswrn

Dylai'r disgyblion dynnu llun cylch gan ddefnyddio'r cerdyn, pensil a naill ai gwmpawd mathemategol neu rywbeth crwn y gellir tynnu amlinell o'i gwmpas:

Dw i'n gwneud cylch.

Dylen nhw ysgrifennu'r canlynol mewn manau priodol ar y cerdyn:

gogledd

de

gorllewin

dwyrain.

Yna, dylen nhw dynnu llun saeth sydd ychydig yn fyrrach na radiws y cylch a'i thorri allan. Dylid gosod hon yng nghanol y cylch a'i chadw yn ei lle gyda'r ffasnydd. Dylid medru symud y saeth i wahanol gyfeiriadau ar y cwmpawd.

Wedyn, gallai'r disgyblion symud y saeth i wahanol bwyntiau ar y cwmpawd, gan ofyn i aelodau eraill y grŵp am y termau Cymraeg a Saesneg. Bydd y cwmpawdau'n cael eu defnyddio eto yn Rhan 2.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 20.**
Ble mae ...?

Yn eu tro, dylai'r disgyblion ofyn i'w gilydd ble mae'r amryw drefi sydd ar y map. Dylen nhw edrych ar y map ac ateb, gan ddefnyddio'r patrymau iaith sydd ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw eiriau neu batrymau eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw.

- Yna, gellid rhoi map o Gymru i'r disgyblion ynghyd â rhestr o enwau lleoedd o wahanol rannau o'r wlad. Dylen nhw chwilio am y lleoedd hyn ar y map ac ysgrifennu ydyn nhw yn y gogledd, de, gorllewin neu'r dwyrain:

Mae ... yn y gogledd.

Mae ... yn y de.

Mae ... yn y gorllewin.

Mae ... yn y dwyrain.

- Mae'r uned yn gorffen gyda map o **Aberystwyth** ar y sgrin, gyda'r cyfarwyddyd: **Edrychwch ar y symbolau ar y map.** Mae'r un map i'w weld ar y cerdyn darllen **Aberystwyth – mae'n grêt!**

Dylai'r disgyblion edrych yn fanwl ar y map a chwilio am unrhyw symbolau sy'n gyfarwydd iddyn nhw. Yna, gallen nhw ddweud wrth ei gilydd beth sydd yn Aberystwyth:

Mae ... yn Aberystwyth.

Yn Aberystwyth mae ...

Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud ar hyn yn Rhan 2.

- Chwaraewch y ffilm drwyddi eto, neu chwaraewch ran ohoni eto, er mwyn adolygu a gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:

Wyt ti'n hoffi'r DVD?

Ydw.

Ydw. Dw i'n hoffi'r DVD.

Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n ddiddorol.

Dw i'n hoffi'r DVD achos dw i'n hoffi dysgu am symbolau. Mae'n ddiddorol.

Nac ydw.

Nac ydw. Dw i ddim yn hoffi'r DVD.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ofnadwy.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos mae'n ddiflas iawn.

Uned 3: Rhan 2 - Mapiau

Nodau:

- Cyflwyno agweddau ar ddarllen mapiau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Adolygu siarad am y tywydd drwy gyfrwng y Gymraeg a chyflwyno'r dyfodol **bydd hi'n ...** mewn perthynas â'r tywydd
- Adolygu pwyntiau'r cwmpawd yn Gymraeg a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrllon
- Adolygu geiriau a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrllon.

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
<p>Wyt ti'n gwybod beth ydy'r gair Cymraeg am ...? Rwyt ti'n iawn. mewn un funud ... (De Cymru) / mewn un munud ... (Gogledd Cymru) Beth am edrych ar y tywydd? Heddiw, mae'n / mae hi'n ... Yfory, bydd hi'n bwrw glaw. Bydd hi'n wyntog. Bydd hi'n bwrw eira. Bydd hi'n braf.</p>	<p>parcio maes parcio hen, hen gastell canolfan hamdden heini cadw'n heini gymnasteg gwneud gymnasteg</p>

Patrymau a geirfa sy'n gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
<p>Cwestiynau ac atebion Beth sy yn Aberystwyth? Beth wyt ti'n gallu gweld? Dw i'n gallu gweld symbol. Beth arall wyt ti'n gallu gweld? Beth ydy'r symbol? Dw i'n gwybod beth ydy'r symbol. Wyt ti eisiau chwarae gêm? Ydw, os gwelwch yn dda. / Nac ydw, dim diolch. Sawl un? Ga i fynd i Aberystwyth? Cei. / Na chei. Dim heddiw. Beth am yfory? Pardwn? Beth ydych chi'n wneud? Rydyn ni'n edrych ar y tywydd.</p> <p>Gorchmynion Edrycha ar y map. Edrychwch ar y gwynt cryf yn dod o'r gorllewin.</p> <p>Eraill Dyna ni. Mae'n / Mae hi'n oer. Mae'n / Mae hi'n bwrw glaw. Mae'n / Mae hi'n wyntog. Mae'n / Mae hi'n sych. Mae'n / Mae hi'n ddiflas iawn.</p>	<p>heddiw yfory siglen parc llwybr beic beicio cwch castell traeth pwll nofio afon caffï, caffis siop, siopau neidio yn y parc yn yr ysgol yn yr ardd yn y gorllewin yn y dwyrain yn y de yn y gogledd yn yr haf</p>

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth sy yn ...?

Edrycha ar (y map).; Edrychwch ar (y map).

Beth wyt ti'n gallu gweld (ar y map)?; Dw i'n gallu gweld ...; Beth arall wyt ti'n gallu gweld (ar y map)?

Rwyt ti'n iawn.

Beth ydy'r symbol?

Wyt ti eisiau chwarae gêm?; [Hefyd: Ydych chi eisiau chwarae gêm?]

Un funud. / Un munud.

Ga i fynd i ...?; Cei.; Na chei.; Dim heddiw.

Mae'n ... / Mae hi'n ...

Bydd hi'n ...

Ydych chi eisiau gweld ffotograffau o ...?

Dyma'r ...

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Chwaraewch y ffilm **Mapiau** (Uned 3, Rhan 2). Canolbwyntiwch ar y rhan gyntaf, lle mae Dyfs, Izzy a Sgrin yn trafod Aberystwyth – hyd at y toriad, ychydig ar ôl y man lle mae'r ymadrodd **canolfan hamdden** yn cael ei ailadrodd.

Gofynnwch i'r disgyblion wyllo'r darn a gofynnwch iddyn nhw restru beth sydd yn Aberystwyth:

maes parcio

toiledau

siglen

llwybr a beic h.y. **llwybr beicio**

môr

traeth

cwch; (mynd allan mewn cwch ar y môr)

castell; hen, hen gastell

canolfan hamdden

- Yna, cyflwynwch y cerdyn siarad, **Aberystwyth – mae'n grêt!**.

Nod y cerdyn hwn yw annog cyfathrebu llafar. Mae e hefyd yn annog y disgyblion i ddod o hyd i leoedd ar y map drwy ddefnyddio cyfesurynnau syml.

Mewn parau, dylai'r disgyblion edrych ar y map a gofyn cwestiynau i'w gilydd, e.e.

Ble mae'r castell?

Ble mae'r ganolfan hamdden?

Dylen nhw roi'r cyfeirnod grid yn eu hatebion, e.e.

Yn sgwâr ...

Yn ogystal, gallen nhw ofyn:

Beth sy yn sgwâr ...?

Oes ... yn Aberystwyth? Ble?

Yna, gallai'r disgyblion ysgrifennu darn ffeithiol, taflen, neges e-bost neu lythyr at ffrind sy'n ystyried mynd i Aberystwyth er mwyn disgrifio'r hyn sydd yno.

- Dangoswch fap yr Arolwg Ordans o'ch ardal – neu fap priodol arall – a gofynnwch i'r disgyblion ddisgrifio beth sydd yno – yn Saesneg neu Gymraeg, fel y bo'n briodol.

Os yw'n briodol, tynnwch sylw at rai o nodweddion penodol eich ardal, e.e. efallai bod y canlynol yn eich ardal chi:

gwersyll (atgoffwch y disgyblion o'r gair **gwersylla** a gyflwynwyd yn Uned 1)

maes carafanau
parc thema
cwrs golff
gorsaf
gorsaf dân
ysbyty
swyddfa'r post

yn ogystal ag **ysgol**, wrth gwrs.

Gallech chi ganolbwyntio ar nodweddion eraill sy'n fwy priodol. Gallech chi gyfeirio'r disgyblion at wefan yr Arolwg Ordnans - yn Saesneg a Chymraeg - fel eu bod nhw'n darganfod yr ymadroddion Cymraeg a Saesneg drostyn nhw'u hunain.

- Yna, gallai'r disgyblion drafod beth maen nhw'n ei weld ar y map, gan ddefnyddio'r patrymau iaith sydd ar y DVD, e.e.
Beth wyt ti'n gallu gweld (ar y map)?
Dw i'n gallu gweld symbol (ar y map).
Beth ydy'r symbol?
Canolfan hamdden.
- Gallai'r disgyblion gynhyrchu deunyddiau sy'n seiliedig ar y gwaith map hwn er mwyn hyrwyddo'u hardal, e.e. taflen, poster neu sript ar gyfer clip fideo. Gellid ffilmio hyn wedyn a'i ddangos i'r dosbarth / ysgol. Gallen nhw wneud mapiau syml fel rhan o'r gwaith hwn.

Gallai eu clipiau fideo gynnwys ymadroddion megis:

Dyma ...
Dyma'r ...
Mae ... yn y de / gogledd / gorllewin / dwyrain.
Edrychwch ar y ...
Mae'n hardd.
Mae'n ffantastig.
Mae'n wych / grêt.

Gallen nhw roi gwybodaeth am eu hardal ar wefan yr ysgol yn ogystal.

- Gallai'r disgyblion drafod pa mor debyg / annhebyg i Aberystwyth yw eu hardal nhw, e.e.
Mae ... yn Aberystwyth ac mae ... yn ... hefyd.
Mae ... yn Aberystwyth ond does dim ... yn
- Chwaraewch ran nesa'r ffilm, hyd at y man lle mae Izzy'n gadael.

Gan fod rhaid i Dyfs restru beth sydd i'w weld yn Aberystwyth o fewn munud, gallai'r disgyblion ddefnyddio stopwatsh er mwyn gweld ydyn nhw'n gallu rhestru mwy na Dyfs. Gallen nhw amseru aelodau'r grŵp yn rhestru beth sydd i'w weld yn eu hardal nhw hefyd.

- Gallai'r disgyblion gynllunio posteri, taflenni, hysbyseb, cyflwyniad PowerPoint i ddenu ymwelwyr i'r ardal. Yn ogystal â rhestru'r hyn sydd yno, gallen nhw fynegi barn syml er mwyn ceisio dwyn perswâd, e.e.
Mae'n hwyl!
Mae'n wych / grêt!
Mae'n hyfryd!
Mae'n hardd!
Bendigedig.

Gallen nhw gynnwys ffurfiau gorchmynnol a chwestiynau sy'n gyfarwydd iddyn nhw, e.e.

Dewch i ... Mae'n hwyl!
Ydych chi'n hoffi (chwarae golff a nofio)?
Wel, dewch i ...
Mae'n ...

Wyt ti'n hoffi (mynd i'r traeth)?
Wel, tyrd i ... (Gogledd Cymru).
Wel, dere i ... (De Cymru).
Mae'n ...

- Efallai y gallech chi drefnu ymweliad â chanolfan hamdden leol fel bod y disgyblion yn dysgu am y cyfleusterau sydd yno a'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnig. Gallen nhw gymryd ffotograffau ac ysgrifennu'n syml am eu hymweliad, e.e. poster, taflenni, hysbyseb, a.y.b., e.e.

Dyma'r (ganolfan hamdden).
Mae pobl yn (cadw'n heini) yma.
cerdded
rhedeg
nofio

Mae'n hwyl!

- Chwaraewch ran nesa'r ffilm, lle mae Dyfs yn gofyn gaiff e fynd i Aberystwyth, hyd at ddiwedd y bwletin tywydd cyntaf.

Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw wedi clywed unrhyw ymadroddion sy'n gysylltiedig â'r tywydd ar y ffilm. Rhestrwch nhw ar y bwrdd gwyn, e.e.

Mae hi'n oer.

Bydd hi'n bwrw glaw.

Adolygwch y tywydd gyda'r disgyblion, gan ddefnyddio delweddau priodol.

- Chwaraewch y darn eto, ond y tro hwn gofynnwch i'r disgyblion wrando am yr ymadroddion Cymraeg ar gyfer pwyntiau'r cwmpawd. Gallen nhw godi llaw wrth iddyn nhw glywed yr ymadroddion hyn.

Gofynnwch i'r disgyblion ddweud yr ymadroddion yn Gymraeg a chwaraewch y rhan nesaf lle mae pwyntiau'r cwmpawd yn cael eu hailadrodd:

yn y gorllewin
yn y dwyrain
yn y gogledd
yn y de

- Dylid cyflwyno **Cerdyn Siarad 20** eto er mwyn adolygu'r ymadroddion hyn:
Ble mae ...?

Yn eu tro, dylai'r disgyblion ofyn i'w gilydd ble mae'r amryw drefi a ddangosir ar y map:

Ble mae Aberystwyth?

Yn y gorllewin. / Mae Aberystwyth yn y gorllewin.

- Chwaraewch ran nesa'r ffilm, lle mae Dyfs yn gofyn:
Sut mae'r tywydd yn y Drenewydd heddiw – yn y dwyrain?
hyd at y man lle mae'n gorffen gyda
Mae'n ddiflas iawn heddiw.
Stopiwch cyn iddo ofyn:
Ond, beth am yfory?

Canolbwyntiwch ar y tywydd ac ar bwyntiau'r cwmpawd, e.e. gallai un disgybl roi'r cwmpawd a wnaed yn Rhan 1 ar fap o Gymru, pwyntio'r saeth i gyfeiriad penodol a gofyn i'w bartner:

Sut mae'r tywydd (yn y gorllewin)?

gyda'i bartner yn ateb:

Mae'n / Mae hi'n braf yn y gorllewin.

Mae'n / Mae hi'n bwrw glaw yn y gorllewin.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 21:**
Sut mae'r tywydd? Siaradwch am hyn.

Dylai'r disgyblion ddisgrifio'r tywydd mewn gwahanol rannau o Gymru **heddiw** gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw eiriau neu ymadroddion eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw.

Gellid ffilmio'r gweithgarwch hwn, ond gan ddefnyddio map mwy o Gymru fel bod y disgyblion yn chwarae rôl cyflwynydd tywydd ar y teledu. Gallai'r disgyblion eraill werthuso'u perfformiadau, e.e.

Mae ... yn dda iawn.

Mae ... yn ardderchog.

Mae ... yn wych.

Gallen nhw awgrymu sut y gellid gwella'r perfformiad, yn Saesneg neu Gymraeg fel y bo'n briodol, e.e.

Mae ... yn ardderchog ond rhaid edrych ar y camera / ar y map.

Mae ... yn ardderchog ond rhaid pwyntio at y map.

Mae ... yn ardderchog ond rhaid siarad yn araf ac yn uchel.

- Chwaraewch ran nesa'r ffilm, hyd at y man lle mae Izzy'n dod i mewn. Stopiwch y ffilm.

Gallai'r disgyblion gymryd rhan mewn cwis sy'n seiliedig ar y clip fideo, gan ysgrifennu a gofyn y cwestiynau i dîm / dimau eraill, e.e.

Sut bydd y tywydd yn y gogledd yfory?

Sut bydd y tywydd yn y de yfory?

Sut bydd y tywydd yn y gorllewin yfory?

Sut bydd y tywydd yn y dwyrain yfory?

- Chwaraewch y darn nesaf – hyd at y man lle mae Dyfs yn cytuno i fynd i Aberystwyth yn ystod yr haf.
- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 22:**
Sut bydd y tywydd? Siaradwch am hyn.

Sylwer: byddai'r cwestiwn canlynol yn dderbyniol hefyd:

Sut fydd y tywydd yfory?

Dylai'r disgyblion ddisgrifio sut bydd y tywydd **yfory** mewn gwahanol rannau o Gymru, gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ac unrhyw eiriau neu ymadroddion sy'n gyfarwydd iddyn nhw.

Fel o'r blaen, gellid ffilmio'r gweithgarwch hwn a gallai'r disgyblion werthuso perfformiad ei gilydd.

- Dylid rhoi cyfle i'r disgyblion drafod y tywydd bob dydd – nid yn unig sut mae'r tywydd yn y bore ond gallen nhw geisio rhagweld sut bydd y tywydd yn ystod y prynhawn / dros nos – yn enwedig yn ystod y gaeaf, pan fydd posibilrwydd o eira / rhew / iâ.
- Gallen nhw gymharu'r tywydd mewn dwy ran wahanol o'r byd drwy ddefnyddio'r rhyngrwyd, e.e. **Cymru** ac **Awstralia:**
Mae'n oer yng Nghymru heddiw ond mae'n boeth yn Awstralia.
Mae'n ... gradd Celsius yng Nghymru ond mae'n ... gradd Celsius yn Awstralia.

Os yw'n briodol, gellid gwneud gwaith pellach mewn perthynas â'r tymhorau, e.e.

Mae'n haf yn Awstralia.

Mae'n aeaf yng Nghymru.

- Chwaraewch y darn olaf – lle mae Izzy'n dangos ffotograffau o Aberystwyth. Gofynnwch i'r disgyblion wrando am yr ymadroddion allweddol mae hi'n eu defnyddio wrth iddi ddangos y ffotograffau:
Dyma ...

Dyma'r ...

Gallai'r disgyblion ddangos delweddau i'w gilydd (ffotograffau neu luniau eraill) sy'n dangos gwahanol leoedd yn eu hardal. Gallen nhw siarad am y rhain mewn ffordd syml mewn grŵp bach:

Beth ydy hwn?

Dyma ...

Dyma'r ...

Ble mae hwn?

Yn ...

Tu allan ...

Yn agos i ...

Dw i'n hoffi mynd i'r ... achos ...

Wyt ti'n hoffi mynd i'r ...? Pam?

Mae ... yn y ...

Gallen nhw ddefnyddio'r ffotograffau hyn mewn gwaith ysgrifennu ffeithiol, e.e. wrth iddyn nhw gynllunio taflenni, posteri, cyflwyniad PowerPoint, darnau byr am eu hardal eu hunain.

Yn ogystal, gallen nhw gynnwys barn, lle y bo'n briodol, e.e.

... (enw'r ardal / cyfleuster lleol) - **mae'n ffantastig!**

... - **mae'n wych.**

... - **mae'n anhygoel.**

Mae ... yn ffantastig.

Mae ... yn wych.

Mae ... yn anhygoel.

Dewch i ...

Gallen nhw ysgrifennu paragraff personol byr i gyd-fynd â'r gwaith, e.e.

Dw i'n byw yn ... Yn ..., mae ... Dw i'n hoffi byw yn ... achos dw i'n hoffi ... yn y ... bob

...

[e.e. **Dw i'n hoffi chwarae pêl-droed yn y parc bob dydd Sadwrn.**]

Mae'n wych.

Mae'n ffantastig.

Dw i'n hoffi ... hefyd achos ...

Uned 3: Rhan 3 - Dydd Sadwrn

Nodau:

- Adolygu siarad am ddi-ddordebau, e.e. **cerdded, rhedeg, nofio, gymnasteg, neidio** drwy gyfrwng y Gymraeg
- Cyflwyno patrymau iaith a geirfa y gellir eu defnyddio mewn gweithgareddau ymarfer corff fel bod y Gymraeg yn gallu dod yn gyfrwng cyfathrebu naturiol yn ystod y gweithgareddau hyn
- Galluogi disgyblion i siarad am beth maen nhw'n ei wneud **ar ddydd Sadwrn**
- Cyflwyno / adolygu'r amser yn y Gymraeg: **am ...**
- Adolygu maint: **bach; mawr; hir; byr**
- Adolygu geirfa a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon.

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
<p>Am saith o'r gloch, dw i'n codi.* Am hanner awr wedi saith, dw i'n cael brecwast.* [* Hefyd: Dw i'n codi am saith o'r gloch. Dw i'n cael brecwast am hanner awr wedi saith.]</p> <p>Ffeindiwch le gwag. bartner Gwnewch siâp mawr. bach hir byr pont</p> <p>Daliwch y siâp. Newidiwch y siâp yn araf. yn gyflym</p>	<p>codi gwylio'r teledu trampolîn neidio ar y trampolîn wedyn prysur</p>

Patrymau a geirfa sy'n gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
<p>Cwestiynau ac atebion Beth ydy'r symbol yma? Wyt ti eisiau gweld Izzy'n cerdded? Gawn ni ddringo? Cewch wrth gwrs.</p> <p>Gorchmynion Edrycha ar y symbolau. Dringwch yn ofalus. Gwych!</p> <p>Eraill Dyma fi. Dw i'n hoffi ... Mae hi'n hoffi ... Ardderchog! Da iawn! Mae'n hwyl!</p>	<p>cadw'n heini ymolchi brwsio gwallt brwsio dannedd gwisgo dillad glân brecwast tost grawnfwyd pasta a saws ffrwythau salad cerdded rhedeg gymnasteg nofio neidio</p>

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Edrycha ar y symbolau.

Beth ydy'r symbol yma?

Wyt ti eisiau gweld ...?

Ffeindiwch le gwag.

Ffeindiwch bartner.

Gwnewch siâp mawr.

Gwnewch siâp bach.

Gwnewch siâp hir.

Gwnewch siâp byr.

Gwnewch siâp pont.

[Hefyd: **Gwnewch siâp cwpan / soser / seren.**]

Daliwch y siâp.

Newidiwch y siâp.

Newidiwch y siâp yn araf.

Newidiwch y siâp yn gyflym.

Rwyt ti'n brysur iawn.

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Chwaraewch y ffilm **Dydd Sadwrn** (Uned 3, Rhan 3) - hyd at y man lle mae Izzy'n dweud ei bod hi'n hoffi **neidio ar y trampolîn yn yr ardd**.

Wrth i bob symbol gael ei goleuo yn ei thro, stopiwch y ffilm a gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw'n gwybod beth yw'r symbol, h.y. beth yw ei hystyr?

Beth ydy'r symbol?

Cerdded.

- Gan ddefnyddio'r eirfa sy'n cael ei hadolygu ar y DVD, gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw'n hoffi'r gweithgareddau y cyfeirir atyn nhw ar y sgrin:

Wyt ti'n hoffi cerdded?

Wyt ti'n hoffi rhedeg?

Wyt ti'n hoffi nofio?

Wyt ti'n hoffi gymnasteg?

Wyt ti'n hoffi neidio ar y trampolîn?

Ydw. / Nac ydw.

Gofynnwch i'r disgyblion ofyn y cwestiynau hyn i'w gilydd, h.y. gallen nhw ddefnyddio patrymau iaith a geirfa maen nhw wedi'u dysgu o'r blaen er mwyn ymestyn eu sgysiau, e.e.

Pryd?

Pryd wyt ti'n ...?

Dydd Sul

Dydd Llun

Dydd Mawrth

Dydd Mercher

Dydd Iau

Dydd Gwener

Dydd Sadwrn

Bob dydd Sadwrn.

Ble?

Ble wyt ti'n ...?

Yn ... / Yn y ...

Er mwyn atgyfnerthu'r patrymau hyn, gallai'r disgyblion ddyfeisio a defnyddio holiaduron, e.e.

Enw:
Byw:
Hobi:
Pryd:
Ble:
Enw:
Byw:
Hobi:
Pryd:
Ble:

Ar ôl iddyn nhw ofyn cwestiynau i weddill y dosbarth, gellid trafod eu canfyddiadau a gwneud graffiau i ddangos beth yw'r hoff weithgareddau hamdden. Yna, dylid eu hegluro ar lafar ac yn ysgrifenedig:

Mae deg yn hoffi ...

Mae saith yn hoffi ...

Os yw'n briodol, gallen nhw gyfrifo canran y disgyblion sy'n hoffi gweithgareddau penodol, e.e.

Mae pump y cant yn hoffi ...

Mae deg y cant yn hoffi ...

y cant (%)

- Gellid ychwanegu elfennau eraill fel y bo'n briodol, e.e.

Pam?

[Achos mae'n hwyl.]

mae'n ofnadwy.

Gyda pwy?

[Gyda ...]

- Gallai'r disgyblion ysgrifennu proffil syml amdanyn nhw'u hunain a fyddai'n cynnwys y manylion canlynol:

- pwy ydyn nhw

- ble maen nhw'n byw

- beth maen nhw'n hoffi wneud, gan gynnwys manylion megis ble a phryd maen nhw'n gwneud y gweithgareddau hyn, os yw'n briodol:

... ydw i. Dw i'n byw yn ... Dw i'n hoffi (beicio). Dw i'n (beicio) yn y parc bob dydd

Sadwrn achos mae'n hwyl.

Yn ogystal, gallen nhw gynnwys delweddau a ffotograffau addas.

Dyma fi'n beicio ar y beic coch.

Edrychwch ar John ar y beic glas.

Mae e'n / o'n hoffi beicio hefyd.

Gallech chi gyflwyno'r gair **weithiau**, e.e.

Weithiau, dw i'n beicio gyda Dad.

Weithiau, rydyn ni'n mynd i ...

Rydyn ni'n cael hwyl.

- Dangoswch y wybodaeth am Izzy eto. Yna, mewn parau, dylai'r disgyblion ddarllen y sefyllfa sydd ar **Cerdyn Siarad 23**:

A: **Izzy wyt ti.**

B: **Rhaid i ti ofyn cwestiynau i Izzy.**

Dylai **Partner B** ofyn cwestiynau i Izzy, gan ddefnyddio'r geiriau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw gwestiynau eraill sy'n gyfarwydd iddo / iddi. Dylai **Partner A** ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar y DVD wrth ateb ond ar brydiau efallai y bydd rhaid iddo / iddi ddefnyddio'r dychymyg.

- Chwaraewch ran nesa'r ffilm, lle mae Izzy'n disgrifio beth mae'n ei wneud ar adegau penodol ar fore Sadwrn. Stopiwch y ffilm ar ddechrau ei sesiwn gymnasteg gyda'r plant.

Adolygwch yr amser yn Gymraeg. Os ydych chi'n dymuno, gallech chi chwarae:

Faint o'r gloch ydy hi, Mistar Blaidd?

Mae hi'n ...

Ar ôl gwneud hyn, fodd bynnag, dylech chi dynnu sylw at y gair:

am e.e. **am saith o'r gloch**
 am ddeg o'r gloch

Chwaraewch y darn eto a gofynnwch i'r disgyblion wrando'n ofalus ar beth mae Izzy'n ei wneud ar adegau penodol:

Gwrandewch yn ofalus.

Eglurwch wrth y disgyblion y byddan nhw'n ateb cwestiynau mewn cwis wedyn.

Gofynnwch **Pwy sy'n cofio?**, e.e.

Beth mae Izzy'n wneud am saith o'r gloch?

Beth mae Izzy'n wneud am hanner awr wedi saith?

Rhowch bwyntiau am atebion cywir.

Wedyn, gallen nhw lunio cwestiynau i'w gofyn i dimau eraill, e.e.

Beth mae Izzy'n wneud am wyth o'r gloch?

Beth mae Izzy'n wneud am hanner awr wedi naw?

Ble mae Izzy am ...?

- Adolygwch ferfau y gallai'r disgyblion eu defnyddio i siarad am beth maen nhw'n ei wneud ar adegau penodol yn ystod y dydd, e.e.

cysgu

deffro (Gogledd Cymru) / **dihuno** (De Cymru)

codi

gwyllo'r teledu

gwisgo

bwyta brechwast

a.y.b. a geiriau sy'n gysylltiedig â hobiau.

- Gofynnwch iddyn nhw siarad am beth maen nhw'n ei wneud ar yr amserau canlynol ar fore Sadwrn:

Beth wyt ti'n wneud am ...?

Beth ydych chi'n wneud am ...?

Am saith o'r gloch ...

Am hanner awr wedi saith ...

Am wyth o'r gloch ...

Am hanner awr wedi naw ...

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 24:**
Beth ydych chi'n wneud ar fore Sadwrn?
Siaradwch am hyn.

Gofynnwch i'r disgyblion siarad am fore Sadwrn gyda phartner arall. Dylen nhw ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw batrymau eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw. Os oes modd, dylen nhw geisio ymestyn y sgysrsiau drwy ddweud ble maen nhw'n gwneud y gweithgareddau penodol a thrwy fynegi barn.

- Os yw'n briodol, gallen nhw ddweud wrth aelodau grŵp arall beth mae eu partner yn ei wneud ar fore Sadwrn, e.e.

Mae ... yn (mynd i ...)

- Chwaraewch ran nesa'r ffilm, sy'n cyfeirio at amser cinio, prynhawn a nos Sadwrn - hyd at y man lle mae Izzy'n cyfeirio at fynd i'r gwely. Tynnwch sylw at yr amserau canlynol:
Am un ar ddeg o'r gloch ...
Am ddeuddeg o'r gloch ...
Am ddau o'r gloch ...
Am bedwar o'r gloch ...
Am chwech o'r gloch ...
Am saith o'r gloch ...
Am naw o'r gloch ...

Gofynnwch iddyn nhw wrando am y ffurfiau hyn wrth iddyn nhw wyllo'r ffilm eto. Efallai y gallen nhw godi llaw wrth iddyn nhw'u clywed nhw.

- Chwaraewch y darn eto a gofynnwch i'r disgyblion sylwi'n benodol ar beth mae Izzy'n ei wneud am amserau penodol yn ystod y prynhawn gan y byddan nhw'n gorfod ateb cwestiynau mewn cwis arall. [Eglurwch y byddwch chi'n edrych ar y darn gymnasteg yn fanylach ar ôl y cwis.]

Gofynnwch **Pwy sy'n cofio?**. Gofynnwch y cwestiynau canlynol a rhowch farciau am atebion cywir:

- Beth mae Izzy'n wneud am un ar ddeg o'r gloch?**
- Beth mae Izzy'n wneud am ddeuddeg o'r gloch?**
- Beth mae Izzy'n wneud am ddau o'r gloch?**
- Beth mae Izzy'n wneud am bedwar o'r gloch?**
- Beth mae Izzy'n wneud am chwech o'r gloch?**
- Beth mae Izzy'n wneud am saith o'r gloch?**
- Beth mae Izzy'n wneud am naw o'r gloch?**
- Ble mae Izzy am ...?**

Yna, gallai'r disgyblion ofyn cwestiynau i'w gilydd a gallech chi roi pwyntiau am gwestiynau cywir ac am atebion cywir.

- Cyflwynwch y llyfr stori, **Dydd Sadwrn**. Awgrymir amryw weithgareddau yng nghefn y llyfr a gallai'r disgyblion wneud y rhain.
- Gallai'r disgyblion ysgrifennu stori debyg er mwyn disgrifio beth maen nhw'n ei wneud ar ddydd Sadwrn fel arfer. Ar ôl drafftio ac ail-drafftio, gallen nhw dynnu lluniau neu gynnwys delweddau yn y gwaith.
- Gofynnwch iddyn nhw gofnodi mewn grid beth maen nhw'n ei wneud ar adegau penodol o'r dydd:

DYDD LLUN		
	Fi	Fy mhartner i
9.00		
10.30		
12.00		
2.00		
3.00		

Gofynnwch iddyn nhw ddefnyddio'r wybodaeth i ysgrifennu darn byr sy'n disgrifio beth maen nhw'n ei wneud ar yr adegau hyn. Anogwch nhw i ysgrifennu cymaint â phosib, e.e. ble maen nhw'n gwneud y gweithgaredd a beth yw eu barn amdano.

- Dydd Llun, am naw o'r gloch, dw i'n mynd i'r dosbarth. Dw i'n dysgu ... Mae'n hwyl. Dw i'n hoffi ... yn fawr.**
- Dydd Llun, am hanner awr wedi deg, dw i'n bwyta snac. Dw i'n cael ... Wedyn, dw i'n mynd allan i'r iard / buarth i chwarae gyda ffrindiau. Dw i'n chwarae ...**

- Yna, gofynnwch iddyn nhw ofyn i'w partner beth mae e / hi'n ei wneud ar yr adegau hyn:
A: **Beth wyt ti'n wneud am naw o'r gloch?**
B: **Dw i'n mynd i'r dosbarth.**
A: **Beth wyt ti'n wneud am hanner awr wedi deg?**
B: **Dw i'n bwyta snac.**
Dylid cofnodi'r wybodaeth hon yn y grid hefyd – yn y drydedd golofn.

- Os yw'n briodol, gallen nhw ddweud wrth berson arall am eu partner, e.e.
Dydd Llun, am naw o'r gloch, ...
Mae ... yn mynd i'r dosbarth.
Dydd Llun, am hanner awr wedi deg, ...
Mae ... yn bwyta snac.

- Chwaraewch y darn sy'n dangos Izzy'n helpu mewn gweithgaredd gymnasteg eto.

Cymerwch y disgyblion i fan priodol yn yr ysgol a defnyddiwch y patrymau a welir ar y ffilm mewn sesiwn gymnasteg. **Dewiswch y patrymau rydych chi'n dymuno'u cyflwyno** a symudwch **yn raddol** o batrwm i batrwm, gan egluro'r ystyr wrth i chi'u cyflwyno:

Ffeindiwch le gwag.
Ffeindiwch bartner.
Gwnewch siâp mawr.
Gwnewch siâp bach.
Gwnewch siâp hir.
Gwnewch siâp byr.
Gwnewch siâp pont.
Daliwch y siâp.
Newidiwch y siâp.
Newidiwch y siâp yn araf.
Newidiwch y siâp yn gyflym.

Gofynnwch i aelodau'r grŵp gymryd eich lle fel eu bod yn gallu rhoi cyfarwyddiadau i'r dosbarth / grŵp o ddisgyblion.

Adolygwch y patrymau hyn yn ystod gwersi eraill a chyflwynwch ragor o batrymau'n raddol fel bod y disgyblion yn ymgwyfarwyddo â nhw ac fel bod y Gymraeg yn dod yn rhan annatod o'r cwricwlwm.

- Gellid defnyddio gwahanol rannau o'r ffilm ar gyfer adolygu gwaith a wnaed eisoes, e.e. gallai'r cyfeiriadau at fwyd amser cinio ac amser swper arwain at amrywiaeth o weithgareddau'n gysylltiedig â bwyd. Gallai'r cyfeiriad at ddarllen arwain at drafodaeth am lyfrau drwy gyfrwng y Gymraeg. Gweler y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₂** (yr adran **Darllen**) er mwyn dod o hyd i eirfa a phatrymau y gellid eu defnyddio.
- Chwaraewch y darn olaf a gofynnwch i'r disgyblion geisio cofio'r berfau sy'n cael eu rhestru. Gofynnwch **Pwy sy'n cofio?** ac yna gofynnwch iddyn nhw restru'r geiriau hyn.

Uned 3: Rhan 4 - Help!

Nodau:

- Adolygu'r patrymau iaith sy'n gysylltiedig â gweithgareddau addysg gorfforol a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrion
- Defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng ar gyfer cyfathrebu negeseuon sy'n gysylltiedig ag iechyd a diogelwch yng nghyd-destun canolfan hamdden / campfa / neuadd ysgol / gweithgareddau addysg gorfforol
- Adolygu geiriau a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrion.

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Rydyn ni eisiau help os gwelwch yn dda. Cofiwch ... Cofiwch roi symbolau ar y posteri.	

Patrymau a geirfa sy'n gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
<p>Cwestiynau ac atebion Pa fath o bosteri? Dw i ddim yn gwybod. Beth am fynd i'r ganolfan hamdden i weld? Syniad da. Ydych chi'n barod? Ydyn. / Nac ydyn. Wyt ti'n barod? Ydw. / Nac ydw.</p> <p>Gorchmynion Ffeindiwch le gwag. bartner Gwnewch siâp mawr / bach. hir / byr pont Daliwch y siâp. Newidiwch y siâp yn araf / yn gyflym. Rhaid gwneud posteri. Rhaid gwisgo dillad chwaraeon. Dim bwyta. Dim yfed pop. Dim gweiddi.</p> <p>Eraill Mae'n flin 'da fi. / Mae'n ddrwg gen i. Es i i'r ganolfan hamdden. Roedd e'n / o'n ddiddorol.</p>	<p>neges poster, posteri rhoi wal y ganolfan hamdden diddorol</p>

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Rydyn ni eisiau help os gwelwch yn dda.

Ga i help os gwelwch yn dda?

Pa fath?

Ffeindiwch le gwag.

Ffeindiwch bartner.

Gwnewch siâp mawr / bach.

Gwnewch siâp hir / byr.
Gwnewch siâp pont.
Daliwch y siâp.
Newidiwch y siâp.
Newidiwch y siâp yn araf / yn gyflym.
Mae'n flin 'da fi. / Mae'n ddrwg gen i.
Dim bwyta!
Dim yfed pop! Rhaid yfed dŵr.
Rhaid gwisgo dillad chwaraeon.
Rhaid gwisgo esgidiau chwaraeon.
Rhaid gwrando.
Dim gweiddi!

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Cyflwynwch y cerdyn darllen, **Izzy**, er mwyn adolygu'r eirfa berthnasol. Dylai'r disgyblion 'dorri'r cod', h.y. canfod ystyr y symbolau a darllen y cerdyn ar goedd. Yna, gallen nhw ysgrifennu darnau tebyg amdanyn nhw'u hunain, gan ddefnyddio testun a symbolau. Gellid rhoi'r darnau hyn i bartner a dylai hwnnw / honno eu darllen ar goedd, gan nodi'r symbolau wrth wneud hyn.
- Adolygwch eiriau sy'n gysylltiedig â chwaraeon, yn enwedig dillad chwaraeon, drwy gyflwyno **Cerdyn Siarad 25: Rydych chi'n mynd i'r ganolfan hamdden ond beth ydych chi'n pacio yn y bag? Siaradwch am hyn.**

Dylai'r disgyblion drafod beth dylen nhw bacio yn y bag, gan ddefnyddio'r patrymau iaith sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw eirfa a phatrymau iaith perthnasol eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw.

- Dangoswch y ffilm **Help!** (Uned 3, Rhan 4). Canolbwyntiwch ar ddechrau'r ffilm, hyd at y man lle mae Dyfs ac Izzy'n gadael y **Pod-antur Cymraeg**.

Gwnewch yn siŵr bod y disgyblion wedi deall beth sy'n digwydd, h.y. mae Sgrin wedi derbyn neges o'r ganolfan hamdden yn gofyn am help i wneud posteri. Mae Dyfs ac Izzy'n mynd i'r ganolfan hamdden i geisio darganfod pa fath o bosteri sydd eu hangen.

Gofynnwch i'r disgyblion awgrymu pa fath o bosteri fyddai'n addas ar gyfer canolfan hamdden. Gallech chi ail-ddangos y ffilm o Crad a Ffion yn y pwll nofio ym Mhecyn 1 (uned 5, Rhan 4) er mwyn rhoi rhai syniadau iddyn nhw, ond gan ganolbwyntio'n benodol ar y gorchmynion. Yn ogystal, gallech chi ddangos y cerdyn darllen **Symbolau** (Uned 3, Rhan 1) a dewis unrhyw syniadau priodol sydd arno:

Pa fath o bosteri?
Beth am ...?
Syniad da.

- Canolbwyntiwch ar ran nesa'r ffilm, sy'n adolygu'r patrymau iaith a gyflwynwyd yn Rhan 3 ac sy'n dangos enghreifftiau o ymddygiad amhriodol neu o ddillad amhriodol. Gofynnwch i'r disgyblion gofnodi enghreifftiau o'r rhain tra byddan nhw'n gwyllo'r clip.

Yna, trafodwch yr enghreifftiau:

Mae bachgen yn gwisgo siwmpwr a het / cap.
Mae plentyn yn gwisgo siwmpwr a myffiau clustiau.
Mae plant yn bwyta.
Mae plant yn yfed pop.
Mae merch yn gwisgo fflip fflops.
Mae merched yn siarad.

Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am orchmynion y gallen nhw'u rhoi i'r disgyblion hyn:

Rhaid gwisgo ...
Rhaid gwrando.
Dim ...!

- Chwaraewch ran nesa'r ffilm, lle mae Dyfs yn ysgrifennu'r gorchmynion perthnasol. Stopiwch y ffilm ar ôl i Dyfs ysgrifennu:

Rhaid gwrando.

Gwiriwch ydy'r disgyblion wedi meddwl am yr un gorchmynion â Dyfs.

- Defnyddiwch y gorchmynion sy'n cael eu defnyddio ar y DVD mewn sesiwn gymnasteg. Yna, gofynnwch i'r disgyblion gymryd eu tro i hyfforddi'r grŵp.
- Chwaraewch weddill y darn.

Trafodwch y mathau o bosteri sydd angen eu creu a gofynnwch i'r disgyblion ddylunio a gwneud posteri addas ar gyfer **canolfan hamdden**. Gofynnwch iddyn nhw gynnwys symbolau a delweddau eraill. Dylen nhw ddefnyddio cynifer o batrymau Cymraeg â phosib tra byddan nhw'n gweithio, e.e.

Beth wyt ti'n wneud?

Dw i'n ...

Beth wyt ti'n ddefnyddio?

Dw i'n defnyddio ...

Gallai **Cerdyn Siarad 26** eu helpu nhw gyda'r gweithgaredd hwn:

Rydych chi'n gwneud posteri. Pa fath? Sut?

Yna, gallen nhw werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion, e.e.

Mae'r (lliwiau)'n dda iawn.

Dw i'n hoffi'r (gwyrdd tywyll) yma.

Dw i'n hoffi'r (patrwm) yma.

Mae'r (llun) yma'n ardderchog.

Mae'r (siâp) yma'n dda.

Wyt ti'n hoffi'r ...?

Gellid defnyddio'r gair **effeithiol** hefyd:

Mae'r lliwiau'n effeithiol.

Mae'r patrwm yn effeithiol.

Mae'r siapiau'n effeithiol iawn.

Gallen nhw awgrymu sut i wella'r posteri drwy ddefnyddio'r gair **angen / eisiau**:

Mae angen print mawr yma. / Mae eisiau print mawr yma.

- Ail-chwaraewch yr adran hon a gofynnwch i'r disgyblion am eu barn, e.e.

Wyt ti'n hoffi'r DVD?

Ydw.

Ydw. Dw i'n hoffi'r DVD.

Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n ddoniol.

Dw i'n hoffi'r DVD achos dw i'n hoffi edrych ar y plant. Mae'n hwyl.

Nac ydw.

Nac ydw. Dw i ddim yn hoffi'r DVD.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ofnadwy.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos mae'n ddiflas iawn.

Uned 3: Rhan 5 – Ydych chi'n cofio?

Nod:

- Adolygu geiriau a phatrymau a gyflwynwyd eisoes.

Patrymau a geirfa sy'n gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
<p>Cwestiynau ac atebion Beth ydy'r symbol? Beth sy yn Aberystwyth? Beth arall sy yn Aberystwyth? Beth sy yn eich ardal chi?</p> <p>Gorchmynion Dim ...! Chwiliwch am symbolau.</p> <p>Eraill Dw i'n codi am ... Dw i'n cael brecwast am ... Dw i'n mynd i'r ysgol am ... Eich tro chi nawr / rŵan.</p>	<p>cylch coch llinell goch sbwriel yfed codi maes parcio coed marchnad canolfan hamdden pwll nofio tywod traeth afon codi ymolchi brwsio gwallt brwsio dannedd cael brecwast chwarae bwyta gwylio'r teledu cael swper darllen</p>

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth ydy'r symbol?

Dyma ti ...

Eich tro chi nawr / rŵan. [Hefyd: **Dy dro di nawr / rŵan.**]

Beth sy yn ... ?

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Eglurwch mai pwrpas y rhan hon o'r DVD yw adolygu.
- Dangoswch y ffilm **Ydych chi'n cofio?** (Uned 3, Rhan 5) fesul darn, fel yr awgrymir isod.

Adran 1

- Canolbwyntiwch ar y rhan gyntaf, lle mae Dyfs a Sgrin yn chwarae gêm: **Beth ydy'r symbol?**

Stopiwch y ffilm ar adegau priodol a gofynnwch i'r disgyblion egluro ystyr y symbol.

Yna, gallai'r disgyblion ymgymryd â gweithgaredd tebyg. Dylen nhw ddod o hyd i symbolau priodol, eu disgrifio a gofyn i'w partner:

Beth ydy'r symbol?

Adran 2

- Dangoswch ran nesa'r ffilm, sy'n adolygu geiriau sy'n gysylltiedig ag Aberystwyth:
Beth sy yn Aberystwyth?
Beth arall sy yn Aberystwyth?

Stopiwch y DVD ar adegau priodol fel bod y disgyblion yn dweud y geiriau Cymraeg.

Anogwch y disgyblion i ymateb i gwestiynau Izzy ac ar ddiwedd y darn, dylen nhw ateb y cwestiwn:

Beth sy yn eich ardal chi, blant?

Gallen nhw restru nodweddion, disgrifio ffotograffau, ysgrifennu disgrifiadau byr a chwarae rôl ymwelydd yn ffonio i ofyn am wybodaeth am yr ardal.

Adran 3

- Mae'r adran hon yn adolygu'r drefn ddyddiol a gellid ail-gyflwyno'r llyfr **Dydd Sadwrn**.

Gofynnwch i un o'r disgyblion gymryd arno / arni mai fe / hi yw Izzy a gofynnwch iddo / iddi eistedd yn y gadair goch.

Dylai'r disgyblion eraill ofyn iddo / iddi beth mae'n wneud ar adegau penodol o'r dydd, e.e.

Beth wyt ti'n wneud am saith o'r gloch?
am wyth o'r gloch
am hanner awr wedi naw
a.y.b.

Yna, gallai'r disgyblion eistedd yn y gadair goch ac ateb cwestiynau am eu dydd Sadwrn / dydd Sul arferol.

Yn ogystal, gallen nhw ysgrifennu darn am beth maen nhw'n ei wneud ar ddiwrnod penodol.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 27:**
Beth ydych chi'n wneud ar fore Llun? Siaradwch am hyn.

Gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ac unrhyw batrymau cyfarwydd eraill, dylai'r disgyblion drafod beth maen nhw'n ei wneud ar fore Llun fel arfer. Ar ôl gwneud hyn, gallen nhw gyfnewid partneriaid fel eu bod yn dweud wrth eu partneriaid newydd beth mae eu partner blaenorol yn ei wneud ar fore Llun fel arfer, e.e.

Ar fore Llun, mae Sam yn ...

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 28** a dilynwch yr un broses:
Beth ydych chi'n wneud ar brynhawn Gwener? Siaradwch am hyn.

- Cyflwynwch y llyfr, **Karabo**.

Ar ôl ei ddarllen, gallai'r disgyblion wneud y gweithgareddau a awgrymir yng nghefn y llyfr. Yn ogystal, gallen nhw ddychmygu eu bod nhw'n un o ffrindiau Karabo a'u bod nhw'n byw bywyd tebyg. Felly, gallen nhw ysgrifennu am eu bywyd nhw yn Lesotho.

Gallai'r disgyblion ddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y llyfr ar gyfer ysgrifennu darn ffeithiol am Karabo. Felly, bydd angen iddyn nhw ddefnyddio trydydd person y ferf (Mae hi'n ...) yn hytrach na pherson cyntaf y ferf (Dw i'n ...), e.e.

Person 1^{af}: personol

3^{ydd} person: ffeithiol

Dw i'n byw yn Lesotho, yn Affrica.

Mae Karabo'n / hi'n byw yn Lesotho, yn Affrica.

Dw i'n cario dŵr ...

Mae hi'n cario dŵr ...

Gallai'r disgyblion chwilio am ragor o wybodaeth am Lesotho a chreu arddangosfa am y wlad yn y dosbarth. Yn ogystal â chwilio ar y rhyngwrwyd ac mewn llyfrau Saesneg, gallai'r disgyblion ddarllen rhannau o'r llyfr **Lesotho** gan Sioned V. Hughes (CAA, 2010).

Yn ogystal, gallen nhw ysgrifennu cerdyn post o Lesotho, gan ddychmygu eu bod nhw'n treulio cyfnod yng nghartref Karabo.

Uned 4

Mae'r gwaith yn yr uned hon yn canolbwyntio ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith. Fodd bynnag, mae'r cwricwlwm a meysydd perthnasol eraill yn cael eu targedu yn ogystal. Rhoddir enghreifftiau o elfennau trawsgwricwlaidd isod ond dylid edrych ar y Rhaglenni Astudio a'r fframweithiau perthnasol er mwyn cael rhagor o fanylion.

Cymraeg Ail Iaith

Yn yr uned hon, mae'r disgyblion yn cael cyfle i wrando ar amrywiaeth o bobl yn siarad Cymraeg fel eu bod yn dod yn ymwybodol o amrywiaethau yn y ffordd o siarad, e.e. y defnydd o **nain** yng Ngogledd Cymru a **mam-gu** yn Ne Cymru a **llefrith** yng Ngogledd Cymru a **llaeth** yn Ne Cymru.

Mae cyfleoedd iddyn nhw ymateb yn briodol mewn amrywiaeth o amgylchiadau, gan gynnwys gweithgareddau yn y gadair goch, i fynegi barn a chyflwyno gwybodaeth bersonol a phrofiadau dychmygus ac i chwarae rôl, e.e. cyfarfod â Jac a **Hugan Fach Goch** yn y goedwig.

Mae cyfleoedd i wyllo a gwrando ar y ffilm yn ofalus ac i ganfod y prif bwyntiau. Gellid rhoi crynodeb o rannau o'r ffilm i'r disgyblion a gallai rhywfaint ohono fod yn **gywir** a rhywfaint yn **anghywir**. Yna gellid gofyn iddyn nhw wrando'n ofalus ar y ffilm er mwyn dod o hyd i'r camgymeriadau a'u cywiro.

Gellid rhoi gridiau sy'n seiliedig ar rannau o'r ffilm i'r disgyblion gan ofyn iddyn nhw eu cwblhau â'r wybodaeth angenrheidiol. Yn ogystal, gallai disgyblion ymateb i gwestiynau sy'n seiliedig ar y ffilm, e.e. mewn gweithgareddau cwis. Gallen nhw ysgrifennu am rannau penodol o'r ffilm yn ogystal.

Anogir y disgyblion i ymateb i'r deunyddiau darllen sydd wedi cael eu hysgrifennu i gyd-fynd â'r uned, h.y. llyfrau stori, rysât a phoster. Gallen nhw gyfeirio at lyfrau ryseitiai plant yn ogystal, e.e. **Bwyta'n Iach – hwyl wrth goginio!** (Atebol, 2008)

Mae cyfleoedd ar gyfer ysgrifennu "at amryw bwrpasau" wrth i'r disgyblion ysgrifennu rhestri, gwahoddiad, disgrifiad, neges e-bost neu neges testun, ryseitiai, poster, taflen a deialog. Dylid eu hannog i ddewis a defnyddio ffurfiau priodol wrth iddyn nhw wneud y tasgau hyn.

Mae cyfleoedd ar gyfer ysgrifennu'n greadigol hefyd oherwydd maen nhw'n cael cyfle i greu stori newydd sy'n seiliedig ar y chwedl *Y Bachgen a'r Blaidd*.

Yn ogystal, gallai'r disgyblion ysgrifennu adolygiad syml o lyfr ar ôl trafod pa fath o storïau / llyfrau maen nhw'n hoffi eu darllen yn Rhan 1, ac mae cyfleoedd yn Rhan 2 i gyflwyno / adolygu'r defnydd o ddyfynodau.

Saesneg

Anogir y disgyblion i chwilio am wybodaeth wrth iddyn nhw greu taflen, poster neu gyflwyniad PowerPoint sy'n egluro pwysigrwydd bwyta ffrwythau. Yn ogystal, gallen nhw wisgo fel cymeriadau o lyfrau Saesneg a byddai hyn yn rhoi cyfle iddyn nhw ddisgrifio'u pryd a'u gwedd, eu nodweddion, eu cymeriad a.y.b. Mae cyfleoedd i drafod llyfrau stori Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg ac i gyflwyno / adolygu'r defnydd o ddyfynodau.

Gwyddoniaeth

Mae cynnwys basged picnic **Hugan Fach Goch** yn cael ei drafod yn Rhan 2 a gofynnir i'r disgyblion feddwl am fwyd iach y gallen nhw ei roi mewn basged picnic. Mae cyfleoedd i wneud brechdanau iach. Yn ogystal, cyflwynir pwysigrwydd ffrwythau fel ffynhonnell fitaminau a ffibr yn Rhan 4 a gellid gwneud rhagor o waith i ddangos pam mae'r rhain yn bwysig mewn diet cytbwys - naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg, fel y bo'n briodol. Tynnir sylw at y ffaith fod uwd yn cynnwys fitaminau a ffibr ac mae'r cymeriadau ar y sgrin yn ceisio gwneud eu huwd yn iachach drwy ychwanegu ffrwythau.

Yn y llyfr **Y Bachgen a'r Blaidd**, dywedir bod bleiddiaid yn bwyta defaid. Dyma agwedd arall ar gadwyni bwyd, a gyflwynwyd eisoes yn Uned 1, a gellid gwneud rhagor o waith ar hyn er mwyn creu'r gadwyn fwyd hon, os yw'n briodol.

Mathemateg

Mae cyfleoedd i bwysu cynhwysion wrth i'r disgyblion baratoi bwydydd yn Rhan 4. Yn ogystal, mae cyfeiriad at **pum deg a tri chan(t)** wrth i Dyfs ac Izzy bwysu'r cynhwysion ar gyfer gwneud **uwd**. Gallai hyn roi cyfle i gyflwyno / adolygu rhifau mawr yn Gymraeg.

Celf a dylunio

Yn Rhan 2, mae Dyfs ac Izzy'n cael eu trosglwyddo i goedwig lle mae Dyfs yn cyfarfod â Jac (o Jac a'r Goeden Ffa) a **Hugan Fach Goch**. Gallai'r disgyblion greu darn o waith celf i gyfleu'r goedwig, gan ganolbwyntio ar dôn ac arlliwiau a gellid defnyddio gwahanol ddeunyddiau er mwyn rhoi gwead i'r gwaith. Yna, dylid gwerthuso'r darnau hyn. Gellir adolygu geirfa a phatrymau iaith penodol sy'n addas i'w defnyddio mewn sesiynau celf a dylunio – gweler y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₂** am syniadau.

Dylunio a thechnoleg

Gallai'r disgyblion gynllunio a gwneud het ar gyfer Aladin (Rhan 2), ac yna gellid ei gwisgo mewn gweithgareddau chwarae rôl.

Yn ogystal, gallen nhw wneud modelau o **flaidd, dafad** ac **eirth** - neu gymeriad ffuglennol arall - ac yna gellid defnyddio'r rhain mewn gweithgareddau chwarae rôl. Yn yr un modd, gallen nhw wneud pypedau bysedd / pypedau ffyn a'u defnyddio i chwarae rôl. Gallen nhw wneud cadair ar gyfer babi arth yn y chwedl *Elen Benfelen a'r Tair Arth*.

Mae cyfleoedd i baratoi brechdanau iach, ffyn ffrwythau ac uwd - neu, yn wir, unrhyw fwyd sy'n gysylltiedig â chymeriad ffuglennol - a gallai'r disgyblion ddylunio posteri, taflenni a.y.b. er mwyn dangos pam mae bwyta ffrwythau'n bwysig mewn diet cytbwys.

Addysg gorfforol

Anogir y disgyblion i symud fel gwahanol anifeiliaid yn Rhan 1 a gellir datblygu hyn yn Rhan 2, pryd y gellir gofyn iddyn nhw ddyngwared symudiadau Jac, y **Cawr Mawr, Hugan Fach Goch, y blaidd**, a'r **eirth**.

Gallen nhw greu symudiadau dawns er mwyn cyfleu'r digwyddiadau yn y goedwig, h.y. ymddangosiad Jac, sy'n ceisio'i orau i redeg oddi wrth y **Cawr Mawr**, ei ofnau wrth iddo glywed y cawr yn agosáu; ymddangosiad **Hugan Fach Goch**, sy'n cilio mewn braw wrth iddi glywed y blaidd yn dod, a.y.b.

Gellid creu dawns debyg er mwyn cyfleu digwyddiadau a nawys y llyfr **Yr Haul a'r Gwynt** yn Rhan 5.

Cerddoriaeth

Lleolir Rhan 2 mewn coedwig, lle mae nifer o gymeriadau i'w gweld. Mae Jac yn rhedeg o gwmpas yn wyllt, yn ceisio dianc oddi wrth y **Cawr Mawr**; mae'r **Cawr Mawr** yn cerdded yn drwm yn y cefndir; mae **Hugan Fach Goch** yn sgipio'n ysgafndroed ac yn hapus; mae'n clywed blaidd yn udo a gellir dychmygu ei symudiad slei a gofalus. Gallai'r disgyblion gyfansoddi cerddoriaeth i gyfleu'r gwahanol symudiadau a'r nawys.

Gellid rhoi cyfle i'r disgyblion wrando ar *Pedr a'r Blaidd* gan Prokofiev. Ar ôl i chi egluro perthnasedd y **themâu** cerddorol gwahanol, gallech chi ofyn **Pwy ydy hwn?** wrth i'r disgyblion gwrando ar y gerddoriaeth.

Yn ogystal, gallai'r disgyblion werthuso'r darn hwn o gerddoriaeth ynghyd â'u cyfansoddiadau eu hunain:

Gwrandewch ar y miwsig.

Ydych chi'n hoffi'r miwsig?

Mae'n hyfryd.

Mae'n wych!

Mae'n grêt!

Mae'n ffantastig!

Mae'r miwsig yn rhy dawel.

Mae'r miwsig yn rhy gryf.

Mae'r miwsig yn rhy araf.

Mae'r miwsig yn rhy gyflym.

Daearyddiaeth

Lleolir stori **Y Bachgen a'r Blaidd** yn yr Hen Roeg. Gallai'r disgyblion chwilio am leoliad Groeg ar fap / mewn atlas.

Yn ogystal, gallen nhw astudio coedwigoedd.

Hanes

Gallai'r disgyblion wisgo fel cymeriad o lyfr hanes yn ystod **Diwrnod y Llyfr**.

TGCh

Gallai'r disgyblion ddylunio a gwneud cerdyn **Brysiwch Wella** ar gyfer mam-gu / nain **Hugan Fach Goch**, gan ddefnyddio meddalwedd priodol.

Gofynnir i'r disgyblion drafod dyluniad dau boster, e.e. y ffont, maint y print, y lliwiau a.y.b. ac i ddylunio'u posteri eu hunain, gan ddefnyddio technegau dylunio a fydd yn sicrhau ei fod mor drawiadol â phosib.

Gallai'r disgyblion wneud bwrdd stori sy'n seiliedig ar chwedl **Y Bachgen a'r Blaidd** neu ar stori newydd. Gallen nhw ffilmio'u hunain yn adrodd y chwedlau hyn. Yn ogystal, gallen nhw greu cymeriadau cartŵn a gellid eu hanimeiddio a'u defnyddio i ailadrodd y chwedlau.

Gellid ffilmio amryw weithgareddau, e.e. paratoi bwyd a gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â **Diwrnod y Llyfr**.

ABCh

Mae cyfle i drafod diogelwch personol yn Rhan 2 – drwy dynnu sylw at y ffaith na ddylai disgyblion siarad â dieithriaid. Mae cyfleoedd i wneud posteri, taflenni a.y.b. er mwyn cyfleu'r neges hon.

Yn ogystal, yn Rhan 2, mae Dyfs yn cyfarfod â Jac, o'r chwedl *Jac a'r Goeden Ffa*, yn y goedwig. Yn y chwedl wreiddiol, mae Jac yn dwyn arian ac iâr oddi wrth y cawr. Er nad oes cyfeiriad uniongyrchol at hyn yn y film, dangosir iâr a darnau arian ar y ffilm. Gallai hyn roi cyfle i ysgrifennu llythyr at y cawr yn ymddiheuro iddo, gan ddweud bod dwyn yn anghywir:

Mae dwyn yn ofnadwy.

Byddai angen cyflwyno patrymau iaith a geirfa berthnasol cyn y gallai'r disgyblion wneud y gwaith hwn, fodd bynnag, e.e.

Annwyl ...

Jac ydw i.

Dw i'n byw yn y goedwig.

Mae'n ddrwg gen i am ddwyn y pres. (Gogledd Cymru)

Mae'n flin 'da fi am ddwyn yr arian. (De Cymru)

Mae dwyn yn ofnadwy.

Dw i eisiau rhoi'r arian/ pres / yr iâr 'nôl i chi.

Yn gywir

Datblygu meddwl

Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion adeiladu ar wybodaeth flaenorol drwy gydol yr uned hon drwy wneud amrywiaeth o weithgareddau.

Anogir y disgyblion i gynllunio ac, os yw'n briodol, i drefnu gweithgareddau ar gyfer dathlu **Diwrnod y Llyfr**. Fel rhan o'r broses gynllunio, gallen nhw gofnodi'u syniadau ar fap meddwl. Gallen nhw drafod a dewis yr opsiynau gorau yn ogystal.

Fe'u hanogir i gymharu a gwrthgyferbynnu dau boster, i fynegi barn ac yna i benderfynu pa un yw'r gorau. Yna, gallen nhw greu set o feini prawf y dylen nhw eu hunain eu defnyddio wrth iddyn nhw ddylunio'u posteri eu hunain.

Yn ogystal, anogir y disgyblion i ystyried cliwiau ar y DVD er mwyn adnabod gwahanol gymeriadau. Mae llawer o gyfleoedd ar gyfer ystyried syniadau, mynegi barn ac i ymateb. Mae disgyblion yn defnyddio iaith yn greadigol ac yn gwerthuso llwyddiant yn ogystal.

Datblygu cyfathrebu

Mae'r uned hon yn adeiladu ar y sgiliau iaith, y patrymau iaith a'r eirfa a gyflwynwyd eisoes.

Prif nod yr uned yw datblygu sgiliau cyfathrebu. O ganlyniad, mae llawer o gyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu yn ogystal â datblygu sgiliau cyfathrebu ehangach. Mae'r disgyblion yn dysgu sut i gyfathrebu'n effeithiol ar gyfer amrediad o bwrpasau a gyda chynulleidfaoedd amrywiol.

Datblygu TGCh

Anogir y disgyblion i ddatblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth, e.e. drwy greu taflen neu boster neu gyflwyniad PowerPoint yn egluro pwysigrwydd bwyta ffrwythau. Gallai'r gwaith hwn eu hannog i chwilio am ragor o wybodaeth hefyd, gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau, a rhannu a chyflwyno'u canfyddiadau mewn fformat addas. Dylid eu hannog hefyd i ddefnyddio'r cyfrifiadur ar gyfer gwaith ysgrifennu ac i ddrafftio ac ail-ddrafftio'u gwaith.

Datblygu rhif

Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio gwybodaeth fathemategol a rhifau mewn ffyrdd amrywiol.

Uned 4: Rhan 1 - Dathlu

Nodau:

- Trafod darllen yn gyffredinol a chyflwyno geirfa addas, e.e. **cymeriad**
- Annog y disgyblion i fynegi barn yn Gymraeg am ddarllen a gwranddo ar storïau
- Galluogi'r disgyblion i gynllunio **Diwrnod y Llyfr** drwy gyfrwng y Gymraeg
- Adolygu rhoi gwahoddiad ac egluro beth fydd yn digwydd yn ystod digwyddiad penodol
- Trafod y gofynion wrth gynllunio posterï
- Adolygu geirfa a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon.

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Diwrnod y Llyfr Rhaid gwisgo fel cymeriad o lyfr. (Mae) popeth yn iawn. Pa gymeriad?	cymeriad buwch gwisgo fel buwch pen-ôl dim byd

Patrymau a geirfa sy'n gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
<p>Cwestiynau ac atebion</p> <p>Sut ydych chi heddiw? Dw i'n teimlo'n hapus.</p> <p>Ble wyt ti? Ble mae Izzy? Ble mae e / o? Ydych chi'n gallu clywed sŵn? Beth ydy'r sŵn? Oes ... yn y Pod-antur Cymraeg? Oes. / Oes, mae ... yn y Pod-antur Cymraeg. Nac oes. / Nac oes, does dim ... yn y Pod-antur Cymraeg.</p> <p>Pwy wyt ti? ... ydw i.</p> <p>Beth wyt ti'n wneud? Dw i'n ...</p> <p>Beth ydy'r broblem? Wyt ti eisiau ...? Ydw, os gwelwch yn dda. Nac ydw, dim diolch.</p> <p>Beth am symud? Syniad da. Na, dw i ddim yn meddwl.</p> <p>Beth sy yn y bocs? Beth arall sy yn y bocs? Beth sy'n bod? Dw i'n meddwl.</p> <p>Pa (+ treigladd meddal)? Pa lyfr?</p> <p>Gorchmynion Edrychwch. Edrycha.</p> <p>Eraill Mawredd mawr! / Bobl bach! / Nefi wen! Dyma hwyl a sbri! I ffwrdd â ni!</p>	<p>Pardwn? neu dathlu fel tu ôl i o dan yn gwisgo Mawrth troed braich pen wedi syrthio dim problem cylch coch</p>

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Edrycha.; Edrychwch.

Pardwn?

Ydych chi'n gallu clywed sŵn?

Beth ydy'r sŵn?

Ble mae ...?

Pryd mae ...?

Wyt ti eisiau ...?; [Hefyd: Ydych chi eisiau ...?]

Popeth yn iawn?; (Mae) popeth yn iawn.

Wedi syrthio.

Wyt ti'n iawn?

Beth sy yn y (bocs)?

Beth sy'n bod?; Dim byd.

Dw i'n meddwl.; Dw i ddim yn meddwl.; Rhaid meddwl.

Dim problem.

I ffwrdd â ti.; [Hefyd: I ffwrdd â chi.]

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Dechreuwch drwy holi'r disgyblion ydyn nhw'n hoffi darllen / gwrando ar storïau:
Ydych chi'n hoffi darllen stori? / Ydych chi'n hoffi gwrando ar stori?; Ydyn.; Nac ydyn.
Wyt ti'n hoffi darllen stori? / Wyt ti'n hoffi gwrando ar stori? Ydw.; Nac ydw.
Pa stori? [Hefyd: Pa stori ydych chi'n hoffi?; Pa stori wyt ti'n hoffi?] Dw i'n hoffi ... (yn fawr).
- Dylai'r disgyblion ymgymryd â'r gweithgaredd sydd ar **Cerdyn Siarad 29** mewn grwpiau:
Siaradwch am lyfr.

Dylen nhw ddod â 2-3 llyfr i'r ystafell ddosbarth (llyfrau gyda lluniau ynddyn nhw fyddai orau) a dylen nhw siarad amdany'n nhw mewn parau neu grwpiau, e.e.
Dyma ... (teitl y llyfr / enw cymeriad).
Yn y llyfr, mae ... (cymeriad) **yn ... (gweld / bwyta / mynd i ...)**
Dw i'n hoffi ... achos mae'r stori'n dda / dw i'n hoffi ...
Wyt ti'n hoffi ...?
Dyma ...
Mae'n grêt.
Mae'n ddiddorol.
Mae'n ddoniol.
- Cyflwynwch y gair **cymeriad** a gofynnwch:
Pwy ydy'r cymeriad yma?

Yna, gallai'r disgyblion ofyn y cwestiwn hwn mewn parau, gan bwyntio at amryw gymeriadau yn y llyfrau.
- Yna, gallen nhw ysgrifennu adolygiad syml o lyfr, gan ddefnyddio'r patrymau uchod ac unrhyw eirfa neu batrymau eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw, e.e.
Teitl y llyfr ydy ...
Awdur y llyfr ydy ...
Yn y llyfr, mae ...
Mae (pedwar) cymeriad ...
Mae ... yn ...
Dw i'n hoffi'r llyfr achos ...
- Trowch at y DVD. Eglurwch fod y darn y bydd y disgyblion yn ei wyllo yn cyfeirio at ddatliad arbennig a chyflwynwch / adolygwch y canlynol:

dathlu

Diwrnod y Llyfr cymeriad o lyfr

Rhaid gwisgo fel cymeriad o lyfr.

- Dangoswch y ffilm, **Dathlu** (Uned 4, Rhan 1) hyd at y man lle mae'r **Llyfr am anifeiliaid Cymru** yn cael ei gyflwyno ac mae Dyfs yn dweud:
Da iawn, Izzy.
- Anogwch y disgyblion i ateb cwestiynau Dyfs wrth iddyn nhw wyllo'r ffilm, e.e.
Ydych chi'n gallu clywed sŵn?
Ydyn. / Nac ydyn.
Oes buwch yn y Pod-antur Cymraeg?
Oes buwch o dan y bwrdd?
Oes. / Nac oes.
- Gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:
Ydych chi'n hoffi'r DVD? / Wyt ti'n hoffi'r DVD?
Ydw.
Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n dda.
Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'n ddoniol.
Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'r fuwch yn edrych yn ddoniol.

Nac ydw.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n wirion.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos mae'n ddiflas.

Holwch am y fuwch ar y DVD, gan ddefnyddio'r un ymadroddion:

Ydych chi'n hoffi'r fuwch? / Wyt ti'n hoffi'r fuwch?

Ydw.

Dw i'n hoffi'r fuwch. Mae'n hyfryd.

Dw i'n hoffi'r fuwch achos mae'n ddoniol.

Nac ydw.

Dw i ddim yn hoffi'r fuwch.

Dw i ddim yn hoffi'r fuwch. Mae'n wirion.

Dw i ddim yn hoffi'r fuwch achos mae'n wirion.

- Chwaraewch y darn eto er mwyn sicrhau bod y disgyblion wedi deall. Gofynnwch gwestiynau mewn cwis fel bod grwpiau'n ceisio ennill pwyntiau, e.e.
Ble mae Izzy?
Ble mae Dyfs?
Beth ydy Book Day yn Gymraeg?
Ble mae Diwrnod y Llyfr?
Pryd mae Diwrnod y Llyfr?
Beth ydy Izzy - pa gymeriad?
Pa liw?
Wyt ti'n hoffi'r fuwch?
Ble mae Izzy'n cuddio?
- Gallai'r disgyblion drafod gwisgo fel cymeriad o lyfr ar gyfer dathlu **Diwrnod y Llyfr**. Gallen nhw gyfeirio at **Cerdyn Siarad 30**:
Rydych chi'n dathlu Diwrnod y Llyfr yn yr ysgol. Rhaid gwisgo fel cymeriad o lyfr - ond pwy?
Siaradwch am hyn.

Os yw'n briodol, adolygwch yr ymadroddion Cymraeg am ddillad wrth i'r disgyblion gyfeirio at beth byddan nhw'n ei wisgo.

- Chwaraewch ran nesa'r ffilm, lle mae Dyfs yn gwisgo pen-ôl y fuwch – hyd at y man lle maen nhw'n penderfynu chwilio yn y bocs dillad. Tynnwch sylw at y gair newydd:

pen-ôl

Wyt ti eisiau gwisgo fel pen-ôl buwch?

- Tynnwch sylw at yr ymadroddion:

Beth am symud?

Beth am gerdded fel buwch?

Beth am redeg fel buwch?

Gallai'r disgyblion gymryd rhan mewn gweithgaredd symud / dawnsio, gan **symud fel buwch**. Gallen nhw wneud hyn yn unigol drwy symud ar draws y llawr ar eu dwylo a'u traed, e.e.

Symudwch fel buwch.

Cerddwch fel buwch.

Cerddwch yn araf fel buwch.

Rhedwch fel buwch.

Rhedwch yn gyflym fel buwch.

neu gallen nhw symud fesul pâr, gydag un disgybl yn y pen blaen a'r llall yn y pen-ôl. Byddai'n rhaid iddyn nhw gydwethio er mwyn cadw'u cydbwysedd.

Gallen nhw symud fel anifeiliaid eraill hefyd, e.e.

Symudwch fel asyn.

Symudwch fel cwningen.

Symudwch fel eliffant.

Symudwch fel crwban.

(Efallai bod **crwban** yn air newydd.)

Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu yn Rhan 2.

- Yn ogystal, gallen nhw ddynwared symudiadau Dyfs ac Izzy ar y DVD, lle maen nhw'n dechrau drwy gerdded ac yna'n rhedeg a syrthio. Dylen nhw gysuro'i gilydd pan fyddan nhw'n syrthio, gan ddefnyddio un o'r ymadroddion isod:

Awtsh! Wedi syrthio!

Dim problem!

Popeth yn iawn.

Wyt ti'n iawn?

Yna, gellid defnyddio'r ymadroddion hyn yng nghyd-destun yr ysgol fel y bo'n briodol, e.e. pan fydd disgyblion yn syrthio neu'n cael damwain.

- Ar ddiwedd y darn, mae Dyfs yn gofyn:

Pwy?

Pa gymeriad?

ac maen nhw'n penderfynu chwilio yn y bocs dillad.

Adolygwch y geiriau Cymraeg am ddillad, drwy chwarae bingo dillad efallai, neu gallech chi ddefnyddio bocs o ddillad a gofyn:

Beth sy yn y bocs?

Tynnwch un dilledyn allan ar y tro, gan ofyn y cwestiwn hwn bob tro. Dylai'r disgyblion ateb, gan roi cymaint o fanylion â phosib, e.e.

crys mawr coch

crys glas tywyll

menig gwyrdd

a.y.b.

Neu, gallech chi ofyn:

Beth sy yn y bocs?

a gallai'r disgyblion eraill geisio dyfalu beth sydd yn y bocs, e.e.

Oes het goch yn y bocs? / Oes sanau yn y bocs?

Oes. / Oes, mae ... yn y bocs.

Nac oes. / Nac oes, does dim ... yn y bocs.

- Gallai'r disgyblion ddyfalu pa ddillad y bydd Dyfs yn dewis eu gwisgo a thynnu llun i'w bortreadu yn y dillad hynny, e.e.
Beth mae Dyfs yn mynd i wisgo?
Mae Dyfs yn mynd i wisgo trowsus du, crys coch a het goch – fel (Jac y Jwc) yn y llyfr ...

Yna, dylen nhw drafod y lluniau gyda phartner, e.e.

Ga i weld dy lun di?

Cei, wrth gwrs.

Dyma Dyfs.

Mae e'n / o'n gwisgo ... – fel ... yn y llyfr ...

Wyt ti'n hoffi'r dillad?

Ydw, dw i'n hoffi'r dillad achos maen nhw'n ...

Nac ydw, dw i ddim yn hoffi'r dillad achos maen nhw'n ...

- Chwaraewch weddill yr adran, lle mae'r cymeriadau'n edrych yn y bocs dillad ac yna'n cael eu trosglwyddo o'r **Pod-antur Cymraeg**, ar ôl i Sgrin ofyn iddyn nhw:
Ydych chi eisiau mynd i weld cymeriadau o lyfrau?

Wrth i Izzy awgrymu gwahanol ddillad, mae Dyfs yn ateb drwy ddweud:

Na, dw i ddim yn meddwl.

Gallech chi a'r disgyblion ddefnyddio'r ymadrodd hwn yn yr ysgol fel y bo'n briodol.

Gallech chi stopio'r ffilm bob tro y bydd Izzy'n cymryd dilledyn allan a rhoi cyfle i'r disgyblion ei ddisgrifio cyn y bydd Izzy'n gwneud. Gellid rhoi pwyntiau i wahanol dimau am ddisgrifiadau cywir.

- Gallai'r disgyblion ddewis cymeriad o lyfr, tynnu llun y cymeriad hwnnw, labelu'r dillad mae'n eu gwisgo ac ysgrifennu disgrifiad byr ohono. Anogwch nhw i feddwl am berson neu blentyn (yn hytrach nag anifail) fel eu bod nhw'n gallu cyfeirio at ei ddillad / dillad, e.e.

Labelu: **trowsus oren**
het clown

Disgrifio: **Dyma ... o ...** (enw'r llyfr).
Mae ... yn gwisgo ...

Os yw'n bosibl, anogwch nhw i ysgrifennu mwy am y cymeriad, e.e.

Yn y llyfr, mae ... yn ...

Mae ... yn ddoniol / wych / hyfryd / hapus.

Gallen nhw gymryd arnyn nhw mai nhw yw'r cymeriad hwn, a gwisgo'n debyg iddo / iddi os yn bosib. Yna, gallen nhw eistedd yn **y gadair goch** er mwyn ateb cwestiynau'r grŵp, e.e.

Pwy wyt ti?

Ble wyt ti'n byw?


Pa lyfr?

Wyt ti'n hoffi ...?

Wyt ti'n ...?

Beth wyt ti'n wneud yn y llyfr?

- Wedyn, gallai'r disgyblion gynllunio a threfnu digwyddiad i ddathlu **Diwrnod y Llyfr** yn yr ysgol. Gallen nhw drafod yr agweddau canlynol:



Pryd mae Diwrnod y Llyfr?

Ble mae Diwrnod y Llyfr?

Beth sy'n digwydd?

Mawrth ...

Dydd (Mercher), Mawrth ...

Yn yr ysgol.

Yn y llyfrgell.

Beth am wisgo fel cymeriad o lyfr?

Beth am wneud bwyd arbennig?

Beth am ddarllen stori Gymraeg?

Syniad da.

Na, dw i ddim yn meddwl.

- Wedyn, gallen nhw
 - ysgrifennu gwahoddiadau i'r digwyddiad, e.e.

DIWRNOD Y LLYFR	
Wyt ti eisiau dod i Ddiwrnod y Llyfr?	
Pryd:	
Ble:	
Beth: Rydyn ni'n mynd i	
Mae Diwrnod y Llyfr yn hwyl / wych / ddi-ddorol.	
Ateb (✓):	Ateb (*):
Ydw, dw i eisiau dod. /	Mae'n ddrwg gen i, dw i ddim yn gallu dod.
	Mae'n flin 'da fi, dw i ddim yn gallu dod.

- ysgrifennu e-bost, e.e.

Oddi wrth:
At:
Dyddiad:
Pwnc:
Annwyl ...
Wyt ti eisiau dod i'r ... yn ... ar ...?
Rydyn ni'n mynd i ...
Mae Diwrnod y Llyfr yn hwyl / wych / ddi-ddorol.
Cofion
...

- paratoi sgript sgwrs ffôn, e.e.

A: **Wyt ti eisiau dod i Ddiwrnod y Llyfr?**
 B: **O, ydw os gwelwch yn dda. Ble?**
 A: **Yn yr ysgol.**
 B: **Pryd?**
 A: **Mawrth ... - am naw o'r gloch.**
 B: **Beth sy'n digwydd?**
 A: **Rydyn ni'n mynd i ...**
 B: **Bobl bach! Dyna hwyl a sbri!**
 A: **Wyt ti eisiau dod?**
 B: **O ydw, os gwelwch yn dda.**
 A: **Gwych. Wela i di.**
 B: **Wela i di yn Diwrnod y Llyfr.**

- Yna, gellid cyflwyno'r adnodd darllen **Diwrnod y Llyfr**. Eglurwch fod y daflen yn cynnwys dau boster – mae un yn cyfeirio at y **Diwrnod y Llyfr** y bydd Dyfs ac Izzy'n mynd iddo, mae'r llall yn cyfeirio at **Diwrnod y Llyfr** arall sy'n cael ei drefnu mewn canolfan hamdden.

Dylai'r disgyblion ddarllen y posteri a siarad am y digwyddiadau yn y ddau leoliad.

Beth sy'n digwydd yn yr ysgol?
Beth sy'n digwydd yn y ganolfan hamdden?

Gallech chi baratoi grid fel eu bod yn gallu cofnodi'u hatebion.

	Poster 1	Poster 2
Ble?		
Pryd?		
Beth?		

Yn ogystal, gallai'r disgyblion drafod pa boster yw'r un gorau, a pham, e.e. gellid dewis patrymau addas o'r rhestr isod:

Edrychwch ar y print.
Print bach ... print mawr.
Mae'r print yn fach.
Mae'r print yn fawr.
Edrychwch ar y lliwiau.
Pa liwiau?
Edrychwch ar y lluniau.
Pa luniau?
Oes dyddiad ar y poster?
Oes amser ar y poster?
Mae ... ar Boster 1 ond does dim ... ar Boster 2.

- Gallai'r disgyblion drafod y gofynion dylunio wrth greu posteri, e.e.
 - Rhaid cael ...**
 - **print mawr**
 - **print mawr a print bach**
 - **lliwiau**
 - **lluniau**
 - **dyddiad**
 - **amser**

Yna, gallen nhw ddefnyddio'r meini prawf hyn i ddylunio posteri i hysbysebu'r digwyddiad maen nhw wedi meddwl amdano. Gellid dangos y posteri mewn manau addas.

Sylwer: Nid oedd yn bosib rhoi dyddiad pendant ar gyfer **Diwrnod y Llyfr** ar y poster ar y DVD gan ei fod yn newid o flwyddyn i flwyddyn. Fodd bynnag, dylai'r disgyblion gyfeirio at ddyddiad pendant.

Uned 4: Rhan 2 – Pwy ydy pwy?

Nodau:

- Mwynhau ac actio golygfeydd o chwedlau plant traddodiadol drwy gyfrwng y Gymraeg
- Adolygu geiriau a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon.

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Dyna enw od!	iâr Hugan Fach Goch clogyn mam-gu (De Cymru) nain (Gogledd Cymru) blaidd uwd arth

Patrymau a geirfa sy'n gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
<p>Cwestiynau ac atebion</p> <p>Ble ydyn ni? Ble wyt ti? Ble wyt ti'n mynd? Ble mae ...? Dw i ddim yn gwybod. Pwy wyt ti? ... ydw i. Pwy ydy Jac? Beth wyt ti'n wneud? Dw i'n ... Pam? Pam wyt ti'n ...? Beth sy'n bod? Wyt ti'n hoffi'r ...? Beth sy yn y fasged? Beth ydy'r sŵn? Beth ydy hwn?</p> <p>Gorchmynion</p> <p>Dere / Tyrd. Edrycha. Gwranda. Rhaid cuddio.</p> <p>Eraill</p> <p>Dyma hwyl a sbri! Bobl bach! / Mawredd mawr! / Nefi wen! Dw i'n teimlo'n ofnus. Dw i'n ofnus. Mae popeth yn iawn.</p>	<p>y goedwig cuddio cawr mawr arian / pres sâl afalau bara menyn llaeth / llefrith cacennau bach chwarae jôc plât mwg bach canolig mawr</p>

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Dw i ddim yn gwybod. / Dw i ddim yn siŵr.

Stopia!

Ble mae'r ...?

Beth sy'n bod?

Rhaid ...

Wyt ti'n hoffi'r ...?; Ydw.; Nac ydw.; [Hefyd: **Ydych chi'n hoffi'r ...?; Ydyn.; Nac ydyn.**]

Beth wyt ti'n wneud?; [Hefyd: **Beth ydych chi'n wneud?**]

Pam wyt ti'n ...?; Achos ...

Beth sy yn y (fasged)?

Beth ydy'r sŵn?

Gwranda.; [Hefyd: **Gwrandewch.**]

Beth ydy hwn?

Awgrymiadau gam wrth gam:

Sylwer: Yn Rhan 2, mae Dyfs yn cyfarfod â gwahanol gymeriadau ffuglennol yn y goedwig. Dylech chi bwysleisio ei fod e'n adnabod y cymeriadau hyn. Nid yw'n siarad â phobl ddieithr ac ni ddylai'r disgyblion byth siarad â phobl ddieithr.

Gallen nhw wneud posteri i gyfleu'r neges hon - yn Gymraeg, e.e.

Pwy ydy e? / Pwy ydy o?

Pwy ydy hi?

Ddim yn gwybod?

Peidiwch siarad!

- Eglurwch fod Dyfs ac Izzy'n chwilio am syniadau am beth i'w wisgo ar gyfer **Diwrnod y Llyfr**. Maen nhw'n glanio yn y goedwig ac yn cyfarfod â gwahanol gymeriadau ffuglennol. Wrth iddyn nhw weld pob cymeriad, gofynnwch i'r disgyblion ddisgrifio beth mae'n ei wisgo a gofynnwch am eu barn:

Beth mae ... yn wisgo?

Wyt ti'n hoffi'r dillad?

Gallech chi ofyn hefyd a fydden nhw'n hoffi gwisgo fel y cymeriadau:

Wyt ti eisiau gwisgo fel ...?

- Chwaraewch y ffilm **Pwy ydy pwy?** (Uned 4, Rhan 2). Canolbwyntiwch ar y rhan gyntaf, hyd at y man lle mae Dyfs yn cuddio rhag y **Cawr Mawr**, ac mae'n dweud:

Dw i'n ofnus iawn, iawn.

Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw'n gwybod pwy ydy Jac:

Pwy ydy Jac? [Ateb: **Jac o Jac a'r Goeden Ffa**]

Tynnwch sylw at y cliwiau:

Edrychwch: **arian / pres**

iâr

Cawr Mawr

Mae Jac yn rhedeg oddi wrth y Cawr Mawr.

- Chwaraewch y darn eto. Trafodwch mewn grŵp beth sy'n digwydd a beth mae Dyfs / Jac yn ei ddweud:

Stopia!

Pwy wyt ti?

Ble wyt ti'n byw?

Ble mae'r Drenewydd?

Yng Nghymru.

Beth wyt ti'n wneud?

Dw i'n rhedeg. Dw i eisiau cuddio.

Pam?

Beth sy'n bod?

Mae'r Cawr Mawr yn dod.

Pam?

Mae'r Cawr Mawr eisiau'r arian. / Mae'r Cawr Mawr eisiau'r pres. Mae'r Cawr mawr eisiau'r iâr.

Ysgrifennwch y patrymau hyn ar y bwrdd gwyn.

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 31:**

Yn y goedwig:

A: Jac wyt ti.

B: Dyfs wyt ti.

Siaradwch.

Dylai'r disgyblion actio'r olygfa lle mae Dyfs yn cyfarfod â Jac yn y goedwig, gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw batrymau eraill sy'n gyfarwydd.

Yna, gallen nhw addasu'r ddeialog hon ar gyfer sefyllfaoedd eraill, e.e. gallen nhw gyfarfod mewn lleoliad arall, efallai bod un ohonyn nhw'n rhedeg i ffwrdd oddi wrth gymeriad arall, a.y.b.

- Gallech chi ddefnyddio'r adran hon – neu, yn wir, unrhyw adran yn Rhan 2 – i gyflwyno / cadarnhau'r defnydd o ddyfnodau. Er enghraifft, gallech chi ysgrifennu darn byr a gofyn i'r disgyblion gynnwys dyfnodau yn y manau priodol, e.e.
Mae Dyfs yn y goedwig. Yn sydyn, mae e'n gweld Jac. Mae e'n gweiddi Hei ... stopia. Jac ... Jac ... Jac ... stopia.
Mae Jac yn gofyn Pwy wyt ti?
Dyfs ydw i, mae Dyfs yn ateb. Dyfan Jones ydw i. Dw i'n byw yn y Drenewydd.
Mae Dyfs yn gofyn i Jac Beth wyt ti'n wneud?
Dw i'n rhedeg. Dw i eisiau cuddio, mae Jac yn ateb.

Fodd bynnag, byddai angen cyflwyno'r geiriau canlynol cyn disgwyl i'r disgyblion ymgymryd â'r dasg:

gweiddi

gofyn

ateb

- Gallech chi dynnu sylw at yr iâr a'r darnau arian ar y ffilm a gofyn i'r disgyblion pam mae'r ffilm yn dangos yr iâr a'r arian? Atgoffwch nhw fod Jac, yn y stori wreiddiol, wedi dwyn y rhain. Gallech chi drafod hyn a phwysleisio **Mae dwyn yn ofnadwy**. Gallai'r disgyblion ysgrifennu llythyr ar ran Jac yn ymddiheuro am ddwyn yr arian a'r iâr. Dyma rai syniadau:

	Tŷ Jac a'i fam Y Goedwig Mawrth ...
Annwyl Cawr Mawr, ... ydw i a dw i'n byw yn ... Dw i wedi dwyn ... a ... o'r castell. Mae'n ddrwg gen i am ddwyn y pres a'r iâr. (Gogledd Cymru) Mae'n flin 'da fi am ddwyn yr arian a'r iâr. (De Cymru) Mae dwyn yn ofnadwy. Dw i eisiau rhoi'r arian/ pres / iâr 'nôl i chi. Ga i ddod i'r castell i roi'r arian/ pres / iâr 'nôl i chi os gwelwch yn dda? Hwyl fawr, ...	

- Chwaraewch y darn nesaf – Dyfs yn cyfarfod â **Hugan Fach Goch** – hyd at y man lle mae'r ddau ohonyn nhw'n rhedeg i ffwrdd.

Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw wedi adnabod **Hugan Fach Goch**:
Pwy ydy **Hugan Fach Goch**?

Chwaraewch y darn eto. Trafodwch mewn grŵp beth sy'n digwydd a beth mae Dyfs / Hugan Fach Goch yn ei ddweud:

Sut wyt ti?

Wyt ti'n hoffi'r dillad?

Ydw. Beth wyt ti'n wneud?

Dw i'n cerdded yn y goedwig.

Pam?

Dw i'n mynd i weld Mam-gu / Nain.

Pam?

Mae hi'n sâl. Mae hi'n sâl iawn.

Beth sy yn y fasged?

Afalau ... bara ... menyn ... llaeth ... cacennau.

Ysgrifennwch y patrymau a'r geiriau hyn ar y bwrdd gwyn.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 32**:
Yn y goedwig:
A: Hugan Fach Goch wyt ti.
B: Dyfs wyt ti.
Siaradwch.

Dylai'r disgyblion actio'r olygfa lle mae Dyfs yn cyfarfod â Hugan Fach Goch yn y goedwig, gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw batrymau eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 33**:
Dyma fasged Hugan Fach Goch.
Rhaid pacio'r fasged.

Dylai'r disgyblion benderfynu beth y bydden nhw'n ei bacio yn y fasedg ar gyfer mam-gu / nain **Hugan Fach Goch**, gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw batrymau eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw. Gallech chi ofyn i'r disgyblion sicrhau bod y bwyd yn fwyd **iach**:

Rhaid pacio bwyd iach.

Gallen nhw ysgrifennu a chymharu rhestri o fwyd addas.

Gellid gofyn i'r disgyblion feddwl am **frechdanau iach** y gellid eu rhoi yn y fasedg, e.e.

Rhaid defnyddio bara brown.

Rhaid rhoi tomato / salad / tiwna yn y brechdanau.

Gellid rhoi cyfle i'r disgyblion wneud y brechdanau hyn drwy gyfrwng y Gymraeg:

Beth wyt ti'n wneud?

Dw i'n gwneud brechdanau.

Beth wyt ti'n ddefnyddio?

Dw i'n defnyddio ...

Beth wyt ti'n wneud?

Dw i'n rhoi menynd ar y bara.

Dw i'n rhoi tomato ar y bara.

Dw i'n rhoi ciwcymbr ar y tomato.

Dw i'n rhoi bara ar y ciwcymbr.

- Gallen nhw ffilmio'r broses o baratoi'r amryw fwydydd a gallen nhw ysgrifennu'r ryseitiai, gan ddilyn un o'r fformatau yma o bosib:

<i>Teitl</i>
Rhaid cael: <i>[Rhestr o'r cynhwysion]</i>
Dull 1. 2. 3.

<i>Teitl</i>
Mae angen: neu Cynhwysion: <i>[Rhestr o'r cynhwysion]</i>
Dull 1. 2. 3.

Yna, gallen nhw arddangos y ryseitiai ynghyd â delweddau perthnasol.

- Gallai'r disgyblion wneud cerdyn **Brysiwch Wella** ar gyfer **Nain / Mam-gu**, gan gynnwys cyfarchiad addas ynddi, e.e.
I Nain / Mam-gu
Brysiwch wella!
Oddi wrth ...
- Dylid egluro'r gair **blaidd** ac yna gellid rhoi cyfle i'r disgyblion wrando ar y darn clasurol, *Pedra'r Blaidd* gan Prokofiev.

Ar ôl i chi egluro perthnasedd y gwahanol themâu cerddorol gwahanol, gallech chi ofyn **Pwy ydy hwn?** tra byddwch chi'n gwrando ar y gerddoriaeth.

Gallai'r disgyblion werthuso'r darn hwn o gerddoriaeth yn ogystal:

Gwrandewch ar y miwsig.

Ydych chi'n hoffi'r miwsig?

Mae'n hyfryd.

Mae'n wych!

Mae'n grêt!

Mae'n ffantastig!

Mae'n gyffrous.

Dw i'n hoffi'r stori.
Dw i ddim yn hoffi'r miwsig.
Dw i ddim yn hoffi'r stori.

- Chwaraewch y darn nesaf, lle mae Izzy'n ailymddangos - hyd at y man lle mae Dyfs ac Aladin yn rhedeg i ffwrdd i guddio.

Anogwch y disgyblion i ateb cwestiynau Izzy wrth iddyn nhw wyllo:

Oes blaidd yn y goedwig?
Oes sŵn yn y goedwig?
Oes. / Nac oes.

Wrth i Dyfs geisio cofio enw Aladin, gofynnwch i'r disgyblion ddyfalu pwy yw'r cymeriad:
Pwy ydy hwn?

- Yna, gellid cyflwyno'r llyfr stori, **Dyfs ac Aladin**, gan ei fod yn datblygu'r stori ymhellach. Awgrymir gweithgareddau y gall y disgyblion eu gwneud yng nghefn y llyfr.
- Dangoswch ran olaf y ffilm. Tynnwch sylw at y geiriau canlynol, a gyflwynwyd eisoes yn Uned 2:

bach
canolig
mawr

Cyflwynwch y geiriau newydd:

arth eirth

a gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw'n gyfarwydd â'r stori sy'n gysylltiedig â'r picnic, y platiau, y mygiau a'r cadeiriau, sef stori Elen Benfelen.

Gofynnwch i'r disgyblion dynnu sylw at eitemau bach, canolig a mawr yn yr ystafell ddosbarth.

- Gofynnwch i'r disgyblion greu golygfa debyg yn yr ystafell ddosbarth (carthen picnic ynghyd â phlatiau, mygiau a.y.b. o wahanol faint) a gofynnwch iddyn nhw actio'r olygfa lle mae Dyfs ac Izzy'n dod ar eu traws yn y goedwig. Dylen nhw dynnu sylw at y gwahanol feintiau.

Yna, gallen nhw chwarae rôl y sefyllfa lle mae Izzy a Dyfs yn cyfarfod â'r eirth:

Pwy ydych chi?
Ble ydych chi'n byw?
Dw i'n byw yn ...
Beth ydy hwn?
Ydych chi'n hoffi ...?
Beth ydych chi'n hoffi ...?

Efallai eu bod nhw'n gyfarwydd â'r patrwm hwn hefyd:

Pwy biau'r ...?
Pwy biau'r plât mawr?
Pwy biau'r mwg bach?

- Gallai'r disgyblion greu darn o waith celf i gyfleu'r goedwig, gan ganolbwyntio ar dôn ac arlliwiau a gellid defnyddio gwahanol fathau o ddefnydd er mwyn rhoi gwead i'r gwaith. Yna, dylid gwerthuso'r darnau hyn. Gweler y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₂** am batrymau iaith a geirfa addas.
- Gallai'r disgyblion wneud model neu byped o **flaidd** neu **arth** – neu gymeriad arall o lyfr – a gellid eu defnyddio ar gyfer chwarae rôl.
- Anogir y disgyblion i symud fel anifeiliaid gwahanol yn Rhan 1. Gellid datblygu hyn ymhellach yn Rhan 2 drwy ofyn iddyn nhw ddynewared symudiadau **Jac**, **Hugan Fach Goch**, y **Cawr Mawr**, **blaidd**, **arth bach**, **arth canolig**, **arth mawr**.

- Gallai'r disgyblion greu darn o gerddoriaeth a dawns er mwyn cyfleu'r hyn sydd wedi digwydd yn y rhan hon o'r uned, e.e. Jac yn rhedeg o gwmpas yn wyllt yn y goedwig wrth iddo geisio dianc rhag y **Cawr Mawr**; y **Cawr Mawr** yn cerdded yn drwm yn y cefndir; **Hugan Fach Goch** yn sgipio'n ysgafdroed ac yn hapus; blaidd yn udo ac yn symud yn slei a gofalus; yr eirth ac, efallai, Izzy a Dyfs, yn gadael y goedwig ac yn dychwelyd i'r **Pod-antur Cymraeg**.
- Gofynnwch i'r disgyblion:
Ydych chi'n cofio?
ac yna gofynnwch gwestiynau iddyn nhw mewn cwis – neu gallai'r disgyblion greu a gofyn eu cwestiynau eu hunain, e.e.
Beth mae ... yn wisgo?
Mae Jac yn gwisgo ...
Pa liw ydy trowsus Aladin?
a.y.b.
- Gallech chi orffen drwy ofyn:
Beth mae Dyfs yn mynd i wisgo i Ddiwrnod y Llyfr?

Er eu bod nhw wedi trafod hwn yn Rhan 1, efallai y byddan nhw'n dymuno newid eu meddyliau ar ôl gweld beth mae rhai o'r cymeriadau ffuglennol yn ei wisgo. Cymharwch syniadau ac eglurwch y bydd popeth yn cael ei ddadlennu yn Rhan 4:
Gawn ni weld.

Uned 4: Rhan 3 – Y bachgen a’r blaidd

Nodau:

- Cyflwyno un o chwedlau Aesop drwy gyfrwng y Gymraeg
- Defnyddio’r chwedl hon fel sail ar gyfer gwaith llafar a gwaith ysgrifenedig ac, yn benodol, ar gyfer annog y disgyblion i ysgrifennu eu chwedlau eu hunain
- Adolygu geiriau a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a’u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon.

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Clywais i / Clywes i sŵn. Pa fath o sŵn? Sŵn blaidd.	defaid y ... yma y drôr yma y llyfr yma

Patrymau a geirfa sy’n gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
<p>Cwestiynau ac atebion</p> <p>Beth sy’n bod? Pwy ydy ...? Ydych chi eisiau clywed stori? Ydyn, os gwelwch yn dda. / Nac ydyn, dim diolch. Oes llyfrau yn y Pod-antur? Oes. / Oes, mae llyfrau yn y Pod-antur Cymraeg. Nac oes. / Nac oes, does dim llyfrau yn y Pod-antur Cymraeg. Ble mae’r llyfrau? Beth am roi’r llyfrau ar y silff? Wyt ti eisiau gwisgo fel ...? Ydw. / Nac ydw.</p> <p>Gorchmynion</p> <p>Chwiliwch. Edrycha.</p> <p>Yr amser gorffennol</p> <p>Es i i’r ...</p> <p>Eraill</p> <p>Bobl bach! / Mawredd mawr! / Nefi wen!</p>	<p>Jac a’r Goeden Ffa Hugan Fach Goch sŵn bachgen blaidd cymeriad Diwrnod y Llyfr dathlu</p>

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio’r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai’n hawdd trosglwyddo llawer o’r patrymau sy’n cael eu cyflwyno a’u hadolygu yn y rhan hon o’r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth sy’n bod?

Pwy ydy (hwn)?

Edrycha.; Edrychwch.

Ydych chi eisiau clywed stori?; Ydyn, os gwelwch yn dda.; Nac ydyn, dim diolch.

Beth ydy’r stori?

Dyna stori dda.

Oes llyfr yn y ...?

Beth am roi’r llyfrau ar y silff?

Ffurfiâu amser y gorffennol:

Sylwer: Byddai cyflwyno’r cwestiynau canlynol fesul un ar adegau priodol a’u defnyddio’n gyson yn galluogi’r disgyblion i ddefnyddio amser y gorffennol yn hyderus, e.e. yn ystod **Amser Cylch** a.y.b.:

Ble est ti?
Es i i ... / Es i i'r ...

Beth welaist ti? / Beth welest ti?
Gwelais i ... / Gweles i ...

Beth glywaist ti? / Beth glywest ti?
Clywais i ... / Clywes i ...

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Chwaraewch y ffilm, **Y bachgen a'r blaidd**, Uned 4, Rhan 3 – hyd at y man lle mae Sgrin yn gofyn i'r cymeriadau ydyn nhw eisiau stori. Yna, maen nhw'n symud tuag at y sgrin ac mae Dyfs yn gofyn **Beth ydy'r stori, Sgrin?**

Mae'r darn cyntaf yn crynhoi anturiaethau Dyfs yn y goedwig – cyfarfod â **Jac** a **Hugan Fach Goch** a'r blaidd yn udo.

Gallai'r disgyblion ddychmygu mai nhw yw Dyfs a dweud beth welon nhw a beth glywon nhw yn y goedwig. Gallen nhw ddylunio swigod siarad mawr ar y cyfrifiadur ac ysgrifennu ynddyn nhw pwy welon nhw a beth glywon nhw. Yna, gellid gosod y swigod siarad hyn ar y gwaith celf a wnaed i gyfleu'r goedwig.

Yn ogystal, gallen nhw ddychmygu mai nhw yw Dyfs a'u bod nhw'n anfon neges e-bost at ei fam / ffrindiau er mwyn dweud wrthyn nhw ble aeth e, beth welodd / glywodd e ac i roi ei farn am y profiad – roedd o'n gyffrous / ffantastig a.y.b.

- Gofynnwch:
Ydych chi eisiau gwrando ar stori?
Ydyn, os gwelwch yn dda. / Nac ydyn, dim diolch.

Cyflwynwch y geiriau canlynol:
defaid
blaidd
gweiddi

Yna, dylech chi annog y disgyblion i wrando drwy ddweud:
Gwrandewch. / Gwrandewch yn ofalus.

- Chwaraewch y darn nesaf, sy'n cyflwyno'r chwedl **Y Bachgen a'r Blaidd** - sy'n seiliedig ar un o chwedlau Aesop, *The Boy who cried Wolf*.

- Gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:
Wyt ti'n hoffi'r stori?
Ydw. / Nac ydw.
Dw i'n hoffi'r stori – mae'n dda iawn.
ffantastig
wych / grêt
Dw i'n hoffi'r stori achos dw i'n hoffi stori gyffrous.

Dw i ddim yn hoffi'r stori.
Mae'n ofnadwy.
Mae'n ddiflas.
Dw i ddim yn hoffi'r stori achos mae'n ddiflas.
Dw i ddim yn hoffi'r stori achos mae Dimitri'n wirion.

- Helpwch y disgyblion i ddysgu'r stori sydd yn y llyfr drwy ddefnyddio'r dulliau sy'n cael eu hargymell gan Pie Corbett*
 - Gwnewch fap o'r stori
 - Defnyddiwch y map stori y tro nesaf y byddwch chi'n adrodd y stori a gwnewch yn siŵr ei fod yn cael ei ddangos yn yr ystafell ddosbarth
 - Gofynnwch i'r disgyblion wneud mapiau stori unigol.
 - Adroddwch y stori bob dydd fel bod y disgyblion yn ei dysgu'n raddol.
 - Penderfynwch fel dosbarth pa symudiadau a.y.b. rydych chi'n mynd i'w defnyddio er mwyn cyfleu'r stori.
 - Wrth i'r disgyblion ddysgu'r stori, gwahoddwch nhw i adrodd y stori yr un pryd â chi.
 - Gallai grwpiau ddweud y stori wrth iddyn nhw ddod yn fwy hyderus, e.e. merched, bechgyn yn eistedd mewn grwpiau o gwmpas y byrddau a.y.b.
 - Gellid sefydlu cylchoedd stori, lle mae'r disgyblion yn adrodd y stori i'w gilydd, gan helpu'i gilydd yn ôl yr angen.
 - Yn ogystal, gallai'r disgyblion feimio golygfeydd penodol.
 - Gallen nhw actio golygfeydd tebyg, e.e. drwy ddefnyddio **Cerdyn Siarad 34**:
 - A: Dimitri wyt ti.**
 - B: Rwy'ti'n clywed Dimitri'n gweiddi. Rwy'ti'n grac.**
 - Siaradwch.**
 - Gallen nhw actio'r stori gyfan, yn ystod gwasanaeth yr ysgol efallai, gan ddefnyddio propiau priodol.
 - Yn ogystal, gallen nhw gymryd rhan mewn sesiwn yn **y gadair goch**, e.e. gallai un o'r cymeriadau eistedd yn **y gadair goch** a gallai'r disgyblion eraill ofyn cwestiynau:
 - Pwy wyt ti?**
 - Dimitri ydw i.**
 - Sut wyt ti? / Sut wyt ti'n teimlo?**
 - Dw i'n drist. / Dw i'n teimlo'n trist.**
 - Pam?**
 - Dw i eisiau chwarae gyda ffrindiau.**
 - Beth wyt ti eisiau chwarae?**
 - Dw i eisiau chwarae (pêl-droed).**
 - Pam wyt ti'n gweiddi?**
 - Achos dw i eisiau cael hwyl.**
 - Ble mae'r defaid? / Ble mae'r blaidd?**
 - Yn y cae.**
 - Wyt ti'n hoffi'r blaidd?**
 - Nac ydw.**
 - Sut wyt ti'n teimlo?**
 - Dw i'n teimlo'n ofnus.**
 - Wyt ti'n hapus nawr / rŵan?**
 - Ydw. Nac ydw.**
- Ar ôl i'r disgyblion ddysgu a chyflwyno'r stori, chwaraewch y darn sy'n dangos grŵp o ddisgyblion ysgol yn adrodd y stori a chymharwch gyflwyniad y disgyblion gyda'r cyflwyniad ar y sgrin.
- Gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:
 - Ydych chi'n hoffi'r stori? / Wyt ti'n hoffi'r stori?**
 - Ydw.**
 - Dw i'n hoffi'r stori. Mae'n dda iawn.**
 - Mae'r plant yn wych.**
 - Nac ydw.**
 - Dw i ddim yn hoffi'r stori. Mae'n ofnadwy.**
 - Dw i ddim yn hoffi'r stori achos mae'n ddiflas iawn.**

* Am wybodaeth bellach ar ddulliau Pie Corbett, gweler: Pie Corbett, **The Bumper Book of Storytelling into Writing – Key Stage 1**, Clown Publishing, 2006; Pie Corbett, **The Bumper Book of Storytelling into Writing – Key Stage 2**, Clown Publishing, 2007

- Gallai'r disgyblion drafod neges y chwedl, yn Gymraeg neu Saesneg fel y bo'n briodol.
- Gallen nhw wneud y canlynol:
 - collage i gyfleu gwahanol olygfeydd o'r chwedl
 - pypedau, e.e. pypedau bysedd / pypedau ffyn, er mwyn cyfleu'r cymeriadau a gellid defnyddio'r rhain mewn gweithgareddau chwarae rôl.

Yn ogystal, gallen nhw wneud bwrdd stori, a fyddai'n golygu defnyddio sgiliau TGCh.

- Pan fydd y disgyblion yn gwbl gyfarwydd â'r stori, gellid eu gwahodd i'w haddasu hi, e.e. gallen nhw newid:
 - enwau'r cymeriadau
 - yr anifeiliaid.
- Gofynnwch i'r disgyblion wneud map o'u stori newydd. Wedyn, dylen nhw ailadrodd y stori bob dydd a symud ymlaen i gylchoedd stori a gwaith pâr cyn ceisio ysgrifennu'r stori.
- Dylai'r disgyblion ysgrifennu'u stori a thynnu lluniau priodol.
- Dangoswch weddill y ffilm, lle mae Dyfs ac Izzy'n chwilio am lyfrau ac yn eu trefnu'n daclus.

Gallai'r disgyblion gymryd rhan mewn gweithgaredd tebyg yn y dosbarth, e.e.

Oes llyfr yn y ...?

**ar y
o dan y
uwchben
tu ôl i'r
o flaen y
yn y drôr yma
yn y cwpwrdd yma**

Gallai'r disgyblion ddewis a threfnu llyfrau'n daclus er mwyn creu arddangosfa arbennig ar gyfer Diwrnod y Llyfr. Gallen nhw ddefnyddio'r patrymau iaith mae Dyfs ac Izzy'n eu defnyddio ar y DVD:

Beth am roi'r llyfrau ar y bwrdd / silff?

Dyma ni ...

Dyma ...

Beth ydy teitl y llyfr yma?

... (teitl y llyfr) **ar y bwrdd / silff.**

Uned 4: Rhan 4 – Diwrnod y Llyfr

Nodau:

- Galluogi'r disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg wrth iddyn nhw ddathlu **Diwrnod y Llyfr**
- Defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu wrth baratoi bwyd
- Trafod drwy gyfrwng y Gymraeg y manteision o fwyta ffrwythau
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon.

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
<p>Mae fitaminau mewn ffrwythau. Mae ffibr mewn ffrwythau. Wyt ti'n cofio'r ...? Rhaid pwysu'r uwd. Rhaid troi'r uwd.</p>	<p>ffon, ffyn fitamin, fitaminau ffibr mililitr microdon; y ficrodon pum deg gram tri chan mililitr o lefrith / laeth am bedwar munud (Gogledd Cymru) / am bedair munud (De Cymru) troi melys sylvana, sylvanas</p>

Patrymau a geirfa sy'n gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
<p>Cwestiynau ac atebion: Pwy wyt ti? ... ydw i. Wyt ti'n hoffi darllen? Ydw, dw i'n hoffi darllen yn fawr. Mae darllen yn hwyl. Pwy ydy hwn? Beth ydy hwn? Ble wyt ti'n byw? Beth wyt ti'n wneud? Dw i'n ... Beth ydych chi'n wneud? Rydyn ni'n ... Beth ydych chi'n ddefnyddio? Beth sy yn y bowlen? Beth am wneud mwy o uwd? Beth am roi mêl yn yr uwd? Syniad da. Rydyn ni'n defnyddio ... Ga i ofyn cwestiwn? Ga i salad ffrwythau? Cei. / Cewch. / Na chei. / Na chewch. Pam ydych chi'n ...? Achos ...</p> <p>Pa? Pa lyfr?</p> <p>Gorchmynion Esgusodwch fi. Rhaid golchi'r ffrwythau. Rhaid torri'r ffrwythau.</p>	<p>dathlu cymeriad poeth pen-ôl dathlu Diwrnod y Llyfr mefus afal, afalau banana, bananas blasus uwd gram menig aros mêl arth</p>

Rhaid plicio'r / pilio'r orennau.
Rhaid rhoi'r ffrwythau yn y bowlen.
Byddwch yn ofalus.

Eraill

Bobl bach! / Mawredd mawr! / Nefi wen! / Nefi bliw!
Mae ffrwythau'n dda i ti / i chi.
Roedd e'n / o'n ffantastig.

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Wyt ti'n hoffi darllen?; Ydw. / Ydw, dw i'n hoffi darllen. [Hefyd: **Ydych chi'n hoffi darllen?; Ydyn. / Ydyn, rydyn ni'n hoffi darllen.**]

Mae darllen yn hwyl.

Dw i'n hoffi'r stori yma.

Pwy ydy hwn?

Beth ydy hwn?

Beth wyt ti'n wneud?; Dw i'n ...; Beth ydych chi'n wneud?; Rydyn ni'n ...

Beth ydych chi'n ddefnyddio?; Rydyn ni'n defnyddio ...

Pam ydych chi'n ...?

Esgusodwch fi.

Ga i ofyn cwestiwn?; Cei. / Cewch. / Na chei. / Na chewch.

Beth sy yn y (bowlen)?

Beth am roi (mêl yn yr uwd)?; Syniad da.; [Hefyd: **Na, dw i ddim yn meddwl.**]

Mae (ffrwythau / uwd) yn dda i ti / chi.

Mae fitaminau mewn ffrwythau.

Mae ffibr mewn ffrwythau.

Wyt ti'n cofio ...?; Wyt ti'n cofio'r ...?

Rhaid cael ...

Rhaid pwyso ...

Rhaid mesur ...

Rhaid rhoi ... yn y ficrodon.

Awgrymiadau gam wrth gam:

Mae'r rhan hon o'r uned yn dangos disgyblion yn cymryd rhan mewn dathliadau Diwrnod y Llyfr mewn ysgol. Felly, mae'n cynnwys geirfa a phatrymau iaith y gallai eich disgyblion chi eu defnyddio yn eu dathliadau Diwrnod y Llyfr eu hunain.

- Chwaraewch y ffilm **Diwrnod y Llyfr** (Uned 4, Rhan 4). Canolbwyntiwch ar ddechrau'r darn – y rhan lle mae'r disgyblion sydd wedi gwisgo fel cymeriadau o lyfrau yn siarad â'i gilydd, ynghyd â'r rhan ddilynol, lle mae'r fuwch yn glanio - hyd at y man lle mae Dyfs yn cael ei ddatgelu ac yn dweud:
Dw i ddim yn hoffi gwisgo fel pen-ôl buwch.

Anogwch y disgyblion i wisgo fel cymeriadau o lyfrau ac i ofyn cwestiynau i'w gilydd, e.e.

Pwy wyt ti?

... ydw i.

Pa lyfr?

... (enw'r llyfr)

Sut wyt ti?

Da iawn, diolch.

Beth wyt ti'n hoffi?

Beth wyt ti'n wneud yn y llyfr?

Dw i'n ...

Dw i'n hoffi (enw'r llyfr). Wyt ti'n hoffi (enw'r llyfr)?

Dw i'n hoffi'r dillad.

Gallai **Cerdyn Siarad 35** gynorthwyo'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol:
Rydych chi'n dathlu Diwrnod y Llyfr.
Siaradwch.

- Tynnwch sylw at y patrymau sy'n cael eu defnyddio wrth i'r fuwch lanio:
Pwy ydy hwn?
Beth ydy hwn?

Driliwch y patrymau hyn ac yna'u defnyddio i drafod llyfr, e.e. pwyntiwch at gymeriadau / gwrthrychau gwahanol a gofynnwch y cwestiynau. Gallai'r disgyblion roi atebion un gair, e.e.

Jac.

Blaidd.

neu gallen nhw ateb mewn brawddegau llawn.

Jac ydy hwn.

Blaidd ydy hwn.

Defnyddiwch y patrymau hyn lle bynnag y bo modd, e.e. wrth drafod delweddau, gwrthrychau, llyfrau a.y.b. Fodd bynnag, os ydych chi'n pwyntio at rywbeth rydych chi'n gwybod sy'n fenywaidd neu os ydych chi'n pwyntio at ferch, defnyddiwch:

Beth ydy hon?

- Chwaraewch y darn nesaf, lle mae'r disgyblion yn gwneud **ffyn ffrwythau** – hyd at y toriad naturiol yn y ffilm. Tynnwch sylw at y geiriau **ffon** a **ffyn**.

Yna, gallai'r disgyblion baratoi **ffyn ffrwythau**.

Mae'r disgyblion ar y ffilm yn defnyddio ffrwythau sydd wedi cael eu golchi / pilio/plicio eisoes, felly maen nhw'n ailadrodd un patrwm sylfaenol:

Rhaid rhoi'r ... ar y ffon.

Fodd bynnag, efallai bydd angen i'ch disgyblion chi ddefnyddio'r canlynol hefyd:

Rhaid golchi'r ...

Rhaid torri'r ...

Rhaid plicio'r / pilio'r ...

Rhaid rhoi'r ...

Gallai'r disgyblion wneud salad ffrwythau hefyd a gellid cyflwyno **Cerdyn Siarad 36** i'w cynorthwyo:

Sut ydych chi'n gwneud salad ffrwythau?

Yna, gellid rhannu'r bwyd:

Wyt ti eisiau ...?

Ydych chi eisiau ...?

Ydw, os gwelwch yn dda.

Nac ydw, dim diolch.

Byddai hyn yn gyfle i fynegi barn am y bwyd:

Blasus.

Blasus iawn.

Mae'n flasus iawn.

Dw i ddim yn hoffi ...

Dw i ddim yn hoffi hwn.

Mae angen mwy o ...

Sylwer: Dylai'r disgyblion olchi eu dwylo, gwisgo ffedogau a dilyn arferion hylendid priodol wrth drin bwyd. Gwnewch yn siwr hefyd nad oes unrhyw un yn alergaidd i unrhyw un o'r ffrwythau hyn.

- Pwysleiswch fod ffrwythau'n dda i chi a'u bod yn cynnwys **fitaminau** a **ffibr**:

Mae ffrwythau'n dda i ti / chi.
Mae fitaminau mewn ffrwythau.
Mae ffibr mewn ffrwythau.
Rhaid bwyta ffrwythau bob dydd.

Gallech chi drafod pwysigrwydd bwyta ffrwythau a pham mae fitaminau a ffibr yn bwysig mewn diet cytbwys - yn Saesneg neu Gymraeg fel y bo'n briodol.

Yna, gallai'r disgyblion restru ffrwythau sy'n cynnwys fitaminau a ffibr. Gan ddefnyddio rhai o'r patrymau sy'n cael eu rhestru uchod, gallen nhw greu posteri, taflenni neu gyflwyniad PowerPoint sy'n egluro bod ffrwythau'n dda i chi.

Mae fitaminau mewn ...	Mae ffibr mewn ...

- Chwaraewch y rhan olaf - lle mae Izzy a Dyfs yn paratoi uwd (y bwyd a welwyd ar y garthen picnic yn y goedwig yn Rhan 2).
- Gofynnwch i'r disgyblion nodi'r patrymau mae Izzy'n eu defnyddio ar gyfer mynegi barn am Ddiwrnod y Llyfr.

Rhestrwch y rhain ac yna chwaraewch ddechrau'r darn hwn eto a gwrandewch ar y patrymau hyn eto:

Roedd Diwrnod yn Llyfr yn hwyl.

**ffantastig
 wych
 grêt**

Yna, gallai'r disgyblion siarad / ysgrifennu am eu Diwrnod y Llyfr nhw, gan ddefnyddio'r patrymau hyn ynghyd â phatrymau a ddysgwyd eisoes, e.e.

Roedd Diwrnod y Llyfr heddiw / ddoe / dydd Iau ...
Gwelais i ... / Gweles i ...

Ces i ...

Roedd Diwrnod y Llyfr yn ...

Roedd e'n / o'n ...

Gallech chi gyflwyno ymadrodd newydd:

Gwisgais i fel ...

- Tynnwch sylw at gwestiwn Dyfs:
Wyt ti'n cofio ...?
Wyt ti'n cofio'r bwrdd picnic yn y goedwig a'r uwd?

Mwy na thebyg eich bod chi wedi bod yn defnyddio **cofio** mewn cyd-destun lluosog – gyda mwy nag un disgybl:

Ydych chi'n cofio?

Yma, mae'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun unigol gyda'r gair **ti**.

Gallech chi ddrilio hyn drwy ofyn i'r disgyblion:

Wyt ti'n cofio'r picnic yn y goedwig?

Wyt ti'n cofio Hugan Fach Goch yn y goedwig? a.y.b.

Yr atebion yw:

Ydw. / Nac ydw.

- Cyflwynwch y deunydd darllen, sef rysâit **Uwd**, a darllenwch drwyddo.
- Yna, gofynnwch i'r disgyblion ddilyn y cyfarwyddiadau wrth iddyn nhw baratoi ei huwd eu hunain. Pwysleiswch ymlaen llaw y dylai'r disgyblion gymryd gofal gan y bydd yr uwd yn boeth iawn:

Gofalus!
Byddwch yn ofalus.
Rhaid bod yn ofalus iawn (iawn).
Mae'r uwd yn boeth iawn (iawn).
Defnyddiwch fenig.
Gofynnwch am help.

Sylwer: Dylai'r disgyblion olchi eu dwylo, gwisgo ffedog a dilyn arferion hylendid priodol wrth drin bwyd.

I ddechrau, bydd angen iddyn nhw bwysu'r cynhwysion:
Rhaid pwysu'r uwd – pum deg gram.
Rhaid mesur y llaeth – tri chan mililitr.

Gofynnwch iddyn nhw ddisgrifio yn Gymraeg beth maen nhw'n ei wneud wrth iddyn nhw baratoi'r uwd:
Dw i'n pwysu'r ...
Dw i'n cymysgu'r ...
neu gallen nhw roi cyfarwyddiadau i rywun arall:
Rhaid pwysu'r ...
Rhaid cymysgu'r ...

Gellid ychwanegu ffrwythau amrywiol at yr uwd er mwyn ei wneud yn iachach a gellid trafod y rhain, e.e.

Beth am roi ffrwythau yn yr uwd?
Pa ffrwythau?
Beth am ...?
Syniad da.
Na, dw i ddim yn meddwl - beth am ...?

Os yw'n well gennych, gallai'r disgyblion wneud miwsli yn hytrach nag uwd, gan ddefnyddio uwd sych ac amrywiaeth o ffrwythau ynghyd â sudd ffrwythau o bosib.

- Fel rhan o'u dathliadau ar Ddiwrnod y Llyfr, gallai'r disgyblion baratoi bwyd sy'n gysylltiedig â llyfrau maen nhw wedi'u darllen, neu gallen nhw ddefnyddio cynhwysion sy'n gysylltiedig â chymeriadau penodol. Gallen nhw gyfeirio at lyfrau ryseitiau plant yn Gymraeg, e.e. **Bwyta'n Iach – hwyl wrth goginio!** (Atebol, 2008)
- Yn ogystal, gallen nhw ysgrifennu'r ryseitiau yn Gymraeg, gan ddefnyddio **Rhaid**. Gallen nhw ddilyn y "templod" sydd yn y deunydd darllen, **Uwd**, e.e.

<i>Teitl</i>
Rhaid cael: <i>[Rhestr o'r cynhwysion]</i>
<i>[Yna'r cyfarwyddiadau]</i>
1. Rhaid ...
2.
3.

neu gallen nhw ddilyn "templod" tebyg:

Teitl

Mae angen:

neu

Cynhwysion:

[Rhestr o'r cynhwysion]

Dull

[Y cyfarwyddiadau]

1. Rhaid ...
- 2.
- 3.

Gallen nhw arddangos y ryseitiau ynghyd â delweddau perthnasol. Yn ogystal, gallen nhw ffilmio'r broses o baratoi'r amryw fwydydd.

- Gallai rhannu a blasu bwyd arwain unwaith eto at fynegi barn:

Blasus.

Blasus iawn.

Mae'n flasus iawn.

Dw i ddim yn hoffi ...

Dw i ddim yn hoffi hwn.

Mae angen mwy o ...

Mae angen llai o ...

- Os yw'n briodol, gallech chi chwarae'r darn sy'n dangos Izzy a Dyfs yn pwyso'r cynhwysion eto, ynghyd â thaflen y rysáit, **Uwd**, gan ofyn i'r disgyblion ddweud yn Gymraeg pa fesurau y cyfeirir atyn nhw:

pum deg gram

tri chan mililitr.

Yna, gallech chi fanteisio ar y cyfle i adolygu / cyflwyno'r rhifau canlynol a gwneud gweithgareddau mathemategol perthnasol mewn perthynas â degau a channoedd:

10+		100+	
deg	10	cant	100
dau ddeg	20	dau g ant	200
tri deg	30	tri ch ant	300
pedwar deg	40	pedwar cant	400
pum deg	50	pum cant	500
chwe deg	60	chwe ch ant	600
saith deg	70	saith cant	700
wyth deg	80	wyth cant	800
naw deg	90	naw cant	900
		mil	1,000

Uned 4: Rhan 5 - Ydych chi'n cofio?

Nod:

- Adolygu geiriau a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon.

Patrymau a geirfa sy'n gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
<p>Cwestiynau ac atebion</p> <p>Ble? Ble mae ...? Ble wyt ti'n ...?</p> <p>Pryd? Pryd mae ...? Pryd wyt ti'n ...?</p> <p>Beth? Beth sy yn y boccs dillad? Beth ydy hwn? Beth ydy'r sŵn? Beth wyt ti'n wneud?</p> <p>Pa? Pa liw? Pa fath? Pa ffrwythau? Pa lyfr?</p> <p>Pam? Pam wyt ti'n ...? Pam ydych chi'n ...? Achos ... Ydych chi'n hoffi darllen? Ydyn. / Nac ydyn.</p> <p>Gorchmynion Rhaid gwneud cwestiynau. Dechreuwch. Edrycha.</p> <p>Eraill Eich tro chi nawr.</p>	<p>trowsus het crys T crys mam-gu / nain sâl plât mwg bach canolig mawr blaidd buwch</p>

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Rhaid gwneud cwestiynau.

Barod?

Dechreuwch.

Ble mae ...?

Beth sy yn (y boccs)?

Beth ydy hwn?

Beth ydy'r sŵn?

Pa ...?; Pa liw?; Pa fath?; Pa ffrwythau?; Pa lyfr?

Beth wyt ti'n wneud?; Dw i'n ...; [Hefyd: Beth ydych chi'n wneud?; Rydyn ni'n ...]

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Eglurwch mai pwrpas y rhan hon o'r DVD yw adolygu.
- Dangoswch bumed ran y ffilm, sef **Ydych chi'n cofio?** (Uned 4, Rhan 5) fesul adran, fel yr awgrymir isod.

Adran 1

- Canolbwyntiwch ar yr adran gyntaf a stopiwch y ffilm pan fydd Sgrin yn dweud **Ble?** ac mae'r gair yn ymddangos ar y sgrin.

Mewn timau, dylai'r disgyblion feddwl am gynifer o gwestiynau â phosib drwy ddefnyddio'r gair **Ble?**

Gellid rhoi 5 pwynt am bob cwestiwn. Y tîm sydd â'r nifer fwyaf o bwyntiau sy'n ennill.

- Chwaraewch ran nesa'r ffilm hyd at y toriad.

Mewn timau, dylai'r disgyblion feddwl am gynifer o gwestiynau â phosib drwy ddefnyddio'r gair **Pryd?**

Gellid rhoi 5 pwynt am bob cwestiwn. Y tîm sydd â'r nifer fwyaf o bwyntiau sy'n ennill.

Sylwer: Os bydd y disgyblion yn gofyn pam nad oes marciau cwestiwn ar y poster – ar ôl **Ble a Pryd** – eglurwch nad yw'r geiriau hyn yn cael eu defnyddio fel cwestiynau ar y poster – maen nhw yno er mwyn egluro ble a phryd y bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal. Gallech chi egluro nad yw *when* a *where* yn gwestiynau yn Saesneg bob amser ychwaith.

Adran 2

- Chwaraewch yr ail adran, lle mae Dyfs yn gofyn i'r disgyblion:
Beth sy yn y bocs?
Stopiwch y DVD fel y nodir er mwyn rhoi amser i'r disgyblion ateb y cwestiynau:
Beth ydy hwn?
Pa liw?

- Gallech chi gyflwyno **Cerdyn Siarad 37** ar ôl adolygu dillad:

A: **Meddylia am gymeriad o lyfr.**

B: **Gofynna gwestiynau i A.**

Dylai un o'r disgyblion gymryd arno ei fod yn gymeriad o lyfr a dylai chwarae rôl y cymeriad hwnnw. Dylai **Partner B** ofyn cynifer o gwestiynau â phosib i **Partner A**, gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw batrymau eraill sy'n gyfarwydd iddo / iddi. Er mwyn adolygu dillad, byddai'n well pe bai **Partner A** yn penderfynu chwarae rhan person yn hytrach nag anifail / robot a.y.b. fel bod modd gofyn cwestiynau sy'n ymwneud â dillad, e.e.

Beth wyt ti'n wisgo?

Yna, dylai'r disgyblion gyfnewid rôl fel eu bod yn cael y cyfle i chwarae'r ddwy rôl (**Partner A** a **Partner B**).

Gallai'r disgyblion egluro wrth grwpiau eraill pa gymeriad yw eu partner, e.e.

Dyma ...

Mae e/o / hi wedi gwisgo fel ... o'r llyfr ...

Mae e'n/o'n / hi'n gwisgo ...

Mae e'n/o'n / hi'n hoffi ... achos ...

Adran 3

- Chwaraewch y darn lle mae Dyfs yn cyfarfod â **Hugan Fach Goch** yn y goedwig.
Chwaraewch y darn nesaf. Dylai'r disgyblion geisio cofio'r gair coll bob tro y bydd marc cwestiwn yn ymddangos ar y sgrin.

Adran 4

- Adolygir **bach, canolig** a **mawr** yn yr adran hon.
- Gallai'r disgyblion bwyntio at wrthrychau amrywiol yn yr ystafell ddosbarth a gofyn **Bach?, Canolig?, Mawr?**
- Gallen nhw chwarae rôl gyda'r tair arth, e.e. gellid gosod carthen picnic, cadeiriau, powlenni a.y.b. o wahanol faint yn yr ystafell ddosbarth / ar y buarth. Yna, gallai'r eirth ofyn cwestiynau i'w gilydd a dylen nhw ateb yn unol â'u cymeriad (e.e. babi arth - **bach**; mam arth - **canolig**; tad arth - **mawr**):
Pa un wyt ti eisiau?
Un bach os gwelwch yn dda.
Un canolig os gwelwch yn dda.
Un mawr os gwelwch yn dda.

Yn ogystal, gallen nhw ysgrifennu'r ddeialog hon.

Adran 5

- Chwaraewch yr adran nesaf, sy'n rhoi cyfle i'r disgyblion wrando ar ac adnabod effeithiau sain sydd, yn ei dro, yn adolygu'r patrwm:
Beth ydy'r sŵn?
Stopiwch y DVD yn ôl yr angen pan welir yr eicon Saib ar y sgrin.
Gallech chi chwarae gêm debyg yn yr ystafell ddosbarth hefyd.

Adran 6

- Chwaraewch y rhan olaf, sy'n adolygu'r defnydd o **Pa?**
- Mae diwedd y rhan hon yn cyfeirio at y llyfr **Yr Haul a'r Gwynt**, sef un arall o chwedlau Aesop. Gellid cyflwyno'r llyfr hwn.
Awgrymir nifer o weithgareddau yng nghefn y llyfr a gallai'r disgyblion eu gwneud nhw ar ôl darllen y stori.
- Yna, gellid cyflwyno **Cerdyn Siarad 38**:
A: **Yr haul wyt ti.**
B: **Y gwynt wyt ti.**
C: **Y bachgen wyt ti.**
Siaradwch.

Gallai'r disgyblion actio'r stori mewn grwpiau o dri.

UNED 5

Mae'r gwaith yn yr uned hon yn canolbwyntio ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith. Fodd bynnag, mae'r cwricwlwm a meysydd perthnasol eraill yn cael eu targedu yn ogystal. Rhoddir enghreifftiau o elfennau trawsgwricwlaidd isod ond dylid edrych ar y Rhaglenni Astudio a'r fframweithiau perthnasol er mwyn cael rhagor o fanylion.

Cymraeg Ail Iaith

Rhoddir cyfle i'r disgyblion wrando ar amrywiaeth o bobl yn siarad Cymraeg fel eu bod yn dod yn ymwybodol o amrywiaethau ieithyddol, e.e. **arian** (De Cymru), **pres** (Gogledd Cymru), **yn frwnt** (De Cymru), **yn fudr** (Gogledd Cymru). Maen nhw'n cael eu hannog i ymateb yn briodol mewn amgylchiadau amrywiol, gan gynnwys gweithgareddau yn y gadair goch, ac i gyfleu profiadau personol a dychmygus a chwarae rôl, e.e. cyfarfod â **lleidr pen-ffordd**. Maen nhw'n cael cyfle i wahodd, i ddisgrifio lluniau ac i fynegi barn, e.e. am gerddoriaeth, dillad y Tuduriaid a drama. Mae cyfleoedd i gyflwyno gwybodaeth ffeithiol hefyd, e.e. mewn perthynas â chyfnod y Tuduriaid.

Mae cyfleoedd i wyllo a gwranddo ar y ffilm yn ofalus ac i ganfod y prif bwyntiau. Gellid rhoi crynodeb o rannau o'r ffilm i'r disgyblion a gallai rhywfaint ohono fod yn **gywir** a rhywfaint yn **anghywir**. Yna gellid gofyn iddyn nhw wrando'n ofalus ar y ffilm er mwyn dod o hyd i'r camgymeriadau a'u cywiro.

Gellid rhoi gridiau sy'n seiliedig ar rannau o'r ffilm i'r disgyblion gan ofyn iddyn nhw eu cwblhau â'r wybodaeth angenrheidiol. Yn ogystal, gallai disgyblion ymateb i gwestiynau sy'n seiliedig ar y ffilm, e.e. mewn gweithgareddau cwis. Gallen nhw ysgrifennu am rannau penodol o'r ffilm yn ogystal, e.e. gwybodaeth am y Tuduriaid, ymweliad Dyfs ac Izzy â Thŷ'r Tuduriaid ac ati.

Anogir y disgyblion i ymateb i'r deunyddiau darllen sydd wedi cael eu hysgrifennu i gyd-fynd â'r uned, h.y. cân, llyfrau ffeithiol, drama a ffeiliau ffeithiau. Mae gweithgareddau amrywiol yng nghefn pob llyfr. Gallai'r disgyblion ddarllen deunyddiau mae disgyblion eraill wedi'u hysgrifennu hefyd, e.e. cyfarwyddiadau dawns - byddai'n rhaid iddyn nhw ddeall y rhain cyn medru perfformio'r ddawns ei hun. Mae cyfleoedd i ddarllen ar goedd, e.e. mewn perthynas â'r ddrama a'r negeseuon sydd wedi'u hysgrifennu ar 'femrwn'.

Efallai bod y ddrama **Twm Siôn Cati** yn ffurf newydd i'r disgyblion ac felly tynnir sylw at agweddau megis cymeriadau, y rhestr cymeriadau, y golygfeydd a.y.b. Gofynnir i'r disgyblion actio'r ddrama a'i haddasu.

Mae cyfleoedd i ysgrifennu "at amrywiaeth o bwrpasau" wrth i'r disgyblion ysgrifennu rhestri, cofnodi eu barn am ddarnau o gerddoriaeth, ysgrifennu paragraffau i ddisgrifio'r hyn y byddai'r Tuduriaid yn ei wisgo, bwyd y Tuduriaid, bwyd y disgyblion a.y.b. Yn ogystal, mae cyfleoedd i ysgrifennu gwahoddiad gan ddefnyddio ffurfiau gwahanol, i ddylunio ac ysgrifennu bwydlenni, i ysgrifennu negeseuon a llenwi gridiau. Anogir y disgyblion i ysgrifennu rap Cymraeg ac mae cyfleoedd yn Rhan 4 i adolygu / atgyfnerthu'r defnydd o ddyfynodau. Gallen nhw ysgrifennu cyfarwyddiadau ar gyfer dawns maen nhw'n ei chreu a gallen nhw ysgrifennu'u drama eu hunain ar ôl darllen am Twm Siôn Cati. Gallai hon fod yn seiliedig ar chwedl arall sy'n gysylltiedig â'r cymeriad.

Saesneg

Gallai'r disgyblion chwilio am chwedlau eraill sy'n gysylltiedig â Twm Siôn Cati a gallen nhw adrodd y rhain i'w gilydd. Yn ogystal, bydd llawer o'r gwaith ymchwil sy'n ymwneud â chyfnod y Tuduriaid yn cael ei wneud drwy gyfrwng y Saesneg ond wedyn bydd angen i'r disgyblion drin llawer o'r deunydd hwn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gellid cyflwyno'r gerdd **The Highwayman** (Alfred Noyes) ar ôl darllen y ddrama, **Twm Siôn Cati**.

Mathemateg

Mae cyfleoedd i fesur wrth i'r disgyblion wneud gweithgareddau dylunio a thechnoleg.

Yn ogystal, gallen nhw gynllunio a defnyddio holiaduron er mwyn canfod faint o ddisgyblion sy'n gallu / dysgu chwarae offeryn cerdd, ac mewn perthynas â theimladau. Gellid cyflwyno'r canlyniadau ar ffurf graff y gellid ei egluro ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Celf a dylunio

Gallai'r disgyblion dynnu lluniau amryw agweddau ar y cyfnod Tuduraidd, e.e. dillad Tuduraidd, tai Tuduraidd a.y.b. Gallen nhw wneud collage neu ddarnau eraill o waith celf yn seiliedig ar y ddrama **Twm Siôn Cati** (Rhan 4) neu hyd yn oed wneud cefnlen ar gyfer eu perfformiad nhw o'r ddrama. Wrth iddyn nhw weithio, dylid eu hannog i ddefnyddio geirfa a phatrymau Cymraeg er mwyn disgrifio'r hyn maen nhw'n ei wneud neu i gyfarwyddo rhywun arall. Yn ogystal, dylid rhoi cyfle iddyn nhw werthuso'r gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg. Gweler y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₂** am awgrymiadau.

Dylunio a thechnoleg

Gallai'r disgyblion gynllunio bwydlenni deniadol sy'n cynnwys bwyd Tuduraidd a gallen nhw baratoi peth o'r bwyd hwn.

Cyflwynir amryw deganau Tuduraidd yn Rhan 3. Gallai'r disgyblion gynllunio a gwneud teganau tebyg a'u defnyddio. Gallen nhw wneud memrwn ac yna'i ddefnyddio ar gyfer ysgrifennu neges (Rhan 3). Gallen nhw gynllunio tŷ Tuduraidd yn ogystal.

Gallai'r disgyblion wneud pypedau lladron pen-ffordd / teithwyr / ceffylau a gellid defnyddio'r rhain ar gyfer chwarae rôl.

Addysg gorfforol

Mae cyfleoedd i ddyfeisio symudiadau sy'n gysylltiedig â rap ac i ddysgu a pherfformio dawns "Duduraidd". Yn ogystal, anogir y disgyblion i greu eu dawns llys eu hunain. Gallen nhw ddawnsio dawns werin Gymreig hefyd.

Cerddoriaeth

Mae'r gân werin Gymraeg **Sosban Fach** yn cael ei chyflwyno yn Rhan 1 ac mae hyn yn rhoi cyfle i gyflwyno ymadroddion y gellir eu defnyddio mewn sesiynau cân a cherddoriaeth, e.e.

ar ôl tri gyda'n gilydd

Mae cyfleoedd i gyflwyno / adolygu'r cysyniad o ddeinameg a chyflymder drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd, e.e.

canu'n araf canu'n gyflym canu'n dawel canu'n gryf

Anogir y disgyblion i berfformio rap Cymraeg ac i gyfansoddi a pherfformio'u rap Cymraeg eu hunain.

Cyflwynir cerddoriaeth o gyfnod y Tuduriaid, sef *Greensleeves*, ac unwaith eto, gofynnir i'r disgyblion drafod deinameg. Gofynnir iddyn nhw nodi'r offerynnau sy'n perfformio'r darn:

Pa offerynnau ydych chi'n gallu clywed?

Mae cyfleoedd i gyflwyno'r offerynnau canlynol: **piano, drwm, ffidil, triongl a recorder**. Gallai hyn arwain at drafodaeth ar yr offerynnau mae'r disgyblion yn dysgu eu chwarae ac at berfformiadau gan y disgyblion, e.e.

Wyt ti'n chwarae'r ...?

Beth wyt ti'n chwarae?

Wyt ti eisiau chwarae'r ...?

Ydych chi eisiau clywed ... yn chwarae'r ...?

[**Sylwer:** yr ymadrodd traddodiadol ar gyfer chwarae offeryn yw **canu ...**, e.e. **canu'r piano**. Fodd bynnag, mae **chwarae** yn dderbyniol hefyd a gellir ei ddefnyddio gydag amrywiaeth ehangach o offerynnau.]

Gellid dysgu'r disgyblion i chwarae a pherfformio *Greensleeves* ar y recorder.

Yn ogystal â chyfansoddi a pherfformio rap Cymraeg, gallai'r disgyblion gyfansoddi darn o gerddoriaeth cwbl wrthgyferbyniol – darn gosgeiddig, addas ar gyfer cyfnod y Tuduriaid, o bosib. Gellid defnyddio'r darn hwn wrth greu'r ddawns y cyfeirir ati uchod.

Yn ogystal, gallai'r disgyblion werthuso cerddoriaeth, e.e. eu cyfansoddiadau eu hunain, *Greensleeves* a darnau eraill o gerddoriaeth:

Gwrandewch ar y miwsig.
Ydych chi'n hoffi'r miwsig?
Mae'n hyfryd.
Mae'n wych!
Mae'n grêt!
Mae'n ffantastig!
Mae'n rhy araf.
Mae'n rhy dawel.

Daearyddiaeth

Mae cyfeiriadau at longau'n cludo nwyddau i Gymru yn Rhan 2. Gallai'r disgyblion wneud gwaith ymchwil er mwyn canfod pa nwyddau a gâi eu cludo ac o ba wlad. Yna, gallen nhw chwilio am y lleoedd hyn ar fap o'r byd.

Hanes

Mae llawer o'r gwaith yn yr uned hon yn canolbwyntio ar y Tuduriaid, e.e. dillad Tuduraidd, cerddoriaeth Duduraidd, bwyd Tuduraidd, hobïau Tuduraidd, y tlawd a'r cyfoethog yn ystod cyfnod y Tuduriaid ac mae Dyfs ac Izzy'n ymweld â Thŷ Marsiandiwr Tuduraidd yn Ninbych-y-pysgod. Mae'n bosib y gellid trefnu i'ch disgyblion ymweld â'r lle hwn. Yn yr un modd, mae'n bosib y gallai disgyblion yn y gogledd drefnu i fynd i weld Plas Mawr, yng Nghonwy, a oedd yn dŷ yn y dref i deulu bonedd o gyfnod Elizabeth.

Yn ogystal â'r gweithgareddau sy'n cael eu hawgrymu yn yr uned, gallech chi baratoi sgript sy'n cynnwys 5 camgymeriad ffeithiol. Yna, gallai'r disgyblion defnyddio'r wybodaeth sydd ar y DVD ynghyd â'u gwybodaeth eu hunain am y pwnc i dynnu sylw at y camgymeriadau, e.e.

Roedd y Tuduriaid yn byw mewn fflatiau. – Anghywir.
Roedd rhai Tuduriaid yn hoffi gemwaith. – Cywir.
Roedd y Tuduriaid yn hoffi bwyta tatws. – Anghywir.
Roedd y Tuduriaid yn bwyta afalau. – Cywir.
Roedd plant y Tuduriaid yn chwarae gyda teganau pren. – Cywir.
a.y.b.

Gofynnir i'r disgyblion gymharu eu cartrefi gyda Thŷ'r Marsiandiwr Tuduraidd sydd i'w weld ar y DVD ac mae'r llyfr, **Ddoe a Heddiw**, yn galluogi'r disgyblion i gymharu bywyd y Tuduriaid gyda bywyd heddiw.

TGCh

Gallai'r disgyblion wneud gwaith ymchwil ar ddillad Tuduraidd a gallen nhw gynllunio cardiau gwybodaeth sy'n debyg i'r ffeil ffeithiau yn Rhan 2. Yna, gellid dangos y cardiau gwybodaeth hyn ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol a gellid trafod y wybodaeth mewn grŵp. Yn ogystal, gallai'r disgyblion chwilio ar y rhyngwrwyd am chwedlau sy'n gysylltiedig â'r lleidr pen-ffordd, Twm Siôn Cati.

Gallai'r disgyblion greu bwrdd stori er mwyn cyfleu stori Twm Siôn Cati a gallen nhw cynllunio posteri **YN EISIAU**.

Gellid ffilmio amryw weithgareddau, e.e. y perfformiad o'r ddrama, **Twm Siôn Cati**.

Y Cwricwlwm Cymreig

Mae'r gân werin Gymraeg boblogaidd, **Sosban Fach**, yn cael ei chyflwyno yn Rhan 1 a gallai'r disgyblion berfformio dawns werin draddodiadol yn Rhan 2.

Rhoddir gwybodaeth am Dy'r Marsiandïwr Tuduraidd yn Rhan 3 ac mae'r disgyblion yn cael cyfle i ddysgu am Gymru yn ystod cyfnod y Tuduriaid. Mae'r lleidr pen-ffordd enwog, Twm Siôn Cati, yn cael ei gyflwyno yn Rhan 4.

ABCh

Mae Dyfs ac Izzy'n dweud bod dwyn yn anghywir a gallai hyn arwain at drafodaeth bellach yn yr ystafell ddsbarth - yn Gymraeg neu yn Saesneg, fel y bo'n briodol. Anogir y disgyblion i ysgrifennu llythyr yn ymddiheuro ar ran lleidr pen-ffordd.

Datblygu meddwl

Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i adeiladu ar wybodaeth flaenorol drwy wneud amryw weithgareddau drwy gydol yr uned.

Anogir y disgyblion i gymharu'r bywyd Tuduraidd gyda bywyd heddiw ac mae llawer o gyfleoedd i ystyried syniadau, i fynegi barn ac i ymateb. Yn ogystal, maen nhw'n defnyddio iaith yn greadigol ac yn gwerthuso llwyddiant.

Datblygu cyfathrebu

Mae'r uned hon yn adeiladu ar y sgiliau iaith, y patrymau a'r eirfa a gyflwynwyd eisoes.

Mae llawer o gyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu yn ogystal â'u sgiliau cyfathrebu ehangach. Maen nhw'n dysgu sut i gyfathrebu'n effeithiol ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau a gydag amrywiaeth o gynulleidfaoedd.

Datblygu TGCh

Anogir y disgyblion i ddatblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth, e.e. drwy chwilio am wybodaeth a delweddau ar y rhyngwrwyd er mwyn cynllunio cardiau gwybodaeth.

Mae cyfleoedd i ffilmio amryw weithgareddau yn ogystal.

Datblygu rhif

Anogir y disgyblion i ddefnyddio holiaduron ac i gofnodi'r canlyniadau ar ffurf graff y gellid, wedyn, ei egluro yn Gymraeg. Mae cyfleoedd i drafod amser a dyddiadau.

Uned 5: Rhan 1 – Sosban fach

Nodau:

- Cyflwyno'r gân werin boblogaidd, **Sosban Fach**
- Cyflwyno ymadroddion sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth y gellir eu defnyddio yng nghydestun yr ysgol
- Adolygu geirfa a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon.

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
<p>Mae'n dawel. Does dim sŵn. Amser canu. yn fwy tawel Fel hyn? Beth am ganu gyda fi? Ar ôl tri – un ... dau ... tri. Gyda'n gilydd. Edrychwch arna i. Dilynwch fi. yn dawel yn dawel iawn yn gryf yn gryf iawn Daliwch y nodyn</p> <p>Sylwer: Bydd nifer o'r geiriau uchod yn gyfarwydd i'r disgyblion; fodd bynnag, maen nhw'n cael eu defnyddio mewn cyd-destun gwahanol yn y rhan hon o'r uned.</p>	<p>sosban gwas ddim yn iach baban crud crio sgrapo berwi tân llawr</p>

Patrymau a geirfa sy'n gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
<p>Cwestiynau ac atebion Sut ydych chi? Iawn, diolch. Wyt ti'n hoffi canu? Ydw. / Nac ydw. Beth ydych chi eisiau canu? Beth wyt ti eisiau canu? Dw i ddim yn gwybod. Beth am ...? Syniad da.</p> <p>Gorchmynion Gwrandewch.</p> <p>Eraill Mawredd mawr! Mae'n flin 'da fi / Mae'n ddrwg gen i. Dyna hwyl! Dyna hwyl a sbri!</p>	<p>canu gwybod iawn hyfryd yn araf yn gyflym</p>

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Gwrandewch.; [Hefyd: **Gwranda.**]

Amser canu.

Beth ydych chi eisiau canu?; Beth wyt ti eisiau canu?

yn dawel

yn fwy tawel

yn gryf

yn araf

yn gyflym

Beth am ganu gyda fi?

Ar ôl tri – un ... dau ... tri.

Gyda'n gilydd.

[Hefyd: **Beth am (ganu / ddarllen / ddweud) gyda'n gilydd ...?**]

Edrychwch arna i.; Edrycha arna i.

Dyna hwyl!; Dyna hwyl a sbri!

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Dechreuwch drwy ofyn i'r disgyblion ydyn nhw'n hoffi canu:
Ydych chi'n hoffi canu?
Ydyn.; Nac ydyn.
Wyt ti'n hoffi canu?
Ydw.; Nac ydw.

Yna, gallech chi ymestyn hyn, e.e.

Beth wyt ti'n hoffi canu?

Dw i'n hoffi canu ...

Pam wyt ti'n hoffi canu?

Achos mae'n hwyl.

Achos mae'n grêt.

Achos mae'n gyffrous.

Achos dw i'n teimlo'n hapus.

Ble wyt ti'n hoffi canu?

Yn yr ysgol.

Yn y tŷ.

Yn y car.

Yn y bath.

Yn y gawod.

Pryd wyt ti'n hoffi canu?

Yn y bore.

Yn y prynhawn.

Yn y nos.

Bob dydd.

Yna, gellid cyflwyno **Cerdyn Siarad 39:**

Ydych chi'n hoffi canu? Beth? Pam? Ble? Pryd?
Siaradwch.

Dylai'r disgyblion drafod y pwnc, gan ddefnyddio'r patrymau uchod ynghyd â'r geiriau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn.

- Eglurwch:
Heddiw, rydyn ni'n mynd i ganu yn Gymraeg.

Rydyn ni'n mynd i ganu am sosban fach (dangoswch sosban fach) **a sosban fawr** (dangoswch sosban fawr).

Gwylwch y DVD. Gwrandewch.

- Dangoswch y ffilm, **Sosban fach** (Uned 5, Rhan 1). Stopiwch y DVD ar ôl i'r tri chymeriad lwyddo i ganu gyda'i gilydd - yn syth ar ôl i Sgrin ddweud **Da iawn** ac mae Izzy'n dweud **Hyfryd**.
- Cyflwynwch yr adnodd darllen, **Sosban Fach**. Darllenwch drwy'r gân, gan egluro'r geiriau. Eglurwch mai cân ddwli yw hon. Chwaraewch y ffilm eto a gofynnwch:

Wyt ti'n hoffi Sosban Fach?

Ydw.

Ydw, dw i'n hoffi Sosban Fach ...

- ... achos mae'n hwyl.
- ... achos mae'n wirion.
- ... achos mae'n ddoniol.
- ... achos mae'n dda.
- ... achos mae'n dda iawn.
- ... achos dw i'n teimlo'n hapus.

Nac ydw.

Nac ydw, dw i ddim yn hoffi Sosban Fach ...

- ... achos mae'n wirion.
- ... achos mae'n ofnadwy.
- ... achos mae'n sbwriel.

Dw i'n hoffi Sosban Fach achos mae'n ddoniol.

Dw i ddim yn hoffi Sosban Fach achos mae'n wirion.

- Chwaraewch ran olaf yr adran uchod, lle mae'r cymeriadau'n canu **Sosban Fach** gyda'i gilydd, a gwahoddwch y plant i ganu hefyd:

Beth am ganu gyda Dyfs, Izzy a Sgrin?

Ydych chi eisiau canu gyda Dyfs, Izzy a Sgrin?

Ydyn. / Nac ydyn.

- Chwaraewch y rhan nesaf, lle mae Dyfs yn arwain Izzy a Sgrin. Gofynnwch i'r disgyblion beth maen nhw'n meddwl yw ystyr y geiriau canlynol:

yn araf

yn gyflym

Daliwch y nodyn.

Sylwer: mwy na thebyg y bydd y disgyblion wedi dod ar draws **yn araf / yn gyflym** eisoes.

Cafodd y gorchymyn **Daliwch** ei gyflwyno yn Uned 3 (**Daliwch y siâp.**). Mae'r ymadroddion yn cael eu trosglwyddo i gyd-destun gwahanol yma.

Defnyddiwch yr ymadroddion er mwyn amrywio'r ffordd mae'r disgyblion yn canu **Sosban Fach**.

Gwahoddwch un o'r disgyblion i'r tu blaen i arwain gweddill y disgyblion, gan ddefnyddio'r ymadroddion sy'n cael eu cyflwyno ar y DVD.

- Chwaraewch ran nesa'r ffilm, lle mae Izzy'n arwain Dyfs a Sgrin. Gofynnwch i'r disgyblion beth maen nhw'n meddwl yw ystyr y geiriau canlynol:
yn dawel / yn dawel iawn
yn gryf / yn gryf iawn

- Defnyddiwch yr ymadroddion er mwyn amrywio'r ffordd mae'r disgyblion yn canu **Sosban Fach**.

Gwahoddwch un o'r disgyblion i'r tu blaen i arwain gweddill y disgyblion, gan ddefnyddio'r ymadroddion sy'n cael eu cyflwyno ar y DVD.

- Gellid defnyddio'r gorchmynion a'r geiriau canlynol, sy'n cyfeirio at gyflymder a deinameg, mewn sesiynau canu / cerddoriaeth:

Ar ôl tri – un ... dau ... tri.

Gyda'n gilydd ...

Edrychwch arna i.

Dilynwch fi.

Daliwch y nodyn.

yn araf

yn gyflym

yn dawel /yn dawel iawn

yn gryf /yn gryf iawn

- Yna, gellid cyflwyno **Cerdyn Siarad 40:**
Gwrandewch ar fiwsig a gofynnwch gwestiynau i'ch gilydd.

Dylai'r disgyblion wrando ar ddarnau o gerddoriaeth sydd wedi cael eu dewis yn benodol ar gyfer rhoi cyfleoedd iddyn nhw ddefnyddio'r ymadroddion **yn gryf / yn dawel / yn gyflym / yn araf** neu oherwydd bod offerynnau penodol yn chwarae yn y darnau, e.e. y piano, y ffliwt ac ati. Dylai'r disgyblion ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw batrymau a geirfa eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw.

Byddai adolygu sut i fynegi teimladau cyn gwneud y gwaith hwn yn syniad da fel bod y disgyblion yn gallu trafod sut maen nhw'n teimlo wrth wrando ar ddarnau o gerddoriaeth, e.e.

Sut wyt ti'n teimlo?

Sut ydych chi'n teimlo?

Dw i'n teimlo'n hapus.

hapus iawn.

drist.

ofnus.

gyffrous.

Yn ogystal, gallen nhw fynegi barn am y gerddoriaeth, gan drosglwyddo ac addasu ymadroddion maen nhw wedi'u dysgu mewn perthynas â hoffi / ddim yn hoffi'r DVD ar gyfer cyd-destun cerddoriaeth, e.e.

Dw i'n hoffi'r miwsig achos dw i'n hoffi miwsig cyflym / araf a.y.b.

Dw i'n hoffi'r miwsig achos mae'n hapus.

Dw i'n hoffi'r miwsig achos mae'n gyffrous.

Dw i'n hoffi'r miwsig – mae'n wych.

Dw i ddim yn hoffi'r miwsig achos dw i ddim yn hoffi miwsig cryf / tawel a.y.b.

Dw i ddim yn hoffi'r miwsig – mae'n ofnadwy.

Dw i ddim yn hoffi'r miwsig – mae'n rhy araf.

Dw i ddim yn hoffi'r miwsig – mae'n rhy drist.

- Gallai'r disgyblion ysgrifennu am eu hymateb i'r gwahanol ddarnau, e.e.

Teitl y darn:
Y cyfansoddwr:
Barn:

Teimlo:

Uned 5: Rhan 2 – Miwsig a dawnsio

Nodau:

- Trafod a gwerthuso darn o gerddoriaeth drwy gyfrwng y Gymraeg
- Ymgymryd â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â dawnsio drwy gyfrwng y Gymraeg
- Trafod teimladau, e.e. **Sut wyt ti'n teimlo?; Dw i'n teimlo'n hapus.**
- Dechrau trafod Cyfnod y Tuduriaid drwy gyfrwng y Gymraeg
- Adolygu geiriau a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon.

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
<p>Pa fath o fiwsig wyt ti'n hoffi? Mae'n hen. Roedd y Tuduriaid yn hoffi'r miwsig yma. Pa offerynnau wyt ti'n gallu clywed? Pa offerynnau ydych chi'n gallu clywed? Dw i'n gallu clywed ... Wyt ti'n gallu chwarae'r recorder? Ydw. / Nac ydw, ond dw i'n gallu chwarae'r ... Rhwng un pedwar wyth pump ac un chwech dim tri.</p>	<p>miwsig / cerddoriaeth hen rap; rapio rili cŵl recorder, recorders triongl y Tuduriaid Amser y Tuduriaid un pedwar wyth pump un chwech dim tri cyfoethog, yn gyfoethog tlawd, yn dlawd ffrog ryff / rwff gemwaith ffril, ffriliau edrych fel teits bonet tiwnig ar y top</p>

Patrymau a geirfa sy'n gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
<p>Cwestiynau ac atebion Ydy'r miwsig yn araf / yn gyflym? Ydy'r miwsig yn dawel / yn gryf? Wyt ti'n hoffi'r miwsig? Ydw. / Nac ydw. Ydych chi'n hoffi'r miwsig? Ydyn. / Nac ydyn. Sut wyt ti'n teimlo? Dw i'n teimlo'n ... Oes (recorder) yn y drôr? Oes. / Nac oes. Beth am fynd i ...? Syniad da. Ga i weld y lluniau eto os gwelwch yn dda? Cei. / Na chei. Gorchmynion Eisteddwch ar y sofffa a gwrandewch. Edrychwch ar y dillad. Dere yma. / Tyrdd yma. Rhaid gwisgo trowsus. Ewch at y cylch coch.</p>	<p>ardderchog amser maith yn ôl rhwng yn y ... o dan y ... tu ôl i'r ... dillad hardd crys siaced ffedog hir trowsus arian / pres lliwiau glas golau</p>

Eraill

Mae'n hyfryd.
Mae ... yn hyfryd.
Maen nhw'n hyfryd.

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol
e.e.

Pa fath o fiwsig wyt ti'n hoffi? [Hefyd: **Pa fath o fiwsig ydych chi'n hoffi?**]

Ardderchog.

Eisteddwch a gwrandewch.

Pa offerynnau wyt ti'n gallu clywed? [Hefyd: **Pa offerynnau ydych chi'n gallu clywed?**]

Gwrandewch yn ofalus.

Gwrandewch eto.

Beth ydy'r miwsig yma?

Roedd y Tuduriaid yn ... (byw ... / gwisgo ... / hoffi ... / bwyta ... / yfed ... / teithio ...)

Roedd rhai pobl yn ... (byw ... / gwisgo ... / hoffi ... / bwyta ... / yfed ... / teithio ...)

Roedd rhai merched yn ... (byw ... / gwisgo ... / hoffi ... / bwyta ... / yfed ... / teithio ...)

Roedd rhai dynion yn ... (byw ... / gwisgo ... / hoffi ... / bwyta ... / yfed ... / teithio ...)

Ble mae'r ...?

Oes ... yn y ... / o dan y ... / tu ôl i'r ...? Oes. / Nac oes.

Beth am fynd i ...?

Syniad da.

Arhoswch. Un funud. [Hefyd: **Arhoswch. Un munud.**]

Edrychwch ar y ... [Hefyd: **Edrycha ar y ...**]

Edrychwch yn y bocs.

Beth sy yn y bocs?

Ga i weld y ... ?; Cei.; Na chei.; Cewch.; Na chewch.

Ydych chi'n barod i ...?, e.e.

Ydych chi'n barod i fynd i ...?

Ydych chi'n barod i ganu?

Ydych chi'n barod i ddarllen?

Ydych chi'n barod i wyllo?

Ydych chi'n barod i dynnu llun?

Ydyn. / Nac ydyn.

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Gallech chi ddechrau drwy drafod cerddoriaeth fel dosbarth / grŵp.

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 41:**

Ydych chi'n hoffi miwsig?

Pa fath o fiwsig ydych chi'n hoffi?

Siaradwch am hyn.

Gallai'r disgyblion drafod y math o gerddoriaeth maen nhw'n hoffi, a pham, gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw batrymau eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw. Yn ogystal, gallen nhw gyfeirio at grwpiau pop / bandiau / cantorion a dweud pam maen nhw'n eu hoffi / ddim yn eu hoffi.

- Chwaraewch y ffilm **Miwsig a dawnsio** (Uned 5, Rhan 2) lle mae Dyfs yn rapio.

Gwrandewch ar y darn eto a gwnewch yn siŵr fod y disgyblion wedi deall y geiriau:

Io, ho, ho ... rapio ...
Io, ho, ho ... rapio ...
Io, ho, ho ... cŵl!

Mae rapio'n rîli cŵl
Mae rapio'n hwyl a sbri
Dewch, ffrindiau da,
I rapio gyda fi.

Io, ho, ho ... rapio ...
Io, ho, ho ... rapio ...
Io, ho, ho ... cŵl!

Pwysleiswch fod caneuon rap fel arfer yn defnyddio slang a dyna pam mae ymadrodd fel **rîli cŵl** yn cael ei ddefnyddio. Gofynnwch i'r disgyblion berfformio'r rap ac i greu symudiadau i fynd gydag e. Yna, gallen nhw gyfansoddi rap newydd a'i berfformio.

- Chwaraewch y darn nesaf, lle mae Sgrin yn dweud ei fod e'n hoffi **hen fiwsig** ac mae'r cymeriadau'n trafod y darn *Greensleeves*. Gallech chi stopio'r DVD ar ôl pob cwestiwn mae Sgrin yn ei ofyn er mwyn galluogi'r disgyblion i ateb. Yn ogystal, gallech chi ofyn i'r disgyblion sut maen nhw'n teimlo pan fyddan nhw'n gwrandao ar y darn hwn:

Sut ydych chi'n teimlo?
Sut wyt ti'n teimlo?
Dw i'n teimlo'n ...

- Ewch ymlaen i'r darn nesaf, lle mae Dyfs ac Izzy'n dawnsio dawns debyg i ddawns Duduraidd.

Gallech chi ddysgu'r ddawns a welir ar y ffilm i'r disgyblion:

Cerddwch i'r dde - wyth cam.
Cerddwch i'r chwith - wyth cam.
Cerddwch 'nôl - pedwar cam.
Cerddwch 'mlaen - pedwar cam.
Cerddwch 'nôl - pedwar cam.
Cerddwch 'mlaen - pedwar cam.
Cerddwch mewn cylch i'r dde - wyth cam.
Cerddwch mewn cylch i'r chwith - wyth cam.
Cerddwch 'nôl - pedwar cam.
Cerddwch 'mlaen - pedwar cam.
Cerddwch 'nôl - pedwar cam.
Cerddwch 'mlaen - pedwar cam.

Yna, gallai'r disgyblion berfformio'r ddawns hon neu ddawns debyg neu gallen nhw ddysgu a pherfformio dawns werin Gymreig addas. Gallen nhw gyfansoddi a pherfformio'u dawns "Duduraidd" eu hunain hefyd. Gallen nhw ysgrifennu'r cyfarwyddiadau a'u rhoi i grŵp arall fel bod rhaid i'r grŵp hwnnw ddeall y cyfarwyddiadau cyn medru perfformio'r ddawns.

- Chwaraewch y darn nesaf, lle mae Sgrin yn cyfeirio at **Y Tuduriaid** a gorffennwch gyda'r eglurhad ar sut i gyfeirio at flynyddoedd penodol yn Gymraeg:

un pedwar wyth pump
un chwech dim tri

Gallech chi ymarfer drwy gyfeirio at flynyddoedd eraill.

- Cyn chwarae'r darn nesaf, chwaraewch y gerddoriaeth eto a gofynnwch i'r disgyblion:

Pa offerynnau ydych chi'n gallu clywed?

Gallech chi awgrymu amrywiaeth o offerynnau os ydych yn dymuno, e.e.

Ydych chi'n gallu clywed piano?
Ydych chi'n gallu clywed drwm?
Ydych chi'n gallu clywed ffidil?
Ydych chi'n gallu clywed triongl?
Ydych chi'n gallu clywed recorder?

- Chwaraewch y darn nesaf hyd at y man lle mae Dyfs yn dangos triongl.

Gallai'r darn hwn arwain at drafodaeth ynglŷn â'r offerynnau mae'r disgyblion yn eu chwarae. Gofynnir i'r cymeriadau:

Wyt ti'n gallu chwarae'r ...?

a gallech chi ofyn y cwestiwn hwn i'r disgyblion.

Gallai'r disgyblion lunio holiaduron i weld faint ohonyn nhw sy'n dysgu i chwarae **y piano, y ffliwt, y ffidil, y gitâr** neu unrhyw offeryn addas arall. Yna, gallen nhw baratoi graffiau i ddangos eu canfyddiadau, ac yna'u hegluro yn Gymraeg:

Mae dau yn gallu / dysgu chwarae'r piano.

Mae un yn gallu / dysgu chwarae'r ffliwt.

a.y.b.

- Yn ogystal, gallai'r disgyblion ddysgu sut i chwarae *Greensleeves* ar y recorder a gallen nhw berfformio'r darn yn ystod gwasanaeth yn yr ysgol neu gallai grŵp ei berfformio wrth i grŵp arall ddawnsio dawns llys a.y.b.
- Chwaraewch y darn nesaf, lle mae Dyfs ac Izzy'n chwilio am recorder, hyd at y man lle maen nhw'n mynd tuag at y cylch coch.

Gofynnwch i un o'r disgyblion guddio recorder rywle yn yr ystafell tra bydd gweddill y disgyblion yn cau eu llygaid:

Caewch eich llygaid.

Dim pipo.

Gofynnwch i'r disgyblion geisio dyfalu ble mae'r recorder:

Ydy'r recorder yn y ...?

Ydy'r recorder o dan y ...?

a.y.b.

- Chwaraewch y darn olaf, lle mae Dyfs, Izzy a Sgrin yn trafod dillad y Tuduriaid. Stopiwch y DVD pan fydd Izzy'n penderfynu gwisgo'r ffrog.

Gofynnwch i'r disgyblion:

Pryd oedd y Tuduriaid yn byw?

Rhwng un pedwar wyth pump ac un chwech dim tri.

Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw'n cofio beth roedd y Tuduriaid yn ei wisgo:

Beth oedd y merched yn wisgo?

Beth oedd y dynion yn wisgo?

Yn ogystal, gallech chi gyflwyno a phwysleisio'r geiriau **cyfoethog** a **tlawd**:

Beth oedd y merched cyfoethog yn wisgo?

Beth oedd y dynion tlawd yn wisgo?

- Cyflwynwch y cerdyn darllen, **Amser y Tuduriaid: Dillad**. Mae'r cerdyn darllen hwn yn dangos y dillad y byddai pobl gyfoethog y cyfnod yn eu gwisgo. Dylai'r disgyblion ddarllen y cerdyn ac edrych yn ofalus ar y delweddau. Yna, dylen nhw drafod y cwestiynau sydd ar y cerdyn.

Gallen nhw chwilio am wybodaeth am y dillad y byddai pobl dlawd / ffermwyr yn eu gwisgo yn ystod y cyfnod hwn a gallen nhw gynllunio cardiau gwybodaeth tebyg i'r cerdyn darllen.

- Gellid cyflwyno **Cerdyn Siarad 42**:

A: Disgrifia'r ferch i dy bartner di. Paid dangos y cerdyn i dy bartner di.

B: Gwranda ar A. Ydy'r ferch yn y llun yn dlawd neu'n gyfoethog? Pam?

Gan ddefnyddio'r patrymau a restrir ar y cerdyn, dylai un disgybl ddisgrifio'r ferch yn y llun. Dylai'r disgyblion eraill wrando er mwyn darganfod oedd y person yma o gyfnod y Tuduriaid yn gyfoethog neu'n dlawd.

Gallai'r disgyblion greu cardiau tebyg er mwyn portreadu person cyfoethog neu dlawd o gyfnod y Tuduriaid. Yna, dylen nhw ddefnyddio'r eirfa a'r patrymau a restrir ar **Cerdyn Siarad 42** ac unrhyw batrymau cyfarwydd eraill i ddisgrifio'r cymeriad. Dylen nhw ofyn i'r partner weithio allan oedd y person yma'n gyfoethog neu'n dlawd:

Yn y llun, mae ...

Mae e'n/o'n / hi'n gwisgo ...

Ydy'r person yn dlawd neu'n gyfoethog?

Dylai'r disgybl sy'n gwrando ofyn cwestiynau perthnasol cyn cynnig ateb i'r cwestiwn uchod:

Beth arall mae hi'n wisgo?

Ydy e'n/o'n / hi'n gwisgo ...?

Pa liw ydy'r ...?

Mae e'n/o'n / hi'n dlawd / gyfoethog.

Mae'r person yn dlawd.

Mae'r person yn gyfoethog.

- Chwaraewch y darn olaf, lle rydyn ni'n gweld Izzy a Dyfs yn gwisgo dillad Tuduraidd. Gofynnwch i'r disgyblion am eu barn am y dillad:

Wyt ti'n hoffi dillad Izzy / Dyfs?

Ydw.

Ydw, dw i'n hoffi'r dillad.

Ydw, dw i'n hoffi'r dillad achos maen nhw'n smart.

Ydw, dw i'n hoffi'r dillad achos maen nhw'n lliwgar – dw i'n hoffi'r ... a'r

Dw i'n hoffi'r steil / lliwiau.

Nac ydw.

Nac ydw, dw i ddim yn hoffi'r dillad.

Nac ydw, dw i ddim yn hoffi'r dillad achos maen nhw'n ofnadwy.

Nac ydw, dw i ddim yn hoffi'r dillad achos dw i ddim yn hoffi'r lliwiau – dw i ddim yn hoffi'r ... a'r

Dw i ddim yn hoffi'r steil / lliwiau.

Dw i ddim yn hoffi gwisgo teits.

- Os yw'n briodol, gallech chi roi lluniau amlinell o ddillad Tuduraidd i'r disgyblion i'w lliwio, gan wneud yn siŵr nad oes neb arall yn gallu gweld eu gwaith. Rhowch gopi arall o'r un lluniau iddyn nhw a gofynnwch iddyn nhw ddisgrifio'r lliwiau i'w gilydd mewn parau. Wrth i un disgybl ddisgrifio'r lliwiau heb ddangos y gwaith i'w bartner, rhaid i'r llall liwio'r llun gwag, gan geisio sicrhau ei fod yn dewis yr un lliwiau yn union:

Mae'r ffrog yn goch tywyll.

Mae'r ryff yn wyn.

Mae'r gemwaith yn las a gwyn.

Mae'r siaced yn wyrdd.

a.y.b.

Sylwer: Mae treigladd meddal ar ôl **yn** pan fyddwch chi'n disgrifio ac eithrio mewn geiriau sy'n dechrau â **ll** a **rh**.

Dylen nhw gymharu delweddau ar y diwedd.

- Yna, gallai'r disgyblion ddylunio dillad Tuduraidd, eu labelu ac ysgrifennu disgrifiadau.
- Ar ddiwedd y ffilm, gofynnwch:
Ble mae Dyfs ac Izzy'n mynd?
[Ateb: **I Amser y Tuduriaid.**]

Pryd oedd y Tuduriaid yn byw?

[Ateb: **Rhwng un pedwar wyth pump ac un chwech dim tri.**]

Uned 5: Rhan 3 – Y Tuduriaid

Nodau:

- Cyflwyno agweddau ar gyfnod y Tuduriaid drwy gyfrwng y Gymraeg
- Gwneud defnydd helaeth o'r amser amherffaith - **roedd** - wrth siarad am gyfnod yn y gorffennol
- Adolygu geiriau a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon.

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
<p>Defnydd helaeth o roedd:</p> <p>Roedd y bobl yma'n gwerthu pethau. Roedd y llongau'n dod â phethau dros y môr. Roedd y bobl yn bwyta cig. Roedd y bobl dlawd yn bwyta uwd.</p> <p>Beth oedd y Tuduriaid yn ...? Beth oedd y Tuduriaid yn fwyta? Roedd y Tuduriaid yn bwyta ...</p>	<p>Tŷ'r Tuduriaid wrth y môr sbeis, sbeisys gwin gwerthu dod â y gegin tân coginio cig crochan cwrw yn frwnt / yn fudr cwpwrdd iâr, ieir gwllân sychu wal, waliau crand teulu gwydr Tuduraidd ystafell wely tapestri pren ceffyl pren cwilsyn inc neges</p>

Patrymau a geirfa sy'n gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
<p>Cwestiynau ac atebion</p> <p>Ble ydyn ni? Dw i ddim yn gwybod. Beth ydy hwn? Beth ydy'r rhain? Wyt ti'n barod? Ydw. / Ydw, dw i'n barod. Nac ydw. / Nac ydw, dw i ddim yn barod. Dim eto. Beth sy ar y bwrdd / wal? Beth am fynd i'r gegin eto?</p> <p>Gorchmynion</p> <p>Edrycha ar y ... Yr amser gorffennol</p>	<p>môr dŵr rhai uwd basged plât, platiau cylllell, cylllyll llwy, llwyau fforc powlen, powlenni syrpreis pen-ôl Ych a fi! cofio</p>

Es i i'r ... Erail Bobl bach! / Mawredd mawr! / Nefi wen!	bwrdd cadair dwylo llun gwely teganau cwpan pêl recorder
--	--

Sylwer:

Er bod llawer o eiriau newydd yn cael eu cyflwyno yn y rhan hon o'r uned, bydd eu hystyr yn eithaf amlwg gan y bydd y ffilm yn egluro'r ystyr. Ni fydd disgwyl i'r disgyblion ddefnyddio'r holl eiriau hyn yn y gweithgareddau.

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Edrycha ar y ...; [Hefyd: **Edrychwch ar y ...**]

Wyt ti'n barod?; Ydw.; Ydw, dw i'n barod.; Nac ydw.; Nac ydw, dw i ddim yn barod; Dim eto.

Beth ydy hwn?; Beth ydy'r rhain?

Beth oedd y Tuduriaid yn ...? e.e.

Beth oedd y Tuduriaid yn yfed?

Beth oedd y Tuduriaid yn fwyta?

Beth oedd y Tuduriaid yn hoffi?

[Hefyd: **Beth oedd y Tuduriaid yn fwynhau?**]

Roedd y Tuduriaid yn ... e.e.

Roedd y Tuduriaid yn yfed ...

Roedd y Tuduriaid yn bwyta ...

Roedd y Tuduriaid yn hoffi ...

[Hefyd: **Roedd y Tuduriaid yn mwynhau ...**]

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Eglurwch fod Dyfs ac Izzy'n ymweld â thŷ Tuduraidd yn yr adran hon. Mae'r tŷ wedi'i leoli **wrth y môr** - yn Ninbych-y-pysgod. Gallech chi ofyn i'r disgyblion chwilio am y dref hon ar fap o Gymru.
- Chwaraewch y ffilm **Y Tuduriaid** (Uned 5, Rhan 3) drwyddi. Eglurwch y bydd llawer o'r geiriau yn newydd ond y dylai'r disgyblion fedru deall y rhan fwyaf ohonyn nhw oherwydd bod yr ystyron yn cael eu hegluro ar y ffilm.

Ar ôl gwyllo, gofynnwch iddyn nhw beth maen nhw wedi'i ddeall.

Gofynnwch iddyn nhw restru rhai o'r geiriau Cymraeg maen nhw wedi'u deall.

Os bydd angen, atgoffwch nhw o'r gwahanol ystafelloedd:

Yn y gegin ...

Yn y toiled ...

Yn yr ystafell fwyta ... (ymadrodd newydd, efallai)

Yn yr ystafell wely ...

- Chwaraewch y rhan gyntaf eto, lle mae Dyfs ac Izzy'n glanio, yn mynd i mewn i'r tŷ ac yn trafod cynnwys yr ystafell gyntaf.

Tynnwch sylw'r disgyblion at y ffeithiau sydd wedi cael eu cyflwyno hyd yma:

Dyma Dŷ'r Tuduriaid.
Mae'r tŷ wrth y môr.
Roedd llongau ar y môr yn cario pethau i Gymru.
Pa bethau? Gwin a sbeisys.

- Ewch ymlaen i'r darn nesaf a phwysleiswch yr ymadrodd **y gegin**. Chwaraewch y darn sy'n dangos y gegin.

Tynnwch sylw at y geiriau allweddol:

tân
coginio
cig
cwrw
llysiau
uwd
cwpwrdd
basged
ieir

Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw'n gwybod y geiriau Cymraeg am y pethau maen nhw'n eu gweld ar y ffilm, e.e.

bwrdd
plât
powlen / powlenni
llwyau
perlysiau
ffenest
 a.y.b.

Stopiwch y ffilm a gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu rhestr o'r pethau sydd i'w gweld yn y gegin Duduraidd.

Yna, gallai'r disgyblion gymharu eu cegin nhw gyda'r gegin hon, e.e.

Y Tuduriaid: Yn y gegin	Ni: Yn y gegin
tân bwrdd cwpwrdd	stôf / popty 10 cwpwrdd sinc tap

Fodd bynnag, cyn gwneud y gwaith hwn, bydd angen cyflwyno / adolygu geirfa berthnasol. Gallai'r disgyblion ddefnyddio geiriau Saesneg yn eu grid os bydd angen.

Atgoffwch y disgyblion fod Dyfs wedi gwneud **uwd** yn Uned 4. Os na wnaeth y disgyblion uwd yn yr uned honno, gallen nhw'i wneud e nawr, gan ddefnyddio'r rysâit ar y daflen ddarllen, **Uwd**, i'w cynorthwyo.

- Mae brechwast Tuduraidd nodweddiadol yn cael ei ddisgrifio yn yr adran hon.

Yna, gallai'r disgyblion gymharu beth maen nhw'n ei fwyta i frechwast gyda beth roedd y Tuduriaid yn ei fwyta i frechwast. Byddai hyn yn rhoi cyfle da i ddangos y gwahaniaeth rhwng yr amser presennol a'r amser amherffaith, e.e.

Amser y Tuduriaid: Brechwast
Roedd y Tuduriaid yn bwyta ...

Heddiw: Brechwast
Dw i'n bwyta ...

- Gallai'r disgyblion wneud gwaith ymchwil er mwyn gweld beth roedd y Tuduriaid yn ei fwyta ar gyfer prydau eraill.

Yna, gallen nhw ddylunio bwydlenni deniadol a gellid defnyddio'r rhain mewn sefyllfaoedd chwarae rôl.

Yn ogystal, gallai'r disgyblion wneud pryd Tuduraidd, gan ddefnyddio patrymau Cymraeg i ddisgrifio'r hyn maen nhw'n ei wneud, e.e.

Dw i'n ...

Rhaid ...

Beth wyt ti'n ddefnyddio?

Dw i'n defnyddio ...

Gellid rhannu'r pryd, e.e.

Wyt ti eisiau ...?

Ydych chi eisiau ...?

Gallai'r disgyblion fynegi barn am y bwyd:

Blasus.

Blasus iawn.

Mae'n flasus iawn.

Dw i ddim yn hoffi ...

Dw i ddim yn hoffi hwn.

Mae'n ofnadwy.

Ych a fi!

Mae angen mwy o ...

Mae angen llai o ...

- Chwaraewch y darn nesaf, lle mae Izzy'n dangos y toiled i Dyfs. Stopiwch y ffilm ar ôl iddi daflu dŵr i lawr y toiled.

- Gallai'r disgyblion dynnu lluniau i gyfleu toiled Tuduraidd a thoiled modern, gan ysgrifennu'n syml o dan y lluniau, e.e.

Dyma doiled y Tuduriaid.

Roedd y Tuduriaid yn defnyddio gwlân i sychu pen-ôl. Bobl bach!

Dyma doiled heddiw.

Rydyn ni'n / Dw i'n defnyddio papur toiled i sychu pen-ôl.

- Chwaraewch y darn nesaf, sy'n dangos y byrddau bwyd a stopiwch pan fydd y cymeriadau'n cyfeirio at y llun ar y wal, cyn iddyn nhw fynd i fyny'r grisiau.

Sylwer: Gwnaed y ffilm hon mewn Tŷ Marsiandïwr Tuduraidd. Byddai'r gweision yn bwyta gyda'r teulu – yr un pryd, yn yr un lle, gan fwyta'r un bwyd, ond gan ddefnyddio llestri, cýtleri a llieiniau bwrdd nad oedd mor gain â'r rhai y byddai'r marsiandïwr a'i deulu'n eu defnyddio. Yn ogystal, roedd y teulu'n teimlo dyletswydd i roi bwyd i bobl dlawd a fyddai'n galw heibio a byddai'r rhain yn eistedd gyda'r gweision wrth y bwrdd trestl.

- Gallai'r disgyblion gymharu gosodiad y bwrdd ar gyfer y teulu gyda'r gosodiad ar gyfer y gweision / pobl dlawd – naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg fel y bo'n briodol.
- Yn ogystal, gallai'r disgyblion gynllunio gwahoddiad i ddod i wledd yn Nhŷ'r Marsiandïwr Tuduraidd. Byddai hyn yn golygu chwilio am wybodaeth am y bwyd fyddai'n cael ei weini ar gyfer achlysur o'r fath a pha adloniant y byddid yn ei gynnal, e.e. dawnsio, canu a.y.b.

Ydych chi eisiau dod i gael cinio gyda ni?

Pryd:

Ble:

Beth:

Bwydlen:

Atebwch os gwelwch yn dda:

Ydw, dw i'n gallu dod.

Nac ydw, dw i ddim yn gallu dod, mae'n ddrwg gen i.

Nac ydw, dw i ddim yn gallu dod, mae'n flin 'da fi.

- Gallai'r disgyblion roi eu gwahoddiadau i aelodau eraill y dosbarth, a gallai'r disgyblion hyn ofyn am eglurhad pellach neu am gadarnhad o'r trefniadau, e.e.

A: **Dyma ti – gwahoddiad i ginio.**

B: **Pryd mae'r cinio?**

A: *(Dyddiad)*

B: **Ble mae'r cinio?**

A: *(Lleoliad)*

B: **Beth sy'n digwydd?**

A: *(Adloniant)*

B: **Beth sy ar y fwydlen?**

A: *(Manylion am y fwydlen)*

Wyt ti eisiau dod? / Wyt ti'n gallu dod?

Gallai **Partner B** egluro nad yw'n gwybod eto a fydd yn gallu dod:

Dw i ddim yn gwybod.

Yna, ar ôl ystyried y mater ymhellach, gallai ysgrifennu llythyr i dderbyn / gwrthod y gwahoddiad, e.e.

(Cyfeiriad)

(Dyddiad)

Annwyl ...

Diolch am y gwahoddiad i'r cinio yn ... ar ...

Dw i'n gallu dod.

Dw i'n edrych ymlaen.

Cofion

(Enw)

Cyfeiriad

(Dyddiad)

Annwyl ...

Diolch am y gwahoddiad i'r cinio yn ... ar ...

Dw i ddim yn gallu dod, mae'n ddrwg gen i / mae'r flin 'da fi.

Cofion

(Enw)

- Tynnwch sylw at y llun ar y wal a'i drafod, e.e.

Beth ydy hwn?

Ble mae'r llong?

Beth sy'n digwydd?

Ydych chi'n hoffi'r llun?

Ydw. / Nac ydw.

Pam?

Dw i'n hoffi'r llun achos dw i'n hoffi'r lliwiau.

Dw i'n hoffi'r llun achos mae'r bobl yn ddiddorol.

Dw i ddim yn hoffi'r llun achos dw i ddim yn hoffi'r lliwiau.

- Chwaraewch y darn nesaf, lle mae Dyfs ac Izzy'n ymweld â'r ystafell wely.

Gofynnwch i'r disgyblion restru beth maen nhw'n ei weld yno.

- Yna, gallen nhw gymharu eu hystafell wely eu hunain gyda'r un yn Nhŷ'r Marsiandïwr Tuduraidd. Fodd bynnag, dylid cyflwyno / adolygu geiriau perthnasol ymlaen llaw, e.e.

gwely

cwpwrdd

cadair

bwrdd

desg

carped

mat

teganau

tapestri

llun

Bydd nifer o'r geiriau hyn yn gyfarwydd i'r disgyblion gan eu bod wedi eu dysgu mewn cyd-destunau gwahanol o bosib.

Gofynnwch i'r disgyblion wneud grid a chymharu'r ddwy ystafell wely, e.e.

Y Tuduriaid – yr ystafell wely	Fy ystafell wely i
Dim carped	Carped

Yna, gallen nhw ysgrifennu brawddegau neu baragraffau byr i nodi sut mae'r ystafelloedd **yn debyg** neu'n wahanol:

Yn debyg:

Yn ystafell wely'r Tuduriaid, roedd ... ac yn fy ystafell wely i, mae ... hefyd.

Roedd y Tuduriaid yn ... a dw i'n ... hefyd.

Yn wahanol:

Yn ystafell wely'r Tuduriaid, roedd ... ond yn fy ystafell wely i, mae ...

Roedd y Tuduriaid yn ... ond dw i'n ...

- Chwaraewch weddill y ffilm, lle mae Dyfs ac Izzy'n canolbwyntio ar y teganau ac yna'n gadael Tŷ'r Tuduriaid.

Tynnwch sylw at y gair **pren**.

Chwaraewch y darn eto a chanolbwyntiwch ar y teganau:

ceffyl pren

cwpan a phêl

ratl

Yna, gallai'r disgyblion wneud teganau tebyg a'u defnyddio ar gyfer chwarae gemau syml megis rasyd ceffylau pren a.y.b. Byddai hyn yn rhoi cyfle i adolygu:

yn gynta ...

yn ail ...

yn drydydd ...

- Yn ogystal, gallen nhw wneud cwilsyn a memrwn a cheisio ysgrifennu gan ddefnyddio cwilsyn ac inc, e.e. gallen nhw ysgrifennu nodyn syml at Dyfs ac Izzy – un tebyg i’r un a welir ar y ffilm.

Gallech chi ddilyn y cyfarwyddiadau hyn er mwyn gwneud memrwn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhaid cael:

**te oer
papur gwyn
powlen**

Rhaid torri’r papur.

Rhaid sgrwmsio’r papur.

Rhaid agor y papur.

Rhaid rhoi’r papur yn y bowlen.

Rhaid rhoi te dros y papur.

Rhaid aros – pum munud.

Rhaid rhoi’r te yn y sinc.

Rhaid sychu’r papur.

Dyna ni!

Yna, gallen nhw ysgrifennu negeseuon ar y memrwn, rhoio’r memrwn a’i glymu â rhuban -

Rhaid clymu’r neges gyda rhuban.

Gellid agor y rhain ar ddiwrnod arall a’u darllen ar goedd.

- Dylid defnyddio **Cerdyn Siarad 43** er mwyn adolygu cynnwys y rhan hon o’r uned:
Siaradwch am y Tuduriaid. Rhaid i chi ddweud 5 peth.
- Yna, dylid cyflwyno’r llyfr, **Tŷ’r Tuduriaid**, gan ei fod yn crynhoi llawer o gynnwys yr uned. Awgrymir rhagor o weithgareddau yng nghefn y llyfr.

Uned 5: Rhan 4 – Teithio

Nodau:

- Parhau i ddefnyddio'r amser amherffaith – **roedd** – wrth drafod cyfnod yn y gorffennol
- Dysgu mwy am gyfnod y Tuduriaid, h.y. peryglon teithio ar hyd y ffordd yn ystod y cyfnod
- Perfformio drama drwy gyfrwng y Gymraeg
- Adolygu geiriau a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon.

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
<p>Ble oedd y tŷ? Wrth y môr. Beth am hwn? Na, dw i ddim y meddwl. Mae dwyn yn ofnadwy. Unwaith eto. Beth am drïo unwaith eto?</p> <p>Roedd: Roedd y Tuduriaid yn hoffi teithio dros y môr. Roedd teithio yng Nghymru'n beryglus iawn. Roedd llawer o ladron pen-ffordd. Roedd y Tuduriaid yn hoffi actio. Pwy oedd Twm Siôn Cati?</p> <p>Roedden nhw'n ...: Roedden nhw'n hoffi'r ... Roedden nhw'n chwarae ... Roedden nhw'n gwisgo ...</p>	<p>peryglus yn beryglus iawn lleidr pen-ffordd lladron pen-ffordd mwigwd clogyn actio drama dyn neis dyn cas</p>

Patrymau a geirfa sy'n gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
<p>Cwestiynau ac atebion: Ble mae'r recorder? Beth ydy'r neges? Beth am chwarae'r recorder / triongl? Ydych chi'n barod? Ydyn. / Nac ydyn. Wyt ti'n barod? Ydw. / Nac ydw. Beth am hwn? Gwych!; Na, dw i ddim yn meddwl. Fel hyn? Ga i weld y ...? Cei. / Na chei.</p> <p>Gorchmynion: Esgusodwch fi. Chwilia am y ... Chwiliwch am y ... Stopiwch. Rhaid tacluso.</p> <p>Eraill: Es i i ... Roedd e'n / o'n ... Roedd llongau'n cario pethau i Gymru. Dyma'r neges. Dyma ni.</p>	<p>wrth y anhygoel neges dillad miwsig tŷ het traed coesau cyfoethog y Tuduriaid un funud / un munud arian / pres smart gemwaith</p>

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Anhygoel!

Ffantastig!

Ble mae'r ...?

Beth am chwarae'r recorder / triongl? Syniad da!

Ydych chi'n barod?; Ydyn.; Nac ydyn.; Wyt ti'n barod?; Ydw.; Nac ydw.

Chwilia am y ...; Chwiliwch am y ...

Beth am hwn?; Gwych!; Na, dw i ddim yn meddwl.

Fel hyn?

Stopiwch.; Stopiwch os gwelwch yn dda.

Unwaith eto.

Beth am drïo unwaith eto?

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Chwaraewch y ffilm, **Teithio** (Uned 5, Rhan 4). Canolbwyntiwch ar y dechrau, hyd at y man lle mae Izzy'n gadael.

Gallai'r disgyblion werthuso'r gerddoriaeth, neu werthuso perfformiad Dyfs ac Izzy, er mwyn adolygu gwaith a wnaed eisoes:

Wyt ti'n hoffi'r miwsig?

Ydw. / Nac ydw.

Pam?

Mae Dyfs ac Izzy'n dda iawn.

Mae Dyfs ac Izzy'n chwarae'n dda / araf / gyflym.

Mae'r miwsig yn gryf / dawel / araf / gyflym.

Maen nhw'n ardderchog / ffantastig / wych.

- Gofynnwch iddyn nhw beth ydy barn Dyfs ac Izzy am y Tuduriaid:

Dw i'n hoffi miwsig y Tuduriaid.

Dw i'n hoffi dillad y Tuduriaid.

Dw i'n hoffi Tŷ'r Tuduriaid.

Roedd e'n/o'n ffantastig.

Roedd e'n/ o'n anhygoel.

Yna, os yw'n briodol, gallech chi ofyn i'r disgyblion ymhelaethu ar sylwadau Dyfs ac Izzy, e.e.

Siaradwch am y miwsig.

Roedd y Tuduriaid yn hoffi'r recorder / chwarae'r recorder.

Roedden nhw'n chwarae'r recorder.

Siaradwch am y dillad.

Roedd y Tuduriaid yn gwisgo ...

Roedden nhw'n gwisgo ...

Siaradwch am y tŷ.

Roedd cegin yn y tŷ.

Roedd ... yn y gegin.

Roedd y bobl yn coginio yn y gegin.

a.y.b.

Gallech chi ofyn i dimau gwahanol gystadlu yn erbyn ei gilydd, e.e. gallech chi roi 2 funud iddyn nhw baratoi rhywbeth i'w ddweud ac yna, ar ôl iddyn nhw siarad, gallech chi roi marciau iddyn nhw yn seiliedig ar beth maen nhw wedi'i ddweud.

- Cyn chwarae'r rhan nesaf, eglurwch ei bod hi'n anodd teithio yn ystod cyfnod y Tuduriaid. Roedd hi'n **berylus**. Gofynnwch iddyn nhw ddychmygu beth oedd y peryglon.

Cyflwynwch y geiriau canlynol:

perylus / yn berylus
lleidr pen-ffordd, lladron pen-ffordd
cleddyf
dwyn
arian / pres
gemwaith

- Chwaraewch y rhan nesaf, lle mae Dyfs yn chwilio am ddillad lleidr pen-ffordd – hyd at y man lle mae e'n mynd i guddio. Pan fydd e'n awgrymu gwahanol eitemau – **Beth am hwn?** – gofynnwch i'r disgyblion ymateb drwy ddweud un o'r canlynol:

Gwych!

Syniad da!

Na, dw i ddim yn meddwl.

Stopiwch y DVD os bydd angen. Byddai hyn yn rhoi cyfle hefyd i drafod y dillad, e.e.

Pa liw?

Pa faint?

Beth ydy hwn?

a.y.b.

- Yna, gallen nhw dynnu llun lleidr pen-ffordd a labelu'r dillad. Gallen nhw roi enw a hunaniaeth newydd iddo, a siarad / ysgrifennu amdano, e.e.

Deio ydw i.

Dw i'n byw yn ...

Dw i'n lleidr pen-ffordd. / Lleidr pen-ffordd ydw i.

Dw i'n gwisgo ...

Dw i'n cario ...

Dw i'n cuddio (tu ôl i'r ...)

Dw i'n neidio allan ar bobl.

Dw i'n dwyn ...

Dw i'n hoffi ...

Sylwer: Mae mwyafrif y geiriau hyn wedi cael eu cyflwyno eisoes. Maen nhw'n cael eu trosglwyddo i sefyllfa wahanol yma. Efallai y bydd y disgyblion yn gallu trosglwyddo geiriau a phatrymau iaith eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw yn y cyd-destun hwn.

- Yna, gellid cyflwyno **Cerdyn Siarad 44**.
A: Lleidr pen-ffordd wyt ti.
B: Gofynna gwestiynau i dy bartner di.

Gan ddefnyddio'r patrymau a restrir ar y cerdyn, ynghyd ag unrhyw batrymau eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw, dylai'r disgyblion ofyn am fanylion personol y lleidr pen-ffordd.

Yna, gallen nhw gyflwyno'i gilydd i'r grŵp:

Dyma ...

Mae e'n / o'n / hi'n byw yn ...

a.y.b.

- Chwaraewch y rhan nesaf, lle mae Izzy'n dod i mewn - hyd at y man lle mae hi'n gadael eto. Tynnwch sylw at y gair **actio**.

Gofynnwch i'r disgyblion:

Wyt ti'n hoffi actio? / Ydych chi'n hoffi actio?

Wyt ti eisiau actio? / Ydych chi eisiau actio?

Wyt ti eisiau actio lleidr pen-ffordd? / Ydych chi eisiau actio lleidr pen-ffordd?

Dywedwch wrthyn nhw eu bod nhw'n mynd i actio sefyllfa lle mae lleidr pen-ffordd yn ymosod ar berson ac yn dwyn yr arian a'r gemwaith. Gofynnwch iddyn nhw weithio mewn grwpiau a meddwl am eiriau ac ymadroddion y gallen nhw'u defnyddio pe baen nhw'n lleidr pen-ffordd. Dyma rai patrymau posibl:

Stopiwch.

Stopiwch. Dw i eisiau pres / arian.

Dw i eisiau pres rŵan / arian nawr!

A dw i eisiau'r gemwaith hefyd.

Dw i eisiau'r gemwaith rŵan / nawr!

Ha, ha, ha! Dw i'n hoffi pres / arian. Dw i'n hoffi gemwaith. Dw i'n lleidr pen-ffordd.

Yna, gofynnwch iddyn nhw restru'r patrymau y byddai teithiwr yn eu defnyddio pe bai lleidr pen-ffordd yn ymosod arno / arni. Dyma rai patrymau posibl:

O, bobl bach! O, mawredd mawr! O, nefi bliw! O, nefi wen!

O, na ... na ... na ...

O, diar! O, diar!

Pwy ydych chi?

Beth ydych chi eisiau?

O, iawn – dyma chi.

Ewch o 'ma!

- Yn rhan nesa'r ffilm, mae Dyfs yn ymarfer ei rôl fel lleidr pen-ffordd ac yna mae'r cymeriadau'n actio.

Gallwch chi naill ai chwarae'r darn i gyd – hyd at y man lle mae Dyfs yn dweud:

"Ha! Ha! Ha! Dw i'n hoffi pres. Dw i'n hoffi gemwaith. Dw i'n lleidr pen-ffordd."

neu gallech chi stopio ar ôl pob ymgais i actio, h.y. mae'r cymeriadau'n actio'r sefyllfa dair gwaith gan fod problem gyda'r ddau ymgais cyntaf:

- Y tro cyntaf, mae Dyfs yn rhy 'neis' – mae e'n rhoi'r gorau iddi ac nid yw'n dwyn yr arian a'r gemwaith.

- Yr ail dro, mae e'n cael braw gan fod Izzy'n llewygu.

Os ydych chi'n stopio ar ôl pob ymgais, gallech chi ofyn i'r disgyblion:

Beth sy'n bod?

Tra bydd y cymeriadau'n actio, cymharwch y patrymau a restrwyd gan y disgyblion gyda'r rhai sy'n cael eu defnyddio ar y ffilm.

- Gofynnwch i'r disgyblion chwarae rôl mewn grwpiau, sef bod lleidr / lladron pen-ffordd yn ymosod ar deithiwr / teithwyr.

Gallech chi gyflwyno **Cerdyn Siarad 45**, a allai roi cymorth i'r disgyblion sy'n ansicr o'r patrymau:

A: Rwyd ti'n teithio ar hyd y ffordd.

B: Rwyd ti'n lleidr pen-ffordd.

Siaradwch.

- Gallech chi ddefnyddio'r adran hon er mwyn adolygu / atgyfnerthu'r defnydd o ddyfynodau. Gallech chi ysgrifennu darn byr a gofyn i'r disgyblion gynnwys dyfynodau fel y bo'n briodol, e.e.

Mae Elizabeth yn cerdded ar hyd y ffordd. Yn sydyn, mae lleidr pen-ffordd yn neidio allan ac mae e'n / o'n gweiddi Stopiwch. Dw i eisiau arian.

Mae Elizabeth yn teimlo'n ofnus ac mae hi'n gweiddi O, bobl bach! Mae'r lleidr pen-ffordd yn dweud Dw i eisiau arian a dw i eisiau gemwaith hefyd.

Mae Elizabeth yn dweud O, iawn – dyma chi. Dw i ddim yn hoffi lladron pen-ffordd.

- Chwaraewch ran nesa'r ffilm, lle mae Sgrin yn cyfeirio at Twm Siôn Cati – cyn y clip sy'n dangos y disgyblion yn actio'r ddrama. Stopiwch y ffilm pan fydd Sgrin yn dweud, **Edrychwch**.

Sylwer: Roedd Twm Siôn Cati yn lleidr pen-ffordd o Gymru a oedd yn byw yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg. Dywedid ar y pryd ei fod yn lleidr pen-ffordd caredig, yn dwyn oddi ar bobl gyfoethog ac yn rhoi i'r bobl dlawd.

Gwnewch yn siŵr fod y disgyblion yn deall pwy oedd Twm Siôn Cati:

Pwy oedd Twm Siôn Cati?

Lleidr pen-ffordd.

Ble?

Yng Nghymru.

Pryd?

Yn Amser y Tuduriaid.

Oedd e'n neis neu oedd e'n gas? - (Bydd angen i chi egluro ystyr **yn gas** - nasty.)

Roedd e'n neis.

- Eglurwch y bydd y disgyblion yn gwylio disgyblion eraill yn perfformio drama am Twm Siôn Cati, ond cyn gwneud hynny, eu bod nhw'n mynd i ddarllen y ddrama. Dywedwch wrth y disgyblion:

Rydyn ni'n mynd i ddarllen drama.

- Cyflwynwch y llyfr, **Twm Siôn Cati**. Eglurwch mai **drama** yw hon. Tynnwch sylw at y geiriau canlynol:

cymeriad, cymeriadau (a gyflwynwyd yn Uned 4 yng nghyd-destun Diwrnod y Llyfr)
golygfa

Tynnwch sylw at y ddeialog ac at y ffaith fod y cefndir yn cael ei ddisgrifio ar ddechrau pob golygfa - mewn print italig.

Gofynnwch i ddisgyblion unigol o fewn grwpiau ddarllen rhannau gwahanol. Gallech chi wneud hyn fesul adran – gallen nhw ddarllen adran ac yna actio'r olygfa honno.

Yna, dysgwch y ddrama gyfan a'i pherfformio yn yr ystafell ddosbarth. Dewiswch ddisgyblion i chwarae'r cymeriadau, gan sicrhau bod pawb yn cael rhan i'w hactio. Gallai'r disgyblion wneud bwrdd stori neu fap stori i'w cynorthwyo i ddyysgu'r ddrama. Yna, gallen nhw berfformio'r ddrama yn ystod gwasanaeth, cyngerdd neu sioe a.y.b. yn yr ysgol.

Wrth iddyn nhw baratoi eu perfformiad, gallen nhw gasglu dillad addas, cynllunio a gwneud propiau a chefnlen addas, a.y.b.

Yn ogystal, gallen nhw wneud amrywiaeth o weithgareddau mewn perthynas â'r ddrama, e.e. gallen nhw gynllunio a gwneud collage sy'n cyfleu gwahanol olygfeydd yn y ddrama neu wneud pypedau, e.e. pypedau bys / pypedau ar ffyn, er mwyn cyfleu'r cymeriadau a gellid defnyddio'r rhain yn ystod gweithgareddau chwarae rôl.

Gallen nhw gynllunio a gwneud poster **YN EISIAU** naill ai ar gyfer Twm Siôn Cati neu Dafydd Ddu.

Byddai hwn yn gyfle da i adolygu rhannau'r corff / lliw gwallt a.y.b., e.e.

YN EISIAU ...

(Llun lleidr pen-ffordd, yn unol â'r disgrifiad)

Gwallt – du / brown / llwyd / golau / tywyll

Clustiau – mawr / bach

Llygaid – brown / glas / gwyrdd

Trwyn – mawr / bach / smotiog

Ceg – fawr / fach

Wyneb – smotiog / hardd / doniol / hyll

Dillad: mwgwd du, het ddu, clogyn du

Gwobr: £50

- Ar ôl i'r disgyblion ddysgu a pherfformio'r ddrama, chwaraewch y darn sy'n dangos grŵp o ddisgyblion yn ei pherfformio a chymharwch berfformiad y disgyblion gyda pherfformiad y disgyblion ar y sgrin.

- Gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:

Ydych chi'n hoffi'r ddrama?

Wyt ti'n hoffi'r ddrama?

Ydw.

Pam?

Dw i'n hoffi'r ddrama achos dw i'n hoffi'r stori / lleidr pen-ffordd.

Dw i'n hoffi'r ddrama achos dw i'n hoffi Twm.

Mae'r plant yn wych.

Nac ydw.

Pam?

Dw i ddim yn hoffi'r ddrama achos dw i ddim yn hoffi'r stori / lleidr pen-ffordd.

Dw i ddim yn hoffi'r ddrama achos dw i ddim yn hoffi Twm.

Dw i ddim yn hoffi'r ddrama achos mae'n ddiflas iawn.

Sylwer: Bydd y disgyblion wedi mynegi barn am y DVD ac am lyfrau / storïau amrywiol mewn unedau blaenorol. Yma, maen nhw'n trosglwyddo'r patrymau iaith er mwyn siarad am **ddrama / y ddrama**.

- Gallai'r disgyblion chwilio ar y we am storïau eraill sy'n gysylltiedig â Twm Siôn Cati a gallen nhw'u hadrodd wrth aelodau eraill y grŵp – yn Gymraeg neu Saesneg fel y bo'n briodol.

- Ar y ffilm, mae Dyfs yn dweud:

... mae dwyn pres yn ofnadwy.

ac mae'r neges hon yn cael ei hadleisio gan Izzy:

Ydy, mae dwyn yn ofnadwy ...

Gellid trafod hyn – yn Saesneg neu yn Gymraeg fel y bo'n briodol.

- Gan gymryd arnyn nhw eu bod yn lleidr pen-ffordd eto, neu'n Twm Siôn Cati, gallai'r disgyblion ysgrifennu llythyr yn ymddiheuro am ddwyn yr arian, e.e.

	Tŷ'r Lleidr pen-ffordd Y Goedwig Powys Cymru
	Mehedin ...
Annwyl ...,	
... ydw i a dw i'n byw yn ... Dw i'n lleidr pen-ffordd / Lleidr pen-ffordd ydw i.	
Mae'n ddrwg gen i am ddwyn yr arian / y pres / y gemwaith. Mae'n flin `da fi am ddwyn yr arian / y gemwaith.	
Mae dwyn yn ofnadwy, dw i'n gwybod rŵan / nawr.	
Hwyl fawr,	
.....	

- Gallech chi chwarae rhannau perthnasol o'r DVD eto a defnyddio'r cynnwys er mwyn cyflwyno agweddau eraill ar gyfnod y Tuduriaid, e.e.
 - gallai'r cyfeiriadau at deithio ar y dechrau arwain at waith pellach ar deithio yn ystod cyfnod y Tuduriaid, yn enwedig y teithiau a arweiniodd at ddarganfod gwledydd newydd
 - gallai'r ddrama arwain at drafodaeth ar adloniant y Tuduriaid, ac yn enwedig eu hoffter o fynd i weld dramâu. Gallai hyn arwain at waith sy'n gysylltiedig â Shakespeare.
 - gallai'r disgyblion ddarllen y gerdd Saesneg, **The Highwayman** (Alfred Noyes) a gwneud amryw weithgareddau sy'n gysylltiedig â hi.

Uned 5: Rhan 5 – Ydych chi'n cofio?

Nod:

- Adolygu geirfa a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon.

Patrymau a geirfa sy'n gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Sut wyt ti'n teimlo? Dw i'n teimlo'n ... Gorchmynion Stopiwch. Edrychwch. Gwrandewch. Eraill Bobl bach! Mawredd mawr!	yn araf yn gyflym yn dawel yn gryf arian / pres gemwaith hen modern

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Ga i ... os gwelwch yn dda? Cei. / Na chei.; Cewch. / Na chewch.

Sut wyt ti'n teimlo?; Dw i'n teimlo'n ...

Dyma ni.

Dyma'r ...

Pardwn?

Stopiwch.

Sawl ...?

Edrychwch a gwrandewch.

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Eglurwch mai pwrpas y rhan hon o'r DVD yw adolygu.
- Dangoswch bumed ran y ffilm, sef **Ydych chi'n cofio?** (Uned 5, Rhan 5) fesul adran, fel yr awgrymir isod.

Adran 1

- Canolbwyntiwch ar yr adran gyntaf, **Yn araf neu yn gyflym?**. Dylai'r disgyblion ddweud **yn araf** neu **yn gyflym** fel y bo'n briodol.

Adran 2

- Chwaraewch yr ail ran, **Yn dawel neu yn gryf?** Dylai'r disgyblion ddweud **yn dawel** neu **yn gryf** fel y bo'n briodol.

Adran 3

- Chwaraewch y rhan nesaf, lle mae Dyfs ac Izzy'n meimio teimladau gwahanol. Dylai'r disgyblion ddisgrifio sut maen nhw'n teimlo.

Gallech chi dynnu sylw at y gerddoriaeth sy'n cael ei chwarae yn y cefndir, sydd hefyd yn cyfleu teimladau gwahanol.

- Yna, gallai'r disgyblion lunio holiaduron er mwyn gweld sut mae aelodau'r dosbarth yn teimlo:
Sut wyt ti'n teimlo?
Wyt ti'n ...?
hapus
drist
ofnus
Wyt ti wedi blino?

Gellid cyflwyno'r wybodaeth ar ffurf graff a gellid ei egluro:
Mae pump yn teimlo'n hapus.
Does neb wedi blino.

Adran 4

Mae'r disgyblion yn cael cyfle yn yr adran hon i wyllo'r clip o Ran 4 eto.

Pan fydd yn cael ei ddangos yr ail dro, mae marciau cwestiwn yn ymddangos ar y sgrin. Dylai'r disgyblion geisio cofio'r geiriau coll.

Adran 5

- Chwaraewch y bumed ran, sef **Modern neu hen?** Dylai'r disgyblion ddweud **modern** neu **hen** fel y bo'n briodol pan fydd eitemau gwahanol yn cael eu dangos.
- Yna, dylid cyflwyno'r llyfr darllen, **Ddoe a Heddiw.**

Dylid annog y disgyblion i ddarllen y wybodaeth, i edrych yn ofalus ar y delweddau ac i ateb y cwestiynau ar lafar. Yna, gallen nhw ysgrifennu darn sy'n dangos y gwahaniaethau rhwng bywyd heddiw a bywyd yn ystod cyfnod y Tuduriaid, e.e.

Amser y Tuduriaid, roedd pobl yn ... Heddiw, dw i'n ... / rydyn ni'n ...
Yn Amser y Tuduriaid, roedd ... yn y cartref.
Heddiw, mae ... yn y cartref.

Fodd bynnag, bydd angen i chi sicrhau bod gan y disgyblion eirfa addas ar gyfer gwneud y gwaith hwn. Gallech chi ddangos iddyn nhw fod modd ailgylchu geiriau maen nhw wedi'u defnyddio mewn cyd-destunau eraill er mwyn ymgymryd â'r dasg hon, e.e.

teledu
desg
bwrdd
cadair
cwpwrdd
soffa
gwely
a.y.b.

Adran 6

Mae nifer o gyfeiriadau yn yr uned at y ffaith bod y marsiandïwr yn y Tŷ Tuduraidd yn gwerthu nwyddau fel gwin a sbeisys. Mae **Cerdyn Siarad 46** yn cynnig cyfle i adolygu prynu a gwerthu mewn sefyllfa siop, gan ddefnyddio arian, rhoi newid ac ati.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 46**.
A: **Rwyt ti mewn siop. Rwyt ti eisiau prynu sawl peth.**
B: **Ti ydy'r siopwr.**

Gan ddefnyddio'r patrymau a restrir ar y cerdyn ac unrhyw batrymau eraill sy'n gyfarwydd, dylai'r disgyblion chwarae rôl mewn sefyllfa siop.

UNED 6

Mae'r gwaith yn yr uned hon yn canolbwyntio ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith. Fodd bynnag, mae'r cwricwlwm a meysydd perthnasol eraill yn cael eu targedu yn ogystal. Rhoddir enghreifftiau o elfennau trawsgwricwlaidd isod ond dylid edrych ar y Rhaglenni Astudio a'r fframweithiau perthnasol er mwyn cael rhagor o fanylion.

Cymraeg Ail Iaith

Rhoddir cyfle i'r disgyblion wrando ar amrywiaeth o bobl yn siarad Cymraeg fel eu bod nhw'n dod yn ymwybodol o rai amrywiaethau ieithyddol, e.e. **nawr** (De Cymru), **rŵan** (Gogledd Cymru), **roedd e'n** (De Cymru), **roedd o'n** (Gogledd Cymru).

Mae cyfleoedd iddyn nhw ymateb yn briodol mewn amrywiaeth o amgylchiadau, gan gynnwys gweithgareddau yn y gadair goch, sôn am brofiadau personol a dychmygus a chwarae rôl, e.e. mewn parti yng Nghantre'r Gwaelod. Mae cyfleoedd i fynegi barn, e.e. am y DVD ac am fwyd dydyn nhw ddim yn ei hoffi ac i gyflwyno gwybodaeth ffeithiol am Aberystwyth.

Mae cyfleoedd i wyllo a gwranddo ar y ffilm yn ofalus ac i ganfod y prif bwyntiau. Gellid rhoi crynodeb o rannau o'r ffilm i'r disgyblion a gallai rhywfaint ohono fod yn **gywir** a rhywfaint yn **anghywir**. Yna, gellid gofyn iddyn nhw wrando'n ofalus ar y ffilm er mwyn dod o hyd i'r camgymeriadau a'u cywiro.

Gellid rhoi gridiau sy'n seiliedig ar rannau o'r ffilm i'r disgyblion, gan ofyn iddyn nhw eu cwblhau â'r wybodaeth angenrheidiol. Yn ogystal, gallai disgyblion ymateb i gwestiynau sy'n seiliedig ar y ffilm, e.e. mewn gweithgareddau cwis. Gallen nhw ysgrifennu am rannau penodol o'r ffilm yn ogystal.

Anogir y disgyblion i wrando'n ofalus wrth i Dyfs gynllunio'i daith o gwmpas Aberystwyth fel eu bod yn gallu dilyn ei daith ar fap.

Gellid rhoi gridiau sy'n seiliedig ar ddarnau penodol o'r ffilm i'r disgyblion, gan ofyn iddyn nhw eu cwblhau â'r wybodaeth berthnasol (gweler Rhan 5). Yn ogystal, gallai'r disgyblion wrando ar adrannau penodol a gofyn ac ateb cwestiynau sy'n seiliedig ar y darnau hynny, efallai mewn cwis. Gallen nhw ysgrifennu darnau byr sy'n disgrifio beth sy'n digwydd yn y ffilm, neu ailadrodd neu addasu'r stori.

Anogir y disgyblion i ymateb i'r deunyddiau darllen a ysgrifennwyd i gyd-fynd â'r uned, h.y. chwedl Gymraeg, llyfr lloffion sy'n bwrw golwg yn ôl dros brofiadau Dyfs ac Izzy yn y Pod-antur Cymraeg, deunydd hyrwyddo a cherdd. Mae gweithgareddau amrywiol yng nghefn pob llyfr ac awgrymir gweithgareddau eraill yn y canllawiau hyn. Mae cyfleoedd i ddarllen ar goedd hefyd, e.e. neges mewn potel, cerdd.

Mae cyfleoedd i ysgrifennu "at amrywiaeth o bwrpasau" gan fod y disgyblion yn cael cyfle i ysgrifennu bwletin tywydd, rhestri, gwahoddiad, dehongliad o graff, cwestiynau ar gyfer cwis, cerdd am fwyd ych a fi, darn ffeithiol am yr ardal, cofnodion mewn llyfr lloffion a darn estynedig o ysgrifennu personol. Maen nhw'n cael eu hannog i ysgrifennu stori hefyd.

Anogir y disgyblion i ysgrifennu mewn amryw ffurfiau, gan ddefnyddio iaith sy'n briodol i'r ffurfiau hynny, e.e. cerdd, llythyr, strïbed comic a neges e-bost. Gofynnir iddyn nhw drafod technegau llenyddol sy'n gysylltiedig ag arddull berswadiol (e.e. cwestiynau rhethregol, ffurfiau'r gorchmynnol, y defnydd o ansoddeiriau ac adferfau) ac i ddefnyddio'r technegau hyn wrth iddyn nhw ysgrifennu deunyddiau sy'n hyrwyddo'r ardal.

Gwyddoniaeth

Yn Rhan 1, cyflwynir chwedl Gymraeg am Gantre'r Gwaelod, sef gwlad chwedlonol o dan y môr ym Mae Ceredigion. Gallai hyn arwain at astudio traethau / bywyd y môr ac, efallai, ymweliad â glan y môr. Byddai hyn yn galluogi'r disgyblion i gymharu'u hamgylchedd lleol gydag amgylchedd y traeth.

Mathemateg

Mae cyfleoedd ar gyfer adio symiau o arian yn Gymraeg ac i roi newid. Gallai'r disgyblion lunio a defnyddio holiaduron a chreu a dehongli graffiau.

Mae cyfleoedd ar gyfer adio / lluosu sgôr cwis yn Rhan 2.

Mae siapiau 2-D yn cael eu hadolygu yn yr uned hon ac mae'r geiriau Cymraeg am siapiau 3-D yn cael eu cyflwyno.

Celf a dylunio

Gallai'r disgyblion wneud collage sy'n cyfleu Cantre'r Gwaelod neu gallen nhw weithio gyda'i gilydd er mwyn creu murlun / cefnlen ar gyfer eu perfformiad o'r stori. Yn ogystal, gallen nhw dynnu lluniau addas i'w cynnwys mewn strïbed comic ac mewn llyfr lloffion. Dylid rhoi'r cyfle i'r disgyblion werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion.

Mae geirfa a phatrymau iaith penodol y gellir eu defnyddio wrth wneud gwaith celf i'w gweld yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₂**.

Dylunio a thechnoleg

Gallai'r disgyblion gynllunio a gwneud symudyn neu fodelau o greaduriaid sydd i'w gweld yn y môr.

Gallen nhw gynllunio a gwneud model o Gantre'r Gwaelod, gan ddefnyddio deunyddiau o'u dewis eu hunain a gallen nhw wneud pypedau hefyd a'u defnyddio wrth chwarae rôl.

Dylid eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg wrth iddyn nhw wneud y gwaith hwn ac wrth iddyn nhw werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion. Gwelir patrymau iaith perthnasol yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₂**.

Yn ogystal, gallai'r disgyblion ddylunio a gwneud llyfrau lloffion lliwgar, gyda chloriau trawiadol.

Addysg gorfforol

Gallai'r disgyblion gyfansoddi dawnys er mwyn cyfleu gwahanol olygfeydd sy'n gysylltiedig â chwedl **Cantre'r Gwaelod**.

Cerddoriaeth

Gallai'r disgyblion wrando ar *Agorawd Hebrides (Ogof Fingal)*, gan Mendelssohn, a'i werthuso cyn mynd ati i gyfansoddi darn o gerddoriaeth sy'n cyfleu'r môr yn chwedl Cantre'r Gwaelod. Gallai'r gerddoriaeth ar y dechrau fod:

yn dawel

yn araf

ond gallai ddatblygu i fod

yn gryf

yn gyflym

wrth i'r dŵr agosáu at y tir a'i foddi. Gallai'r gerddoriaeth fod yn dawel ac yn araf erbyn y diwedd ar ôl i'r tir gael ei foddi. Gellid defnyddio clychau ar ddiwedd y darn er mwyn cyfleu clychau'r eglwys o dan y môr sydd i'w clywed yn canu o bryd i'w gilydd yn ôl y chwedl.

Yn ogystal, gallai'r disgyblion wrando ar y gân werin Gymraeg **Clychau Aberdyfi** ac yna'i chanu eu hunain.

Daeryddiaeth

Mae'r tywydd yn cael ei drafod yn yr uned hon. Gellid gwneud gwaith pellach ar hyn os yw'n briodol a gellid cyflwyno'r llyfrau canlynol, o'r gyfres *Dysgu Difyr*:

O, mae'n oer!

O, mae'n boeth!

O, mae'n sych!

O, mae'n wlyb!

O, mae'n wyntog!

O, mae'n stormus!

(Non ap Emlyn, Awen, 2009; Atebol, 2011)

Gallai'r disgyblion edrych ar wefannau am y tywydd a chreu bwletin tywydd.

Mae pwyntiau'r cwmpawd yn cael eu hadolygu a gwelir lleoliad Aberystwyth a'r Drenwydd ar fap. Mae cyfeiriadau at Fae Ceredigion hefyd, sef lleoliad honedig y wlad chwedlonol, Cantre'r Gwaelod.

Mae symbolau daearyddol yn cael eu hadolygu yn Rhan 2 a gallai hyn arwain at astudiaeth o'r hyn sydd i'w weld yn yr ardal leol. Gallai'r disgyblion astudio mapiau'r Arolwg Ordnans ac ysgrifennu darnau ffeithiol i ddisgrifio'r ardal. Mae cyfleoedd hefyd i ddylunio poster / taflenni er mwyn hyrwyddo'r ardal.

Mae Dyfs ac Izzy'n darllen map wrth geisio dod o hyd i siapiau yn y goedwig. Gallai'r disgyblion wneud map tebyg o dir yr ysgol a chynllunio helpa 'drysor' debyg.

Hanes

Mae cyfleoedd ar gyfer gwneud gwaith sy'n ymwneud â chestyll Cymru a threnau bach Cymru yn Rhan 2 yn sgil ymweliad Dyfs ag Aberystwyth. Yn ogystal, rhoddir rhagor o wybodaeth am gyfnod y Tuduriaid yn y deunydd darllen, **Rhys**.

TGCh

Gallai'r disgyblion wneud bwrdd stori er mwyn cyfleu chwedl Cantre'r Gwaelod neu wneud sribed comic sy'n dangos rhai o brofiadau Dyfs ac Izzy. Gofynnir i'r disgyblion ddylunio taflen / poster / cyflwyniad PowerPoint am yr ardal a dylai'r gwaith hwn fod yn ddeniadol.

Gellid ffilmio amryw weithgareddau, e.e. perfformiad o **Cantre'r Gwaelod** neu chwedl newydd y disgyblion.

Yn Rhan 5, gofynnir i'r disgyblion siarad amdany'n nhw'u hunain, gan roi cymaint o fanylion â phosib. Gallen nhw, felly, ddefnyddio PowerPoint i'w cynorthwyo gyda'r cyflwyniad.

Y Cwricwlwm Cymreig

Mae'r chwedl Gymraeg, **Cantre'r Gwaelod**, yn cael ei chyflwyno yn yr uned hon a gellid chwarae a pherfformio'r gân werin Gymraeg, **Clychau Aberdyfi**. Mae Dyfs yn ymweld ag Aberystwyth a gellid gwneud rhagor o waith mewn perthynas â'r dref hon.

ABCh

Wrth i Dyfs baratoi i fynd i Aberystwyth, mae'n tynnu sylw at y ffaith ei fod yn gorfod pacio het haul, eli haul a dŵr gan fod y tywydd yn boeth. Gallai hyn arwain at drafod y gofal sydd ei angen wrth fynd allan ar ddiwrnodau poeth yn yr haf.

Datblygu meddwl

Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i adeiladu ar wybodaeth flaenorol drwy wneud amrywiaeth o weithgareddau drwy gydol yr uned hon.

Gallen nhw gynllunio a threfnu parti ar ôl darllen y llyfr **Cantre'r Gwaelod** a gallen nhw gynllunio beth y bydden nhw'n ei gymryd gyda nhw neu beth y bydden nhw'n ei wneud ar ymweliad ag Aberystwyth am y dydd.

Mae nifer o gyfleoedd i feddwl am syniadau, i fynegi barn ac i ymateb. Mae'r disgyblion yn defnyddio iaith yn greadigol ac yn gwerthuso llwyddiant hefyd. Mae cyfleoedd yn Rhan 3 i drafod sut i wella perfformiad wrth ddylunio ac ysgrifennu llyfr lloffion.

Gofynnir i'r disgyblion ystyried arddull ac effeithiolrwydd y daflen sy'n hyrwyddo **Aberystwyth** ac i fabwysiadu technegau llenyddol penodol wrth iddyn nhw ysgrifennu darnau tebyg.

Gofynnir iddyn nhw gymharu a chyferbynnu diwedd y DVD (Uned 5, Rhan 5) â'r dechrau (Uned 1, Rhan 1-3) ac i gofnodi mân wahaniaethau.

Datblygu cyfathrebu

Mae'r uned hon yn adeiladu ar y sgiliau iaith, y patrymau a'r eirfa a gyflwynwyd eisoes.

Mae llawer o gyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu ynghyd â sgiliau cyfathrebu ehangach. Maen nhw'n dysgu sut i gyfathrebu'n effeithiol ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau a gydag amrywiaeth o gynulleidfaoedd.

Mae cyfeiriadau at wahanol ffurfiau o gyfathrebu, e.e. symbolau a negeseuon amrywiol.

Mae cyfleoedd i ddysgu am wahanol arddulliau / cyweiriau ysgrifennu wrth i'r disgyblion ysgrifennu darn ffeithiol am eu hardal a darn perswadiol sydd i fod i hyrwyddo'r ardal. Maen nhw'n cael eu hannog hefyd i ysgrifennu darn estynedig yn yr uned olaf, lle maen nhw'n rhoi gwybodaeth amdanyn nhw'u hunain a fydd yn cael ei chynnwys yn y capsiwl amser.

Datblygu TGCh

Anogir y disgyblion i ddatblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth, e.e. drwy chwilio am wybodaeth a delweddau ar y rhyngwrwyd, drwy ddylunio clawr blaen ac ôl ar gyfer eu llyfr lloffion, drwy ddylunio poster / taflen neu baratoi cyflwyniad PowerPoint am yr ardal. Mae cyfleoedd hefyd i ffilmio'u hunain, e.e. yn ystod y bwletin tywydd, wrth iddyn nhw berfformio chwedl Cantre'r Gwaelod, a.y.b.

Yn Rhan 5, gofynnir iddyn nhw siarad amdanyn nhw'u hunain, gan gyflwyno cymaint o fanylion â phosib. Gallen nhw, felly, ddefnyddio PowerPoint i'w cynorthwyo gyda'u cyflwyniad.

Datblygu rhif

Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio gwybodaeth fathemategol a rhifau mewn ffyrdd amrywiol.

Mae cyfleoedd i lunio a defnyddio holiaduron, i greu ac i ddehongli graffiau ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Mae cyfleoedd yn yr uned hon i drin arian ac i siarad am amser drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, gallai'r disgyblion addasu ryseitiau sydd wedi cael eu llunio ar gyfer nifer penodol o bobl (e.e. 6 pherson) fel eu bod yn addas ar gyfer rhagor / llai o bobl (e.e. 12 neu 3).

Uned 6: Rhan 1 – O dan y môr

Nodau:

- Adolygu'r tywydd, gan roi sylw penodol i'r dyfodol: **Bydd hi'n ...**
- Cyflwyno chwedl Gymraeg: **Cantre'r Gwaelod** – y wlad chwedlonol o dan y môr ym Mae Ceredigion
- Adolygu arian: **punt, dwy bunt** a.y.b.
- Adolygu geirfa a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon.

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Dyma ble dw i'n byw. Dyna ble rwyf ti'n byw. Roedd Cantre'r Gwaelod yma. Faint o arian wyt ti eisiau i fynd i Aberystwyth? Rhaid chwilio am botel las. Mae neges yn y botel. Mae Dyfs wedi mynd i Aberystwyth.	bwletin tywydd mwy o law gwlad gwlad arall Amhosib! telesgop neges cywir wedi mynd

Patrymau a geirfa sy'n gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth sy'n bod? Ble mae Cantre'r Gwaelod? Wyt ti eisiau clywed y stori? Ydw, os gwelwch yn dda. / Nac ydw, dim diolch. Wyt ti eisiau gwneud llun? Ydw, os gwelwch yn dda. / Na, dw i ddim yn meddwl. Ga i fynd i Aberystwyth? Cei. / Na chei. Ble mae'r pres / arian? Yn y drôr. Faint o bres / arian? Un deg wyth punt.	bwletin y gogledd y de y gorllewin y dwyrain amser maith yn ôl môr o dan gwneud llun peintio gludo pres / arian punt dwy bunt pum punt eli haul het haul un funud (De Cymru) / un munud (Gogledd Cymru)
Gorchmynion Adiwch. Rhaid yfed dŵr.	
Eraill Bydd hi'n braf. Mae'n braf. Mae'n heulog. Mae'n flin 'da fi / Mae'n ddrwg gen i. Dyna stori dda.	

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Amhosib!

Dw i'n gallu gweld ...

Wyt ti eisiau clywed y stori? [Hefyd: **Ydych chi eisiau clywed y stori?**]

Wyt ti eisiau gwneud llun?; Ydw, os gwelwch yn dda.; Nac ydw, dim diolch.

Ga i fynd i ...?; Cei.; Na chei, dim heddiw.

Sut mae'r tywydd yn (Aberystwyth) heddiw?; Mae hi'n ...

[Hefyd: **Sut bydd y tywydd yn (Aberystwyth) yfory? Bydd hi'n ...**]

Un funud. / Un munud.

Rhaid paratoi.

Beth arall dw i eisiau?

Rhaid chwilio am ...

Cywir!

Beth sy'n bod?

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Dechreuwch drwy adolygu'r tywydd:
Sut mae'r tywydd heddiw?
Mae hi'n ... / Mae'n ...

Sut (r)oedd y tywydd ddoe?
Roedd hi'n ...

Symudwch ymlaen i'r dyfodol:

Sut bydd y tywydd yfory?
Sut fydd y tywydd yfory?
Bydd hi'n ...

- Dangoswch y ffilm **O dan y môr** (Uned 6, Rhan 1). Stopiwch ar ôl y bwletin tywydd cyntaf a gofynnwch i'r disgyblion:
Sut bydd / fydd y tywydd yng Nghymru heddiw?
[Ateb: Bydd hi'n braf.]

Gofynnwch i'r disgyblion chwilio ar y rhyngwrdd er mwyn gweld beth fydd y tywydd yn ystod y dyddiau nesaf ac yna gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu a chyflwyno bwletin tywydd fel grŵp :
Bydd hi'n ... yfory.
Bydd hi'n ... nos yfory.
Bydd hi'n ... dydd ...

- Eglurwch eich bod chi'n mynd i wrando ar chwedl sy'n gysylltiedig ag ardal Aberystwyth / Aberdyfi – chwedl am wlad **o dan y môr**.
- Chwaraewch y darn nesaf, lle mae Izzy'n cyfeirio at stori **Cantre'r Gwaelod** ac mae'r chwedl yn cael ei hadrodd.

Ar ôl i'r chwedl gael ei dangos ar y sgrin, darllenwch y llyfr **Cantre'r Gwaelod**.

- Helpwch y disgyblion i ddysgu'r stori drwy ddefnyddio dulliau sy'n cael eu hargymell gan Pie Corbett*:
 - Gwnewch fap stori. Dylid cadw hwn yn y golwg wrth i'r gwaith hwn gael ei wneud fel bod y disgyblion yn gallu cyfeirio ato pan fydd angen.
 - Defnyddiwch y map stori hwn y tro nesaf y byddwch chi'n adrodd y stori a gwnewch yn siŵr ei fod yn cael ei ddangos yn yr ystafell ddosbarth.
 - Gofynnwch i'r disgyblion wneud eu map stori eu hunain.
 - Adroddwch y chwedl bob dydd fel bod y disgyblion yn ei dysgu'n raddol.
 - Penderfynwch fel dosbarth pa symudiadau, ymadroddion a.y.b. rydych chi'n mynd i'w defnyddio er mwyn cyfleu'r stori.
 - Wrth i'r disgyblion ddysgu'r stori, gwahoddwch nhw i adrodd y stori gyda chi.
 - Wrth iddyn nhw ddod yn fwy hyfedr, gallai grwpiau adrodd y stori, e.e. merched, bechgyn, grwpiau sy'n eistedd o gwmpas byrddau a.y.b.

* Am ragor o wybodaeth am ddulliau Pie Corbett, gweler: Pie Corbett, **The Bumper Book of Storytelling into Writing – Key Stage 1**, Clown Publishing, 2006; Pie Corbett, **The Bumper Book of Storytelling into Writing – Key Stage 2**, Clown Publishing, 2007

- Gellid sefydlu cylchoedd stori, lle mae'r disgyblion yn adrodd y chwedl wrth ei gilydd, gan helpu'i gilydd yn ôl yr angen.
- Gallai'r disgyblion feimio golygfeydd penodol hefyd.
- Gallen nhw chwarae rôl mewn sefyllfaoedd penodol, e.e. gan ddefnyddio **Cerdyn Siarad 47:**

**Rydych chi yn y parti yng Nghantre'r Gwaelod.
Siaradwch.**

Gallai'r disgyblion ddychmygu eu bod yn y parti yng Nghantre'r Gwaelod. Yno, maen nhw'n cymdeithasu ac yn siarad am y bwyd a'r ddiod sydd ar gael yn y parti.

- Gallen nhw actio'r stori gan ddefnyddio propiau priodol.
- Gallen nhw drefnu parti. Byddai hyn yn rhoi cyfle i ddylunio gwahoddiadau, creu baneri bach ac addurniadau eraill, paratoi bwyd a rhannu'r bwyd a'r ddiod, gan wneud sylwadau arnyn nhw a.y.b.
- Gallen nhw gymryd rhan mewn sesiwn yn y gadair goch hefyd, e.e. gallai un o'r cymeriadau eistedd yn y gadair goch a gallai'r disgyblion eraill ofyn rhai o'r cwestiynau canlynol:

Pwy wyt ti?

Seithennyn ydw i.

Ble wyt ti'n byw?

Yng Nghantre'r Gwaelod. / Dw i'n byw yng Nghantre'r Gwaelod.

Wyt ti'n hoffi gofalu am y drws?

Ydw.

Beth sy tu allan i'r wal?

Y môr.

Sut wyt ti? / Sut wyt ti'n teimlo?

Dw i'n hapus iawn. / Dw i'n teimlo'n hapus.

Pam?

Dw i'n mynd i'r parti.

neu

Dw i'n drist.

Pam?

Mae Cantre'r Gwaelod o dan y môr.

O, diar!

- Gallai'r disgyblion wneud y canlynol:
 - collage sy'n cyfleu gwahanol olygfeydd o'r chwedl
 - pypedau, e.e. pypedau bysedd / pypedau ffyn i gyfleu'r cymeriadau; gellid defnyddio'r rhain wrth chwarae rôl
 - creaduriaid amrywiol y môr, e.e. pysgod jeli, crancod, a'u hongian o'r nenfwd o bosib
 - model o Gantre'r Gwaelod
- Gallen nhw weithio gyda'i gilydd er mwyn creu murlun sy'n cyfleu'r chwedl a gallen nhw wneud bwrdd stori a fyddai'n golygu defnyddio sgiliau TGCh.
- Gallech chi gyflwyno *Agorawd Hebrides (Ogof Fingal)*, gan Mendelssohn a thrafod sut mae'r môr yn cael ei bortreadu yn y darn hwnnw o gerddoriaeth. Yna, gallech chi ofyn i'r disgyblion gyfansoddi cerddoriaeth sy'n cyfleu gwahanol rannau o'r stori yma, e.e. y parti, y môr tawel y tu allan i'r wal, y môr gwyllt sy'n boddi Cantre'r Gwaelod a.y.b. Byddai hyn yn rhoi cyfle i adolygu cyflymder a deinameg:
 - yn araf**
 - yn dawel**
 - yn gyflym**
 - yn gryf**
- Yn ogystal, gallai'r disgyblion wrando ar y gân werin **Clychau Aberdyfi**.
- Gallai'r disgyblion gyfansoddi dawns i bortreadu gwahanol olygfeydd yn y chwedl neu i gyfleu'r môr.

- Pan fydd y disgyblion wedi dysgu'r chwedl yn dda, gallen nhw ei haddasu hi, e.e. gallen nhw newid:
 - lleoliad y wlad
 - y cymeriadau
 - y digwyddiad sy'n cael ei gynnal
 - diwedd y stori.
- Gofynnwch i'r disgyblion wneud map o'u stori newydd. Yna, dylen nhw ailadrodd y stori hon bob dydd a symud ymlaen i gylchoedd stori a pharau cyn ceisio ysgrifennu'r stori.
- Dylid ysgrifennu'r straeon newydd hyn a'u dylunio'n briodol ac yna gellid eu dosbarthu ymhlith aelodau'r dosbarth fel eu bod yn darllen gwaith ei gilydd.
- Gallai'r gwaith hwn arwain at astudiaeth o draeth / bywyd y môr, ac efallai y gellid trefnu ymweliad â glan y môr. Byddai hyn yn rhoi cyfle i gymharu dwy ardal - ardal y disgyblion eu hunain a glan y môr.
- Chwaraewch y darn nesaf, lle mae Izzy'n gadael ac mae Dyfs yn penderfynu mynd i Aberystwyth – hyd at y toriad yn y ffilm. Yn yr adran hon, mae Dyfs yn sylweddoli fod rhaid iddo **baratoi**.

Gan ddefnyddio **Cerdyn Siarad 48**, gofynnwch i'r disgyblion drafod a rhestru'r eitemau y dylai gymryd gydag e:

Rhaid paratoi i fynd i Aberystwyth. Helpwch Dyfs i bacio'r bag.

Cymharwch y syniadau.

- Chwaraewch ran nesa'r ffilm, hyd at y man lle mae Dyfs yn agor y bag.
 - Cymharwch yr eitemau mae e'n eu dewis gyda'r rhai mae'r disgyblion wedi'u rhestru.
 - Stopiwch y ffilm wrth i Dyfs ddangos cyfuniadau gwahanol o arian a gofynnwch i'r disgyblion adio'r symiau yn Gymraeg.
- Adiwch.**

Gallai'r cyfeiriadau at arian arwain at ragor o waith mathemategol.

- Chwaraewch ran olaf y ffilm a gwnewch yn siŵr fod y disgyblion wedi deall beth mae'n rhaid i Dyfs ei wneud yn Aberystwyth:

Beth mae Sgrin eisiau o Aberystwyth?
 [Ateb: **Potel las.**]
Pam?
 [Ateb: **Achos mae neges yn y botel.**]
Mae Dyfs yn mynd i chwilio am botel las.

Yna, gallech chi ofyn i'r disgyblion ysgrifennu neges mewn potel, e.e. darn amdanyn nhw'u hunain neu am ddigwyddiad sydd i'w gynnal. Gallai fod yn wahoddiad neu'n neges o **Gantre'r Gwaelod**.

Gellid casglu'r negeseuon a'u darllen ar goedd, gyda'r disgyblion yn dyfalu pwy ysgrifennodd nhw.

Uned 6: Rhan 2 - Aberystwyth

Nodau:

- Adolygu ystyr rhai symbolau daearyddol
- Adolygu geirfa 'ddaearyddol'
- Adolygu dilyn cyfarwyddiadau
- Adolygu ysgrifennu am ardal
- Adolygu gofyn am bethau yn Gymraeg
- Adolygu geiriau a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon.

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Ble gynta? Mae'n hen iawn, iawn.	Dim ots. ac yna

Patrymau a geirfa sy'n gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion	
Ble ydw i? Dw i ar y prom.	eli haul het haul traeth
Ble mae Cantre'r Gwaelod? O dan y môr.	map môr
Ble nesa? Beth am fynd i'r castell?	arian / pres telesgop
Pa ffordd? Syth ymlaen. Rhaid troi i'r dde. Rhaid troi i'r chwith.	castell gorsaf maes parcio canolfan hamdden
Oes potel las yma? Oes. / Nac oes.	siopau o dan y ...
Beth wyt ti'n wneud? Ga i bop os gwelwch yn dda? Cei. / Na chei.; Cewch. / Na chewch.	yn y ... ar y ... bach
Punt os gwelwch yn dda. Ydych chi'n gallu clywed sŵn? Beth ydy'r sŵn?	canolig mawr chwilio
Pa ffordd? Ydych chi eisiau siocled? Dim diolch.	potel las
Bach? Canolig? Mawr? Dyma'r newid.	
Gorchmynion	
Stopiwch.	
Eraill	
Mae'n braf / boeth. Mae'n ddrwg gen i. / Mae'n flin 'da fi.	

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Ble mae'r map?

Dim ots.

Oes ... yma?; Oes, mae ... yma. / Nac oes, does dim ... yma.

Beth wyt ti'n wneud?; Dw i'n ...; Dim byd.

Ga i ...?; Cei. / Na chei.; Cewch. / Na chewch.

Edrychwch ar y ...

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Dangoswch y ffilm **Aberystwyth** (Uned 6, Rhan 2) yn ei chyfanrwydd.

- Gofynnwch i'r disgyblion am eu barn.

Ydych chi'n hoffi'r DVD?

Wyt ti'n hoffi'r DVD?

Ydw.

Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n ddiddorol.

Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n ddoniol.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'n hwyl.

Dw i'n hoffi'r DVD achos dw i'n hoffi Aberystwyth.

Nac ydw.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ofnadwy.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos mae'n ddiflas.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos dw i ddim yn hoffi Aberystwyth.

- Gofynnwch i'r disgyblion:

Ydych chi'n cofio?

Beth sy yn Aberystwyth?

Yn Aberystwyth, mae ...

Dangoswch y map o Aberystwyth (Uned 3, Rhan 2) eto a gofynnwch i'r disgyblion nodi ble mae nodweddion penodol arno, e.e.

Ble mae'r castell?

Yn sgwâr ...

a.y.b.

- Chwaraewch y darn eto, lle mae Dyfs yn astudio'r map ac yn ffeindio'i ffordd o gwmpas Aberystwyth. Adolygwch:

Pa ffordd?

Syth ymlaen.

Rhaid troi i'r dde.

Rhaid croesi'r ffordd.

Rhaid troi i'r chwith.

Dyma ni ...

Anogwch y disgyblion i wrando'n ofalus wrth i Dyfs ddisgrifio'i daith ac anogwch nhw i ddilyn ei gyfarwyddiadau ar y map o Aberystwyth. Stopiwch y ffilm fel y bo'n briodol.

- Gan ddefnyddio mapiau addas o'r ardal, neu fap syml o dref, neu gynllun o'r ysgol, gallai'r disgyblion gyfarwyddo'i gilydd o un lleoliad i un arall, heb enwi pen y daith, fel bod rhaid gwrandao'n astud a deall er mwyn medru ei gyrraedd.

Yn ogystal, gallen nhw ysgrifennu'r cyfarwyddiadau fel bod eu partner yn gorfod darllen yn ofalus a deall beth sydd wedi ei ysgrifennu cyn medru cyrraedd pen y daith.

- Chwaraewch y darn eto, lle mae Dyfs yn prynu potel o bop:

Ga i bop os gwelwch yn dda?
Pa liw?
Coch os gwelwch yn dda.
Dyma chi. Punt os gwelwch yn dda.
Dyma chi. Punt.
Diolch yn fawr.

Gallai'r disgyblion chwarae rôl mewn sefyllfaoedd tebyg, gan newid yr eitem sy'n cael ei phrynu, pris yr eitem, neu hyd yn oed ofyn am fwy nag un eitem, fel eu bod yn gorfod adio'r prisiau a rhoi newid. Gellid ailgyflwyno **Cerdyn Siarad 46**:

A: **Rwyd ti mewn siop. Rwyd ti eisiau prynu sawl peth.**
B: **Ti ydy'r siopwr.**

- Chwaraewch y darn nesaf, lle mae Dyfs yn gweld trênn bach ac yna'n dychwelyd i'r prom.

Gallai'r disgyblion chwarae rôl prynu hufen iâ / lolipop, ond dylen nhw adolygu'r canlynol cyn dechrau:

Pa faint?
Bach.
Canolig.
Mawr.
Ydych chi eisiau hufen iâ bach / canolig / mawr?

Er nad yw'n cael ei gynnwys ar y DVD, gallen nhw adolygu'r patrwm:

Pa flas?
Hufen iâ fanila.
Hufen iâ siocled.
Hufen iâ mefus.
Hufen iâ banana.
a.y.b.

Gallai hyn arwain at weithgarwch lle mae'r disgyblion yn llunio ac yn defnyddio holiaduron i dddod o hyd i hoff flas hufen iâ'r disgyblion:

Pa flas wyt ti'n hoffi?
Wyt ti'n hoffi ...?

Gallai hyn arwain at greu graffiau ac yna ysgrifennu darnau byr er mwyn eu hegluro:

Mae deg yn hoffi ...
Mae chwech yn hoffi ...
Does neb yn hoffi ...
Yr hufen iâ mwya poblogaidd ydy ...

- Gallai'r disgyblion gymryd rhan mewn cwis er mwyn crynhoi cynnwys ail ran yr uned. I ddechrau, dylai pob disgybl ysgrifennu pum cwestiwn sy'n seiliedig ar y DVD, e.e.

Ble mae Dyfs?
Sut mae'r tywydd?
Beth sy yn y bag?
Ydy hi'n braf?
Oes potel las yn y ganolfan hamdden?
Ble mae'r botel las?
a.y.b.

Yna, dylen nhw ofyn y cwestiynau i aelodau timau eraill. Gellid rhoi tri phwynt am bob ateb cywir a gallai hyn arwain maes o law at waith mathemategol wrth i'r disgyblion adio'r sgôr er mwyn gweld pwy sydd wedi ennill a.y.b.

- Cyflwynwch y daflen **Aberystwyth**.
Adolygwch:
Beth sy yn Aberystwyth?
Yn Aberystwyth, mae ...

Gofynnwch ragor o gwestiynau:
Wyt ti'n hoffi Aberystwyth?
Ydw. / Nac ydw.
Pam?
Achos dw i'n hoffi ...
Achos mae ... yn Aberystwyth.
Achos mae'n grêt ...

- Darllenwch y daflen eto, ond y tro hwn, tynnwch sylw at y ffaith fod y daflen hon wedi cael ei chynllunio er mwyn hyrwyddo'r ardal. Mae wedi ei dylunio a'i hysgrifennu mewn arddull benodol, felly. Gofynnwch i'r disgyblion:
Oes cwestiynau?
Oes.
Beth ydy'r cwestiynau?

Rhestrwch y rhain ar y bwrdd gwyn.
Yna, dangoswch sut mae'r daflen wybodaeth yn ceisio perswadio rhywun i fynd yno drwy ddefnyddio gorchymynion ac ansoddeiriau. Dangoswch enghreifftiau:
Edrychwch:
Mae'n cŵl.
Mae'n hwyl!
a gofynnwch am ragor o enghreifftiau:
Mwy os gwelwch yn dda.
Rhestrwch y rhain ar y bwrdd gwyn.

Yna, gofynnwch,
Ydy'r daflen yn dda?
Ydy. / Nac ydy.
Pam?

Mae'r lluniau'n dda.
Mae'r print yn fawr.
Mae'r print yn lliwgar.
Mae'r cerdyn yn ddiddorol.

Yna, gallai'r disgyblion greu eu taflen wybodaeth / taflenni / posteri / cyflwyniad PowerPoint eu hunain er mwyn hyrwyddo'u hardal eu hunain neu unrhyw ardal arall. Dylai'r ffocws yn y gweithgaredd hwn fod ar hyrwyddo'r ardal er mwyn ceisio denu twristiaid neu ymwelwyr eraill. Felly, dylen nhw ddefnyddio iaith berswadiol a chanolbwyntio ar agweddau cadarnhaol yr ardal. Mae'n bosib y bydd y disgyblion wedi gwneud gwaith tebyg yn Uned 3. Os felly, dylen nhw ysgrifennu mewn ffurf arall yn yr uned hon, gan ddefnyddio mwy o iaith berswadiol.

- Gallech chi gyflwyno **Cerdyn Siarad 49** a **Cerdyn Siarad 50**:

Cerdyn Siarad 49
Rydych chi'n mynd i Aberystwyth ond beth ydych chi'n mynd i wneud?
Siaradwch am hyn.

Dylai'r disgyblion ddychmygu eu bod yn mynd i Aberystwyth am y dydd. Felly, mae angen iddyn nhw gynllunio beth y byddan nhw'n ei wneud yno.

Ar ôl iddyn nhw benderfynu, ac os yw'n briodol, gallen nhw gofnodi beth y byddan nhw'n ei wneud, gan ddefnyddio ymadroddion maen nhw wedi dod ar eu traws o'r blaen efallai e.e.

Rydyn ni'n mynd i ... Yna, rydyn ni'n mynd i ...
Yn gynta, rydyn ni'n mynd i ...
Yn ail, rydyn ni'n mynd i ...
Yn drydydd, rydyn ni'n mynd i ...
Yna / Wedyn, rydyn ni'n mynd i ...

Yna, gallai pob pâr ddweud wrth grŵp mwy / y dosbarth cyfan beth y byddan nhw'n ei wneud.

Mae **Cerdyn Siarad 50** yn rhoi cyfle i wneud mwy o waith ar Aberystwyth ac i adolygu patrymau sydd wedi cael eu dysgu o'r blaen:

A: Mae ffrind post eisiau dod i Aberystwyth. Mae'n ffonio i ofyn beth sy yn Aberystwyth.

B: Ateba'r cwestiynau. Perswadia dy ffrind post i ddod i Aberystwyth.

Yn ogystal, gallai'r disgyblion ysgrifennu neges e-bost / llythyr at ffrind post yn cadarnhau beth sydd i'w weld yn Aberystwyth.

Annwyl ...
Yn Aberystwyth, mae ...
Hwyl fawr ...

Uned 6: Rhan 3 – Neges mewn potel

Nodau:

- Adolygu ffurfiau'r gorffennol: **Es i i ...; Ces i ...; Gwelais / Gweles i ...**
- Adolygu mynegi barn drwy ddefnyddio'r amser amherffaith: **Roedd e'n ... / Roedd o'n ...**
- Adolygu siapiau 2-D a chyflwyno siapiau 3-D drwy gyfrwng y Gymraeg: **ciwb, ciwboid, sffêr, silindr**
- Adolygu geirfa a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon.

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Dwi'n hoffi'r Pod-antur yn fawr iawn. fel y rhain Pob lwc. Matsiwch.	eto siâp 3D, siapiau 3D ciwb ciwboid sffêr silindr siâp arall capsiwł

Patrymau a geirfa sy'n gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
<p>Cwestiynau ac atebion Ga i weld ... os gwelwch yn dda? Cei. / Na chei.; Cewch. / Na chewch. Gawn ni fynd i'r goedwig? Cewch. / Na chewch. Ydych chi eisiau mynd adre? Ydyn. / Nac ydyn. Beth ydy'r siapiau 3D? Beth ydy'r siâp yma? Beth ydy hwn? Sawl ochr?</p> <p>Gorchmynion Edrychwch. Edrychwch ar y siapiau. Edrychwch ar yr enwau. Rhaid chwilio am goeden fawr. Byddwch yn ofalus. Agorwch y botel a darllenwch y neges.</p> <p>Trafod y gorffennol Roedd ... Roedd Aberystwyth yn grêt. Roedd e'n / o'n flasus / wych / hwyl / ddiddorol. Es i i Awstralia. Es i i'r caffï. Ces i ffa ar dost.</p> <p>Eraill Does dim lladron pen-ffordd yng Nghymru heddiw.</p>	<p>mynd adre Tŷ'r Tuduriaid traeth prom castell trên bach hwyl a sbri teithio antur hefyd coeden fawr petryal lladron pen-ffordd</p>

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth am ...?; Syniad da.; Na, dw i ddim yn meddwl.

Edrychwch, dyma ...

Beth sy yn (y botel)?

Agorwch (y botel).

Darllenwch (y neges).

Ga i weld?; Cei.; Na chei.

Gawn ni fynd i ...?; Cewch. / Na chewch.

Beth ydy'r siâp 3D yma?; Beth ydy'r siapiau 3D yma?

Edrychwch ar y siapiau.

Beth ydy'r enwau?

Beth ydy hwn?

Sawl ochr?

Byddwch yn ofalus.

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Chwaraewch y ffilm **Neges mewn potel** (Uned 6, Rhan 3), hyd at y man lle mae Sgrin yn dweud **"Iawn, dim problem."** ac mae'r ddau gymeriad yn ail-ddweud **Dim problem?**

Eglurwch fod Izzy'n dechrau teimlo ei bod hi eisiau mynd adref. Fodd bynnag, mae hi a Dyfs yn edrych yn ôl yn hiraethus dros eu cyfnod yn y Pod-antur Cymraeg:

Es i i ...

Es i i'r ...

Ces i ...

Gwelais / Gweles i ...

Roedd e'n / Roedd o'n ...

Mae'r holl batrymau hyn wedi cael eu cyflwyno eisoes ac efallai eu bod wedi cael eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth, e.e. wrth siarad am y penwythnos:

Ble est ti?

Es i i ...

Beth gest ti (i ginio)?

Ces i ...

Beth welaist ti / welest ti (ar y teledu / yn y llyfr)?

Gwelais / Gweles i ...

Gofynnwch i'r disgyblion weithio mewn paru. Rhaid iddyn nhw gymryd arnyn nhw mai nhw yw Dyfs ac Izzy a rhaid iddyn nhw baratoi darn sy'n sôn am eu profiadau ers iddyn nhw lanio yn y Pod-antur Cymraeg:

Es i i ...

Es i i'r ...

Ces i ...

Gwelais / Gweles i ...

Clywais / Clywes i ...

Gwisgais / Gwisges i fel ...

Roedd e'n / Roedd o'n ...

Gofynnwch iddyn nhw ddweud wrth ei gilydd am eu profiadau. Gallen nhw ddylunio ac ysgrifennu strïbed comic i gofnodi rhai o'r profiadau hyn hefyd.

- Cyflwynwch **Llyfr Lloffion Dyfs ac Izzy**. Gofynnwch i'r disgyblion gymharu'r darnau mae Izzy a Dyfs wedi'u hysgrifennu.

Trafodwch eu syniadau a thynnwch sylw at y faith fod Dyfs nid yn unig yn ysgrifennu mwy o fanylion ond ei fod hefyd yn mynegi barn, gan roi rhesymau ar adegau. Pwysleiswch y dylai'r disgyblion ddilyn ei esiampl pan fyddan nhw'n ysgrifennu.

Yna, gallai'r disgyblion ddylunio llyfr lloffion er mwyn cofnodi ymweliad neu ddigwyddiad yn ystod y flwyddyn, gan ddefnyddio'r patrymau a nodir uchod ynghyd ag unrhyw batrymau perthnasol eraill sy'n gyfarwydd. Dylen nhw ddylunio'r llyfr yn briodol, gan gynnwys ffotograffau a chofroddion addas. Gallen nhw ddylunio clawr blaen ac ôl ar gyfer y llyfr lloffion drwy ddefnyddio meddalwedd addas.

- Awgrymir gweithgareddau eraill yng nghefn y llyfr.
- Chwaraewch y darn nesaf, lle mae Dyfs ac Izzy'n agor y botel las, yn darllen y nodyn ac yn dysgu'r geiriau Cymraeg am siapiau 3D:

ciwb
ciwboid
sffêr
silindr

Stopiwch y ffilm ar ôl yr ymarfer **Beth ydy'r siâp?**

Gallech chi wneud rhagor o waith mathemategol mewn perthynas â siapiau 3D, gan ddefnyddio'r ymadroddion Cymraeg hyd y bo modd.

Dylai'r disgyblion restru enghreifftiau o'r siapiau 3D sydd i'w gweld yn eu bywyd pob dydd ac yn yr ystafell ddosbarth, e.e.

ciwb:	bocs
ciwboid:	teledu
	bocs
	ffeil bocs
	llyfr
sffêr:	pêl-droed
	glôb
	pêl tennis
silindr:	tun pop
	tun ffa
	tiwb losin / fferins

- Cyn chwarae'r darn olaf, gwnewch yn siŵr fod y disgyblion yn deall y neges:

Annwyl Dyfs ac Izzy,

Ydych chi eisiau mynd adre?

I fynd adre:

Rhaid chwilio am goeden fawr.

Rhaid chwilio am siapiau 3D mawr fel y rhain.

(Delweddau: ciwb, ciwboid, sffêr, silindr)

Rhaid chwilio am siâp arall hefyd.

Pob lwc.

Oddi wrth

Ffrind

- Chwaraewch y darn olaf, lle mae Dyfs ac Izzy'n dyfalu ble y dylen nhw fynd er mwyn dod o hyd i goeden fawr a'r siapiau 3D, a lle mae Sgrin yn dweud wrthyn nhw am fod yn ofalus oherwydd bod **lladron pen-ffordd yn y goedwig**. Gofynnwch i'r disgyblion:
Oes lladron pen-ffordd yng Nghymru?

Gofynnwch iddyn nhw 'bleidleisio' – **Oes** neu **Nac oes**.

Cyfrwch yn Gymraeg. Cymharwch nifer y rhai sydd wedi ymateb yn gadarnhaol gyda'r rhai sydd wedi rhoi ymateb negyddol a gorffennwch gyda:
Gawn ni weld.

Uned 6: Rhan 4 – Yn y goedwig

Nodau:

- Adolygu teimladau: **Sut wyt ti'n teimlo?; Dw i'n teimlo'n ofnus.; Dw i'n teimlo'n gyffrous.**
- Adolygu dilyn cyfarwyddiadau yn Gymraeg
- Adolygu geirfa a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon.

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
fel y rhain	cas iawn cliw, cliwiau marc cwestiwn capsiwl

Patrymau a geirfa sy'n gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
<p>Cwestiynau ac atebion: Pwy ydych chi? Sut wyt ti'n teimlo? Dw i'n teimlo'n ofnus / gyffrous. Oes lladron pen-ffordd yng Nghymru? Oes, mae lladron pen-ffordd yng Nghymru. Nac oes, does dim lladron pen-ffordd yng Nghymru. Gawn ni fynd i ...? Wrth gwrs. Beth ydy'r neges? Pa siapiau 3D? Pa siâp ydy hwn? Wyt ti'n clywed? Wyt ti'n gallu clywed sŵn? Beth sy yn y bocsy? Dim byd.</p> <p>Gorchmynion: Stopiwch. Dewch yma. Rhaid cerdded ymlaen. Rhaid cerdded igam-ogam. Rhaid troi i'r chwith / dde.</p>	<p>Amhosib! lleidr pen-ffordd, lladron pen-ffordd yn gyflym neges ciwb ciwboid sffêr silindr arian / pres gemwaith</p>

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Dim problem!

Sut wyt ti'n teimlo? [Hefyd: **Sut ydych chi'n teimlo?**]

Edrycha.

Darllena'r (neges).

Beth ydy'r (neges)

Rhaid cerdded ymlaen / igam-ogam.

Beth sy yn y bocsy? Dim byd.

Pa siâp ydy hwn?

Dw i ddim yn siŵr.

Stopiwch.

Dewch yma.

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Chwaraewch y ffilm **Yn y goedwig** (Uned 6, Rhan 4) drwyddi. Gofynnwch i'r disgyblion ymateb i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn, e.e.

Pwy ydych chi?

Oes lladron pen-ffordd yng Nghymru?

- Gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:

Ydych chi'n hoffi'r DVD?

Wyt ti'n hoffi'r DVD?

Ydw.

Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n ddiddorol.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'n ardderchog.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'r lladron pen-ffordd yn wych / yn ddoniol.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'r stori'n gyffrous.

Nac ydw.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ofnadwy.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos mae'n ddiflas.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos mae'r lladron pen-ffordd yn ofnadwy / wirion.

- Gofynnwch i'r disgyblion:

Ydych chi'n cofio?

Pwy ydy'r lladron pen-ffordd?

Beth ydy enwau'r lladron pen-ffordd?

Beth mae'r lladron pen-ffordd yn wisgo?

clogyn du

het ddu

crys gyda ffriliau

clogyn brown

mwgwd

Gallech chi ofyn i'r disgyblion ddychmygu a rhestru pa fath o fwyd y byddai'r lladron pen-ffordd hyn yn debygol o'i fwyta gan eu bod yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser allan yn y wlad. Gallai peth o'r bwyd fod yn llaith ac yn hen a gallai llwydni fod yn tyfu dros fara ac ati - **bwyd ych a fi**. Gofynnwch iddyn nhw restru bwyd **ych a fi**, e.e.

bara llwyd

cig gwyrdd

bisgedi gwlyb

caws llwyd

- Darllenwch y gerdd **Ych a fi!**
Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu a dylunio cerddi tebyg; gallai'r rhain gyfeirio at fwyd maen nhw'n ei gasáu neu at gyfuniadau rhyfedd o fwyd.

Dylid darllen y cerddi hyn ar goedd a'u harddangos yn yr ystafell ddosbarth.

- Gofynnwch i'r disgyblion pa fwyd dydyn nhw ddim yn hoffi ac anogwch nhw i ddweud **Ych a fi!** ar y diwedd.

Pa fwyd dwyt ti ddim yn hoffi?

Dw i ddim yn hoffi ... - ych a fi.

Gallai'r disgyblion lunio a defnyddio holiaduron er mwyn gweld pa fwydydd mae aelodau'r grŵp yn eu casáu gan ddefnyddio'r ymadroddion hyn.

Yna, gallen nhw greu graffiau er mwyn dangos eu canfyddiadau a gellid dehongli'r rhain wedyn, e.e.

Dydy pump ddim yn hoffi...
Dydy deg ddim yn hoffi...

Efallai y bydd y patrwm hwn – ffurf negyddol **Mae ...** – yn anghyfarwydd iddyn nhw, felly bydd angen drilio'r ffurf.

Gallen nhw geisio canfod pa fwyd yw'r lleiaf poblogaidd:

Y bwyd lleiaf poblogaidd ydy ...

- Ailchwaraewch y darn lle mae Dyfs ac Izzy'n chwilio am y capsiwl ac yna'n dod o hyd iddo. Gofynnwch i'r disgyblion restru'r cyfarwyddiadau:
Rhaid cerdded ymlaen (pedwar).
Rhaid troi i'r chwith.
Rhaid troi i'r dde.
Rhaid cerdded igam-ogam.
Rhaid cicio'r sffêr.
Rhaid mynd drwy'r silindr.
- Yna, dylai'r disgyblion ddyfeisio'u helpa'u hunain. Dylen nhw guddio "capsiw" rywle yn y buarth neu rywle ar dir yr ysgol a dylen nhw lunio map syml i ddangos ble mae e. Yn ogystal, dylen nhw ysgrifennu cyfarwyddiadau o dan y map er mwyn dangos sut i ddod o hyd iddo. Gallen nhw ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru uchod neu gallen nhw ddefnyddio'r ffurfiau gorchmynnol:
Cerddwch ymlaen (pedwar).
Trowch i'r dde.
Trowch i'r chwith.

Byddai hyn yn gyfle da i adolygu'r canlynol:

Cerddwch heibio i'r ...
Cerddwch tu ôl i'r ...
Cerddwch o flaen y ...

Gofynnwch i'r disgyblion gyfnewid mapiau fel eu bod nhw'n chwilio am y 'trysor' mae eu partner wedi ei guddio.

- Chwaraewch y darn olaf eto a gofynnwch i'r disgyblion beth allai fod yn y capsiwl:
Beth sy yn y capsiwl?
Arian. / Pres.
Losin. / Fferins.
Cerrig.
Cregyn.
a.y.b.

Gorffennwch drwy ddweud:
Gawn ni weld.

- Chwaraewch y ffilm gyfan eto er mwyn adolygu.

Uned 6: Rhan 5 – Y capsawl amser

Nodau:

- Rhoi gwybodaeth ychwanegol am y Tuduriaid
- Annog y disgyblion i siarad ac ysgrifennu'n estynedig amdany'n nhw'u hunain
- Adolygu geirfa a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon
- Dod ag antur Dyfs a Izzy yn y Pod-antur Cymraeg i ben.

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
<p>Agora dy lygaid. Rydyn ni 'nôl yn y Pod-antur Cymraeg. Does dim lladron pen-ffordd yma. Sut oedd ...? Roedd lladron pen-ffordd yn y goedwig. Gwelais i siâp arall. Agora'r capsawl. Tro'r top. Rhaid ysgrifennu neges. Rhaid rhoi'r neges yn y capsawl amser. Wedi gorffen? Wedi gorffen.</p> <p>Roedd Roedd Rhys yn byw yn amser y Tuduriaid. Roedd e'n byw ar fferm gyda Mam a Dad. Roedd e'n byw mewn tŷ ac roedd yr anifeiliaid yn byw yn y tŷ hefyd. Roedd e'n helpu Dad ar y fferm.</p>	<p>capsawl amser un pump tri tri fferm lladron mochyn buwch dafad, defaid yn yr ardd oddi wrth coffi rholio dwy neges tair neges</p>

Patrymau a geirfa sy'n gyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
<p>Cwestiynau ac atebion Ga i weld y capsawl os gwelwch yn dda? Cei. / Na chei; Cewch. / Na chewch. Beth sy yn y capsawl? Beth ydy'r neges? Beth ydy'r cwestiwn yn y neges? Beth nesa? Ydych chi'n barod i fynd adre? Ydyn. / Nac ydyn.</p> <p>Gorchmynion Agora dy lygaid. Darllena. Esgusodwch fi. Rhaid ateb y cwestiwn. Rhaid cuddio'r capsawl.</p> <p>Eraill Mae popeth yn iawn. Es i i'r goedwig. Gwelais i ... / Gweles i ... Roedd e'n / o'n hwyl. Mae'n ddrwg gen i / Mae'n flin gyda fi. Mae ... yn dda i chi.</p>	<p>'nôl amser y Tuduriaid dwyn gwerthu y farchnad cywir gymnasteg y ganolfan hamdden rhedeg cerdded neidio ar y trampolîn teithio cael antur nofio gwerysilla pabell dillad y goedwig</p>

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Agora dy lygaid. [Hefyd: **Agorwch eich llygaid.**]

Mae popeth yn iawn.

Sut oedd (y bwyd / y rhaglen / y llyfr)?

Da iawn.; Ardderchog.; Anhygoel.

Beth sy yn y (capiwl)?

Tro'r (top / dudalen).

Beth ydy'r (neges)?

Beth ydy'r cwestiwn?

Darlenna. [Hefyd: **Darllenwch.**]

Cywir.

Wedi gorffen.

Beth nesa?

Esgusodwch fi.

Pardwn?

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Chwaraewch y ffilm **Y capsiwl amser** (Uned 6, Rhan 5) hyd at y toriad. Canolbwyntiwch ar y dechrau – hyd at y man lle mae Dyfs ac Izzy'n dechrau ysgrifennu amdanyn nhw'u hunain.
- Gnewch yn siŵr fod y disgyblion yn deall cysyniad y **capsiwyl amser** a thasg Dyfs ac Izzy cyn y gallan nhw ddychwelyd adre, h.y. rhaid iddyn nhw ysgrifennu amdanyn nhw'u hunain, gan roi cymaint o fanylion â phosib.
- Cyflwynwch y cerdyn darllen **Rhys**. Dyma'r neges ysgrifenedig y cyfeirir ati ar y DVD.

Gnewch yn siŵr fod y disgyblion yn deall y neges, e.e. gallen nhw ofyn ac ateb cwestiynau'n seiliedig arni.

Trafodwch y cynnwys gyda'r disgyblion – mae Rhys wedi:

- dweud ei enw
- dweud ble mae e'n byw
- cyfeirio at y flwyddyn
- rhoi rhai manylion am fywyd ar y fferm
- disgrifio beth mae e'n ei wneud
- dweud beth mae e'n hoffi'i wneud
- cyfeirio at ymweliad yn y gorffennol.

Dangoswch i'r disgyblion y gallan nhw ysgrifennu darn tebyg. Profwch hyn drwy adolygu'r patrymau canlynol. Gallen nhw ddefnyddio'u hatebion i'r cwestiynau isod yn eu gwaith ysgrifenedig:

- enw: **Pwy wyt ti?**
... ydw i.
Beth ydy dy enw di
... ydy fy enw i.
- ble maen nhw'n byw: **Ble wyt ti'n byw? / Ble ydych chi'n byw?**
Dw i'n byw yn ..., yng Nghymru.
Dw i'n byw yn ..., yn Ne / yn Nwyrain / yng Ngogledd / yng Ngorllewin Cymru.
- y flwyddyn: Gallen nhw ysgrifennu'r dyddiad, naill ai ar ffurf rhifau neu ysgrifennu'r geiriau

- manylion am eu bywyd / beth maen nhw'n wneud:
I ba ysgol wyt ti'n mynd?
Dw i'n mynd i Ysgol ...

Beth wyt ti'n wneud yn yr ysgol?
Yn yr ysgol, dw i'n ...

Beth wyt ti'n wneud ar ddydd Sadwrn?
Dydd Sadwrn, dw i'n ...

Beth wyt ti'n wneud yn y nos?
Yn y nos, dw i'n ...

Beth wyt ti'n wisgo?
Dw i'n gwisgo ...
- Beth maen nhw'n hoffi'i wneud:
Beth wyt ti'n hoffi wneud / gwneud?
Dw i'n hoffi ...
- Yn ogystal, gallen nhw ysgrifennu am beth maen nhw'n hoffi'i fwyta / yfed / gwyllo / darllen a.y.b.
Beth wyt ti'n hoffi fwyta / bwyta?
Dw i'n hoffi bwyta ...

Beth wyt ti'n hoffi yfed?
Dw i'n hoffi yfed ...

Beth wyt ti'n hoffi ddarllen / darllen?
Dw i'n hoffi darllen ...
- Ymweliad yn y gorffennol:
Ble est ti dydd Sadwrn?
Dydd Sadwrn es i i ... yn y car / ar y bws / ar y trê.
Roedd e'n ... achos ...
Gwelais i / Gweles i ...
Ces i ...
- Chwaraewch y darn nesaf, lle mae Izzy'n darllen ei neges. Gofynnwch i'r disgyblion wrando'n ofalus a llenwi grid:

Enw	
Byw	
Dydd Sadwrn	
Hoffi bwyta	
Es i i ...	
Hoffi	

Cymharwch atebion y disgyblion.

- Chwaraewch y darn nesaf, lle mae Dyfs yn darllen ei neges. Gofynnwch i'r disgyblion wrando'n ofalus a llenwi grid:

Enw	
Byw	
Hoffi	
Es i i ...	
Hoffi bwyta	
Ddim yn hoffi	

Cymharwch atebion y disgyblion.

- Ar ôl i'r disgyblion wrando ar negeseuon Izzy a Dyfs, gallech chi eu hargraffu (maen nhw i'w gweld ar ddiwedd yr uned hon) a'u darllen gyda'r disgyblion. Byddai hyn yn rhoi cyfle i lenwi unrhyw fylchau yn y gridiau uchod ond yn ogystal byddai'r darnau'n cynnig enghreifftiau y gallai'r disgyblion gyfeirio atyn nhw pan fyddan nhw'n ysgrifennu amdany'n nhw'u hunain.
- Gofynnwch i'r disgyblion roi cyflwyniad amdany'n nhw'u hunain. Gallen nhw wneud sleidiau PowerPoint i'w cynorthwyo, e.e.

Sleid 1: **Enw**

Sleid 2: **Byw**

Sleid 3: **Hoffi**

a.y.b.

- Yna, gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu amdany'n nhw'u hunain. Dywedwch wrthyn nhw y bydd eu darnau ysgrifenedig yn cael eu rhoi yn y capsawl amser a fydd yn cael ei gladdu mewn man priodol. Gallech chi ofyn iddyn nhw osod y gwaith ar ffurf llythyr os yw'n briodol, a byddai hyn yn gyfle da i gyflwyno / adolygu fformat llythyr Cymraeg. Y geiriau allweddol yw:

Annwyl ... (Annwyl ffrind yn y cyd-destun hwn, efallai)

Pob hwyl!

Hwyl fawr!

[Mae'r ddau ddiweddgllo hyn yn rhai cyfeillgar.]

Gofynnwch iddyn nhw gynnwys cymaint o fanylion â phosib.

Gallech chi gopïo'r gwaith cyn ei roi yn y capsawl ac yna'i arddangos gyda ffotograffau o'r disgyblion.

- Chwaraewch y darn olaf. Stopiwch y ffilm wrth i Dyfs ac Izzy ystyried ble i guddio'r capsawl. Gofynnwch i'r disgyblion am awgrymiadau, e.e.
yn y goedwig / parc / ganolfan hamdden
ar y traeth
a.y.b.
- Chwaraewch weddill y ffilm. Tynnwch sylw at y ffaith fod y capsawl yn cael ei gladdu **yn y tywod / ar y traeth**. Gofynnwch faint o ddisgyblion oedd wedi awgrymu y gallai hyn ddigwydd.
- Cymharwch yr adran hon gydag Uned 1. Tynnwch sylw at y ffaith fod rhai pethau **yn debyg** a bod rhai pethau **yn wahanol**. Gofynnwch:
Beth sy'n debyg?
Beth sy'n wahanol?

Chwaraewch y darn lle mae Dyfs yn glanio yn y goedwig eto ynghyd ag Uned 1, Rhan 1 a gofynnwch i'r disgyblion gymharu a gwrthgyferbynnu'r darnau hyn:

Yn debyg:
Mae Dyfs yn y goedwig. a.y.b.

Yn wahanol:	
Uned 1	Uned 6
Mae Dyfs yn bwyta brecwast. a.y.b.	Mae Dyfs yn pacio. a.y.b.

Yna, chwaraewch y darn lle mae Izzy'n glanio ar y traeth eto ynghyd ag Uned 1, Rhan 3 a gofynnwch i'r disgyblion gymharu a gwrthgyferbynnu'r darnau hyn:

Yn debyg:
Mae Izzy ar y traeth. a.y.b.

Yn wahanol:	
Uned 1	Uned 6
Mae Izzy'n hoffi cerdded / rhedeg / darllen / cael picnic ar y traeth. a.y.b.	Mae Izzy'n hoffi cadw'n heini ar y traeth. a.y.b.

- Gellid gwneud rhagor o waith mewn perthynas â sgysiau ffôn a byddai hyn yn adolygu'r gwaith a wnaed yn Uned 1. Gweler yr uned honno am awgrymiadau.
- Gallech chi ailgyflwyno **Cerdyn Siarad 50** o Becyn 1 er mwyn gorffen yr uned:
Rydych chi yn y Pod-antur Cymraeg. Rydych chi'n mynd i deithio. I ble ydych chi eisiau mynd?

Dylai'r disgyblion ddychmygu ble yr hoffen nhw fynd a pham. Rhoddir awgrymiadau ar y cerdyn i'w cynorthwyo.

Cymharwch eu syniadau.

- Gofynnwch i'r disgyblion am eu barn am y DVD:
Ydych chi'n hoffi'r DVD?
Wyt ti'n hoffi'r DVD?

Ydw.

Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n ddoniol.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'n hwyl.

Dw i'n hoffi'r DVD achos dw i'n hoffi Dyfs / Izzy.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'r stori'n dda / gyffrous.

Nac ydw.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ofnadwy.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos dw i ddim yn hoffi Dyfs / Izzy.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos mae'r stori'n ddiflas.

Dyma Izzy:

Izzy Evans ydw i a dw i'n byw yn Aberystwyth, Cymru.

Bob bore Sadwrn, dw i'n helpu plant i wneud gymnasteg yn y ganolfan hamdden. Dw i'n hoffi gymnasteg achos mae'n dda i chi.

Dw i'n hoffi bwyta salad a pasta achos mae salad a pasta yn dda i chi.

Yn y Pod-antur, es i i Awstralia – roedd e'n grêt. Es i i weld y dinosoriaid – roedd e'n gyffrous. Es i i Hwyl y Gaeaf – roedd e'n ffantastig. Es i i Dŷ'r Tuduriaid – roedd e'n anhygoel.

Dw i'n hoffi cerdded, rhedeg, nofio a neidio ar y trampolîn.

Dw i'n hoffi teithio a dw i'n hoffi cael antur.

Hwyl fawr!

Dyma Dyfs:

Dyfs Jones ydw i a dw i'n byw yn Y Drenewydd, Dwyrain Cymru. Dw i'n hoffi'r Drenewydd achos mae pwll nofio, sinema a theatr yno.

Dw i'n hoffi chwarae pêl-droed achos mae'n hwyl. Dw i'n hoffi nofio achos mae'n dda i chi a dw i'n hoffi gwersylla achos mae'n gyffrous.

Dw i'n hoffi teithio a dw i'n hoffi cael antur yn y Pod-antur. Mae'n hwyl. Es i i Hwyl y Gaeaf gyda Izzy ac roedd o'n ffantastig. Es i i Dŷ'r Tuduriaid gyda Izzy ac roedd o'n anhygoel. Es i i Aberystwyth a gweles i'r traeth a'r castell a'r trê'n bach.

Dw i'n hoffi bwyta bwyd iach fel pasta a bara brown a ffrwythau a dw i'n hoffi yfed dŵr a sudd afal. Dw i ddim yn hoffi tomatos a dw i ddim yn hoffi coffi.